An unexpected error has occured, please refresh this page. If this problem persists, please email: assembly.info@assembly.wales

# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 09/10/2013

Cynnwys Contents


Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Questions to the Minister for Natural Resources and Food

Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio
Questions to the Minister for Housing and Regeneration

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Addysg Alwedigaethol
Welsh Conservatives Debate: Vocational Education

Dadl Plaid Cymru: Y Post Brenhinol
Plaid Cymru Debate: Royal Mail

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

Dadl Fer: Dewisiadau Cadarnhaol—Rhoi'r Sgiliau a'r Profiad i Bobl Ifanc Ddatblygu Gyrfa
Short Debate: Positive Choices—Equipping Young People with the Skills and Experience to Build a Career

Dadl Fer: Gwasanaethau Bws Gwledig yng Nghymru—Ar y Ffordd i Nunlle
Short Debate: Rural Bus Services in Wales—On the Road to Nowhere


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.*

13:30

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Trefn, trefn.

Order, order.

The National Assembly for Wales is now in session.

Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

## Questions to the Minister for Natural Resources and Food

### Newid yn yr Hinsawdd

### Climate Change

13:30

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. Pa gynnydd sydd wedi'i wneud yng Nghymru o ran mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd? OAQ(4)0056(NRF)*

*1. What progress has been made in Wales in tackling climate change? OAQ(4)0056(NRF)*

13:30

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

We are currently on track to meet our 3% annual emission reduction target, and our annual report is due in December. That will set out our progress in taking action to tackle the causes and consequences of climate change.

Rydym ar hyn o bryd ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed o leihau allyriadau 3% bob blwyddyn, ac mae disgwyl i'n hadroddiad blynyddol gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr. Bydd hwnnw'n nodi ein cynnydd o ran mynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau newid yn yr hinsawdd.

13:31

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for that response. As many of the decisions that affect Wales's emissions are taken in Westminster, what can the Minister do to ensure that Wales has the full benefit of UK-wide measures, such as the Green Deal and the Renewable Heat Incentive?

Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Gan fod llawer o'r penderfyniadau sy'n effeithio ar allyriadau Cymru yn cael eu cymryd yn San Steffan, beth gall y Gweinidog ei wneud i sicrhau bod Cymru yn manteisio i'r eithaf ar fesurau'r DU gyfan, megis y Fargen Werdd a'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy?

13:31 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Perhaps one thing that we can do is to state loudly and clearly that we recognise that climate change is taking place, that we recognise that climate change is caused by human activity, and that all governments have a responsibility to respond and to react to what the scientists are telling us. I think that it is profoundly disappointing to see a United Kingdom Government living in a sense of denial. We are currently working with the UK Government to influence its thinking, and to ensure that the needs and specific circumstances of Wales are taken into account in terms of the Green Deal and the Renewable Heat Incentive, and we will continue to do so.

Efallai mai un peth y gallwn ei wneud yw datgan yn uchel ac yn glir ein bod yn cydnabod bod newid yn yr hinsawdd yn digwydd, a chydnabod bod newid yn yr hinsawdd yn cael ei achosi gan weithgaredd dynol, a bod gan bob llywodraeth gyfrifoldeb i ymateb i'r hyn y mae gwyddonwyr yn ei ddweud wrthym. Credaf ei bod yn hynod siomedig gweld Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gwadu hynny. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddylanwadu ar ei ffordd o feddwl, ac i sicrhau bod anghenion ac amgylchiadau penodol Cymru yn cael eu hystyried o ran y Fargen Werdd a'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy, a byddwn yn parhau i wneud hynny.

13:32 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you will be aware that one of the consequences of climate change is a warmer climate, leading to an increased risk of flooding, such as that which happened last year in my own constituency, on the Glasdir estate in Ruthin. Yesterday, the local authority announced that it would contribute up to £100,000 towards the improvement of flood defences on the Glasdir estate, which is in addition to the £100,000 that has already been committed by the developer of that particular estate. Will you make a commitment today to provide the additional funding that will be required, in order to see that project complete?

Weinidog, byddwch yn ymwybodol mai un o ganlyniadau newid yn yr hinsawdd yw hinsawdd gynhesach, sy'n arwain at fwy o berygl o lifogydd, fel yr un a ddigwyddodd y llynedd yn fy etholaeth fy hun, ar ystad Glasdir yn Rhuthun. Ddoe, cyhoeddodd yr awdurdod lleol y byddai'n cyfrannu hyd at £100,000 tuag at wella amddiffynfeydd rhag llifogydd ar ystad Glasdir, sydd yn ychwanegol at y £100,000 a ymrwymwyd eisoes gan ddatblygwr yr ystad benodol honno. A wnewch chi ymrwymo heddiw i ddarparu'r cyllid ychwanegol fydd ei angen, er mwyn sicrhau bod y prosiect hwnnw'n cael ei gwblhau?

13:32 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I shall start by congratulating the Member on his inventive use of the question. In terms of where we are on that, you will remember the visit that we both took part in, and we both spoke to residents on that estate. I said then that the Welsh Government would talk to Denbighshire County Council and to the developer about how we best take this forward. Since then, we have been asking questions of Denbighshire council, and when we receive the answers from the council, we will be in a position to take decisions and move forward.

Dechreuaf drwy longyfarch yr Aelod ar ei ddefnydd dyfeisgar o'r cwestiwn. O ran ein safbwynt, fe gofiwch am yr ymweliad y gwnaeth y ddau ohonom gymryd rhan ynddo, lle y gwnaeth y ddau ohonom siarad â thrigolion ar yr ystad honno. Dywedais bryd hynny y byddai Llywodraeth Cymru yn siarad â Chyngor Sir Ddinbych ac â'r datblygwr ynglŷn â'r ffordd orau o fwrw ymlaen â hyn. Ers hynny, rydym wedi bod yn holi cyngor sir Ddinbych, a phan gawn yr atebion gan y cyngor, byddwn mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau a symud ymlaen.

13:33 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, a allwch chi roi diweddariad i ni ar ymrwymiad penodol y Llywodraeth yn 'Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd' i leihau erbyn 2020 nifer y cilomedrau y mae cerbydau'n eu teithio bob blwyddyn ar ffyrdd Cymru?

Minister, can you give us an update on the Government's specific commitment in its 'Climate Change Strategy for Wales' to reduce by 2020 the number of kilometres that vehicles travel annually on Welsh roads?

13:33 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fel yr wyf wedi ei awgrymu eisoes, wrth ateb cwestiwn Julie Morgan, byddwn yn rhyddhau adroddiad llawn ar yr ymrwymiadau sydd gennym fel rhan o'r strategaeth honno ym mis Rhagfyr. Nid wyf eisiau ychwanegu at hynny heddiw, ond bydd yr adroddiad yr ydym yn ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr yn un cynhwysfawr a fydd yn ateb y cwestiynau yr ydych wedi eu gofyn heddiw.

As I have already suggested, in replying to Julie Morgan's question, we will be releasing a full report on our commitments as part of that strategy in December. I do not wish to add to that today, but the report to be published in December will be comprehensive and will answer the question that you have posed today.

13:34 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i chi am yr ateb hwnnw; fe arhoswn ni i gael gweld, felly. Mae arweiniad ar gael ar yr amgylchiadau ar gyfer pryd y gall Gweinidog alw ceisiadau cynllunio i mewn, sy'n cynnwys sefyllfa pan fydd datblygiad posibl yn cael effaith ehangach y tu hwnt i'r dalgylch lleol. A fyddech yn cytuno y gellid ystyried faint o nwyon tŷ gwydr a fyddai'n cael eu rhyddhau o ryw ddatblygiad penodol, ac effaith ehangach hynny ar newid yn yr hinsawdd, fel un o'r amgylchiadau hynny?

Thank you for that response; we will wait and see, therefore. There is direction available on the circumstances under which a Minister can call in planning applications, which includes a situation where a proposed development would have an impact beyond the local catchment area. Would you agree that the volume of greenhouse gases that would be emitted from a development, and the impact therein on climate change, could be considered one such circumstance?

13:34 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r polisi cynllunio, wrth gwrs, yn gyfrifoldeb i'r Gweinidog Tai ac Adfywio. Fe fydd ef yn wynebu eich cwestiynau yn yr eitem nesaf ar yr agenda heddiw, a buaswn yn awgrymu yn garedig y dylech ofyn eich cwestiwn iddo ef, ac nid i fi.

Planning policy is, of course, the responsibility of the Minister for Housing and Regeneration. He will be facing your questions under the next item on the agenda, therefore I would kindly suggest that you put that question to him.

### Hybu Bwyd Iach a Gynhyrchir yn Lleol

### Promoting Healthy, Locally Produced Food

13:34 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. Pa gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i hybu bwyd iach a gynhyrchir yn lleol? OAQ(4)0059(NRF)*

*2. What steps can the Welsh Government take to promote healthy, locally produced food? OAQ(4)0059(NRF)*

13:35 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The action plan for food, which I will soon consult upon, will include actions to encourage healthy eating for all. Locally produced food contributes to healthy eating and reduced food miles, and I will be supporting greater use in retail, hospitality and the public sector. I will welcome feedback on my proposals in the consultation.

Bydd y cynllun gweithredu ar gyfer bwyd, y byddaf yn ymgynghori arno cyn bo hir, yn cynnwys camau gweithredu i annog bwyta'n iach i bawb. Mae bwyd a gynhyrchir yn lleol yn cyfrannu at fwyta'n iach a llai o filltiroedd bwyd, a byddaf yn cefnogi mwy o ddefnydd mewn manwerthu, lletygarwch a'r sector cyhoeddus. Croesawaf adborth ar fy nghynigion yn yr ymgynghoriad.

13:35 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is very encouraging, Minister. We heard last week that at least one local authority is able to locally source its meat for its school meals. What steps might the Government be able to take to ensure that all local authorities can locally source their vegetables and fruit?

Mae hynny'n galonogol iawn, Weinidog. Clywsom yr wythnos diwethaf fod o leiaf un awdurdod lleol yn gallu cyrchu ei gig ar gyfer ei brydau ysgol yn lleol. Pa gamau y gallai'r Llywodraeth eu cymryd er mwyn sicrhau y gall pob awdurdod lleol gyrchu ei llysiau a'i ffrwythau yn lleol?

13:35 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I hope that more than one local authority sources food locally. The reason I came forward with an oral statement right at the beginning of this term was to launch exactly this debate about the way in which we source and use food locally and ensure that healthy eating becomes a central part of policies not only in my department, but across the whole of Government. I will be making further announcements on this, I hope, within the next month or so. That will provide Members with further opportunities to continue the debate that we have started. However, I am, and this Government is, absolutely committed to increasing the use of sustainable food produced in Wales for Welsh people, whether in schools, elsewhere in the public sector, or other parts of our lives.

Rwy'n gobeithio bod mwy nag un awdurdod lleol yn cyrchu bwyd yn lleol. Y rheswm imi gyflwyno datganiad llafar ar ddechrau'r tymor hwn oedd er mwyn lansio'r union ddadl hon am y ffordd rydym yn cyrchu ac yn defnyddio bwyd lleol ac yn sicrhau bod bwyta'n iach yn dod yn rhan ganolog o bolisïau, nid yn unig yn fy adran i, ond ym mhob rhan o'r Llywodraeth gyfan. Byddaf yn gwneud cyhoeddiadau pellach ar hyn, gobeithio, o fewn y mis nesaf. Bydd hynny'n rhoi cyfleoedd pellach i Aelodau barhau â'r ddadl a ddechreuwyd gennym. Fodd bynnag, yr wyf i, a'r Llywodraeth hon, yn gwbl ymrwymedig i gynyddu'r defnydd o fwyd cynaliadwy a gynhyrchir yng Nghymru ar gyfer pobl Cymru, boed mewn ysgolion, mewn mannau eraill yn y sector cyhoeddus, neu rannau eraill o'n bywydau.

13:36 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I know that you are aware that the Welsh Conservatives highlighted the Taste Towns Wales campaign this summer at the Royal Welsh Show. We highlighted that to show the opportunities that creating taste towns presented in promoting local seasonal eating and boosting food tourism.

Weinidog, gwn eich bod yn ymwybodol i'r Ceidwadwyr Cymreig dynnu sylw at ymgyrch Trefi Blas Cymru yr haf hwn yn Sioe Frenhinol Cymru. Gwnaethom dynnu sylw at hynny er mwyn dangos y cyfleoedd y gwnaeth creu trefi blas eu cynnig o ran hybu bwyta cynnyrch tymhorol lleol a hybu twristiaeth bwyd.

13:36 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You need to ask a question, quickly

Mae angen i chi ofyn cwestiwn, yn gyflym

13:36 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I know that you will be aware of Taste Montgomery and Taste Llanwrtyd Wells, which launched in September. So, will you look at raising the profile of the Taste Towns campaign and support the promotion of the Taste Towns network?

Gwn y byddwch yn ymwybodol o Flas Trefaldwyn a Blas Llanwrtyd, a lansiwyd ym mis Medi. Felly, a wnewch chi ystyried codi proffil yr ymgyrch Trefi Blas a chefnogi'r gwaith o hyrwyddo rhwydwath Trefi Blas?

13:37 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We do, of course, already support many of those initiatives, and we have done for some time. However, I will say to the Conservative spokesperson on these matters that we want to go far further than that. We recognise the importance of the local initiatives that you have quoted and described, but, as a Government, we want to go far further than that. The scale of our ambition is far greater than you describe.

Rydym eisoes, wrth gwrs, yn cefnogi llawer o'r mentrau hynny, ac rydym wedi gwneud ers peth amser. Fodd bynnag, dywedaf wrth lefarydd y Ceidwadwyr ar y materion hyn ein bod am fynd ymhellach na hynny. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y mentrau lleol yr ydych wedi'u dyfynnu a'u disgrifio, ond, fel Llywodraeth, rydym am fynd ymhellach na hynny. Mae maint ein huchelgais yn llawer mwy na'r hyn a ddisgrifiwch.

13:37 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Law yn llaw â'r angen i hybu cynnyrch lleol mae'r angen i hybu capasiti lleol mewn lladd eidion ac oen yn y gogledd-orllewin. Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi eu cymryd a pha gamau y mae'n bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r cyhoeddiad yr wythnos hon bod y lladd-dy yn y Gaerwen yn ôl ar werth?

Hand in hand with the need to promote local produce is the need to promote local capacity in the slaughter of beef and lamb in the north-west. What steps has the Minister taken and what steps does he intend to take as a result of the announcement this week that the abattoir in Gaerwen is back on sale?

13:37 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Croesawaf yr Aelod; dyma'r tro cyntaf inni sgwrsio yn y Siambr. Rwy'n eich croesawu chi fel Aelod ac edrychaf ymlaen at gydweithio gyda chi er lles pobl sir Fôn.

I welcome the Member; this is the first time that we have had an exchange in the Chamber. I welcome you as a Member and look forward to collaborating with you for the benefit of the people of Anglesey.

Rydym wedi cyfarfod yn barod i drafod y sefyllfa yng Ngaerwen a, bryd hynny, bu imi ddisgrifio ichi y gweithgareddau y mae'r Llywodraeth hon wedi eu harwain yn ystod y misoedd, a blynyddoedd, diwethaf i gadw capasiti yn sir Fôn yn y Gaerwen. Rwyf wedi parhau â'r trafodaethau nid yn unig gyda chi, ond gyda busnesau gwahanol yn y sector, ers inni gyfarfod yr wythnos diwethaf. Byddaf yn parhau i wneud hynny ac yn parhau i gydweithio gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i sicrhau bod gennym gapasiti mewn lladd-dai ar draws Cymru, sy'n cynnwys y gogledd-orllewin.

We have met already to discuss the situation at Gaerwen and, at that meeting, I described the actions that this Government has led over the past months—or years—to retain capacity on Ynys Môn, in Gaerwen. I have also continued the discussions not only with you, but with various businesses in the sector, since our meeting last week. I will continue to do that and to work with the Minister for Economy, Science and Transport to ensure that we have capacity in the abattoirs across Wales, including the north-west.

13:38 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, as you probably know, last Saturday was the fifteenth annual Brecon Food Festival under the stewardship of Andrew Powell of the Brecon Beacons National Park Authority. Many of the stallholders reported very brisk business on this occasion, but one issue that was raised with me was the fact that there was apparently no overall strategic approach to scheduling food festivals across Wales.

Weinidog, fel y gwyddoch mae'n debyg, ddydd Sadwrn diwethaf oedd pymthegfed Gŵyl Fwyd flynyddol Aberhonddu o dan stiwardiaeth Andrew Powell o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Yn ôl adroddiadau llawer o'r stondinwyr cafwyd busnes da iawn y tro hwn, ond un mater a godwyd gyda mi oedd y ffaith nad oedd dull strategol cyffredinol yn ôl pob tebyg o ran amserlennu gwyliau bwyd ledled Cymru.

13:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You must ask a question.

Rhaid ichi ofyn cwestiwn.

13:39 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, would you give consideration to bringing about a more coherent strategy in terms of the scheduling of such festivals so as to maximise the business opportunities for our food and drink producers?

Weinidog, a fyddech yn ystyried creu strategaeth fwy cydlynol o ran amserlennu gwyliau o'r fath er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleoedd busnes ar gyfer ein cynhyrchwyr bwyd a diod?

13:39 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am happy to give consideration to such a matter, but I say to the Member for Mid and West Wales that I do not think that any of us want local food festivals scheduled by the Minister. These are matters for local communities and local people; they should take decisions about what is best for their local community. I really do not think that we want too much central command and control of these matters.

Rwy'n hapus i roi ystyriaeth i fater o'r fath, ond dywedaf wrth yr Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru nad wyf yn credu bod unrhyw un ohonom eisiau gwyliau bwyd lleol wedi'u trefnu gan y Gweinidog. Materion i gymunedau lleol ac i bobl leol yw'r rhain; nhw ddylai wneud penderfyniadau ynghylch beth sydd orau i'w cymuned leol. Nid wyf wir yn credu bod angen gormod o orchymyn a rheoli canolog arnom mewn perthynas â'r materion hyn.

### Cynlluniau Ynni Dŵr

### Hydropower Schemes

13:40 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynlluniau ynni dŵr yng Nghymru? OAQ(4)0058(NRF)*

*3. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's policy to develop hydropower schemes in Wales? OAQ(4)0058(NRF)*

13:40 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Hydropower makes a significant contribution to the renewable energy mix in Wales. The Welsh Government is working hard through programmes such as Ynni'r Fro to identify and develop even more hydropower opportunities now and in the future.

Mae ynni dŵr yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r cymysgedd ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n galed drwy raglenni megis Ynni'r Fro i nodi a datblygu hyd yn oed fwy o gyfleoedd ynni dŵr nawr ac yn y dyfodol.

13:40 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You came into your current position pledging that, under your leadership, the culture of environmental protection and resource management in Wales would change and that the Government would be an enabling Government. To be fair, you have been proactive in addressing some of the barriers that community groups have raised as regards hydropower schemes. However, the recent letter from Community Energy Wales, and from the chair of Natural Resources Wales, regarding its decision on flow standards, must give you some cause for concern. What discussions have you had with Natural Resources Wales on this issue, and do you believe that the decision it has taken is the right one to drive Government energy policy forward?

Gwnaethoch ddechrau yn eich swydd bresennol gan addo, o dan eich arweinyddiaeth, y byddai'r diwylliant o ddiogelwch amgylcheddol a rheolaeth adnoddau yng Nghymru yn newid ac y byddai'r Llywodraeth yn Llywodraeth sy'n galluogi. A bod yn deg, buoch yn rhagweithiol wrth ymdrin â rhai o'r rhwystrau a godwyd gan grwpiau cymunedol o ran cynlluniau ynni dŵr. Fodd bynnag, rhaid bod y llythyr diweddar gan Ynni Cymunedol Cymru, a chan Gadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru, o ran ei benderfyniad ar safonau llif, yn peri rhywfaint o bryder ichi. Pa drafodaethau a gawsoch gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar y mater hwn, ac a gredwch mai'r penderfyniad a wnaed ganddo i lywio polisi ynni'r Llywodraeth yn y dyfodol yw'r un cywir?

13:41 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The work that NRW is currently undertaking is the right work, in the right direction, and is doing the right thing. I have seen the letter to which the Member refers and I am aware that the matters that the letter described have now been fully resolved between Community Energy Wales and NRW.

Y gwaith y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud ar hyn o bryd yw'r gwaith cywir, yn y cyfeiriad cywir, ac sy'n gwneud y peth cywir. Rwyf wedi gweld y llythyr y mae'r Aelod yn cyfeirio ato ac yn ymwybodol bod y materion a ddisgrifir yn y llythyr wedi eu datrys yn llawn bellach rhwng Ynni Cymunedol Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.

13:41 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Un o'r pwyntiau sy'n cael eu gwneud yn y llythyr y cyfeirioch ato yw'r gofid, yn ôl Ynni Cymunedol Cymru, fod y penderfyniad ar hollti llif yn mynd i danseilio ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i gwrdd â thargedau allyriadau carbon, yn mynd i effeithio ar y potensial i greu swyddi mewn rhai o'r cymunedau mwyaf gwledig ymylol, difreintiedig sydd gennym, ac yn mynd i danseilio potensial creu incwm o hydro i ffermydd ar yr ucheldir. A ydych chi'n cytuno gyda'r consýrn hwnnw?

One of the points made in the letter that you referred to is the concern, according to Community Energy Wales, that the decision on flow-splitting will undermine the Welsh Government's commitment to meet carbon emission targets, will have an impact on the potential to create jobs in some of our most rural, peripheral and disadvantaged communities, and will undermine the potential to create income for upland farmers from hydro. Do you agree with those concerns?

13:41 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf wedi ateb y cwestiwn yn barod, wrth gwrs. Mae'r consýrn yr ydych wedi ei ddisgrifio a'i ddarllen inni yn y llythyron hynny y prynhawn yma wedi'i drin gan NRW. Mae CEW wedi cwrdd â rheolwyr NRW ac, erbyn hyn, yn rhan o grŵp rhanddeiliaid NRW sy'n trafod dyfodol y polisi hwn. O'r hyn yr wyf yn ei ddeall, ac o'r wybodaeth yr wyf wedi ei derbyn ers i'r llythyr gael ei ysgrifennu, mae'r materion a godwyd yn y llythyr wedi cael eu datrys.

I have already answered the question. The concerns that you have described and read out from those letters this afternoon have been addressed by NRW. CEW has met with NRW officials and are, by now, represented on the NRW stakeholder group discussing the future of this policy. As I understand it, and from the information that I have received since the letter was written, I believe that the matters raised in the letter have been resolved.

13:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call Mike Hedges.

Galwaf ar Mike Hedges.

13:42 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I did not realise that my name had been put down for this question; I apologise.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Nid oeddwn yn sylweddoli bod fy enw wedi cael ei gynnwys ar gyfer y cwestiwn hwn; ymddiheuraf.

13:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call William Powell.

Galwaf ar William Powell.

13:42 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. Staying with the topic of flow-splitting, I was speaking at the weekend to the author of the letter Mr Chris Blake, who is the chair of Community Energy Wales, as you will know. There appears here to be a broader concern with regard to the inclusion of an appropriate range of stakeholders in such consultations that are carried out by either Natural Resources Wales or related bodies. As you say, they have now belatedly been included in that engagement group. What assurance can you give that lessons will be learnt from that process? We had that, we had the marine conservation zones before, and it is a matter of great concern.

Diolch. Gan aros gyda phwnc hollti llif, roeddwn yn siarad dros y penwythnos ag awdur y llythyr Mr Chris Blake, sef cadeirydd Ynni Cymunedol Cymru, fel y gwyddoch. Ymddengys fod pryder ehangach yma o ran cynnwys ystod briodol o randdeiliaid mewn ymgynghoriadau o'r fath sy'n cael eu cynnal naill ai gan Adnoddau Naturiol Cymru neu gan gyrff cysylltiedig. Fel y dywedwch, maent bellach wedi'u cynnwys yn rhy hwyr yn y grŵp ymgysylltu hwnnw. Pa sicrwydd y gallwch ei roi y caiff gwersi eu dysgu o'r broses honno? Cawsom hynny, cawsom y parthau cadwraeth morol o'r blaen, ac mae'n fater sydd o bryder mawr.

13:43 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have to say to the Member that public consultations are exactly that—they are public consultations available for everybody to take part in. The issues that you raise in your question have all now been addressed.

Rhaid imi ddweud wrth yr Aelod mai ymgynghoriad cyhoeddus yw'r union beth y mae'n ei ddweud ydyw—ymgynghoriad cyhoeddus sydd ar gael i bawb gymryd rhan ynddo. Ymdriniwyd bellach â phob un o'r materion a godwch yn eich cwestiwn.

### Clefyd Ramorum

### Ramorum Disease

13:43 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran mynd i'r afael â chlefyd Ramorum mewn coed llarwydd yng Nghymru? OAQ(4)0055(NRF)*

*4. Will the Minister provide an update on the progress to combat Ramorum disease in larch trees in Wales? OAQ(4)0055(NRF)*

13:43 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Over 1,866 ha have been treated to date. The Welsh Government tree health steering group is working with the private, public and voluntary sector to tackle the disease together. I am planning to take additional action, which I will announce in early November.

Mae dros 1,866 ha wedi cael eu trin hyd yn hyn. Mae grŵp llywio iechyd coed Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol i fynd i'r afael â'r clefyd gyda'i gilydd. Rwy'n bwriadu cymryd camau ychwanegol, y byddaf yn eu cyhoeddi ar ddechrau mis Tachwedd.

13:44 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for your answer, Minister. You will be aware, of course, that three decades ago, when Dutch elm disease struck, over 13 million trees were then destroyed. One of the lessons learned from that outbreak was that when the trees were cut down, unfortunately the bark was not stripped and, therefore, the pathogen spread throughout the country. On this occasion, can you assure us that all known necessary measures will be taken to limit the spread of this disease?

Diolch yn fawr iawn am eich ateb, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol, wrth gwrs, i fwy na 13 miliwn o goed gael eu dinistrio dri degawd yn ôl, pan drawodd clefyd llwyfen yr Isalmaen. Un o'r gwersi a ddysgwyd o'r cyfnod hwnnw oedd na thynnwyd rhisgl y coed yn anffodus pan gawsant eu torri ac, felly, lledaenodd y pathogen drwy'r wlad. Y tro hwn, a allwch ein sicrhau y caiff pob cam angenrheidiol ei gymryd i atal y clefyd rhag lledaenu?

13:44 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I hope I can give you that assurance. Coming from Gwent, we have both seen the impact in the Wentwood forest, and we are all extremely concerned about what we are seeing there and elsewhere in Wales. I have established a tree and plant health group to look precisely at these matters, bringing together specialists and experts in the field to enable us to have the best possible advice on dealing with all the different matters, including dealing with the disease itself and then the consequences and managing the way forward from the disease. We are looking at how we will be marketing some of the timber that is being produced by the process of dealing with it and how we replace the trees that have been lost. The lessons that you refer to are lessons that are, and should be, well learned.

Rwy'n gobeithio y gallaf roi'r sicrwydd hwnnw ichi. Yn dod o Went, rydym wedi gweld yr effaith yng nghoedwig Coed Gwent, ac rydym i gyd yn hynod o bryderus am yr hyn yr ydym yn ei weld yno ac mewn mannau eraill yng Nghymru. Rwyf wedi sefydlu grŵp iechyd coed a phlanhigion i edrych yn ofalus ar y materion hyn, gan ddwyn ynghyd arbenigwyr yn y maes fel y gallwn gael y cyngor gorau posibl ar ddelio â'r holl faterion gwahanol, gan gynnwys delio â'r clefyd ei hun ac yna'r canlyniadau a rheoli'r ffordd ymlaen ar ôl y clefyd. Rydym yn ystyried sut y byddwn yn marchnata rhywfaint o'r pren sy'n cael ei gynhyrchu gan y broses o ddelio ag ef a sut rydym yn disodli'r coed a gollwyd. Mae'r gwersi y cyfeiriwch atynt yn wersi sydd wedi'u dysgu'n dda, a dylai fod felly.

13:45 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the phytophthora ramorum disease has impacted upon the Afan valley for many years and we have already experienced what is now being experienced in south-east Wales, with large areas of forestry being felled. What support is the Welsh Government giving to Natural Resources Wales to replant these areas, so that they can be returned to woodland as soon as possible?

Weinidog, mae clefyd Phytophthora ramorum wedi effeithio ar gwm Afan ers blynyddoedd lawer, ac rydym eisoes wedi profi'r hyn sy'n cael ei brofi yn awr yn y de-ddwyrain, gydag ardaloedd mawr o goedwigaeth yn cael eu torri. Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i Cyfoeth Naturiol Cymru i ailblannu'r ardaloedd hyn, fel y gellir eu hadfer i goetir cyn gynted â phosibl?

13:45 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am aware of the situation in the Afan valley. The Member has raised this on a number of occasions. It is something that we are extremely concerned about. I am prepared to visit the areas that the Member has mentioned. The Member has invited me on previous occasions to discuss this with people in the Afan valley. We are now looking at a process of not only tree felling to deal with the disease but at what happens following this process. I will be making a further announcement on this in early November. I will reassure the Member that these matters are under serious consideration. The way in which we deal with the disease will include how we get away from it, replant and take the woodlands forward in Wales.

Rwy'n ymwybodol o'r sefyllfa yng nghwm Afan. Mae'r Aelod wedi codi'r mater hwn sawl gwaith. Mae'n rhywbeth rydym yn bryderus iawn yn ei gylch. Rwy'n barod i ymweld â'r ardaloedd y mae'r Aelod wedi eu crybwyll. Mae'r Aelod wedi fy ngwahodd sawl gwaith o'r blaen i drafod hyn â phobl yng nghwm Afan. Rydym bellach yn edrych ar broses, nid yn unig o dorri coed i ddelio â'r clefyd hwn, ond ar yr hyn sy'n digwydd yn dilyn y broses hon. Byddaf yn gwneud cyhoeddiad arall ar hyn ddechrau mis Tachwedd. Byddaf yn sicrhau'r Aelod bod y materion hyn yn cael eu hystyried o ddifrif. Bydd y ffordd rydym yn delio â'r clefyd yn cynnwys sut i ddianc oddi wrtho, ailblannu a datblygu'r coetiroedd yng Nghymru.

13:46 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you mentioned Wentwood. You will be aware that the Woodland Trust is facing a bill of £35,000 to replant. Public forestry has received millions of pounds of financial assistance to deal with the disease; I know that you have allocated £2.2 million to Natural Resources Wales. However, private owners have largely been neglected. The option of applying for contracts through the Glastir woodlands scheme has taken 20 months.

Weinidog, soniasoch am Goed Gwent. Byddwch yn ymwybodol fod yr Ymddiriedolaeth Coetiroedd yn wynebu bil o £35,000 i ailblannu. Mae coedwigoedd cyhoeddus wedi cael miliynau o bunnoedd o gymorth ariannol i ddelio â'r clefyd; gwn eich bod wedi neilltuo £2.2 miliwn i Cyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, mae perchnogion preifat wedi cael eu hesgeuluso i raddau helaeth. Mae'r opsiwn o wneud cais am gontractau drwy gynllun coetiroedd Glastir wedi cymryd 20 mis.

13:47 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question now please.

Y cwestiwn yn awr os gwelwch yn dda.

13:47 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you, Minister, take action to ensure that private owners receive immediate financial assistance in order to put them on a level playing field with the public forestry estate?

Weinidog, a wnewch chi gymryd camau i sicrhau bod perchnogion preifat yn cael cymorth ariannol ar unwaith, er mwyn sicrhau'r un amodau i bawb o ran yr ystad coedwigaeth gyhoeddus?

13:47 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I recognise the issues that are affecting all businesses that own forestry and woodland. The Member may remember that during the summer recess in August I established the Wales tree health steering group to address some of the issues, many of which she has described. The group includes representatives not only from NRW but also representatives from the Confederation of Forest Industries (UK) Ltd, timber processing business, the Wales Environment Link and the agriculture sector. We include all of those people in our debates and discussions on all of these matters as they stand.

Rwy'n cydnabod y materion sy'n effeithio ar bob busnes sy'n berchen ar goedwigoedd a choetiroedd. Efallai y bydd yr Aelod yn cofio imi sefydlu grŵp llywio iechyd coed Cymru yn ystod toriad yr haf i fynd i'r afael â rhai o'r materion, y mae wedi disgrifio llawer ohonynt. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr nid yn unig o Cyfoeth Naturiol Cymru ond cynrychiolwyr hefyd o'r Cydffederasiwn Diwydiannau Coedwigoedd (DU) Cyf, busnes prosesu pren, Cyswllt Amgylchedd Cymru a'r sector amaethyddiaeth. Rydym yn cynnwys yr holl bobl hynny yn ein dadleuon a'n trafodaethau ar yr holl faterion hyn fel y maent.

13:47 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 5, OAQ(4)0060(NRF), is withdrawn.

Tynnwyd Cwestiwn 5, OAQ (4) 0060 (NRF), yn ôl.

**Lleihau Biwrocratiaeth**

**Reducing Red Tape**

13:47 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynorthwyo ffermwyr i leihau biwrocratiaeth? OAQ(4)0051(NRF)*

*6. Will the Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to support farmers in reducing red tape? OAQ(4)0051(NRF)*

13:48 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rydym yn llwyddo i leihau'r fiwrocratiaeth ar gyfer ffermwyr yng Nghymru drwy weithredu menter Hwyluso'r Drefn. Mae 42 o blith y 78 argymhelliad bellach wedi'u cyflwyno. Rydym yn gobeithio sefydlu perthynas newydd rhwng y Llywodraeth a'r diwydiant ffermio er mwyn cyflwyno busnesau fferm yng Nghymru a gaiff eu rheoli'n broffesiynol ac sy'n gwneud elw.

Red-tape reduction for farmers in Wales is being delivered through the successful Working Smarter initiative. Forty two of the 78 recommendations have been delivered. We are hoping to establish a new relationship between Government and the farming industry designed to deliver professionally managed and profitable farm businesses in Wales.

13:48 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fel y dywedoch, Weinidog, mae 42 o argymhellion Hwyluso'r Drefn wedi cael eu cyflwyno. A ydych yn hyderus y bydd yr argymhellion eraill, rhyw 36 ohonynt, yn cael eu gweithredu erbyn mis Gorffennaf 2015? Sut ydych chi fel Llywodraeth yn monitro sut y gweithredir yr argymhellion hyn?

As you said, Minister, 42 Working Smarter recommendations have been introduced. Are you confident that the other recommendations—some 36 of them—will be implemented by July 2015? How are you as a Government monitoring the implementation of these recommendations?

13:48 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ydwyf, rwy'n hyderus y byddwn yn cyflawni pob un o'r targedau sydd gennym. Fel Llywodraeth mae gennym swyddogion sy'n gweithio ar y prosiect hwn ac maent yn adrodd i mi bob tri mis ac rwy'n gwneud datganiad yn y Siambr o leiaf unwaith y flwyddyn. Rwy'n hapus i wneud rhagor o ddatganiadau os yw Aelodau am imi wneud hynny.

Yes, I am confident that we will achieve all of our targets. As a Government, we have officials working on this project and they report to me every three months and I make a statement in the Chamber at least once a year. I am happy to make further statements if Members so wish.

13:49 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your previous answers, Minister. Last autumn, you invited Gareth Williams back to review the Government's progress on implementing those recommendations. Given that there are significant amounts of recommendations outstanding, have you asked Gareth to come back again this year? If you have not, is that something that you would commit to doing?

Diolch ichi am eich atebion blaenorol, Weinidog. Yr hydref diwethaf, gwnaethoch wahodd Gareth Williams yn ôl i adolygu cynnydd y Llywodraeth ar weithredu'r argymhellion hynny. O gofio bod nifer sylweddol o argymhellion heb eu cyflawni, a ydych wedi gofyn i Gareth ddod yn ôl eto eleni? Os nad ydych, a yw hynny'n rhywbeth y byddech yn ymrwymo i'w wneud?

13:49 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I invited Gareth back to examine the work that we had undertaken to deliver a year after he outlined his report. You will remember the report he wrote on the basis of that, saying that we had made good progress in implementing the recommendations that he had made. Many of the recommendations had, of course, been implemented ahead of their target dates and deadlines. I will consider inviting Gareth Williams back to review the work of the Working Smarter initiative. If I were to do that—and it is a matter that we are considering—it would be towards the end of this Assembly term in 2015, when he would be able to review not only the work that is taking place now and next year, but all of the work that we have undertaken throughout this Assembly.

Gwahoddais Gareth yn ôl i edrych ar y gwaith rydym wedi'i wneud i gyflawni flwyddyn ar ôl iddo amlinellu ei adroddiad. Byddwch yn cofio'r adroddiad a ysgrifennodd ar sail hynny, gan ddweud ein bod wedi gwneud cynnydd da o ran gweithredu'r argymhellion a wnaeth. Roedd llawer o'r argymhellion, wrth gwrs, wedi cael eu gweithredu cyn eu dyddiadau targed a'u terfynau amser. Byddaf yn ystyried gwahodd Gareth Williams yn ôl i adolygu gwaith menter Hwyluso'r Drefn. Pe bawn yn gwneud hynny—ac mae'n rhywbeth rydym yn ei ystyried—byddai tuag at ddiwedd tymor y Cynulliad hwn yn 2015, pan fyddai nid yn unig yn gallu adolygu gwaith sy'n cael ei gyflawni yn awr a'r flwyddyn nesaf, ond yr holl waith rydym wedi ei gyflawni drwy gydol y Cynulliad hwn.

13:50 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In terms of delivering value for money, which is also an important aspect of the 'Working Smarter' report, at this stage, how much do you project will be saved from the annual running costs by 2015 through improved efficiencies?

O ran darparu gwerth am arian, sydd hefyd yn agwedd bwysig ar 'Hwyluso'r Drefn', ar hyn o bryd, faint ydych chi'n rhagweld a gaiff ei arbed o'r costau rhedeg blynyddol erbyn 2015 drwy arbedion effeithlonrwydd gwell?

13:50 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

We do not have a figure yet that would equate to the question that you are asking. Some of the greater savings that I see for individual farm businesses and the Government will be delivered through the online services and the delivery of online systems. At the moment, the pilot schemes and the work that is going on in relation to that, being led by the Government and the industry, are very successful. We expect the take-up to continue to increase and improve and we expect that to continue to lead to significant savings, both for individual farm businesses and for Government.

Nid oes gennym ffigur eto a fyddai'n cyfateb i'r cwestiwn rydych yn ei ofyn. Caiff rhai o'r arbedion mwy a welaf ar gyfer busnesau fferm unigol a'r Llywodraeth eu cyflawni drwy'r gwasanaethau ar-lein a thrwy gyflwyno systemau ar-lein. Ar hyn o bryd, mae'r cynlluniau peilot a'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn perthynas â hynny, sy'n cael ei arwain gan y Llywodraeth a'r diwydiant, yn llwyddiannus iawn. Rydym yn disgwyl i'r nifer sy'n ymrwymo i hyn barhau i gynyddu a gwella ac rydym yn disgwyl i hynny barhau i arwain at arbedion sylweddol, i fusnesau fferm unigol ac i'r Llywodraeth.

Senedd.tv Fideo Video

13:51 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Weinidog, ar adegau mae ffermwyr yn awyddus iawn i dderbyn ffurflenni oddi wrth eich adran chi. Roedd ffermwyr yn fy etholaeth i a oedd wedi bod yn ceisio derbyn ffurflenni cais Glastir ers y gwanwyn yn dal i ddisgwyl amdanynt ym mis Medi. Yna, cawsant wybod mai dim ond ychydig ddyddiau oedd ganddynt i lenwi'r ffurflenni hynny. A allwch egluro inni pam fod eich adran chi yn ymddangos yn gyndyn iawn i anfon ffurflenni Glastir allan, fel bod pawb yn gallu gwneud cais amdanynt sy'n dymuno gwneud hynny?

Minister, farmers are sometimes very keen to receive paperwork from your department. Farmers in my constituency who had been trying to get Glastir application forms since the spring were still waiting for them in September. They were then told that they only had a few days to fill in those forms. Can you explain to me why your department appears to be very reluctant to send out Glastir application forms, which would enable all those who want to apply to do so?

Senedd.tv Fideo Video

13:51 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Byddwn yn gofyn i'r Aelod ysgrifennu ataf os bydd unigolion yn cael problemau o ran cael mynediad at ffurflenni Glastir. Rhaid dweud bod Glastir yn llwyddiant: mae'r nifer sy'n defnyddio Glastir yn cynyddu ac wedi bod yn cynyddu ers inni gwblhau'r 'stocktake' y llynedd. Rydym yn hyderus iawn bod Glastir erbyn hyn yn cyrraedd y nod a'r amcanion sydd gennym ar gyfer y cynllun. Felly, os bydd problemau gan ffermwyr unigol, rwy'n hapus iawn i ddelio â nhw. Byddwn yn croesawu'r Aelod, neu unrhyw Aelod arall sydd wedi cael profiad o'r fath, i ysgrifennu ataf.

I would ask the Member to write to me if individuals have problems with accessing Glastir forms. I must say that Glastir is a success: the number of people going for Glastir is increasing, and has been doing so since we completed the stocktake last year. We are very confident that Glastir is now achieving the aims and objectives that we have for the scheme. Therefore, if individual farmers have problems, I am very happy to deal with them. I would welcome correspondence from the Member, or from any other Member who has heard of similar experiences.

Senedd.tv Fideo Video

13:52 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Weinidog, roedd cynllun Pontbren yn un roedd ffermwyr yn dweud a oedd wedi lleihau biwrocratiaeth. Wrth ymateb i gwestiwn ym mis Mehefin, dywedoch fod adroddiad yn cael ei baratoi a'i fod i'w ddisgwyl erbyn mis Awst. A yw'r adroddiad wedi cael ei dderbyn gennych a pryd fyddwch yn barod i ymateb?

Minister, farmers used to say that the Pontbren scheme had reduced red tape. In responding to a question in June, you said that a report was being prepared that we could expect by August. Have you now received that report and when will you be responding to it?

Senedd.tv Fideo Video

13:52 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Nid wyf yn siŵr pa adroddiad mae'r Aelod yn ei ddisgrifio, ond rwyf wedi ymweld â Phontbren a'r cynllun ac rwyf wedi siarad â ffermwyr yn yr ardal. Rwyf wedi cael fy nylanwadu'n fawr iawn gan y cynllun a beth mae ffermwyr yno wedi dweud wrthyf amdano. Roedd y profiad o ymweld â Phontbren yng nghefn fy meddwl i wrth imi sefydlu'r gronfa newydd ar gyfer datblygu bioamrywiaeth y gwneuthum ddatganiad arno yn y sioe frenhinol. Dyna'r union fath o gynllun yr hoffwn weld llawer mwy ohonynt ledled Cymru, ac os gallaf wneud unrhyw beth i hyrwyddo hynny, rwy'n hapus iawn i wneud hynny.

I am not sure which report the Member is talking about, but I have visited Pontbren to see the scheme and I have spoken to farmers in the area. I have been greatly influenced by the scheme and what farmers there tell me about it. The experience of visiting Pontbren was in the back of my mind as I established the new fund for biodiversity that I announced in the Royal Welsh Show. That is exactly the kind of scheme that I would like to see copied extensively around Wales, and if I can do anything to facilitate that, I am very happy to do so.

Senedd.tv Fideo Video

## Effeithlonrwydd Ynni

## Energy Efficiency

13:53 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion i wella effeithlonrwydd ynni? OAQ(4)0065(NRF)*

*7. Will the Minister make a statement on efforts to improve energy efficiency? OAQ(4)0065(NRF)*

13:53 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Significant investment is being made to improve energy efficiency through our two complementary Nest and Arbed schemes, both of which provide employment opportunities. Nest provides eligible low-income, fuel-poor households with energy efficiency measures, and Arbed focuses measures in Wales's most deprived regions, on an area-wide basis.

Caiff buddsoddiad sylweddol ei wneud i wella effeithlonrwydd ynni drwy ein dau gynllun ategol Nest ac Arbed, y mae'r ddau yn darparu cyfleoedd cyflogaeth. Mae Nest yn darparu mesurau effeithlonrwydd ynni i aelwydydd incwm isel, tlawd o ran tanwydd a chymwys, ac mae mesurau Arbed yn canolbwyntio ar ranbarthau mwyaf difreintiedig Cymru, ar sail ardal gyfan.

13:54 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Arbed scheme has been very successful in improving the energy efficiency of homes and stimulating the local economy. What discussions have you had about extending it to include public bodies that are responsible for buildings where the energy use could be much better? It would, therefore, tackle climate change, make better use of the public purse and provide jobs.

Bu cynllun Arbed yn llwyddiannus iawn o ran gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi a hybu'r economi leol. Pa drafodaethau a gawsoch ynghylch ymestyn y cynllun i gynnwys cyrff cyhoeddus sy'n gyfrifol am adeiladau lle y gallai'r defnydd o ynni fod gymaint gwell? Felly, byddai'n mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, yn gwneud gwell defnydd o bwrs y wlad ac yn darparu swyddi.

13:54 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have not had any discussions of the sort that the Member describes. I will be making a statement later this week on our response to the Intergovernmental Panel on Climate Change's report on climate change. One of the points that I will be trying to make is that actions speak louder than words. I think that all of us as public bodies and public authorities in any part of the public regime need to look hard at how we can contribute both towards energy efficiency and targets on climate change. I would be very happy, if the Member has any suggestions or contributions that she wishes to make on those matters, if she would write to me, and I would certainly make a positive response to such correspondence.

Ni chawsom unrhyw drafodaethau o'r fath a ddisgrifir gan yr Aelod. Gwnaf ddatganiad yn ddiweddarach yr wythnos hon ar ein hymateb i'r adroddiad ar newid yn yr hinsawdd gan y Panel Rhynglywodraethol ar newid yn yr hinsawdd. Un o'r pwyntiau y byddaf yn ceisio ei wneud yw dweud bod camau gweithredu yn well na geiriau. Credaf fod angen i bob un ohonom fel cyrff cyhoeddus ac awdurdodau cyhoeddus mewn unrhyw ran o'r gyfundrefn gyhoeddus edrych o ddifrif i weld sut y gallwn gyfrannu at effeithlonrwydd ynni a thargedau ar newid yn yr hinsawdd. Byddwn yn hapus iawn, os oes gan yr Aelod unrhyw awgrymiadau neu gyfraniadau yr hoffai eu gwneud ar y materion hynny, pe bai'n ysgrifennu ataf, a byddwn yn sicr yn rhoi ymateb cadarnhaol i ohebiaeth o'r fath.

13:55 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Last week I hosted an Assembly event promoting the Health Through Warmth scheme, which provides funding for heating systems and insulation for people with long-term illnesses. How can you help promote that scheme, noting that it is available for people who may be ineligible for the Welsh or UK Government schemes? It has now been rolled out across Wales, but referrals are not as high as they could be.

Yr wythnos diwethaf cynhaliais ddigwyddiad yn y Cynulliad yn hyrwyddo'r cynllun Iechyd Trwy Gynhesrwydd, sy'n darparu cyllid ar gyfer systemau gwresogi ac insiwleiddio i bobl sydd â salwch tymor hir. Sut y gallwch helpu i hyrwyddo'r cynllun hwnnw, gan nodi ei fod ar gael i bobl a all fod yn anghymwys ar gyfer gynllun Cymru neu gynllun Llywodraeth y DU? Bellach mae wedi cael ei gyflwyno ledled Cymru, ond nid yw atgyfeiriadau mor uchel ag y gallent fod.

13:55 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would be very happy to support any scheme of that description that provides a great deal of help for people who are perhaps very vulnerable. I know that the Member has worked hard on these matters throughout his time in this place, and I would invite the Member to arrange to meet me to discuss those matters.

Byddwn yn hapus iawn i gefnogi unrhyw gynllun o'r disgrifiad hwnnw sy'n darparu llawer iawn o gymorth i bobl sydd efallai yn agored iawn i niwed. Gwn fod yr Aelod wedi gweithio'n galed ar y materion hyn drwy gydol ei amser yn y lle hwn, a byddwn yn gwahodd yr Aelod i drefnu i gwrdd â mi i drafod y materion hynny.

13:55 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, Nest and Arbed obviously aim to improve energy efficiency in the housing stock by retrofitting efficiency measures into existing properties, but I wonder what measures you have considered to improve the energy efficiency of new-build homes, particularly in the social and affordable housing sectors.

Weinidog, mae Nest ac Arbed yn amlwg yn anelu at wella effeithlonrwydd ynni yn y stoc tai drwy ychwanegu mesurau effeithlonrwydd mewn eiddo presennol, ond tybed pa fesurau rydych wedi'u hystyried i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi newydd, yn enwedig yn y sectorau tai cymdeithasol a fforddiadwy.

13:56 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Those are matters for the Minister for Housing and Regeneration, whose question session follows this. I would invite you to perhaps ask that question of him.

Materion i'r Gweinidog Tai ac Adfywio yw'r rhain ac mae ei sesiwn gwestiynau yn dilyn hyn. Byddwn yn eich gwahodd efallai i ofyn y cwestiwn hwnnw iddo ef.

**Nwyeiddio Glo Tanddaearol**

**Underground Coal Gasification**

13:56 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cael ynglŷn â nwyeiddio glo tanddaearol yn Llanelli a'r ardal gyfagos? OAQ(4)0062(NRF)*

*8. What discussions has the Welsh Government had regarding underground coal gasification in Llanelli and the surrounding area? OAQ(4)0062(NRF)*

13:56 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod â Cluff Natural Resources fis nesaf er mwyn trafod ei gynlluniau ar gyfer prosiectau ynni dan aber Afon Dyfrdwy ac Afon Llwchwr.

Welsh Government officials will meet Cluff Natural Resources next month to hear their plans for energy projects beneath the Dee and Loughor estuaries.

13:56 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r ardal yn un o amddiffyniad gwyddonol penodol. A fyddwch yn cydnabod hyn mewn unrhyw ddatblygiad o ran ceisiadau trwyddedu?

The area is one of special scientific interest. Will you be recognising that in any development of licensing applications?

13:57 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rydym yn ymwybodol o bwysigrwydd Afon Llwchwr a'r ardal wrth ganiatáu unrhyw waith o'r fath, neu unrhyw waith ychwanegol neu wahanol. Bydd NRW yn ystyried unrhyw oblygiadau wrth sicrhau bod pob un o'r amodau ac anghenion amgylcheddol yn cael eu hystyried yn llawn cyn rhoi unrhyw fath o ganiatâd.

We are aware of the importance of the River Loughor and the surrounding area in permitting any work of this kind, or any additional or different work. NRW will consider any implications in ensuring that all environmental conditions and requirements are fully considered before giving any permissions.

13:57 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, leading on from that, in relation to Cluff Natural Resources, it has licences for exploration in the Loughor estuary, and recognising the importance of new fuel resources, it is extremely important that the Welsh Government leads on ensuring that the particular geology of past industries, in particular our mining past, is considered when looking at these applications. Will you outline what action you have taken to explore whether new technologies are safe in Wales? Can you outline what action you have taken to ensure that the advice and licensing arrangements are clear to local authorities here in Wales?

Weinidog, gan arwain ymlaen o hynny, mewn perthynas â Cluff Natural Resources, mae ganddo drwyddedau ar gyfer archwilio yn aber afon Llwchwr, a chan gydnabod pwysigrwydd adnoddau tanwydd newydd, mae'n hynod bwysig bod Llywodraeth Cymru yn arwain ar sicrhau bod daeareg benodol diwydiannau'r gorffennol, yn enwedig ein gorffennol mwyngloddio, yn cael ei ystyried wrth edrych ar y ceisiadau hyn. A wnewch chi amlinellu pa gamau rydych wedi'u cymryd i archwilio a yw technolegau newydd yn ddiogel yng Nghymru? A allwch amlinellu pa gamau rydych wedi eu cymryd i sicrhau bod y trefniadau cynghori a thrwyddedu yn glir i awdurdodau lleol yma yng Nghymru?

13:58 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

That advice is clear for local authorities. I will just say to the Member—and this has been raised by other Members at other times—that there is a difference between exploration and extraction, and the two exist in quite a separate way. However, we will ensure that, wherever there are applications for either exploration or extraction, all the different safety, environmental and public issues around the exploration and extraction of unconventional gas sources are dealt with in a full manner, and that all the concerns are answered before any permission or consent is granted.

Mae'r cyngor hwnnw yn glir i awdurdodau lleol. Dywedaf wrth yr Aelod—a chodwyd hyn gan Aelodau eraill ar adegau eraill—fod gwahaniaeth rhwng archwilio ac echdynnu, ac mae'r ddau yn bodoli mewn ffordd hollol ar wahân. Fodd bynnag, byddwn yn sicrhau, lle bynnag y bo ceisiadau am archwilio neu echdynnu, yr ymdrinnir â'r holl faterion diogelwch, amgylcheddol a chyhoeddus ynghylch archwilio ac echdynnu ffynonellau nwy anghonfensiynol mewn dull cyflawn, ac yr atebir pob pryder cyn y rhoddir unrhyw ganiatâd.

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Weinidog, nid oes lle i nwy glo yn y ffordd rydym yn ymateb i her y panel rhyngwladol ar newid yn yr hinsawdd, rydych newydd gyfeirio ato wrth ateb Jocelyn Davies. Felly, beth am ddatganiad clir gan Lywodraeth Cymru nad yw'n ffafrio nwy glo nac unrhyw fath o nwy anghonfensiynol yng Nghymru?

Minister, there is no scope for coal gasification as we respond to the challenge posed by the international panel on climate change, to which you referred in your response to Jocelyn Davies. Therefore, what about a clear statement by the Welsh Government that it is not in favour of coal gasification or any unconventional gases in Wales?

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Rydym yn deall bod gan nwy ran i chwarae wrth inni symud i system ynni carbon isel. Rydym wedi datgan, ac rydym wedi cytuno fel Cynulliad, bod gan nwy ran i chwarae yn y broses o symud at system garbon isel. Felly, nid wyf yn cytuno gyda chi nad oes gan unrhyw fath o nwyon gwahanol ran i chwarae yn y broses hon. Nid wyf wedi clywed hynny gennych o'r blaen. Yn bwysig, wrth inni ystyried lle nwy a'r nwyau anghonfensiynol hyn fel rhan o unrhyw fath o 'mix' ynni yn y dyfodol, ein bod yn sicr ein bod yn deall beth yn union yw'r nwy a sut yr ydym yn cael 'access' i'r nwy hwnnw mewn ffordd sy'n saff ac nad yw'n achosi'r risgiau yr wyf yn siŵr eich bod wedi'u disgrifio'n barod.

We understand that gas has a role to play as we move to a low-carbon system. We have stated, and we have agreed as an Assembly, that gas has a role to play in the process of moving to a low-carbon system. Therefore, I do not agree with you that unconventional gases have no role to play in this process. I have not heard you say that before. Importantly, as we consider the role of gas and these unconventional gases as part of any sort of energy mix for the future, that we are certain that we understand exactly what the gas is and how we can access that gas in a safe way that does not cause the risks that I am sure that you have already described.

Senedd.tv Fideo Video

## Echdynnu Nwy drwy Ddulliau Anghonfensiynol

## Unconventional Gas Extraction

14:00 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei asesiad o effeithiau amgylcheddol echdynnu nwy drwy ddulliau anghonfensiynol? OAQ(4)0052(NRF)*

*9. Will the Minister make a statement on his assessment of the environmental impacts of unconventional gas extraction? OAQ(4)0052(NRF)*

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

There are a range of unconventional gas technologies, each of them presenting distinctive environmental issues. We support a strong regulatory regime for such developments, ensuring the appropriate protection for people and the environment.

Mae amrywiaeth o dechnolegau nwy anghonfensiynol, â phob un ohonynt yn creu materion amgylcheddol unigryw. Rydym yn cefnogi trefn reoleiddio gref ar gyfer datblygiadau o'r fath, gan sicrhau amddiffyniad priodol ar gyfer pobl a'r amgylchedd.

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, Minister. Will you use your position as Minister to ask Natural Resources Wales to clarify its position on the permitting, regulating and monitoring of unconventional gas sites, and the extent to which it agrees with the Environment Agency's recently published environmental risk assessment for shale gas exploratory operations?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. A wnewch chi ddefnyddio eich swydd fel Gweinidog i ofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru egluro ei sefyllfa o ran caniatáu, rheoleiddio a monitro safleoedd nwy anghonfensiynol, a'r graddau y mae'n cytuno ag asesiad risg amgylcheddol Asiantaeth yr Amgylchedd a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer gweithrediadau archwiliadol nwy siâl?

Senedd.tv Fideo Video

14:01 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

I am confident that we have in place the full cautionary regulatory environmental regime that is required.

Rwy'n hyderus bod y drefn amgylcheddol reoleiddiol ragofalus lawn sy'n ofynnol ar waith gennym.

Senedd.tv Fideo Video

14:01 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Minister, the First Minister has referred to the precautionary approach to dealing with applications relating to unconventional gas extraction. However, he has also confirmed that the Government is examining the need for additional guidance. What do you understand the word 'precautionary' to mean, and how do you see your responsibilities for the environment helping to determine the definition of 'precautionary' in this examination of the need for future guidance?

Weinidog, mae'r Prif Weinidog wedi cyfeirio at yr agwedd ragofalus tuag at ddelio â cheisiadau sy'n ymwneud ag echdynnu nwy anghonfensiynol. Fodd bynnag, mae hefyd wedi cadarnhau bod y Llywodraeth yn edrych ar yr angen am arweiniad ychwanegol. Beth yw ystyr y gair 'rhagofalus' yn eich barn chi, a sut mae eich cyfrifoldebau am yr amgylchedd yn helpu i bennu diffiniad 'rhagofalus' yn yr archwiliad hwn o'r angen am arweiniad yn y dyfodol yn eich barn chi?

Senedd.tv Fideo Video

14:01 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

We need to ensure that we consider all available evidence, and that we are able to review and understand all of the available scientific and engineering evidence on the extraction of unconventional gases. We are continuing to review the evidence available to us. At present, I am absolutely confident that the cautionary approach that we take to all consents or permissions sought in this field is one that meets the demands of potential developers and, crucially, underpins the protection of people and the environment.

Mae angen inni sicrhau ein bod yn ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, a'n bod yn gallu adolygu a deall yr holl dystiolaeth wyddonol a pheirianyddol sydd ar gael ar echdynnu nwyon anghonfensiynol. Rydym yn parhau i adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael inni. Ar hyn o bryd, rwy'n gwbl hyderus bod y dull rhagofalus a fabwysiadwn ar gyfer pob cydsyniad neu ganiatâd a geisir yn y maes hwn yn un sy'n bodloni gofynion darpar ddatblygwyr ac, yn hollbwysig, yn un sy'n ategu'r nod o ddiogelu pobl a'r amgylchedd.

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Weinidog, clywais i chi'n siarad yn ystod lansiad Cyfoeth Naturiol Cymru, pan oeddech yn dweud ei fod yn bwysig i ni fod yn gynaliadwy yma yng Nghymru. A allwch chi esbonio sut y mae'r sector hwn yn gynaliadwy? Hefyd, a ydych chi wedi siarad â Chyfeillion y Ddaear ynglŷn â'i bryderon ynglŷn ag ardaloedd o harddwch naturiol y mae'n bwysig eu hadfer yng Nghymru? Mae ardaloedd felly yn y Gŵyr, sy'n rhan o edrych ar ddatblygu nwy anghonfensiynol. A yw hynny'n dderbyniol i chi?

Minister, in the launch for Natural Resources Wales, I heard you saying that it was important for us to be sustainable here in Wales. Can you explain to me how this sector is sustainable? Also, have you spoken to Friends of the Earth about its concerns about areas of outstanding natural beauty that are very important places to develop here in Wales? There are areas of that kind in Gower where unconventional gas developments are being considered. Is this acceptable in your opinion?

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Nid wyf wedi siarad â Chyfeillion y Ddaear am y pwnc penodol hwn. Fodd bynnag, dywedaf mai methan yw'r rhan fwyaf o'r nwy anghonfensiynol, yn enwedig y 'coal-bed methane' a'r 'shale gas'; mae'n nwy yr ydym yn ei ddeall ac yn gwybod amdano yn barod. Mae'n cael ei weld fel rhan botensial o'r 'mix', fel yr ydym yn symud o'r lle yr ydym ynddo heddiw tuag at system ynni carbon isel. Mae gan nwy, felly, ran i'w chwarae ar hyn o bryd ac fel yr ydym yn symud i system ynni wahanol.

I have not spoken to Friends of the Earth on this particular subject. However, I will say that methane is the majority of unconventional gas, especially coal-bed methane and shale gas; we understand and know about its properties already. It is viewed as a potential part of the mix as we move into the transition phase from where we are today to a low-carbon energy system. So, gas does have a role to play at present and as we move to a different energy system.

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n anghytuno â'r rhai sy'n dweud nad oes angen unrhyw ddefnydd o nwy, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Rwy'n credu bod gan nwy ran bwysig i'w chwarae. Mae'n rhaid inni sicrhau, os ydym yn edrych ar 'reservoirs' gwahanol o nwy anghonfensiynol a chyn inni wneud unrhyw benderfyniad ar y maes hwn, ein bod yn deall y risgiau a'r impact posibl ar bobl a'r amgylchedd. Ar hyn o bryd, mae gan y Llywodraeth hon bolisi cryf sy'n edrych ar ac yn ystyried y risgiau hynny. Ar hyn o bryd, rwy'n hyderus iawn fod gennym y polisi iawn yn ei le.

So, I disagree with those who say that there is no need for any kind of gas use at present or in the future. I believe that gas does have an important role to play. We must ensure that, if we look at various reservoirs of unconventional gas and before we make any decision in this area, that we understand the risks and the potential impact on people and the environment. At present, this Government has a strong policy that considers those risks. At present, I am very confident that we have the right policy in place.

## Polisïau Morol a Physgodfeydd

## Marine and Fisheries Policy

14:04 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

*10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed o ran sefydlu adran gyfunol ar bolisïau morol a physgodfeydd? OAQ(4)0053(NRF)*

*10. Will the Minister make a statement on the progress made in establishing a joint department for marine and fisheries policy? OAQ(4)0053(NRF)*

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Fel y dywedais yn fy natganiad ym mis Mehefin, ac yn unol ag argymhellion ymchwiliad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i bolisi morol, mae is-adran integredig wedi'i sefydlu o fewn Llywodraeth Cymru. Mae'r is-adran hon yn cydweithio â Chyfoeth Naturiol Cymru ac â rhanddeiliaid eraill er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd morol yn cael ei reoli mewn modd integredig.

As I said in my June statement, and following the recommendations of the Environment and Sustainability Committee's marine policy inquiry, an integrated Welsh Government division has been established and is working with Natural Resources Wales and other stakeholders to ensure an integrated approach to the management of the marine environment.

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

A fyddai'r Gweinidog yn cytuno bod yr is-adran hon yn allweddol mewn dau gyfeiriad; yn gyntaf, ynglŷn â chydleoli unrhyw ddatblygiad ynni adnewyddadwy a physgodfeydd, a hefyd yn y trafodaethau rhanbarthol ar draws Môr Iwerddon i sicrhau ein bod ni'n gallu cydweithio ac nid cystadlu gyda'r Gwyddelod yn y datblygiadau morol hyn?

Would the Minister agree that this division is important in two directions; first, in terms of the joint location of any renewable energy developments and fisheries, and also in the regional discussions across the Irish sea to ensure that we can co-operate rather than compete with the Irish on these marine developments?

Senedd.tv Fideo Video

14:05 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Absolutely.

Yn benant.

Rwyf yn cytuno'n llwyr â'r Aelod. Dyna'n union pam yr wyf yn mynd i gyhoeddi, cyn y Nadolig, polisi morol integredig i Gymru am y tro cyntaf erioed. Mi fyddwn yn edrych ar bob un elfen o gynllunio morol, pysgodfeydd a chadwraeth yn y môr o amgylch Cymru. Mi fyddwn yn cydweithio fel adran i sicrhau bod gan Gymru bolisi morol llawn a fydd yn sicrhau ein bod ni'n defnyddio adnoddau'r môr fel yr ydym yn gallu, ond hefyd yn sicrhau bod ein huchelgais ni o gael moroedd glân o gwmpas ein harfordir yn cael ei gyrraedd.

I agree totally with the Member. That is exactly why I will be announcing, before Christmas, the integrated marine policy for Wales for the first time ever. We will be looking at every element of marine planning, fisheries and conservation in Welsh seas. We will be collaborating as a department to ensure that Wales has a full marine policy that will ensure that we use the sea's resources to the maximum, and also that we will achieve our ambition of having clean seas around our coastline.

Senedd.tv Fideo Video

14:06 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Minister, you mentioned the Environment and Sustainability Committee report into marine policy. You will be aware of the concerns that were raised there around marine spatial planning. There are clearly the issues that Lord Elis-Thomas referred to in relation to the Irish sea, but there are also cross-border issues in relation to England. Given that marine conservation zones are being discussed in England, what cross-border discussions have you had, particularly around the issues of marine spatial planning? Has the memorandum of understanding been signed both with Ireland and/or with England?

Weinidog, soniasoch am adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar bolisi morol. Byddwch yn ymwybodol o'r pryderon a godwyd yno mewn perthynas â chynllunio gofodol morol. Mae'n amlwg bod y materion y cyfeiriodd yr Arglwydd Elis-Thomas atynt mewn perthynas â Môr Iwerddon, ond mae materion trawsffiniol hefyd o ran Lloegr. O ystyried bod parthau cadwraeth morol yn cael eu trafod yn Lloegr, pa drafodaethau trawsffiniol a gawsoch, yn enwedig ynghylch materion cynllunio gofodol morol? A yw'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth wedi'i lofnodi gydag Iwerddon a/neu gyda Lloegr?

Senedd.tv Fideo Video

14:06 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

I did have conversations with the previous Parliamentary Under-Secretary of State on these matters, but he left his post earlier this week. We have not had an opportunity to have conversations with any new Minister. I will take the opportunity to congratulate Richard Benyon on the work that he did as Parliamentary Under-Secretary of State. I thought that he was an excellent Minister for fisheries for the United Kingdom and he worked hard to represent Welsh interests in all the conversations that we had over the two and a half years that we worked together.

Cefais sgyrsiau gyda'r cyn Is-ysgrifennydd Seneddol ar y materion hyn, ond gadawodd ei swydd yn gynharach yr wythnos hon. Nid ydym wedi cael cyfle i gael sgwrs gydag unrhyw Weinidog newydd. Byddaf yn achub ar y cyfle i longyfarch Richard Benyon ar y gwaith a wnaeth fel Is-Ysgrifennydd Seneddol. Roeddwn o'r farn ei fod yn Weinidog pysgodfeydd ardderchog i'r Deyrnas Unedig a gweithiodd yn galed i gynrychioli buddiannau Cymru ym mhob un o'r sgyrsiau a gawsom dros y ddwy flynedd a hanner y buom yn gweithio gyda'n gilydd.

Senedd.tv Fideo Video

I will say that I did make a statement on this matter before the summer recess. My position has not changed since then. We are not going to be moving forward in the way that the Member described of some years ago. We are going to be looking at an entirely different approach and that approach will be outlined in the marine plan that I will publish before Christmas

Dywedaf imi wneud datganiad ar y mater hwn cyn toriad yr haf. Nid yw fy safiad wedi newid ers hynny. Nid ydym yn mynd i symud ymlaen yn y ffordd a ddisgrifiodd yr Aelod rai blynyddoedd yn ôl. Rydym yn mynd i edrych ar ddull hollol wahanol a chaiff y dull hwnnw ei amlinellu yn y cynllun morol a gyhoeddaf cyn y Nadolig.

### Cyfoeth Naturiol Cymru

### Natural Resources Wales

14:07

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

*11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu ers ei sefydlu ym mis Ebrill? OAQ(4)064(NRF)*

*11. Will the Minister make a statement on how the work of Natural Resources Wales is progressing since its formation in April? OAQ(4)064(NRF)*

Senedd.tv
Fideo Video

14:07

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

I issued a written statement on 18 July that detailed the progress of Natural Resources Wales since 1 April. As was the case when I made that statement, NRW continues to make progress in meeting its statutory obligations and its outcomes, which were jointly agreed with the Welsh Government.

Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ar 18 Gorffennaf a fanylodd ar gynnydd Cyfoeth Naturiol Cymru ers 1 Ebrill. Fel yr oedd yn wir pan wneuthum y datganiad hwnnw, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i wneud cynnydd o ran cyflawni ei rwymedigaethau statudol a'i ganlyniadau, y cytunwyd arnynt ar y cyd â Llywodraeth Cymru.

Senedd.tv
Fideo Video

14:07

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

You will be aware that when the proposals for joining up were first mooted, they did not really meet with universal acclaim. I am pleased to say that, certainly in the case of communication between my office and the organisation, things are working out very well indeed. Is progress throughout Wales being monitored?

Byddwch yn ymwybodol pan gafodd y cynigion ar gyfer uno eu crybwyll gyntaf, na chawsant eu canmol yn gyffredinol a dweud y gwir. Rwy'n falch o ddweud, yn sicr yn achos cyfathrebu rhwng fy swyddfa a'r sefydliad, fod pethau'n gweithio allan yn dda iawn. A yw cynnydd ledled Cymru yn cael ei fonitro?

Senedd.tv
Fideo Video

14:08

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Yes, progress is being monitored. I meet the chair and the chief executive of NRW on a monthly basis to discuss these and other matters. I have met the board of NRW to discuss how it is taking forward the integration of the new organisation. I am very pleased with the progress that NRW has made and I think that it is making a difference on the ground as well. We have heard from Members' questions this afternoon on hydropower, on flood prevention and on treating tree diseases—in all three examples that Members have raised this afternoon—that the response of NRW has been far better and far more comprehensive, because it acts as a single body rather than three separate institutions. I think that we are seeing those benefits day after day in Wales.

Ydy, mae cynnydd yn cael ei fonitro. Rwy'n cyfarfod â chadeirydd a phrif weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru bob mis i drafod y materion hyn a materion eraill. Rwyf wedi cyfarfod â bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru i drafod sut y mae'n datblygu'r gwaith o integreiddio'r sefydliad newydd. Rwy'n fodlon iawn ar y cynnydd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i wneud a chredaf ei fod yn gwneud gwahaniaeth ar lawr gwlad hefyd. Rydym wedi clywed cwestiynau gan yr Aelodau y prynhawn yma ar ynni dŵr, ar atal llifogydd ac ar drin clefydau mewn coed—ym mhob un o'r tair enghraifft a godwyd gan Aelodau y prynhawn yma—fod ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn well o lawer ac yn fwy cynhwysfawr o lawer, gan ei fod yn gweithredu fel un corff yn hytrach na thri sefydliad ar wahân. Credaf ein bod yn gweld y buddiannau hynny ddydd ar ôl dydd yng Nghymru.

Senedd.tv
Fideo Video

14:08

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Minister, I am no doubt whatsoever about your ability to hold discussions, both formal and informal, with members of the board of National Resources Wales and related bodies. However, I am sure that you will agree that that is only going halfway. Will you tell us what key performance indicators are in place for Natural Resources Wales? How are you ensuring that it is as transparent a body as possible and as open to scrutiny as I know that you, as the Minister responsible, would want it to be?

Weinidog, nid oes amheuaeth gennyf o gwbl ynghylch eich gallu i gynnal trafodaethau, ffurfiol ac anffurfiol, gydag aelodau bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrff cysylltiedig. Fodd bynnag, rwy'n siŵr y cytunwch mai dim ond mynd hanner ffordd yw hynny. A ddywedwch wrthym pa ddangosyddion perfformiad allweddol sydd ar waith ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru. Sut ydych yn sicrhau ei fod yn gorff mor agored â phosibl ac mor agored i graffu ag y byddech chi, fel y Gweinidog sy'n gyfrifol, am iddo fod?

Senedd.tv
Fideo Video

14:09 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, you scrutinise me on my responsibilities in this Chamber. I have provided NRW with a remit letter. We are going to start the work within the next month or so on the new remit letter for next year. I would be happy if the Member wished to include some of those matters in that new remit letter. Perhaps, if he or other Members would write to me with issues that they wish to see included in the remit letter, I will look very positively upon those requests.

Yn amlwg, rydych yn craffu arnaf mewn perthynas â'm cyfrifoldebau yn y Siambr hon. Rwyf wedi darparu llythyr cylch gwaith i Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym yn mynd i ddechrau ar y gwaith o baratoi'r llythyr cylch gwaith newydd ar gyfer y flwyddyn nesaf o fewn y mis neu ddau nesaf. Byddwn yn hapus pe bai'r Aelod yn dymuno cynnwys rhai o'r materion hynny yn y llythyr cylch gwaith newydd hwnnw. Efallai, pe bai ef neu Aelodau eraill yn ysgrifennu ataf gyda materion yr hoffent eu gweld yn cael eu cynnwys yn y llythyr cylch gwaith hwnnw, y gwnaf ystyried y ceisiadau hynny yn gadarnhaol iawn.

14:09 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru gyfrifoldeb am y labordy yn Llanelli. Rwyf wedi ymweld â'r labordy yn ddiweddar ac mae'n gweithio dros Gymru—rhywbeth wnes i alw amdano—ac yn datblygu a rhannu arbenigedd er lles Cymru. A fyddwch chi'n fodlon dod lawr i weld y gwaith pwysig hwn?

Minister, Natural Resources Wales now has responsibility for the laboratory in Llanelli. I have visited the laboratory recently and it is working across Wales—that is something that I called for—and developing its expertise for the benefit of all of Wales. Would you be willing to visit this important facility and the important work that it does?

14:10 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yr wyf yn hapus iawn i ymweld â Llanelli ar unrhyw adeg. Fe wnes i fwynhau'r gwaith a wnes i yn Llanelli pan yr oeddwn yn Aelod Canolbarth a Gorllewin Cymru yn y Cynulliad diwethaf. Rwy'n hapus iawn i ymweld â Llanelli i weld gwaith NRW. Rwyf eisiau siarad â staff NRW i weld a ydyn nhw'n teimlo bod 'progress' yn cael ei wneud ar hyn o bryd. Rwy'n hapus iawn i gyfarfod â staff NRW yn y fan honno neu unrhyw le arall.

I am very happy to visit Llanelli any time. I enjoyed the work that I did in Llanelli when I was a Member for Mid and West Wales in the last Assembly. I am very pleased to visit Llanelli to see the work of NRW. I wish to speak to NRW staff to see how they feel progress is being made at present. I am very happy to meet NRW staff there or anywhere else.

14:10 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, a wnewch chi gadarnhau, fel y gwnaeth y Prif Weinidog ddoe, fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu'n gwbl annibynnol ar Lywodraeth Cymru pan mae'n dod i ddatgan barn ar geisiadau cynllunio, ac na fyddai'n briodol i swyddogion nac Aelodau o Lywodraeth Cymru geisio dylanwadu ar hynny mewn unrhyw ffordd?

Minister, will you confirm, as the First Minister did yesterday, that Natural Resources Wales acts entirely independently of the Welsh Government when it comes to expressing views on planning applications, and that it would not be appropriate for officials or Members of the Welsh Government to bring influence to bear on that in any way?

14:10 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nid oes gennyf unrhyw beth i ychwanegu at yr hyn ddywedodd y Prif Weinidog ddoe.

I have nothing to add to the words of the First Minister yesterday.

## Lles Anifeiliaid

## Animal Welfare

14:11 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*12. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella lles anifeiliaid yng Nghwm Cynon? OAQ(4)0054(NRF)*

*12. What is the Welsh Government doing to improve animal welfare in the Cynon Valley? OAQ(4)0054(NRF)*

14:11 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am committed to raising the standards of animal welfare for all animals kept in Wales. Local authorities are responsible for the enforcement of animal welfare policy in Wales.

Rwyf wedi ymrwymo i godi safonau lles anifeiliaid ar gyfer yr holl anifeiliaid a gedwir yng Nghymru. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am orfodi polisi lles anifeiliaid yng Nghymru.

14:11 **Christine Chapman** [Bywgraffiad] [Biography] — Senedd.tv [Fideo] [Video]

I recently dealt with a case where a constituent who needed hospitalisation could potentially have been unable to receive treatment, as she had no-one to look after her pets and could not afford to pay for a cattery. Luckily, the Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals was able to provide help. Minister, do you agree with me that this sort of stress can have an impact on wellbeing? What discussions have you had with Government colleagues to ensure that services take a holistic person-centred approach that is sympathetic to these concerns?

Yn ddiweddar, deliais ag achos lle na fyddai etholwr, o bosibl, wedi gallu cael triniaeth mewn ysbyty am nad oedd ganddi neb i ofalu am ei hanifeiliaid anwes ac am na allai fforddio talu am gathdy. Yn ffodus, roedd y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid yn gallu darparu cymorth. Weinidog, a ydych yn cytuno â mi y gall y math hwn o straen gael effaith ar les? Pa drafodaethau a gawsoch gyda chyd-Aelodau yn y Llywodraeth er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn mabwysiadu dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar y person sy'n ystyriol o'r pryderon hyn?

14:11 **Alun Davies** [Bywgraffiad] [Biography] — Senedd.tv [Fideo] [Video]

I am aware of the work that the RSPCA does in these matters and I think that we all have a reason to thank it and congratulate it on that work at different times, on different occasions. I have not had any discussions of the sort to which the Member refers, but I am more than happy to discuss these matters with Government colleagues and others when the need arises.

Rwy'n ymwybodol o'r gwaith y mae'r RSPCA yn ei wneud ar y materion hyn a chredaf fod gan bob un ohonom reswm dros ddiolch iddi a'i llongyfarch ar y gwaith hwnnw ar adegau gwahanol, ar achlysuron gwahanol. Ni chefais unrhyw drafodaethau o'r fath y mae'r Aelod yn cyfeirio atynt, ond rwy'n fwy na hapus i drafod y materion hyn â chyd-Aelodau yn y Llywodraeth ac eraill pan fydd yr angen yn codi.

## Lleihau Tlodi Tanwydd

## Reducing Fuel Poverty

14:12 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad] [Biography] — Senedd.tv [Fideo] [Video]

*13. A wnaiff y Gweinidog amlinellu cymorth Llywodraeth Cymru i gynorthwyo effeithlonrwydd ynni a lleihau tlodi tanwydd? OAQ(4)0063(NRF)*

*13. Will the Minister outline Welsh Government support to aid energy efficiency and reduce fuel poverty? OAQ(4)0063(NRF)*

14:12 **Alun Davies** [Bywgraffiad] [Biography] — Senedd.tv [Fideo] [Video]

Our Nest and Arbed schemes have improved the energy efficiency of over 20,000 homes, helping householders who are most at risk of fuel poverty to save money on their fuel bills and buffer them against the effects of future energy price increases.

Mae ein cynlluniau Nest ac Arbed wedi gwella effeithlonrwydd ynni mewn dros 20,000 o gartrefi, gan helpu deiliaid tai sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi tanwydd i arbed arian ar eu biliau tanwydd a'u diogelu rhag effeithiau cynnydd mewn prisiau ynni yn y dyfodol.

14:12 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad] [Biography] — Senedd.tv [Fideo] [Video]

You have previously indicated that you want to ensure that those schemes that you mention—Welsh Government schemes—do not replicate UK Government schemes. So, what measures are you putting in place to ensure that they complement rather than duplicate each other, and to mitigate against the risk of scams, which we heard about at an event at lunchtime today?

Rydych eisoes wedi awgrymu eich bod am sicrhau nad yw'r cynlluniau hynny rydych yn eu crybwyll—cynlluniau Llywodraeth Cymru—yn disodli cynlluniau Llywodraeth y DU. Felly, pa fesurau rydych yn eu rhoi ar waith i sicrhau eu bod yn ategu yn hytrach na dyblygu ei gilydd, a llesteirio'r risg o sgamiau, y clywsom amdanynt mewn digwyddiad amser cinio heddiw?

14:12 **Alun Davies** [Bywgraffiad] [Biography] — Senedd.tv [Fideo] [Video]

I hope that the schemes that we have in place dovetail well with other schemes that are available from the United Kingdom Government. We will soon be looking at how we fold any of our existing schemes into a new European funding period, and at that time, I will be more than happy to consider any of the matters that the Member wishes to raise.

Gobeithio y bydd y cynlluniau sydd gennym ar waith yn asio'n dda â chynlluniau eraill sydd ar gael gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Cyn bo hir, byddwn yn edrych ar sut rydym yn plethu unrhyw un o'n cynlluniau presennol â chyfnod cyllido Ewropeaidd newydd, a phryd hynny, byddaf yn fwy na pharod i ystyried unrhyw rai o'r materion y mae'r Aelod yn dymuno eu codi.

## Mwy o Amddiffyniad Rhag Llifogydd

## Increased Flood Protection

14:13 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

*14. Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran darparu mwy o amddiffyniad rhag llifogydd mewn ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan lifogydd y llynedd? OAQ(4)0061(NRF)*

*14. What progress has been made in providing increased flood protection in areas affected by floods last year? OAQ(4)0061(NRF)*

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Mae llawer iawn wedi'i gyflawni o safbwynt rheoli'r risg llifogydd yng Ngheredigion a sir Ddinbych. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau ychwanegol ar gyfer rhybuddio ynghylch llifogydd a gwaith ar reoli afonydd. Bydd cyllid yn parhau i gael ei neilltuo yn unol â'r risg a ragwelir, fel y nodir yn y strategaeth genedlaethol.

A great deal of progress has been made in respect of flood risk management in both Ceredigion and Denbighshire. This includes additional flood warning services and river management works. Funding will continue to be allocated on a risk-based approach, as set out in the national strategy.

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Diolch am y diweddariad, Weinidog. Yng nghyd-destun y llifogydd yng Ngheredigion y llynedd, nid oes unrhyw waith sylweddol o amddiffyniad rhag llifogydd wedi ei gyflawni ers hynny. Mae hwn yn gallu bod yn broblem ar gyfer tai a gafodd lifogydd wrth iddynt drafod cost insiwrans gyda'r cwmnïau insiwrans sy'n gofyn am amlinelliad o'r gwaith sydd wedi cael ei gyflawni gan awdurdodau.

Thank you for that update, Minister. In the context of the floods in Ceredigion last year, no significant flood defence works have been completed since then. This can be a problem for those houses that were flooded as they discuss insurance costs with the insurance companies that ask for an outline of the work that has been completed by the authorities.

A allwch chi fod yn fwy penodol a rhyddhau, ar gyfer y tai hynny a gafodd lifogydd, raglen y byddwch chi fel Llywodraeth, y cyngor sir ac Asiantaeth yr Amgylchedd gynt—nid wyf yn gallu cofio'i enw; ie, Cyfoeth Naturiol Cymru—yn bwriadu ymgymryd â hi yn yr ardaloedd hynny dros y blynyddoedd nesaf, fel bod y tai hyn yn gallu defnyddio rhaglen o'r fath wrth drafod cost insiwrans?

Could you be slightly more specific and release, for those houses that suffered floods, the programme that you as a Government, the local authority and the former Environment Agency—I cannot remember its name; yes, Natural Resources Wales—intend to undertake in those areas in the ensuing years, so that those houses can use such a programme when discussing insurance costs?

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Rwy'n hapus iawn i wneud hynny.

I am very happy to do that.

Senedd.tv Fideo Video

## Datblygiadau Ffermydd Gwynt ar y Tir

## Onshore Windfarm Developments

14:14 **Russell George** Bywgraffiad Biography

*15. Pa asesiadau effaith y mae Llywodraeth Cymru wedi eu gwneud ar yr effaith y mae datblygiadau ffermydd gwynt ar y tir yn ei chael ar gymunedau lleol yng Nghymru? OAQ(4)0057(NRF)*

*15. What impact assessments has the Welsh Government made on the effects that onshore wind farm developments have on local communities in Wales? OAQ(4)0057(NRF)*

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

The various impacts of energy projects are assessed as part of our planning process. The Welsh Government has commissioned a study to look at the potential economic impacts of windfarms and the associated infrastructure on the Welsh tourism sector. Results are expected towards the end of the year.

Mae gwahanol effeithiau prosiectau ynni yn cael eu hasesu fel rhan o'n proses gynllunio. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu astudiaeth i edrych ar effeithiau economaidd posibl ffermydd gwynt a'r isadeiledd cysylltiedig ar sector twristiaeth Cymru. Disgwylir canlyniadau tuag at ddiwedd y flwyddyn.

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. I was interested in the First Minister's remarks on this issue yesterday. To me, it is clear that any community benefit that a developer puts on the table is outweighed by the long-term cumulative impacts that a windfarm development will have on individuals within that community. Therefore, what community impact assessments have been developed in relation to Government energy planning policy?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Roedd gennyf ddiddordeb yn sylwadau'r Prif Weinidog ar y mater hwn ddoe. I mi, mae'n amlwg y bydd yr effeithiau cronnol hirdymor a gaiff datblygiad fferm wynt ar unigolion mewn cymuned yn drech nag unrhyw fudd cymunedol a gynigir gan ddatblygwr. Felly, pa asesiadau effaith ar y gymuned a ddatblygwyd mewn perthynas â pholisi cynllunio ynni'r Llywodraeth?

14:15 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that we understand that a great many impact assessments have been commissioned and have been delivered over the last few years. I have to say that my view reflects that of the First Minister, as you would expect, and that I have nothing further to add to what he said yesterday.

Credaf ein bod yn deall fod llawer iawn o asesiadau effaith wedi cael eu comisiynu a'u cyflawni dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Rhaid imi ddweud bod fy marn yn adlewyrchu barn y Prif Weinidog, fel y byddech yn ei ddisgwyl, ac nad oes gennyf ddim pellach i'w ychwanegu at yr hyn a ddywedodd ddoe.

14:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio

## Questions to the Minister for Housing and Regeneration

### Nodyn Cyngor Technegol 20

### TAN 20

14:16 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â'r amserlen ar gyfer cyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol 20 diwygiedig? OAQ(4)0304(HR)*

*1. Will the Minister make a statement on the timescale for publishing the revised TAN 20? OAQ(4)0304(HR)*

14:16 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration*

Today.

Heddiw.

14:16 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you wish to ask a supplementary question?

A ydych yn dymuno gofyn cwestiwn atodol?

14:16 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wel, nid ydym wedi cael y nodyn hwnnw, er bod y cwestiwn wedi cael ei osod mewn amser i chi wneud hynny. Y cwestiwn sydd gennyf yw: mae wedi cymryd dwy flynedd a hanner i'r Llywodraeth hon wneud dim byd, felly pam ei fod wedi cymryd cymaint o amser? Os yw'r comisiynydd iaith yn mynd i fod yn rhan o'r broses gyda'r nodyn technegol newydd, a fydd gan y comisiynydd iaith hawl i ddweud wrth awdurdodau lleol a'u cyfeirio'n benodol i ymddwyn mewn ffordd arbennig, ynteu ai dim ond rôl ymgynghorol a fydd gan y comisiynydd?

Well, we have not received that note, although the question was laid in time for you to do that. My question is this: it has taken two and a half years for this Government to do nothing, so why has it taken so long? If the language commissioner is to be part of the process with the new technical advice note, will the language commissioner have the right to tell local authorities and direct them to act in a particular manner, or will the commissioner only have a consultative role?

14:16 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, I am grateful for the positive comments that the Member gave then in terms of the release of TAN 20 today. He may wish to read through the TAN 20 document and then write to me if he has any further questions surrounding that document.

Wrth gwrs, rwy'n ddiolchgar am y sylwadau cadarnhaol a wnaeth yr Aelod bryd hynny o ran rhyddhau TAN 20 heddiw. Efallai y byddai'n dymuno darllen drwy ddogfen TAN 20 ac yna ysgrifennu ataf os oes ganddo unrhyw gwestiynau pellach ynghylch y ddogfen honno.

14:17 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, as we have not yet had the opportunity to see the TAN 20 document, but will do so today, perhaps you could tell me how that fits in with the Welsh language strategy for 2012 to 2017 and the action plan of 2013-14, particularly in light of the fact that the percentage of the population speaking Welsh in 2001 was 24.7%, and, by 2011, had fallen to 23.3%?

Weinidog, gan nad ydym wedi cael cyfle i weld dogfen TAN 20 eto, ond byddwn yn gwneud hynny heddiw, efallai y gallech ddweud wrthyf sut mae'n cyd-fynd â'r strategaeth iaith Gymraeg ar gyfer 2012-2017 a chynllun gweithredu 2013-14, yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith bod canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg wedi gostwng o 24.7% yn 2001 i 23.3% erbyn 2011?

14:17 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am really grateful for the question from the Member today. We took time to look at and assess how TAN 20 will influence planning decisions and the plan-making process. The First Minister held events through the summer to give us more clarification on how we could develop and release TAN 20. Today is the day on which we have released this document, which I hope will receive positive contributions from all communities across Wales.

Rwy'n ddiolchgar iawn am gwestiwn yr Aelod heddiw. Gwnaethom dreulio amser yn ystyried ac yn asesu sut y bydd TAN 20 yn dylanwadu ar benderfyniadau cynllunio a'r broses o greu cynlluniau. Cynhaliodd y Prif Weinidog ddigwyddiadau drwy'r haf i roi mwy o eglurder inni o ran sut y gallem ddatblygu a rhyddhau TAN 20. Rydym wedi rhyddhau'r ddogfen hon heddiw, ac rwy'n gobeithio y ceir cyfraniadau cadarnhaol yn ei chylch gan bob cymuned ledled Cymru.

14:18 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf newydd ddarllen y datganiad yn sydyn iawn—cafodd ei yrru tua hanner munud yn ôl. A gaf i ddiolch i chi o leiaf am gyhoeddi'r ddogfen, ond a gaf i hefyd ofyn beth yn union sy'n mynd i ddigwydd o ran y cynlluniau lleol hynny lle nad yw'r cyngor wedi cydymffurfio â gofynion newydd TAN 20?

I have just read the statement very quickly—it was issued about half a minute ago. May I thank you at least for publishing the document, but may I also ask what exactly is going to happen from the point of view of those local plans where a council has not conformed with the new requirements of TAN 20?

14:18 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The local development plan process is very clear on this. I expect that any new LDPs will have to take consideration of TAN 20 and, in the process of renewing their plans through the LDP renewal process, councils will have to take this into consideration in future.

Mae'r broses o lunio cynllun datblygu lleol yn glir iawn yn hyn o beth. Disgwyliaf y bydd yn rhaid i unrhyw CDLlau newydd ystyried TAN 20 ac, wrth adnewyddu eu cynlluniau drwy broses adnewyddu CDLl, y bydd yn rhaid i gynghorau ystyried hyn yn y dyfodol.

### Adfywio

### Regeneration

14:19 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynorthwyo adfywio trefi yng Nghymru? OAQ(4)0293(HR)*

*2. Will the Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to support the regeneration of towns in Wales? OAQ(4)0293(HR)*

14:19 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Preseli Pembrokeshire. Our 'Vibrant and Viable Places' framework sets out how we will continue to support regeneration across Wales. One of the main aims of the £90 million programme is the revitalisation of town centres.

Diolch i'r Aelod dros Breseli Sir Benfro. Mae ein fframwaith 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' yn nodi sut y byddwn yn parhau i gefnogi gwaith adfywio ledled Cymru. Un o brif nodau'r rhaglen £90 miliwn yw adfywio canol trefi.

14:19 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the Minister for that answer, but he will already know that Pembrokeshire has not been selected to proceed to stage 2 of the 'Vibrant and Viable Places' regeneration process and that it is now one of only four local authorities in Wales not to be considered for regeneration funding from the Welsh Government. Can you tell us, therefore, Minister, what specific funding is in place to help regenerate town centres and coastal communities in my constituency that have not been selected for stage 2 of the 'Vibrant and Viable Places' process?

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw, ond bydd eisoes yn gwybod nad yw Sir Benfro wedi'i ddewis i fynd ymlaen i gam 2 o broses adfywio 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' a'i fod bellach yn un o ddim ond pedwar awdurdod lleol yng Nghymru nad ydynt wedi'u hystyried ar gyfer cyllid adfywio gan Lywodraeth Cymru. A allwch ddweud wrthym, felly, Weinidog, pa gyllid penodol sydd ar waith i helpu i adfywio canol trefi a chymunedau arfordirol yn fy etholaeth nad ydynt wedi'u dewis ar gyfer cam 2 proses 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid'?

14:19 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, the Member is correct in terms of the 'Vibrant and Viable Places' process, where there is a competitive bidding round for 22 local authorities to provide a successful business case. Pembrokeshire is not the only one that was not successful. This is only one part of the regeneration portfolio. Town centres are a priority for my department and a cross-cutting theme throughout the Government, working with the Minister for Economy, Science and Transport in terms of investment in our town centres. It is still a priority for us.

Wrth gwrs, mae'r Aelod yn gywir o ran proses 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid', sy'n cynnwys cylch ceisiadau cystadleuol i 22 o awdurdodau lleol ddarparu achos busnes llwyddiannus. Nid Sir Benfro yw'r unig un na fu'n llwyddiannus. Dim ond un rhan o'r portffolio adfywio yw hon. Mae canol trefi yn flaenoriaeth i'm hadran ac yn thema drawsbynciol drwy'r Llywodraeth, gan weithio gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth o ran buddsoddi yng nghanol ein trefi. Mae'n flaenoriaeth inni o hyd.

14:20 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, there is some concern surrounding the south-east Wales city region plans and the possible impact that its implementation will have on town and commercial centres throughout the region, particularly as one of the key aims of the strategy will be to increase and improve connectivity to the major hubs within the south-east Wales area. How will you ensure that a city-region approach does not hinder the regeneration efforts of smaller towns and villages throughout the region?

Weinidog, mae peth pryder ynghylch cynlluniau dinas-ranbarthau'r de-ddwyrain a'r effaith bosibl y bydd eu gweithredu yn ei chael ar ganol trefi a chanolfannau masnachol drwy'r rhanbarth, yn enwedig gan mai gwella cysylltedd â'r prif ganolfannau yn ardal y de-ddwyrain fydd un o nodau allweddol y strategaeth. Sut y byddwch yn sicrhau nad yw dull gweithredu dinas-ranbarth yn llesteirio ymdrechion adfywio trefi llai a phentrefi drwy'r rhanbarth?

14:20 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is a fair question from the Member in terms of balancing activity across local areas and the strategic vision of a city region. That is something on which, again, I am very working closely with the Minister for Economy, Science and Transport to ensure that the planning process at a strategic level has a limited impact, if any, on the smaller town centres where we are seeking to regenerate through funds such as 'Vibrant and Viable Places' whereby we make investment from the Welsh Government.

Mae hwnnw'n gwestiwn teg gan yr Aelod o ran cydbwyso gweithgarwch ar draws ardaloedd lleol a gweledigaeth strategol dinas-ranbarth. Mae hynny'n rhywbeth yr wyf i, unwaith eto, yn gweithio'n agos iawn gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn ei gylch i sicrhau mai effaith fach a gaiff y broses gynllunio ar lefel strategol, os o gwbl, ar ganol trefi llai lle rydym yn ceisio adfywio drwy gronfeydd megis 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' lle rydym yn buddsoddi arian gan Lywodraeth Cymru.

14:21 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call William Powell.

Galwaf ar William Powell.

14:21 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i chi eto, Ddirprwy Lywydd.

Thank you again, Deputy Presiding Officer.

One important area of policy that brings together the two halves of your portfolio is encouraging the reinstatement of residential use of redundant space above town-centre shops. With the regeneration benefits that would also flow from such an initiative, would you consider promoting a pilot project, perhaps involving one of the retailers of some scale in Wales with a social ethos, such as the Co-operative group or Boots, to actually showcase best practice in this area?

Un maes polisi pwysig sy'n dwyn ynghyd ddwy ran eich portffolio yw annog camau i adfer mannau gwag uwchben siopau canol trefi at ddefnydd preswyl. Gyda'r manteision a fyddai'n deillio o fenter o'r fath o safbwynt adfywio, a fyddech yn ystyried hyrwyddo prosiect peilot, o bosibl yn cynnwys un o'r prif fanwerthwyr yng Nghymru ag ethos cymdeithasol, megis y Co-operative group neu Boots, i arddangos arfer gorau yn y maes hwn?

14:22 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that I actually know the area that the Member is referring to implicitly. I would be pleased to investigate further, if the Member wishes to write to me with the detail of any such scheme, to see whether there is an opportunity to introduce more homes across our communities in Wales, wherever they are.

Credaf fy mod yn gyfarwydd â'r ardal y mae'r Aelod yn cyfeirio ati'n benodol. Byddwn yn falch o ymchwilio ymhellach, os byddai'r Aelod yn dymuno ysgrifennu ataf gyda manylion unrhyw gynllun o'r fath, i weld a oes cyfle i gyflwyno mwy o gartrefi yn ein cymunedau yng Nghymru, ble bynnag y bônt.

### Strategaeth Tai Llywodraeth Cymru

### Welsh Government's Housing Strategy

14:22 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed o ran gweithredu strategaeth tai Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0306(HR)*

*3. Will the Minister make a statement on progress in implementing the Welsh Government's housing strategy? OAQ(4)0306(HR)*

14:22 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are making very good progress on our strategic priorities of more homes, better homes, and better housing services. The housing Bill will be introduced shortly.

Rydym yn gwneud cynnydd da iawn o ran ein blaenoriaethau strategol i sicrhau mwy o gartrefi, cartrefi gwell, a gwasanaethau tai gwell. Caiff y Bil tai ei gyflwyno yn fuan.

14:22 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. Obviously, appropriate housing tenancy rights are important for wellbeing, health and security. Will you prioritise the need to develop statutory minimum rights in tenancy agreements, and when can we expect to see the legislation, or would you be flaky enough to publish it while I am asking this question? [Laughter.]

Diolch, Weinidog. Yn amlwg, mae hawliau tenantiaeth tai priodol yn bwysig o ran lles, iechyd a diogelwch. A wnewch chi ddatblygu hawliau gofynnol statudol mewn cytundebau tenantiaeth fel mater o flaenoriaeth, a phryd y gallwn ddisgwyl gweld y ddeddfwriaeth, neu a fyddech mor ddi-ddal â'i chyhoeddi tra rwy'n gofyn y cwestiwn hwn? [Chwerthin.]

14:23 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have been called many things in the past, but flaky is not one of them. On the serious part of the Member's question, I will give it further consideration and, of course, will write to her with the detail.

Rwyf wedi cael fy ngalw'n sawl peth yn y gorffennol, ond nid yw di-ddal yn un ohonynt. O ddifrif, rhoddaf ystyriaeth bellach i gwestiwn yr aelod ac, wrth gwrs, byddaf yn ysgrifennu ati gyda'r manylion.

14:23 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Many home builders, in written evidence on the barriers to home building in Wales, complain about excessive building regulations, utilities costings and delays, planning system delays and excessive costings, and, in one instance, there is a reference to Ministers passing judgment on an industry that they do not understand. Minister, for 13 years your Welsh Government has failed to provide an adequate supply of homes. What are you doing now to overcome the barriers that I have mentioned and to really get behind the housing industry and support it?

Mae llawer o adeiladwyr cartrefi, mewn tystiolaeth ysgrifenedig ar y rhwystrau i adeiladu cartrefi yng Nghymru, yn cwyno am reoliadau adeiladu gormodol, costau cyfleustodau ac oedi, oedi o ran y system gynllunio a chostau gormodol, ac, mewn un achos, cyfeirir at Weinidogion yn lleisio barn ar ddiwydiant nad ydynt yn ei ddeall. Weinidog, am 13 blynedd mae Llywodraeth Cymru wedi methu â darparu digon o gartrefi. Beth rydych chi'n ei wneud nawr i oresgyn y rhwystrau y soniais amdanynt a chefnogi'r diwydiant tai o ddifrif?

14:23 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for her question. I have been in post in the Welsh Government for six months. I have established a working group to look at the barriers to home building, I have met with individual businesses, and we are looking at how we can enable them better to create an environment in Wales that is positive for the construction industry. However, I must say to the Member that it does not help the situation when you are consistently talking down Wales. Actually, Wales is a great place in which to do business, and a great place in which to build homes.

Diolchaf i'r Aelod am ei chwestiwn. Rwyf wedi bod yn y swydd yn Llywodraeth Cymru am chwe mis. Rwyf wedi sefydlu gweithgor i ystyried y rhwystrau i adeiladu cartrefi, rwyf wedi cyfarfod â busnesau unigol, ac rydym yn ystyried sut y gallwn eu galluogi'n well i greu amgylchedd yng Nghymru sy'n gadarnhaol ar gyfer y diwydiant adeiladu. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud wrth yr Aelod nad yw'n helpu'r sefyllfa pan fyddwch yn bychanu Cymru yn gyson. A dweud y gwir, mae Cymru yn lle gwych i wneud busnes, ac yn lle gwych i adeiladu cartrefi.

Senedd.tv
Fideo Video

14:24 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Following the imposition of the bedroom tax, what progress is being made in providing more one and two-bedroomed social housing?

Yn dilyn cyflwyno'r dreth ystafell wely, pa gynnydd sy'n cael ei wneud o ran darparu mwy o dai cymdeithasol un ystafell wely a dwy ystafell wely?

Senedd.tv
Fideo Video

14:24 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

The Member will be aware of the £20 million that we have invested into one and two-bedroomed properties, which was announced by the Minister for Finance only last month. The reality of the bedroom tax is having a massive effect on communities across Wales. In order to meet the needs of the rushed bedroom tax in Wales we would need around £2 billion to create the amount of properties needed to secure tenancies for individuals.

Bydd yr Aelod yn ymwybodol o'r £20 miliwn rydym wedi ei fuddsoddi mewn eiddo un ystafell wely a dwy ystafell wely, a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyllid fis diwethaf. Mae'r dreth ystafell wely yn cael effaith enfawr ar gymunedau ledled Cymru. Er mwyn diwallu anghenion y dreth ystafell wely a gyflwynwyd yn frysiog yng Nghymru, byddai angen tua £2 biliwn arnom i greu digon o eiddo i sicrhau tenantiaethau i unigolion.

Senedd.tv
Fideo Video

14:25 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Minister, I very much welcome the announcement of the £174.5 million for the Help to Buy Cymru scheme, making good use of the Barnett consequential passed down to you in respect of financial transactions. Could you therefore give us a date as to when people can apply for the scheme? I have just checked my e-mails to make sure that you had not e-mailed that information to me before I stood up.

Weinidog, croesawaf y cyhoeddiad hwn o £174.5 miliwn ar gyfer cynllun Cymorth i Brynu Cymru yn fawr, ac mae'n gwneud defnydd da o arian canlyniadol Barnett a drosglwyddwyd ichi mewn perthynas â thrafodion ariannol. A allech felly roi dyddiad inni o ran pryd y gall pobl wneud cais am y cynllun? Rwyf newydd fwrw golwg dros fy negeseuon e-bost i wneud yn siŵr nad oeddech wedi e-bostio'r wybodaeth honno cyn imi sefyll.

Senedd.tv
Fideo Video

14:25 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

It is ironic that you cannot do right for doing wrong when you issue guidance; it is the wrong time, no matter what Members may wish or may not wish. I am surprised that the opposition benches are not welcoming TAN 20, to which I made reference earlier. However, Peter Black's question is extremely important. He will be aware that there are two elements to the UK scheme. That partially applies to Wales already. The part around the shared equity element is what we are developing in a scheme. I hope to be able to launch that prior to Christmas, but I cannot give a specific date.

Mae'n eironig na allwch wneud dim yn iawn wrth gyflwyno canllawiau; mae'n adeg anghywir, ni waeth beth fo dymuniadau'r Aelodau. Synnaf nad yw meinciau'r wrthblaid yn croesawu TAN 20, y cyfeiriais ato yn gynharach. Fodd bynnag, mae cwestiwn Peter Black yn hynod bwysig. Bydd yn ymwybodol bod dwy elfen i gynllun y DU. Mae hynny'n rhannol gymwys i Gymru eisoes. Yr hyn rydym yn ei ddatblygu mewn cynllun yw'r elfen ecwiti a rennir. Gobeithiaf y gallwn ei lansio cyn y Nadolig, ond ni allaf roi dyddiad penodol ichi.

Senedd.tv
Fideo Video

14:26 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Thank you for that, Minister. I was not aware of the developments, which was going to be the subject of my second question. You have now said that you are going to launch the shared equity scheme before Christmas. When will applications be open for the mortgage guarantee scheme that the UK Government has launched and that can apply in Wales, if you are prepared to accept it?

Diolch am hynny, Weinidog. Nid oeddwn yn ymwybodol o'r datblygiadau, a dyna oedd testun fy nghwestiwn nesaf. Rydych bellach wedi dweud y byddwch yn lansio'r cynllun ecwiti a rennir cyn y Nadolig. Pryd bydd y cylch ceisiadau ar agor ar gyfer y cynllun gwarant morgais a lansiwyd gan Lywodraeth y DU ac y gellir ei gymhwyso i Gymru, os ydych yn barod i'w dderbyn?

Senedd.tv
Fideo Video

14:26 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The scheme was launched last week by the UK Government. It was advanced by three months. My understanding is that we are still waiting for some further detail from the UK Government on that, but I believe that the application process does apply and is the same in England as in Wales.

Lansiwyd y cynllun yr wythnos diwethaf gan Lywodraeth y DU, a hynny dri mis yn gynnar. Deallaf ein bod yn dal i aros am rai manylion pellach gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â hynny, ond credaf fod y broses gwneud cais yn gymwys ac yr un fath yng Nghymru ag yn Lloegr.

### Mynd i'r Afael â Digartrefedd

### Combat Homelessness

14:26 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â digartrefedd? OAQ(4)0301(HR)*

*4. Will the Minister outline what the Welsh Government is doing to combat homelessness? OAQ(4)0301(HR)*

**Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

*5. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â digartrefedd? OAQ(4)0300(HR)*

*5. What plans does the Welsh Government have to tackle homelessness? OAQ(4)0300(HR)*

14:26 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for the Vale of Clwyd for her question, and I thank the Deputy Presiding Officer for allowing these questions to be grouped together. This autumn, I will introduce a housing Bill, including measures to strengthen the prevention of homelessness. I will support the legislation with targeted funding and guidance to address the cause of homelessness, as set out in our 10-year homelessness strategy.

Diolch i'r Aelod dros Ddyffryn Clwyd am ei chwestiwn, a diolch i'r Dirprwy Lywydd am ganiatáu i'r cwestiynau hyn gael eu gofyn gyda'i gilydd. Yr hydref hwn, byddaf yn cyflwyno Bil tai, gan gynnwys mesurau i atgyfnerthu'r gwaith o atal digartrefedd. Byddaf yn cefnogi'r ddeddfwriaeth gyda chyllid a chanllawiau wedi'u targedu i fynd i'r afael ag achosion digartrefedd, fel y'u nodir yn ein strategaeth 10 mlynedd ar ddigartrefedd.

14:27 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thanks very much for that, Minister. Previously, your predecessor, Huw Lewis, made £1.4 million available to local authorities for projects aimed at tackling homelessness as a result of the UK Government's changes to housing benefit. It is not very often that you hear me say that Denbighshire County Council has done something good, but Denbighshire County Council has had a dedicated post from this fund, the holder of which goes to talk to families who are facing debt because of the effect that the bedroom tax will have on them. It is looking very much at keeping families within their homes. We all know that funding is tight. Do you have any plans to look at best practice from this £1.4 million funding and to share it with Members across the Chamber? Also, do you intend to make any additional support, such as that used by Denbighshire, available to local authorities to help them tackle homelessness in the future?

Diolch yn fawr am hynny, Weinidog. Yn flaenorol, dyrannodd eich rhagflaenydd, Huw Lewis, £1.4 miliwn i awdurdodau lleol ar gyfer prosiectau oedd â'r nod o fynd i'r afael â digartrefedd o ganlyniad i newidiadau Llywodraeth y DU i fudd-dal tai. Nid yn aml iawn y byddwch yn fy nghlywed yn dweud bod Cyngor Sir Ddinbych wedi gwneud rhywbeth da, ond mae Cyngor Sir Ddinbych wedi creu swydd benodol gan ddefnyddio'r arian hwn, ac mae deiliad y swydd honno'n mynd i siarad â theuluoedd sy'n wynebu dyledion oherwydd yr effaith y bydd y dreth ystafell wely yn ei chael arnynt. Mae'n gwneud ymdrech fawr i gadw teuluoedd yn eu cartrefi. Gwyddom i gyd fod arian yn brin. A oes gennych unrhyw gynlluniau i ystyried arfer gorau o'r £1.4 miliwn hwn a'i rannu ag Aelodau yn y Siambr? Hefyd, a ydych yn bwriadu rhoi unrhyw gefnogaeth ychwanegol, fel yr hyn a welwyd yn Sir Ddinbych, i awdurdodau lleol i'w helpu i fynd i'r afael â digartrefedd yn y dyfodol?

14:28 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for highlighting the good work that the 22 authorities across Wales are doing to mitigate the effects of the bedroom tax. There has been a partnership approach to advice services, et cetera, but the Member will also be aware of the £1.7 billion reduction from the UK Government to Welsh budgets, which has a consequence on our ability to support and to mitigate actions from the UK. However, we are in the process of providing £750,000 of support to mitigate the work around housing benefit, predominantly delivered by local authorities and the third sector. That is something that I am continuing to have discussions on to see how we can share best practice across Wales from model authorities that have been doing some very good work on this.

Diolch i'r Aelod am dynnu sylw at y gwaith da y mae'r 22 o awdurdodau ledled Cymru yn ei wneud i liniaru effeithiau'r dreth ystafell wely. Gwelwyd gwasanaethau cynghori, ac ati, yn gweithio mewn partneriaeth, ond bydd yr Aelod hefyd yn ymwybodol o'r lleihad o £1.7 biliwn gan Lywodraeth y DU yng nghyllidebau Cymru, sy'n effeithio ar ein gallu i gefnogi a lliniaru camau gweithredu gan y DU. Fodd bynnag, rydym wrthi'n dyrannu £750,000 i liniaru'r gwaith sy'n ymwneud â budd-dal tai, a gyflwynir yn bennaf gan awdurdodau lleol a'r trydydd sector. Mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn parhau i'w drafod er mwyn gweld sut y gallwn rannu arfer gorau ledled Cymru gan awdurdodau enghreifftiol sydd wedi bod yn gwneud gwaith da iawn yn hyn o beth.

14:28 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

What can the Minister do to help tenants who, because of the bedroom tax, may be forced out of long-term social housing tenancies into the insecurity of short-term tenancies in the private sector, with the increased risk of homelessness and all of the stress that goes with that?

Beth gall y Gweinidog ei wneud i helpu tenantiaid a all, oherwydd y dreth ystafell wely, gael eu gorfodi i symud o denantiaethau tai cymdeithasol hirdymor i ansicrwydd tenantiaethau byrdymor yn y sector preifat, gyda'r risg gynyddol o ddigartrefedd a'r holl straen sy'n gysylltiedig â hynny?

14:29 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member raises a very important point that is pertinent to all of our constituencies. Let me tell you that my answer is not the David Davies answer, which is to send them to London or somewhere else. The answer for us is how we enable the building and construction of properties with fewer bedrooms, such as the £20 million investment that we have made in creating opportunities for people to have smaller accommodation. However, let us be very clear: this Government is opposed to the bedroom tax, and it is about time that the UK Government listened to the people of Wales and the UK.

Mae'r Aelod yn gwneud pwynt pwysig iawn sy'n berthnasol i bob un o'n hetholaethau. Gadewch imi ddweud wrthych nad wyf yn cytuno ag ateb David Davies, sef y dylid eu hanfon i Lundain neu rywle arall. Yr ateb inni yw sut y gallwn alluogi'r gwaith o adeiladu cartrefi â llai o ystafelloedd gwely, megis y buddsoddiad £20 miliwn a wnaed gennym i greu cyfleoedd i bobl gael cartrefi llai. Fodd bynnag, gadewch inni fod yn glir iawn: mae'r Llywodraeth hon yn gwrthwynebu'r dreth ystafell wely, ac mae'n hen bryd i Lywodraeth y DU wrando ar bobl Cymru a'r DU.

14:29 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, 91,000 people are on the waiting list for social housing. In the first quarter of this financial year, the decrease in completion of private sector house building was7%, and the decrease in completion for housing under registered social landlords fell by 30%. In addition, in the most recent financial year, 426 houses, which were socially rented, were transferred to the private sector. I welcome your—

Weinidog, mae 91,000 o bobl ar y rhestr aros am dai cymdeithasol. Yn chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol hon, gwelwyd gostyngiad o 7% yn nifer y prosiectau adeiladu tai sector preifat a gwblhawyd, a gwelwyd gostyngiad o 30% yn nifer y tai a gwblhawyd gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. At hynny, yn y flwyddyn ariannol ddiweddaraf, cafodd 426 o dai rhent cymdeithasol eu trosglwyddo i'r sector preifat. Croesawaf eich—

14:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You must ask a question.

Rhaid ichi ofyn cwestiwn.

14:30 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome your £20 million to build 1,000 social homes over the next 30 years, but do you think that that target is ambitious enough?

Croesawaf eich £20 miliwn i adeiladu 1,000 o gartrefi cymdeithasol dros y 30 mlynedd nesaf, ond a ydych yn credu bod y targed hwnnw yn ddigon uchelgeisiol?

14:30 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

When I came into post six months ago, I told my team that the 7,500 homes that we had in our manifesto commitment was ambitious, but not ambitious enough, due to the consequences of what is happening in the UK. Let me be clear to colleagues this afternoon: I will take no lessons off the opposition benches in terms of home building, and protecting our most vulnerable. The people in the public gallery here today understand who is making the cuts in Wales—it is the Conservative and Liberal Democrat coalition in the UK.

Pan ddechreuais yn fy swydd chwe mis yn ôl, dywedais wrth fy nhîm fod y 7,500 o gartrefi a nodwyd yn ein hymrwymiad maniffesto yn uchelgeisiol, ond nid yn ddigon uchelgeisiol, yn sgil yr hyn sy'n digwydd yn y DU. Gadewch imi ddweud yn glir wrth fy nghyd-Aelodau y prynhawn yma: ni chymeraf unrhyw wersi gan feinciau'r gwrthbleidiau o ran adeiladu cartrefi, nac o ran amddiffyn y rhai sydd fwyaf agored i niwed. Mae'r bobl yn yr oriel gyhoeddus yma heddiw yn deall pwy sy'n gwneud y toriadau yng Nghymru—clymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn y DU sy'n gwneud hynny.

14:31 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, Minister, the bedroom tax is almost universally condemned here in Wales, and even that well-known softie David Davies, the MP for Monmouth, has been apologising for its impact. Will you undertake to publish the real costs of this ideological policy, and dispel any myth at all that it saves money?

Wrth gwrs, Weinidog, mae'r dreth ystafell wely wedi cael ei beirniadu gan bron pawb yma yng Nghymru, ac mae hyd yn oed David Davies, yr AS dros Fynwy, wedi bod yn ymddiheuro am ei heffaith. A wnewch chi ymrwymo i gyhoeddi costau gwirioneddol y polisi ideolegol hwn, a chwalu unrhyw fyth ei fod yn arbed arian?

14:31 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful for the Member's question. We are doing some work to look at profiles of impact on this. We have already seen some registered social landlords with debt increases on their books—between one in four and one in five of their tenants are now in debt, due to the bedroom tax. That is not an acceptable position, and the UK Government should reflect on its decisions.

Rwy'n ddiolchgar am gwestiwn yr Aelod. Rydym yn gwneud rhywfaint o waith i ystyried proffiliau effaith yn hyn o beth. Rydym eisoes wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl mewn dyled sy'n rhentu gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig—mae rhwng un o bob pedwar ac un o bob pump o'u tenantiaid bellach mewn dyled, a hynny oherwydd y dreth ystafell wely. Nid yw hynny'n sefyllfa dderbyniol, a dylai Llywodraeth y DU fyfyrio ar ei phenderfyniadau.

14:31 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. The policy is perverse, but it is just as perverse —to me, anyway—that we do not have a no-eviction policy here, when, clearly, tenants' ability to move is severely hampered once they are in arrears. Do you think that rent control might be a better and fairer way of controlling the housing benefit bill? Oh, I see that the opposition Members do not like that one—they do not like rent control. [Interruption.]

Diolch. Mae'r polisi'n wrthnysig, ond mae'r un mor wrthnysig—yn fy marn i, beth bynnag—nad oes gennym bolisi dim troi allan yma, pan fo tenantiaid, yn amlwg, yn ei chael hi'n anodd symud unwaith y byddant mewn ôl-ddyledion. A ydych yn credu y gallai rheoli rhenti fod yn ffordd well a thecach o reoli'r bil budd-dal tai? Gwelaf nad yw Aelodau'r wrthblaid yn hoffi'r cwestiwn hwnnw—nid ydynt yn hoffi'r syniad o reoli rhenti. [Torri ar draws.]

14:32 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It would be fair to say that the Conservative benches do not like many things that we suggest. I am sympathetic to the approach that the Members on these benches have with regard to the no-eviction policy. However, the practical elements in delivering that is that the debt does not go away, and it therefore has to be serviced by someone, whether that is the Welsh Government or another body. The issue around balancing the cost of the eviction versus the actual bedroom tax is something that we are looking at very closely, but what I cannot do is give instructions to RSLs, or to housing providers, that puts their financial model at risk at any stage.

Byddai'n deg dweud nad yw meinciau'r Ceidwadwyr yn hoffi llawer o'r pethau rydym yn eu hawgrymu. Cydymdeimlaf â dull gweithredu'r Aelodau ar y meinciau hyn o ran y polisi dim troi allan. Fodd bynnag, wrth gyflwyno'r polisi hwnnw, y gwir amdani yw nad yw'r ddyled yn diflannu, ac felly rhaid iddi gael ei thalu gan rywun, pa un ai gan Lywodraeth Cymru neu gorff arall. Rydym yn ystyried y mater sy'n ymwneud â chydbwyso cost troi allan â'r dreth ystafell wely yn ofalus iawn, ond ni allaf roi cyfarwyddiadau i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, nac i ddarparwyr tai, sy'n rhoi eu model ariannol mewn perygl ar unrhyw adeg.

14:33 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Minister, one thing that has created homelessness in rural areas, in particular, is the inaccessibility of housing. Under the last Government, the previous Minister for rural affairs brought forward a policy called technical advice note 6, to improve the flow of rural housing, especially for rural businesses. Has your new Government undertaken an assessment of how that policy has been implemented by planning authorities across Wales, and is it having the desired outcome of delivering more housing in rural areas to alleviate some of the homelessness issues that it was seeking to address?

Weinidog, un peth sydd wedi creu digartrefedd mewn ardaloedd gwledig, yn arbennig, yw diffyg hygyrchedd tai. O dan y Llywodraeth ddiwethaf, cyflwynodd y Gweinidog blaenorol dros faterion gwledig bolisi o'r enw nodyn cyngor technegol 6, er mwyn gwella llif tai gwledig, yn enwedig i fusnesau gwledig. A yw eich Llywodraeth newydd wedi cynnal asesiad o'r modd y mae'r polisi hwnnw wedi cael ei weithredu gan awdurdodau cynllunio ledled Cymru, ac a yw'n cael y canlyniad dymunol o ddarparu mwy o dai mewn ardaloedd gwledig i leddfu rhai o'r problemau digartrefedd yr oedd yn ceisio eu datrys?

14:33 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his question. TAN 6 and the rural housing enabler scheme that we have in place are developing more properties in Wales. I will write to the Member with the detail of the amount of homes that we have been able to service in rural communities, which he will have an interest in.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae TAN 6 a'r cynllun galluogi tai gwledig sydd ar waith yn datblygu mwy o eiddo yng Nghymru. Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod gyda manylion am niferoedd y cartrefi yr ydym wedi llwyddo i'w gwasanaethu mewn cymunedau gwledig, y bydd ganddo ddiddordeb ynddynt.

14:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 6, OAQ(4)0294(HR), has been withdrawn.

Tynnwyd cwestiwn 6, OAQ(4)0294(HR), yn ôl.

**Cyllid Preifat**

**Private Funding**

14:34 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. Faint o gyllid preifat sydd wedi'i godi yn sgîl trosglwyddiadau gwirfoddol unigol ar raddfa fawr ers 2007? OAQ(4)0296(HR)*

*7. How much private funding has been raised by individual large-scale voluntary transfers since 2007? OAQ(4)0296(HR)*

14:34 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the directly elected Member for the Rhondda for his question. Large-scale voluntary transfers have raised £868 million since 2007, and have drawn down £393 million to date.

Diolch i'r Aelod a etholwyd yn uniongyrchol ar gyfer y Rhondda am ei gwestiwn. Mae trosglwyddiadau gwirfoddol ar raddfa fawr wedi codi £868,000,000 ers 2007, ac wedi hawlio £393,000,000 hyd yma.

14:34 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, does that not illustrate that the Welsh Labour policy that has allowed community mutuals to be created in Wales has been a significant success? However, would you also agree with me that it is very important that the business plans of those community housing mutuals must not be undermined by the UK Government's welfare reforms, which are leading to increased rent arrears in many places in Wales?

Weinidog, onid yw hynny'n dangos bod polisi Llafur Cymru sydd wedi caniatáu i gymdeithasau tai cymunedol cydfuddiannol gael eu creu yng Nghymru wedi bod yn llwyddiant sylweddol? Fodd bynnag, a fyddech hefyd yn cytuno â mi ei bod yn bwysig iawn sicrhau na chaiff cynlluniau busnes y cymdeithasau tai cymunedol cydfuddiannol hynny eu tanseilio gan ddiwygiadau lles Llywodraeth y DU, sy'n arwain at ôl-ddyledion rhent cynyddol mewn nifer o lefydd yng Nghymru?

14:34 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his question. He raises the very important issue of investment in Wales and what the Welsh Government can do. The people of Wales recognise that the impact of welfare reform is driven by the ideology of the UK Conservative Government. We will do everything we can to create an environment where we can work together with our social partners to ensure that the building of safe family units in Wales is a success and something that we will continue to invest in.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae'n codi'r mater pwysig iawn sy'n ymwneud â buddsoddi yng Nghymru a'r hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud. Mae pobl Cymru yn cydnabod bod ideoleg Llywodraeth Geidwadol y DU yn llywo effaith diwygio lles. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i greu amgylchedd lle gallwn weithio gyda'n partneriaid cymdeithasol i sicrhau bod adeiladu unedau teuluol diogel yng Nghymru yn llwyddiant ac yn rhywbeth y byddwn yn parhau i fuddsoddi ynddo.

14:35 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Minister, we know that one of the advantages of stock transfer has been the greater availability of funding for maintenance. How does the Welsh Government plan to ensure that, in those areas that have voted against stock transfer, they will still be able to achieve the Welsh housing quality standard, maintain the stock for 30 years and deliver the wider community regeneration that they are obliged to deliver?

Weinidog, gwyddom mai un o fanteision trosglwyddo stoc fu'r ffaith bod mwy o gyllid ar gael ar gyfer gwaith cynnal a chadw. Sut mae cynllun Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau, yn yr ardaloedd hynny sydd wedi pleidleisio yn erbyn trosglwyddo stoc, y byddant yn dal i allu cyrraedd safon ansawdd tai Cymru, cynnal y stoc am 30 mlynedd a chyflawni'r adfywio cymunedol ehangach y mae'n ofynnol iddynt ei gyflawni?

Senedd.tv Fideo Video

14:35 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I am grateful for the Member's question. The issue of the Wales housing quality standard is an important one. We should all have the ability to live in a good-quality home, wherever you are in Wales. I am pleased that the final three non-stock transfer authorities have now agreed a business plan to achieve the WHQS in terms of moving forward their business plan for their local authority.

Rwy'n ddiolchgar am gwestiwn yr Aelod. Mae safon ansawdd tai Cymru yn fater pwysig. Dylai pob un ohonom allu byw mewn cartref o ansawdd da, ni waeth ble rydych yng Nghymru. Rwy'n falch bod y tri awdurdod terfynol nad ydynt yn trosglwyddo stoc bellach wedi cytuno ar gynllun busnes i gyflawni SATC o ran datblygu eu cynllun busnes ar gyfer eu hawdurdod lleol.

Senedd.tv Fideo Video

14:36 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Minister, in Wales, we have been successful at keeping our heads out of the private finance initiative noose, so it would be a shame if, in areas like individual large-scale voluntary transfers, it was found that funding was lent at an unreasonable rate—PFI by the back door, so to speak. Therefore, if the money was borrowed, was this done at a reasonable rate? What measures is the Welsh Government putting in place to ensure that value for money is achieved in this regard?

Weinidog, yng Nghymru, rydym wedi llwyddo i gadw draw o fagl y fenter cyllid preifat, felly byddai'n drueni os gwelwyd, mewn meysydd fel trosglwyddiadau gwirfoddol unigol ar raddfa fawr, fod arian yn cael ei fenthyg ar gyfradd afresymol—y fenter cyllid preifat drwy'r drws cefn, fel petai. Felly, os benthycwyd yr arian, a wnaed hyn ar gyfradd resymol? Pa fesurau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar waith i sicrhau gwerth am arian yn hyn o beth?

Senedd.tv Fideo Video

14:36 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I am working with the Minister for Finance to look for new and innovative ways of providing finance. We have to look at all options. Registered social landlords and local authorities are now looking with us to see what models there are for a quality financial vehicle that can achieve the very aims that the Member shares with me in terms of improvement.

Rwy'n gweithio gyda'r Gweinidog Cyllid i chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu cyllid. Rhaid inni ystyried yr holl opsiynau. Mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol bellach yn gweithio gyda ni i ystyried pa fodelau sydd ar gael ar gyfer darparu cyfrwng ariannol o safon a all gyflawni'r union nodau y mae'r Aelod a minnau'n eu rhannu o ran gwella.

Senedd.tv Fideo Video

### Bil Cynllunio

### Planning Bill

14:37 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rôl y bydd yr iaith Gymraeg yn ei chwarae yn y Bil Cynllunio newydd? OAQ(4)0297(HR)*

*8. Will the Minister make a statement on the role the Welsh language will play in the new Planning Bill? OAQ(4)0297(HR)*

Senedd.tv Fideo Video

14:37 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for South Wales West. The planning Bill will address the delivery structures and procedures necessary to ensure that the planning system is fit for the twenty-first century.

Diolch i'r Aelod dros Orllewin De Cymru. Bydd y Bil cynllunio yn mynd i'r afael â'r strwythurau a'r gweithdrefnau cyflwyno angenrheidiol i sicrhau bod y system gynllunio yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Senedd.tv Fideo Video

14:37 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am yr ymateb hwnnw. Mae Aelodau, fwy nag unwaith, wedi codi effaith penderfyniadau cynllunio ar yr iaith, heb sôn am effaith y toriadau ariannol yn y gyllideb. A oes lle yn y Bil hwn i ddefnyddio cynllunio i annog ehangu'r defnydd o'r iaith yn ogystal â'i hamddiffyn, neu ydych yn fodlon gadael dyfodol yr iaith yn ein cymunedau i ganllaw ymarferol pellach, fel mae eich datganiad sydyn yn awgrymu?

Thank you for that response. Members, more than once, have raised the impact of planning decisions on the language, never mind the effects of the financial cuts contained within the budget. Is there scope in this Bill to use planning to encourage expanding the use of the language in addition to protecting it, or are you willing to leave the future of the language in our communities to a further TAN, as your very quick statement suggests?

14:38 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Two points that the Members raised are important. I hope that the Member will welcome technical advice note 20 when she has had sufficient time to read the detail of that, and I look forward to further questions on that issue. However, I do not intend to put policy into the legislative process of the planning Bill. The way that we can be flexible and able to adapt to communities better is through an advice note, such as a technical advice note, rather than on the face of the Bill. I believe that is the way forward in order to ensure that we can be positive in supporting the Welsh language in planning terms across Wales.

Cododd yr Aelodau ddau bwynt pwysig. Gobeithiaf y bydd yr Aelod yn croesawu nodyn cyngor technegol 20 pan fydd wedi cael digon o amser i ddarllen manylion y nodyn hwnnw, ac edrychaf ymlaen at gwestiynau pellach ar y mater hwnnw. Fodd bynnag, ni fwriadaf gyflwyno polisi ar broses ddeddfwriaethol y Bil cynllunio. Bydd nodyn cyngor, megis nodyn cyngor technegol, yn ein galluogi i fod yn hyblyg ac addasu'n well i gymunedau na'r hyn y gallwn ei wneud drwy'r Bil. Credaf mai dyna'r ffordd ymlaen er mwyn sicrhau y gallwn fod yn gadarnhaol o ran cefnogi'r Gymraeg wrth gynllunio ledled Cymru.

14:38 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, a wnewch chi symud eich bys hudol a chyhoeddi TAN 20 yn Gymraeg heddiw hefyd, oherwydd dim ond yn Saesneg y mae ar gael ar hyn o bryd, yn ddigon eironig? O edrych ar TAN 20, mae cyfeiriad at yr iaith yng nghyd-destun cynaliadwyedd yn gyffredinol. Gan ystyried yr hyn yr ydych newydd ei ddweud am y Bil cynllunio, a chan fod gan y Llywodraeth gyfrifoldeb i weithredu mewn ffordd gynaliadwy, a wnewch chi gadarnhau y bydd cynaliadwyedd a'r iaith Gymraeg ar wyneb y Bil hwnnw?

Minister, will you move your magic wand and publish TAN 20 in Welsh today, too, as it is available only in English at present, quite ironically? Looking at TAN 20, there is a reference to the language in the context of sustainability more generally. In the light of what you have just said about the planning Bill, and given that the Government has a responsibility to operate sustainably, will you confirm that sustainability and the Welsh language will be on the face of that Bill?

14:39 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As I said in answer to a previous question, I apologise for a technical issue regarding the translation; I will look into that and ensure that it is transferred to you today, as that it is available. In terms of your broader question, I stand by the point: the legislative process of planning function is an important part of the Bill. Giving us the ability to be nimble in decision-making processes through technical advice notes, whether on the Welsh language, sustainability or any other actions that technical advice notes cover, gives us the flexibility to have a planning system that is fit for the future for Wales.

Fel y dywedais wrth ateb cwestiwn blaenorol, ymddiheuraf am fater technegol yn ymwneud â'r cyfieithiad; byddaf yn ymchwilio i hynny ac yn sicrhau y caiff ei drosglwyddo ichi heddiw, os yw ar gael. O ran eich cwestiwn ehangach, glynaf wrth y pwynt: mae proses ddeddfwriaethol swyddogaeth gynllunio yn rhan bwysig o'r Bil. Mae rhoi'r gallu inni fod yn ystwyth wrth wneud penderfyniadau drwy nodiadau cyngor technegol, boed hynny ar yr iaith Gymraeg, cynaliadwyedd neu unrhyw gamau eraill a gwmpesir gan nodiadau cyngor technegol, yn rhoi'r hyblygrwydd inni gael system gynllunio sy'n addas ar gyfer y dyfodol yng Nghymru.

**Prynwyr Cartrefi**

**Home Buyers**

14:39 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru i gynorthwyo'r rhai sy'n prynu cartrefi yng Nghymru? OAQ(4)0305(HR)*

*9. Will the Minister outline the Welsh Government policies to support homebuyers in Wales? OAQ(4)0305(HR)*

14:40 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We support people to buy their own home through the Homebuy scheme, which is available across Wales, with its use prioritised by local authorities. In addition, we are intending to launch Help to Buy Wales as soon as possible.

Rydym yn annog pobl i brynu eu cartref eu hunain drwy gynllun Cymorth Prynu, sydd ar gael ledled Cymru, ac y mae awdurdodau lleol yn rhoi blaenoriaeth iddo. Rydym hefyd yn bwriadu lansio Cymorth i Brynu Cymru cyn gynted â phosibl.

14:40 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your answer, Minister. Could you outline any discussions that you and your officials have had with home builders to ensure that they are building the right types of houses required by our communities, particularly one and two-bedroomed homes?

Diolch am eich ateb, Weinidog. A allech amlinellu unrhyw drafodaethau yr ydych chi a'ch swyddogion wedi'u cael gydag adeiladwyr cartrefi i sicrhau eu bod yn adeiladu'r mathau cywir o dai sydd eu hangen ar ein cymunedau, yn enwedig cartrefi un neu ddwy ystafell wely?

14:40 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is an interesting question that the Member raises, and I will give him a fair answer. We are doing our utmost to support the industry in terms of building one and two-bedroomed homes, as in the £20 million supported grant that we made available recently in order to assist in that. However, the Member is right; there are, through the planning process already in existence, terms and conditions around planning activity and affordable homes, which I will continue to pursue to ensure that we have a fair mix of accommodation across Wales.

Mae'r Aelod yn codi cwestiwn diddorol, a rhoddaf ateb teg iddo. Rydym yn gwneud ein gorau glas i gefnogi'r diwydiant o ran adeiladu cartrefi un ystafell wely a dwy ystafell wely, megis drwy'r grant £20 miliwn a ddyrannwyd gennym yn ddiweddar i gynorthwyo yn hynny o beth. Fodd bynnag, mae'r Aelod yn iawn; mae'r broses gynllunio eisoes yn cynnwys telerau ac amodau ynghylch gweithgarwch cynllunio a chartrefi fforddiadwy, a byddaf yn parhau i fynd ar drywydd hynny er mwyn sicrhau bod gennym gymysgedd teg o lety ledled Cymru.

### Y Farchnad Dai

### Housing Market

14:41 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. Pa gamau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd i ysgogi'r farchnad dai yng Nghymru? OAQ(4)0298(HR)*

*10. What actions does the Minister plan to take to stimulate the housing market in Wales? OAQ(4)0298(HR)*

14:41 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The statement that I made in July sets out some of the actions that I have taken to support the development of housing, and I am intending to launch the Help to Buy Wales scheme soon.

Mae'r datganiad a wnaed gennyf ym mis Gorffennaf yn nodi rhai o'r camau yr wyf wedi'u cymryd i gefnogi datblygiadau ym maes tai, a bwriadaf lansio cynllun Cymorth i Brynu Cymru yn fuan.

14:41 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sure you would agree that we need a whole-market approach to tackle supply issues, including those in the social and affordable sectors. However, new home registrations in England, according to the National Home Performance Council, are up 34%, but are down 32% in Wales in July. Given that Persimmon announced that one of the reasons it was pulling out of building in parts of the Valleys was because of conditions imposed by local authorities, what discussions do you propose with local authorities, either directly or through your colleague, regarding section 106 and the need to apply affordable housing viability assessments so that we end up with real bricks-and-mortar affordable housing rather than a high percentage of nothing?

Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno bod angen inni fabwysiadu dull y farchnad gyfan o ran mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chyflenwad, gan gynnwys y rhai yn y sector tai cymdeithasol a'r sector tai fforddiadwy. Fodd bynnag, mae nifer y cartrefi newydd a gofrestrwyd yn Lloegr wedi cynyddu 34%, yn ôl y Cyngor Perfformiad Cartrefi Cenedlaethol, ond wedi gostwng 32% yng Nghymru ym mis Gorffennaf. O ystyried y ffaith bod Persimmon wedi cyhoeddi mai un o'r rhesymau pam y penderfynodd dynnu'n ôl o'r cynllun i adeiladu mewn rhannau o'r Cymoedd oedd oherwydd amodau a osodir gan awdurdodau lleol, pa drafodaethau rydych yn bwriadu eu cael gydag awdurdodau lleol, naill ai'n uniongyrchol neu drwy eich cyd-Aelod, ynghylch adran 106 a'r angen i gynnal asesiadau hyfywedd tai fforddiadwy er mwyn sicrhau yn y pen draw fod gennym dai fforddiadwy brics a mortar gwirioneddol yn hytrach na chanran uchel o ddim byd?

14:42 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have met personally with Persimmon and many of the large home builders in Wales. As I mentioned in answer to an earlier question, I have set up a working group to look at the barriers to home building in Wales—not just the barriers, but how we can overcome issues such as the viability of land costing in Wales, which seems to be more difficult in some areas of Wales than in others.

Rwyf wedi cyfarfod yn bersonol â swyddogion cwmni Persimmon a llawer o'r cwmnïau adeiladu cartrefi mawr yng Nghymru. Fel y soniais wrth ateb cwestiwn blaenorol, rwyf wedi sefydlu gweithgor i ystyried y rhwystrau i adeiladu cartrefi yng Nghymru—nid dim ond y rhwystrau, ond sut y gallwn oresgyn materion fel hyfywedd costau tir yng Nghymru, sy'n anoddach mae'n debyg mewn rhai ardaloedd o Gymru nag mewn rhai eraill.

14:42 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The 2011 Communities and Culture Committee report on the private rented sector in Wales recognised that the sector itself has a key role to play in stimulating the housing market in Wales. Given your proposals to introduce mandatory landlord registration, what consideration have you given to developments in Scotland, where mandatory registration was introduced in 2006, and is now coming full circle, with Shelter highlighting that criminal landlords are falling through the net because precious resource is being used to regulate good landlords and that it is now beginning to move instead towards selective licensing in problem areas?

Gwnaeth adroddiad 2011 y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar y sector rhentu preifat yng Nghymru gydnabod bod gan y sector ei hun ran allweddol i'w chwarae o ran ysgogi'r farchnad dai yng Nghymru. O ystyried eich cynigion i gyflwyno system gofrestru orfodol i landlordiaid, pa ystyriaeth rydych wedi'i rhoi i ddatblygiadau yn yr Alban, lle cyflwynwyd system gofrestru orfodol yn 2006, ac sydd bellach yn cwblhau'r cylch, gyda Shelter yn tynnu sylw at y ffaith bod landlordiaid troseddol yn disgyn drwy'r rhwyd am fod adnoddau prin yn cael eu defnyddio i reoleiddio landlordiaid da a'i bod bellach yn dechrau symud tuag at drwyddedu dethol mewn ardaloedd sy'n peri problemau?

14:43 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member will be aware of the future legislative programme for my department, including the registration of landlords in Wales. I will still be pursuing that route. However, I have met with the Landlords Association—in fact, only an hour ago—to discuss the detail around that, and I am listening very carefully to its concerns.

Bydd yr Aelod yn ymwybodol o'r rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer fy adran yn y dyfodol, gan gynnwys cofrestru landlordiaid yng Nghymru. Byddaf yn dilyn y llwybr hwnnw o hyd. Fodd bynnag, rwyf wedi cyfarfod â Chymdeithas y Landlordiaid—a hynny, mewn gwirionedd, dim ond awr yn ôl— i drafod manylion hynny, ac rwy'n gwrando'n astud iawn ar ei phryderon.

I am not concerned about the landlords that are doing what they are supposed to be doing now; what I am concerned about are the unscrupulous landlords who are creating a dangerous environment for people to live in Wales, and they are the ones whom I will be chasing through the legislation process.

Nid wyf yn poeni am y landlordiaid sy'n gwneud yr hyn y dylent fod yn ei wneud nawr; yr hyn rwy'n poeni amdano yw'r landlordiaid diegwyddor sy'n creu amgylchedd peryglus i bobl fyw yng Nghymru, a nhw yw'r rhai y byddaf yn eu herlid drwy'r broses ddeddfwriaethol.

14:43 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, would you agree that homes built to the best environmental standards can be the most attractive for buyers because of the low fuel bills; we know of some housing projects that have managed to deliver annual bills as low as £40. If you do agree with that, then why are you watering down those standards?

Weinidog, a fyddech yn cytuno mai cartrefi a gaiff eu hadeiladu i'r safonau amgylcheddol gorau o bosibl yw'r rhai mwyaf deniadol i brynwyr oherwydd y biliau tanwydd isel; gwyddom am rai prosiectau tai sydd wedi llwyddo i sicrhau biliau blynyddol mor isel â £40. Os ydych yn cytuno â hynny, yna pam yr ydych yn gwanhau'r safonau hynny?

14:44 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not accept that I am watering down the standards. There is a balance between the economy and the environment that we are pursuing, and I am surprised that the question one moment is why we are not providing homes in Wales and then, secondly, around the barriers to build et cetera. When I try to support the industry, I am criticised by the Member. It is ironic, really, given that what I am trying to achieve is a balance between the industry, the environment and the economy and making sure that we can build properties in Wales and give people jobs and skills, which will grow the economy and grow Wales into a better place.

Ni dderbyniaf fy mod yn gwanhau'r safonau hynny. Rydym yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng yr economi a'r amgylchedd, a synnaf fod y cwestiwn un funud yn gofyn pam nad ydym yn darparu cartrefi yng Nghymru, ac yna, yn ail, yn holi am rwystrau i adeiladu ac ati. Pan fyddaf yn ceisio cefnogi'r diwydiant, câf fy meirniadu gan yr Aelod. Mae'n eironig, mewn gwirionedd, o gofio mai'r hyn rwy'n ceisio ei gyflawni yw cydbwysedd rhwng y diwydiant, yr amgylchedd a'r economi a sicrhau y gallwn adeiladu eiddo yng Nghymru a rhoi swyddi a sgiliau i bobl, er budd yr economi a Chymru.

## Newidiadau i Fudd-Daliadau

## Benefit Changes

14:44

### Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am argaeledd eiddo llai i aelwydydd y mae newidiadau i fudd-daliadau yn effeithio arnynt? OAQ(4)0302(HR)*

*11. Will the Minister make a statement on the availability of smaller properties for households affected by benefit changes? OAQ(4)0302(HR)*

14:44

### Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Additional funding of £20 million has been made available in 2013-14 to support the building of one and two-bedroomed affordable homes by registered social landlords across Wales.

Dyrannwyd cyllid ychwanegol o £20 miliwn yn 2013-14 i helpu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ledled Cymru i adeiladu cartrefi fforddiadwy un ystafell wely a dwy ystafell wely.

14:44

### Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer. Minister, I am contacted on a regular basis by people affected by the bedroom tax changes. People simply cannot find smaller accommodation to move into. Minister, would you agree with me that this is an ill-thought-out policy that cannot work in practice?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw. Weinidog, mae pobl yr effeithir arnynt gan y newidiadau treth ystafell wely yn cysylltu â mi'n rheolaidd. Ni all pobl ddod o hyd i lety llai i symud iddo. Weinidog, a fyddech yn cytuno â mi fod hwn yn bolisi a gynlluniwyd yn wael na all weithio yn ymarferol?

14:45

### Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member is right to raise the issue. It does not work. We know that, and we have been telling the opposition parties here and in Westminster that the bedroom tax is wrong for people. It is wrong for people across the UK and it particularly has a larger impact in Wales. The UK Government has rushed this policy through. It has not thought this out at all, and the consequences are that people are losing their homes and going into debt.

Mae'r Aelod yn iawn i godi'r mater. Nid yw'n gweithio. Gwyddom hynny, ac rydym wedi bod yn dweud wrth y gwrthbleidiau yma ac yn San Steffan nad yw'r dreth ystafell wely yn addas i bobl. Nid yw'n addas i bobl ledled y DU ac mae'n cael effaith fwy yng Nghymru yn benodol. Mae Llywodraeth y DU wedi rhuthro wrth weithredu'r polisi hwn. Nid yw wedi ystyried hyn o gwbl, ac oherwydd hynny, mae pobl yn colli eu cartrefi ac yn mynd i ddyled.

14:45

### Byron Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, this is rightly an important issue, and the Welsh Government has a significant part to play in building a fair society. In the first three Assemblies, cuts in the supply of affordable housing led to a fall of some 70%. In the fourth Assembly, despite having several years of advance notice of welfare changes and receiving £161 million in additional money from the Chancellor, you failed to invest any money in smaller properties. Is it not time that you did something about this?

Weinidog, mae hyn yn fater pwysig, a hynny'n gywir ddigon, ac mae gan Lywodraeth Cymru ran bwysig i'w chwarae wrth adeiladu cymdeithas deg. Yn ystod y tri Chynulliad cyntaf, arweiniodd toriadau yn y cyflenwad o dai fforddiadwy at ostyngiad o ryw 70%. Yn y pedwerydd Cynulliad, er gwaetha'r ffaith ichi gael nifer o flynyddoedd o rybudd ymlaen llaw am y newidiadau lles a £161 miliwn o arian ychwanegol gan y Canghellor, gwnaethoch fethu â buddsoddi unrhyw arian mewn eiddo llai. Onid yw'n bryd ichi wneud rhywbeth am hyn?

14:46

### Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is an astonishing question. It is obvious that you have received that question from HQ. We are investing £20 million because of the consequences of a UK Government decision. You have also taken away £1.7 billion from the Welsh economy, where the cost of appropriate accommodation for people in Wales will be £2 billion. It just does not add up and nor does your policy.

Mae'n gwestiwn rhyfeddol. Mae'n amlwg mai oddi wrth y Pencadlys y cawsoch y cwestiwn hwnnw. Rydym yn buddsoddi £20 miliwn oherwydd canlyniadau penderfyniad Llywodraeth y DU. Rydych hefyd wedi cymryd £1.7 biliwn oddi wrth economi Cymru, lle bydd sicrhau llety priodol i bobl yng Nghymru yn costio £2 biliwn. Nid yw'n gwneud synnwyr, nac ychwaith eich polisi.

14:46

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Your behaviour on the Conservative benches is barely a C- at the moment, and I will get very annoyed if it continues.

Trefn. Prin fod eich ymddygiad ar feinciau'r Ceidwadwyr yn haeddu C-ar hyn o bryd, a byddaf yn ddig iawn os bydd yn parhau.

## Prynu Tŷ am y tro Cyntaf

## First-time Buyers

14:46 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

*12. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu'r rhai sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf yn Nwyrain De Cymru? OAQ(4)0299(HR)*

*12. What is the Welsh Government doing to help first time buyers in South Wales East? OAQ(4)0299(HR)*

Senedd.tv Fideo Video

14:46 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

We continue to support the shared equity homebuy scheme aimed at first-time buyers. Our intermediate rent scheme, Rent First, also allows home ownership options. In addition, we intend to launch the Help to Buy scheme in Wales as soon as possible.

Rydym yn parhau i gefnogi'r cynllun cymorth prynu ecwiti a rennir a anelir at y rhai sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf. Mae ein cynllun rhent canolradd, Rhent yn Gyntaf, hefyd yn caniatáu opsiynau perchentyaeth. Yn ogystal, rydym yn bwriadu lansio cynllun Cymorth i Brynu yng Nghymru cyn gynted â phosibl.

Senedd.tv Fideo Video

14:47 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, Minister. In your written statement on 17 July 2013, you said

'The need for the UK Government to finalise the design of their Help to Buy: Mortgage Guarantee scheme have meant that lenders are unable, at this time to commit to NewBuy Cymru.'

Now that the UK Government has announced that its Help to Buy mortgage guarantee scheme will start three months earlier, what action have you taken, Minister, to progress NewBuy Cymru to help first-time buyers in my region?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Yn eich datganiad ysgrifenedig ar 17 Gorffennaf 2013, dywedasoch

'Golyga'r ffaith bod angen i Lywodraeth y DU gytuno'n derfynol ar ddiwyg ei chynllun Gwarant Morgais: Cymorth i Brynu nad yw benthycwyr yn gallu ymrwymo i NewBuy Cymru ar hyn o bryd.'

Gan fod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd ei chynllun gwarant morgais Cymorth i Brynu yn dechrau dri mis yn gynharach, pa gamau rydych wedi'u cymryd, Weinidog, i ddatblygu NewBuy Cymru er mwyn helpu'r rhai sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf yn fy rhanbarth?

Senedd.tv Fideo Video

14:47 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

The Member, perhaps, needs more detail on the process that has been advanced three months early. It is the registration of the schemes that has been advanced, not the giving out of finance. Therefore, it is not quite as the Member described. However, it is a positive step in terms of the opportunities available. My department, as you are aware, had a third-party involvement in the scheme; there were mortgage lenders, builders and us. It was not through our decision that we were not able to launch this scheme. These discussions are still ongoing. We now know the final details that were announced at the Conservative Party conference the other week.

Mae'n bosibl bod angen mwy o fanylion ar yr Aelod am y broses a gyflwynir dri mis yn gynnar. Y broses o gofrestru'r cynlluniau a gyflwynir yn gynnar, nid y broses o ddyrannu arian. Felly, nid yw'r sefyllfa'n union fel y disgrifiodd yr Aelod. Fodd bynnag, mae'n gam cadarnhaol o ran y cyfleoedd sydd ar gael. Chwaraeodd fy adran, fel y gwyddoch, ran fel trydydd parti yn y cynllun; roedd yn cynnwys benthycwyr morgeisi, adeiladwyr a ni. Nid ein penderfyniad ni oedd peidio â lansio'r cynllun hwn. Mae'r trafodaethau hyn yn mynd rhagddynt o hyd. Gwyddom bellach y manylion terfynol a gyhoeddwyd yng nghynhadledd y Blaid Geidwadol yr wythnos o'r blaen.

Senedd.tv Fideo Video

### Niferoedd Tai

### House Numbers

14:48 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

*13. A wnaiff y Gweinidog amlinellu nifer y tai y mae awdurdodau lleol yn bwriadu eu hadeiladu yn ystod 2014-2015? OAQ(4)0295(HR)*

*13. Will the Minister outline the number of houses that are planned to be built by local authorities in the 2014-2015 period? OAQ(4)0295(HR)*

Senedd.tv Fideo Video

14:48 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

We have already supported Carmarthenshire County Council to build 39 new homes and have secured an agreement with HM Treasury to exit the housing revenue accounts subsidy system.

Rydym eisoes wedi cynorthwyo Cyngor Sir Caerfyrddin i adeiladu 39 o gartrefi newydd ac wedi sicrhau cytundeb â Thrysorlys EM i adael system cymhorthdal y cyfrif refeniw tai.

Senedd.tv Fideo Video

14:48 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First of all, Minister, may I congratulate you on getting out of that system, which was detrimental to the whole of Wales. The great Labour Government of 1945 engaged in substantial building of council houses. Would it be possible to put further pressure on the Treasury to allow local authorities to borrow against the value of their council housing stock in order that they can start building houses again, get the economy moving and get people into homes?

Yn gyntaf, Weinidog, hoffwn eich llongyfarch am adael y system honno, a oedd yn niweidiol i Gymru gyfan. Adeiladodd Llywodraeth Lafur fawr 1945 nifer sylweddol o dai cyngor. A fyddai'n bosibl rhoi rhagor o bwysau ar y Trysorlys i alluogi awdurdodau lleol i fenthyca yn erbyn gwerth eu stoc tai cyngor er mwyn iddynt allu dechrau adeiladu tai eto, rhoi hwb i'r economi a chreu cartrefi i bobl?

14:49 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The housing taskforce that I have set up, Mike, will be looking at all options available to encourage new-build homes across Wales through many different vehicles. I hope that it will be taking note of the detailed question that you brought forward today. Of course, the Member is aware of the financial issues and the Treasury legislation preventing this currently. However, we may be able to look at this in the future.

Bydd y tasglu tai a sefydlwyd gennyf, Mike, yn ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael i annog prosiectau adeiladu cartrefi newydd ledled Cymru drwy lawer o ddulliau gwahanol. Gobeithiaf y bydd yn ystyried y cwestiwn manwl a gyflwynwyd gennych heddiw. Wrth gwrs, mae'r Aelod yn ymwybodol o'r materion ariannol a deddfwriaeth y Trysorlys sy'n atal hyn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, efallai y gallwn ystyried hyn yn y dyfodol.

14:49 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, your department works closely with local authorities on housing projections and on the number of houses that local authorities will be charged with delivering in their unitary authority areas. You will be bringing forward new figures at the end of this year, I believe. If those figures in, for example, the Vale of Glamorgan show a marked decline in the number of properties expected to be built over the next period, will you work with the local authority to make sure that its UDP reflects that and that it will not be building unnecessary houses in that area?

Weinidog, mae eich adran yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol mewn perthynas ag amcanestyniadau tai a nifer y tai y bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am eu darparu yn eu hardaloedd awdurdodau unedol. Deallaf y byddwch yn cyflwyno ffigurau newydd ar ddiwedd y flwyddyn hon. Os bydd y ffigurau hynny, er enghraifft, ym Mro Morgannwg, yn dangos gostyngiad sylweddol yn nifer yr eiddo y disgwylir iddynt gael eu hadeiladu dros y cyfnod nesaf, a fyddwch yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i sicrhau bod ei Gynllun Datblygu Unedol yn adlewyrchu hynny ac na fydd yn adeiladu tai diangen yn yr ardal honno?

14:50 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will not comment on any specific planning proposal, be that for the Vale or anywhere else, but the general principle of this is that the decision-making process is for the local authority to determine.

Ni wnaf sylwadau ar unrhyw gynnig cynllunio penodol, boed hynny ar gyfer y Fro neu unrhyw le arall, ond yr egwyddor gyffredinol yn hyn o beth yw mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw pennu'r broses o wneud penderfyniadau.

## Cynllun Gwarant Morgais Llywodraeth y DU i Gymru

## UK Government Mortgage Guarantee Scheme to Wales

14:50 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymhwysedd Cynllun Gwarant Morgais Llywodraeth y DU i Gymru? OAQ(4)0307(HR)*

*14. Will the Minister make a statement on the applicability of the UK Government Mortgage Guarantee Scheme to Wales? OAQ(4)0307(HR)*

14:50 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The UK Government initiative—the Help to Buy mortgage guarantee—is a UK-wide scheme that will enable potential homebuyers in Wales to purchase existing or new-build homes up to the value of £600,000 with a high loan-to-value mortgage that is backed by a Government-backed scheme.

Mae menter Llywodraeth y DU—y warant morgais Cymorth i Brynu—yn gynllun ar gyfer y DU gyfan a fydd yn galluogi darpar brynwyr yng Nghymru i brynu cartrefi sy'n bodoli eisoes neu gartrefi a gaiff eu hadeiladu o'r newydd gwerth hyd at £600,000 gyda morgais benthyciad uchel a gefnogir gan un o gynlluniau'r Llywodraeth.

14:51 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. I note from your response to Peter Black that you are awaiting guidance from the UK Government before launching the mortgage guarantee scheme in Wales. Will you undertake to make a detailed statement on the application process as soon as you have received that clarity?

Diolch, Weinidog. Nodaf o'ch ymateb i Peter Black eich bod yn aros am arweiniad gan Lywodraeth y DU cyn lansio'r cynllun gwarant morgais yng Nghymru. A wnewch chi ymrwymo i wneud datganiad manwl ar y broses gwneud cais cyn gynted ag y byddwch wedi cael yr eglurder hwnnw?

14:51 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes; I will write to Members accordingly.

Gwnaf; byddaf yn ysgrifennu at yr Aelodau yn unol â hynny.

14:51 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, will the increased money that you are making available also assist the Help to Buy Cymru shared-equity scheme?

Weinidog, a fydd yr arian ychwanegol a ddyrennir gennych hefyd yn cynorthwyo cynllun ecwiti a rennir Cymorth i Brynu Cymru?

14:51 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The scheme, which I hope to launch before Christmas, has already been financed, as the Minister for Finance has made an allocation in the draft budget this week. That will form part of the funding to enable us to launch the scheme successfully later this year.

Mae'r cynllun, y gobeithiaf ei lansio cyn y Nadolig, eisoes wedi'i ariannu, gan fod y Gweinidog Cyllid wedi gwneud dyraniad yn y gyllideb ddrafft yr wythnos hon. Bydd hynny'n ffurfio rhan o'r arian i'n galluogi i lansio'r cynllun yn llwyddiannus yn ddiweddarach eleni.

### Darparu Cartrefi Newydd

### Provision of New Homes

14:51 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*15. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu cartrefi newydd yng Nghymru? OAQ(4)0303(HR)*

*15. Will the Minister make a statement on the provision of new homes in Wales? OAQ(4)0303(HR)*

14:52 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Increasing the housing supply is my No. 1 priority across the whole of my portfolio.

Cynyddu'r cyflenwad o dai yw fy mhrif flaenoriaeth drwy fy mhortffolio cyfan.

14:52 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i chi am eich ateb. Mae miloedd o dai newydd arfaethedig bellach wedi cael eu hymgorffori mewn cynlluniau datblygu lleol. Yn eich ateb blaenorol, yng nghyd-destun nodyn cyngor technegol 20, fe ddwedoch chi na fyddai cynlluniau datblygu lleol sydd eisoes wedi eu mabwysiadu yn atebol i'r TAN 20 newydd, ond y byddai hyn yn rhywbeth a fyddai'n cael ei ystyried yn y cyfnod adolygu sy'n dod ar ôl pedair blynedd, yn ôl fy narlleniad i. A ydych chi felly'n teimlo ei bod yn dderbyniol na fydd y TAN 20 newydd yn berthnasol mewn rhai achosion yng Nghymru tan 2017, sef chwech i saith mlynedd ar ôl i'r broses ymgynghori ar TAN 20 gychwyn?

Thank you for that response. There are thousands of proposed new homes that have been incorporated into local development plans. In a previous response, in the context of technical advice note 20, you said that local development plans that have already been adopted would not be accountable to the new TAN 20, but it would be something that would be considered in the review period that will come after four years, according to my understanding at least. Do you therefore feel that it is acceptable that the new TAN 20 will not apply in certain cases in Wales until 2017, which will be six to seven years after the consultation process on TAN 20 commenced?

14:52 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Respectfully, the TAN 20 that we have issued today is a revised version. It has not gone away; we have always been working to a document. This is a revised model, and there is always a point in time when new policy is introduced and has to take effect. We cannot go back in time in terms of the plans that have been developed, but they will be considered in regard to the new plans when they are considered by the local authority in the next planning review.

Gyda phob parch, mae TAN 20 a gyhoeddwyd gennym heddiw yn fersiwn ddiwygiedig. Nid yw wedi diflannu; rydym bob amser wedi bod yn gweithio ar ddogfen. Mae hon yn fodel diwygiedig, a daw adeg bob amser pan gyflwynir polisi newydd a rhaid iddo ddod i rym. Ni allwn fynd yn ôl mewn amser o ran y cynlluniau a ddatblygwyd, ond cânt eu hystyried mewn perthynas â'r cynlluniau newydd pan gânt eu hystyried gan yr awdurdod lleol yn yr adolygiad cynllunio nesaf.

14:53 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you will be aware that Conwy and Denbighshire's local development plans have been signed off by the planning inspectorate, and that both are in the process of being adopted, or have been adopted. Those plans will deliver a significant concentration of new housing in and around the Abergele and Bodelwyddan areas, which will put enormous stress on local infrastructure and services. What discussions have you had with the Minister for local government and the Minister for health regarding the adequacy of the planning framework to ensure that those matters are taken into consideration through the local development process?

Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod yr arolygiaeth gynllunio wedi cymeradwyo cynlluniau datblygu lleol Conwy a Sir Ddinbych, a bod y ddau gynllun wrthi'n cael eu mabwysiadu, neu wedi cael eu mabwysiadu. Bydd y cynlluniau hynny yn sicrhau crynodiad sylweddol o dai newydd yn ardaloedd Abergele a Bodelwyddan a'r cyffiniau, a fydd yn rhoi straen enfawr ar y seilwaith a'r gwasanaethau lleol. Pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda'r Gweinidog llywodraeth leol a'r Gweinidog iechyd ynghylch digonolrwydd y fframwaith cynllunio i sicrhau bod y materion hynny yn cael eu hystyried drwy'r broses ddatblygu leol?

14:54 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Again, I will not comment on the individual plans that the Member raises. Although he has made his comments very clear, along with his personal views, I cannot share any of those views in the determining body of this Assembly. However, I believe that the processes that we have in place, and the guidance on the UDP/LDP development, are very clear and they have been adopted by the 22 planning authorities.

Unwaith eto, ni wnaf sylwadau ar y cynlluniau unigol a godwyd gan yr Aelod. Er ei fod wedi gwneud ei sylwadau'n glir iawn, ynghyd â'i farn bersonol, ni allaf rannu unrhyw un o'r safbwyntiau hynny yng nghorff penderfynu'r Cynulliad hwn. Fodd bynnag, credaf fod y prosesau sydd gennym ar waith, a'r canllawiau ar ddatblygu'r CDU/CDLl, yn glir iawn ac maent wedi'u mabwysiadu gan y 22 awdurdod cynllunio.

*Daeth Peter Black i'r Gadair am 14:54.*

*Peter Black took the Chair at 14:54.*

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Addysg Alwedigaethol

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 3 a 4 yn Aled Roberts, a gwelliant 2 yn enw Elin Jones.*

## Welsh Conservatives Debate: Vocational Education

*The following amendments have been selected: amendments 1, 3 and 4 in the name of Aled Roberts, and amendment 2 in the name of Elin Jones.*

Cynnig NDM5323 William Graham

Motion NDM5323 William Graham

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod gwerth cyfartal addysg alwedigaethol ac academaidd;

1. Recognises the equal value of vocational and academic education;

2. Yn credu bod economi ffyniannus yn cael budd o fyfyrwyr â sgiliau cynhwysfawr; a

2. Believes a thriving economy benefits from well-rounded students; and

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgynghori â rhanddeiliaid a gweithio gyda hwy i gynllunio cwricwlwm galwedigaethol sy'n annog cydraddoldeb ag addysg academaidd yng Nghymru.

3. Calls on the Welsh Government to consult and work with industry stakeholders to design a vocational curriculum which encourages parity with academic education in Wales.

14:54 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move the Welsh Conservative motion tabled in the name of my colleague William Graham.

Cynigiaf gynnig y Ceidwadwyr Cymreig a gyflwynwyd yn enw fy nghyd-Aelod William Graham.

I am pleased to be able to start this debate, and I hope that it will be a debate, because what we are trying to do is to open up the entire discussion on vocational training. I appreciate that Government Members will wish to leap to their feet and tell us of the many initiatives that they are undertaking, and I accept that. I believe that the youth progression framework that was announced last week is worthy of further study. In some areas of Wales, there are interesting and fruitful initiatives under way by local authorities. Other examples, such as Jobs Growth Wales and the Young Recruits Programme, can offer a way forward. There are any number of private companies that help to reintegrate young people into either a school setting or a vocational training experience, such as ACT, which is based here in Cardiff and which takes young people through traineeships and apprenticeships. However, that does not, and should not, preclude debate, especially in light of yesterday's Organisation for Economic Co-operation and Development report on adult skills. A survey was carried out over 33 countries, which carried stark warnings within it that are applicable to this country as much as any other.

Rwy'n falch o gael dechrau'r ddadl hon, a gobeithiaf y bydd yn ddadl, oherwydd yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yw agor y drafodaeth gyfan ar hyfforddiant galwedigaethol. Sylweddolaf y bydd Aelodau'r Llywodraeth am neidio ar eu traed a dweud wrthym am y llu o fentrau y maent yn ymgymryd â hwy, a derbyniaf hynny. Credaf fod y fframwaith datblygu ieuenctid a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf yn haeddu cael ei astudio ymhellach. Mewn rhai rhannau o Gymru, mae mentrau diddorol a ffrwythlon ar y gweill gan awdurdodau lleol. Gall enghreifftiau eraill, megis Twf Swyddi Cymru a'r Rhaglen Recriwtiaid Ifanc gynnig ffordd ymlaen. Mae nifer fawr o gwmnïau preifat yn helpu i ailintegreiddio pobl ifanc naill ai mewn lleoliad ysgol neu brofiad hyfforddiant galwedigaethol, megis ACT, sydd wedi ei leoli yma yng Nghaerdydd ac sy'n tywys pobl ifanc drwy swyddi dan hyfforddiant a phrentisiaethau. Fodd bynnag, nid yw hynny ac ni ddylai hynny atal trafodaeth, yn enwedig yng ngoleuni adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad ar sgiliau oedolion ddoe. Cafodd arolwg ei gynnal mewn mwy na 33 o wledydd, a oedd yn cynnwys rhybuddion arswydus sy'n berthnasol i'r wlad hon cymaint ag unrhyw un arall.

Minister, over the last few weeks, the Welsh Conservative debates have explored areas of concern and will continue to do so, putting forward ideas and best-practice examples from around the world. We believe that without a skilled and well-educated workforce, we will struggle to motivate our economy and win the consequent benefits for the nation. Today, we have chosen to explore in detail how we might be able to move the skills agenda along; how we might improve the depth and quality of vocational training; and how we should, with tooth and nail, battle to ensure that there is parity of respect and equality of opportunity for students, no matter what route to education and self-fulfilment they choose.

Weinidog, yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf, mae dadleuon y Ceidwadwyr Cymreig wedi ystyried meysydd o bryder a byddant yn parhau i wneud hynny, gan gyflwyno syniadau ac enghreifftiau o arfer gorau o bob cwr o'r byd. Credwn, heb weithlu medrus a hyddysg, y byddwn yn ei chael hi'n anodd i ysgogi ein heconomi a sicrhau'r manteision canlyniadol i'r wlad. Heddiw, rydym wedi dewis ystyried yn fanwl sut y gallem symud yr agenda sgiliau yn ei blaen, sut y gallem wella dyfnder ac ansawdd hyfforddiant galwedigaethol; a sut y dylem ymladd yn ffyrnig i sicrhau parch cydradd a chyfle cyfartal i fyfyrwyr, ni waeth pa lwybr at addysg a hunangyflawniad a ddewisant.

Prejudice: it is a funny old word. It is overused in so many contexts but yet it is a word that can sum up so well those preconceived opinions that most people travel around with—opinions that are often formed without reason, often based without experience: WAGs, or wives and girlfriends—many of them end up running multimillion-pound businesses in their own right, escaping national pejoration; a young man in a hoodie—what a combination of preconceived notions that leaps to the mind and to the fingertips of the media; and the cooling of interest from a prospective employer when they see that the application has a college certificate that is of a more occupational nature. Underlying that attitude is a view, which is held by too many people, that vocational education is a second choice and that it is something that students enter into because they cannot cut the mustard in an academic environment. That is an attitude that has been reinforced over time by a lack of buy-in from a great many sectors into the equivalence of qualifications. It is an attitude that we need to challenge and that, above all, we need to disprove. You cannot get rid of prejudice by simply saying something to the contrary. You need to prove it, and then people will believe. We must demonstrate that undertaking vocational training is not a soft opt-out; that it is a critically important avenue of education and has a direct and positive impact on the economy of our country. We need to ram home the message that vocational training can encompass highly specialised subjects that need to be taught by teachers who are at the top of their game, not by generalists who have an incomplete understanding of that subject.

Rhagfarn: mae'n hen air rhyfedd. Mae'n cael ei orddefnyddio mewn cynifer o gyd-destunau, ond eto mae'n air sy'n gallu crynhoi mor dda y safbwyntiau rhagdybiedig hynny a arddelir gan y rhan fwyaf o bobl—safbwntiau sydd yn aml yn cael eu ffurfio heb reswm, a heb sail brofiad yn aml: gwragedd a chariadon enwogion—mae llawer ohonynt yn mynd yn eu blaen i redeg busnesau gwerth miliynau o bunnoedd yn eu rhinwedd eu hunain, gan ddianc rhag gwawd y genedl; dyn ifanc sy'n gwisgo cwfwl—am gyfuniad o syniadau rhagdybiedig sy'n dod i'r meddwl ac i fysedd y cyfryngau, a diddordeb darpar gyflogwr yn pylu pan fydd yn gweld bod gan yr ymgeisydd dystysgrif coleg sydd o natur fwy galwedigaethol. Wrth wraidd yr agwedd honno mae barn, a arddelir gan ormod o bobl, bod addysg alwedigaethol yn ail ddewis a'i bod yn rhywbeth y mae myfyrwyr yn ymgymryd â hi am nad ydynt yn ddigon da i fod mewn amgylchedd academaidd. Mae honno'n agwedd sydd wedi cael ei hatgyfnerthu dros gyfnod o amser oherwydd diffyg cefnogaeth ymhlith nifer fawr o sectorau i gyfwerthedd cymwysterau. Mae'n agwedd y mae angen inni ei herio, ac, yn anad dim, y mae angen inni ei gwrthbrofi. Ni allwch gael gwared ar ragfarn drwy ddweud rhywbeth i'r gwrthwyneb. Mae angen ichi brofi hynny, ac yna bydd pobl yn credu. Rhaid inni ddangos nad dewis hawdd yw hyfforddiant galwedigaethol, ei fod yn llwybr addysg hanfodol bwysig a'i fod yn cael effaith uniongyrchol a chadarnhaol ar economi ein gwlad. Mae angen inni daenu'r neges y gall hyfforddiant galwedigaethol gwmpasu pynciau arbenigol iawn y mae angen iddynt gael eu haddysgu gan athrawon sy'n feistr ar eu camp, nid gan gyffredinolwyr nad ydynt yn llwyr ddeall y pwnc hwnnw.

We need to ensure that all students maintain a solid grounding in English and mathematics throughout their vocational training, as these are the subjects that are demonstrable and will stand students in good stead during future employment searches. Along with challenging prejudice, we must examine the changing face of vocational education. Minister, a worthwhile piece of qualitative work would be to evidence people's understanding of the term 'vocational' and to quantify within our educational system what that encompasses. Vocational education merges with the lifelong learning agenda, which in and of itself is great. I remember very clearly a constituent of mine who had her first baby at 14, her second at 17 and, at 27, managed to find her way back, through a series of lifelong learning initiatives, into vocational education and then to a place on a nursing degree. Her amazing spirit and total persistence brought her that reward, not the complex system that took her years to work through.

Mae angen inni sicrhau bod pob myfyriwr yn parhau i ddysgu'r hanfodion mewn Saesneg a mathemateg drwy gydol eu hyfforddiant galwedigaethol, gan fod y rhain yn bynciau sy'n brawf o ddysgu ac a fydd yn cynorthwyo myfyrwyr wrth chwilio am gyflogaeth yn y dyfodol. Ynghyd â herio rhagfarn, rhaid inni edrych ar fyd cyfnewidiol addysg alwedigaethol. Weinidog, darn gwerthfawr o waith ansoddol fyddai cael tystiolaeth o ddealltwriaeth pobl o'r term 'galwedigaethol' a mesur, o fewn ein system addysg, yr hyn y mae'n ei gwmpasu. Mae addysg alwedigaethol yn uno ag agenda dysgu gydol oes, sydd ynddi'i hun yn rhywbeth gwych. Cofiaf yn fyw iawn un o'm hetholwyr a gafodd ei baban cyntaf yn 14 oed, ei ail faban yn 17 oed ac yn 27 oed, a oedd wedi llwyddo i ddychwelyd, drwy gyfres o fentrau dysgu gydol oes, i addysg alwedigaethol ac yna i le i astudio am radd nyrsio. Drwy ei hysbryd anhygoel a'i dyfalbarhad llwyr y cafodd y wobr honno, nid y system gymhleth y cymerodd flynyddoedd i weithio drwyddi.

Added together, the mass of vocational training, skills-based learning, re-engagement training and occupational learning mean that it is no wonder that those who need to evaluate a candidate who is before them find a standard benchmark like a GCSE or A-level so much easier to understand. Minister, I believe that we need definitions: vocational education or training is too much of a catch-all. It covers personal interests, such as the basics of knitting, which someone might take at night school, through to advanced technology in computer-aided design. That is the perception. My NVQ in open-water diving does not help an employer to assess my communication and numeracy skills. I would have been set up to fail if I had thought that one NVQ was my entry into the world of work. For many students on inappropriate, 'let us give them training in something and anything' courses, that is exactly what is happening: they are being set up to fail.

Gyda'i gilydd, mae'r holl hyfforddiant galwedigaethol, dysgu seiliedig ar sgiliau, hyfforddiant ailymgysylltu a dysgu galwedigaethol yn golygu nad yw'n syndod bod y rhai y mae angen iddynt werthuso ymgeisydd sydd ger eu bron yn cael meincnod safonol fel TGAU neu Safon Uwch gymaint yn haws i'w ddeall. Weinidog, credaf fod angen diffiniadau: mae addysg neu hyfforddiant galwedigaethol yn llawer rhy gyffredinol. Mae'n cwmpasu diddordebau personol, fel hanfodion gwau, y gallai rhywun eu hastudio mewn dosbarth nos, hyd at dechnoleg uwch mewn dylunio drwy gymorth cyfrifiadur. Dyna'r amgyffrediad. Nid yw fy NVQ mewn deifio mewn dŵr agored yn helpu cyflogwr i asesu fy sgiliau cyfathrebu a rhifedd. Byddwn wedi bod yn wynebu methiant pe bawn wedi meddwl bod un NVQ yn cynnig ffordd i mewn i fyd gwaith. I lawer o fyfyrwyr ar gyrsiau 'gadewch inni roi hyfforddiant mewn rhywbeth neu unrhyw beth', amhriodol, dyna'n union beth sy'n digwydd: maent yn wynebu methiant.

We need to encourage people to change their perspectives. After all, professional subjects are vocational subjects—subjects such as law, business and engineering are vocational by their very nature, as they empower the student to find work once their studies are complete. As we debated last week, we believe that Wales needs a fluid system designed in such a way that pupils can go either way, from academic courses and paths to taking a more vocational course, and back again. This will build esteem and parity within the subject matter, and self-esteem and confidence in the individual.

Mae angen inni annog pobl i newid eu safbwyntiau. Wedi'r cyfan, pynciau galwedigaethol yw pynciau proffesiynol—mae pynciau fel y gyfraith, busnes a pheirianneg yn rhai galwedigaethol eu natur, gan eu bod yn galluogi'r myfyriwr i ddod o hyd i waith ar ôl gorffen ei astudiaethau. Fel y trafodwyd gennym yr wythnos diwethaf, credwn fod angen system hyblyg yng Nghymru sydd wedi'i chynllunio yn y fath fodd ag y gall disgyblion fynd y naill ffordd neu'r llall, o gyrsiau a llwybrau academaidd i ddilyn cwrs mwy galwedigaethol, ac yn ôl eto. Bydd hyn yn adeiladu parch a chydraddoldeb o fewn y pwnc, a hunan-barch a hyder yn yr unigolyn.

Last week I spoke of Martin, the student from Germany who is now studying a Masters in engineering at Cardiff University having left school early, in Germany, with no formal learning to his name. Their fluid system of being able to move back and forth between vocational and academic phases of learning at different times in their education journey has enabled Martin to change his life and achieve his dream of working around the world.

Yr wythnos diwethaf, soniais am Martin, y myfyriwr o'r Almaen sydd bellach yn astudio am radd Meistr mewn peirianneg ym Mhrifysgol Caerdydd ar ôl gadael yr ysgol yn gynnar, yn yr Almaen, heb unrhyw gymwysterau ffurfiol. Mae system hyblyg yr Almaen lle y gellir symud yn ôl ac ymlaen rhwng cyfnodau galwedigaethol ac academaidd o ddysgu ar wahanol adegau yn y daith addysg wedi galluogi Martin i newid ei fywyd a gwireddu ei freuddwyd o weithio o amgylch y byd.

A little closer to home is Samantha Ball, who came to attention after appearing at the Conservative Party conference this year. She spoke about her experiences on an apprenticeship, and how that had led her to further study. Her words are worth hearing because her thoughts resonate with so many who are restless in an academic route. She said that she was a material logistics apprentice studying business management at Bolton University alongside completing a logistics-related placement at MBDA. She chose the apprenticeship route as she was restless in education and enjoyed the idea of working and making a contribution within organisations. An apprenticeship, therefore, seemed the best option, as she could continue to progress academically while gaining valuable work experience. Additionally, MBDA provided many opportunities for further training outside the apprenticeship programme. For example, she has completed an introductory certificate in project management, she is first-aid trained, and she now also goes to French lessons, all supported by her employer.

Ychydig yn nes adref mae Samantha Ball, a dynnodd sylw ati'i hun ar ôl ymddangos yng nghynhadledd y Blaid Geidwadol eleni. Soniodd am ei phrofiadau ar brentisiaeth, a sut roedd hynny wedi ei harwain i astudio ymhellach. Mae ei geiriau yn werth eu clywed am fod ei meddyliau yn taro tant â chymaint o bobl sy'n anfodlon eu byd mewn llwybr academaidd. Dywedodd mai prentis logisteg deunydd ydoedd, yn astudio rheoli busnes ym Mhrifysgol Bolton ochr yn ochr ag ymgymryd â lleoliad sy'n gysylltiedig â logisteg yn MBDA. Dewisodd lwybr prentisiaeth gan ei bod yn anfodlon ei byd mewn addysg ac yn hoffi'r syniad o weithio a gwneud cyfraniad o fewn sefydliadau. Ymddangosai felly mai prentisiaeth fyddai'r dewis gorau gan y gallai barhau i ddatblygu'n academaidd tra'n cael profiad gwaith gwerthfawr. At hynny, rhoddodd MBDA lawer o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant pellach y tu allan i'r rhaglen brentisiaeth. Er enghraifft, mae wedi cwblhau tystysgrif ragarweiniol mewn rheoli prosiectau, mae wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf, ac mae bellach yn mynd i wersi Ffrangeg, y cyfan wedi'i gefnogi gan ei chyflogwr.

Closer to home, in Pembrokeshire, there are initiatives that are enabling the children of farmers, among others, who wish to stay in the family business, to take NVQs in agricultural management alongside their main GCSE subjects. At the age of 16, they leave school with skills, qualifications and GCSEs under their belt, and an understanding that, to succeed in their chosen profession, further learning will be of benefit.

Yn nes adref, yn sir Benfro, ceir mentrau sy'n galluogi plant ffermwyr, ymhlith eraill, sy'n dymuno aros yn y busnes teuluol, i ennill cymwysterau NVQ mewn rheoli amaethyddol ochr yn ochr â'u prif bynciau TGAU. Yn 16 oed, maent yn gadael yr ysgol gyda sgiliau, cymwysterau a thystysgrifau TGAU, ynghyd â dealltwriaeth y bydd dysgu pellach o fudd er mwyn iddynt lwyddo yn eu dewis broffesiwn.

This is all about the application of education. Samantha's case study shows that, as a learner, she was anxious to be working and applying her knowledge to her future career. This is all about the link up between education and business. The opportunity that a young farmer in Pembrokeshire has access to means that that person is able to train, earn and learn, all at the same time. Both are real examples of relevant vocational work. Pupils like Samantha could have gone through our education system getting their GCSEs, A-levels, and perhaps, after three years of study, ended up training in business. Equally, they could have become completely disengaged with the education process and its relevance to the lives they wish to lead. Opportunities like this allow young people to stay engaged and get into work years before they might otherwise do so, without cutting off their chances for future study. This is obviously key for their long-term prospects.

Mae hyn i gyd yn ymwneud â chymhwyso addysg. Dengys astudiaeth achos Samantha, fel dysgwraig, ei bod yn awyddus i weithio a chymhwyso ei gwybodaeth at ei gyrfa yn y dyfodol. Mae hyn i gyd yn ymwneud â'r cysylltiad rhwng addysg a busnes. Mae'r cyfle a roddir i ffermwr ifanc yn Sir Benfro yn golygu bod y person hwnnw yn gallu hyfforddi, ennill a dysgu ar yr un pryd. Mae'r naill a'r llall yn enghreifftiau go iawn o waith galwedigaethol perthnasol. Gallai disgyblion fel Samantha fod wedi mynd drwy ein system addysg ac wedi sefyll arholiadau TGAU, Safon Uwch, ac efallai, ar ôl tair blynedd o astudio, wedi cael hyfforddiant mewn busnes. Yn yr un modd, gallent fod wedi ymddieithrio yn llwyr oddi wrth y broses addysg a'i pherthnasedd i'r bywyd y maent am ei gael. Mae cyfleoedd fel hyn yn galluogi pobl ifanc i barhau i ymgysylltu ag addysg a dechrau gweithio cyn y byddent fel arall, a hynny heb golli cyfleoedd i astudio yn y dyfodol. Mae hyn yn amlwg yn allweddol i'w rhagolygon yn yr hirdymor.

Minister, let me direct you to the yearly ONS study on full-time gross weekly earnings by sector, published in 2012. If you look at earnings by sector in the major occupation groups, you can clearly see that skilled trades are lower down the list, as are trades that might require extensive vocational education qualifications, such as those in the leisure industry, which is one of the cornerstones of our economy here in Wales.

Weinidog, gadewch imi eich cyfeirio at astudiaeth flynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o enillion wythnosol gros llawn amser yn ôl sector, a gyhoeddwyd yn 2012. Os edrychwch ar enillion yn ôl sector yn y prif grwpiau galwedigaethol, gallwch weld yn glir bod crefftau medrus yn is ar y rhestr, a hefyd greffau a allai ofyn am gymwysterau addysg alwedigaethol helaeth, fel y rhai yn y diwydiant hamdden, sef un o gonglfeini ein heconomi yma yng Nghymru.

Above all, this also needs to be about the link-up between levels of qualification and consultation with industry stakeholders in order to design a vocational curriculum that encourages parity with academic education, which informs and can be understood by those industry stakeholders so that they do understand that vocational education is about more than just occupational interest.

Yn anad dim, mae angen i hyn ymwneud â'r cysylltiad rhwng lefelau cymwysterau ac ymgynghori â rhanddeiliaid diwydiant er mwyn dylunio cwricwlwm galwedigaethol sy'n annog cydraddoldeb ag addysg academaidd, sy'n llywio'r rhanddeiliaid hynny o fyd diwydiant ac sy'n un y gallant ei ddeall fel eu bod yn deall bod addysg alwedigaethol yn golygu mwy na diddordeb galwedigaethol.

I find it surprising, for example, that ColegauCymru does not have a national map of progression routes, so if a pupil was enrolled in a level 2 NVQ in construction, but needed to take a level 3 to become qualified, it might be that they have to move out of their area to study—something that many students in vocational training simply cannot afford to do. While this is the accepted norm for post-18 education at university, it is unusual and, indeed, unfair for anyone under 18 to have to do this. They certainly would not do it for academic qualifications.

Mae'n syndod i mi, er enghraifft, nad oes gan ColegauCymru fap cenedlaethol o lwybrau datblygu, felly os bydd disgybl wedi cofrestru ar gyfer NVQ lefel 2 mewn adeiladu, ond bod angen iddo astudio hyd at lefel 3 i fod yn gymwysedig, mae'n bosibl bod yn rhaid iddynt symud o'u hardal i astudio–-rhywbeth na all llawer o fyfyrwyr mewn hyfforddiant galwedigaethol fforddio i'w wneud. Er bod hyn yn beth arferol ar gyfer addysg ôl-18 yn y brifysgol, mae'n anarferol ac, yn wir, yn annheg i unrhyw un o dan 18 oed orfod gwneud hyn. Yn sicr ni fyddent yn gwneud hynny ar gyfer cymwysterau academaidd.

In the debate to follow, Minister, I hope that you will listen carefully and hear the many constructive ideas and examples of best practice that my colleagues will be discussing. I look forward to hearing your views and those of Plaid Cymru and the Liberal Democrats.

Yn y ddadl a fydd yn dilyn, Weinidog, gobeithio y byddwch yn gwrando'n ofalus ac yn clywed y llu o syniadau adeiladol ac enghreifftiau o arfer gorau y bydd fy nghyd-Aelodau yn eu trafod. Edrychaf ymlaen at glywed eich barn a barn Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

We will be accepting amendment 1, and I hope that the Labour Government does so as well. Much as you would love to blame everything on the current Westminster Government—Minister, I thought that last week was a master class in trying to blame the coalition Government for 14 years of devolved education misrule—amendment 1 is a matter of indisputable fact.

Byddwn yn derbyn gwelliant 1, a gobeithio y bydd y Llywodraeth Lafur yn gwneud hynny hefyd. Er cymaint yr hoffech roi'r bai am bopeth ar y Llywodraeth bresennol yn San Steffan—Weinidog, roeddwn yn meddwl bod yr wythnos diwethaf yn ddosbarth meistr mewn ceisio rhoi'r bai ar y Llywodraeth glymblaid am 14 mlynedd o gamreoli addysg datganoledig—mae gwelliant 1 yn ffaith ddiamheuol.

As a result of the fallback of some 30% in apprenticeship placements, we will not be supporting amendment 2—nice try, Plaid, but the reality is that the price for which you sold your souls last year has brought nothing but harm to so many other areas of Government policy, such as the NHS. Amendment 3 will not be supported either, unless the Liberal Democrats can convince us that their amendment is about more than semantics. We absolutely support amendment 4. I look forward to the debate.

O ganlyniad i'r gostyngiad o tua 30% mewn lleoliadau prentisiaeth, ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 2—chwarae teg i Blaid Cymru, ond y gwir amdani yw nad yw'r pris am werthu eich eneidiau y flwyddyn ddiwethaf ond wedi achosi niwed i gymaint o feysydd eraill o bolisi Llywodraeth, megis y GIG. Ni chefnogir gwelliant 3 ychwaith, oni bai bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn gallu ein hargyhoeddi nad semanteg yn unig yw eu gwelliant. Rydym yn sicr yn cefnogi gwelliant 4. Edrychaf ymlaen at y ddadl.

15:06

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Presiding Officer has selected the four amendments to the motion. I call on Eluned Parrott to move amendments 1, 3 and 4 tabled in the name of Aled Roberts.

Mae'r Llywydd wedi dethol y pedwar gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig gwelliannau 1, 3 a 4 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 2 and renumber accordingly:*

*Yn nodi bod Llywodraeth Glymblaid y DU wedi creu 1.2 miliwn o brentisiaethau yn Lloegr ers 2010, tra bo nifer y bobl ar brentisiaethau yng Nghymru wedi gostwng bron i 30% rhwng 2006 a 2012.*

*Notes that the UK Coalition Government has created 1.2 million apprenticeships in England since 2010, while in Wales the number of people on apprenticeship placements fell by nearly 30% between 2006 and 2012.*

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Amendment 3—Aled Roberts*

*Ym mhwynt 3, dileu 'cwricwlwm galwedigaethol sy'n annog cydraddoldeb' ac yn lle hynny, rhoi:*

*In point 3, delete 'vocational curriculum which encourages parity' and replace with:*

*'strategaeth sgiliau sy'n annog cydraddoldeb o ran parch a chyfle'.*

*'skills strategy which encourages parity of esteem and opportunity'.*

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Insert as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar ffyrdd o wella mynediad at brentisiaethau a goresgyn y rhwystrau ymarferol a chanfyddiadol sy'n atal pobl ifanc rhag chwilio am raglen brentisiaeth a gwneud cais amdani yng Nghymru.*

*Calls on the Welsh Government to examine ways to widen access to apprenticeships and overcome the practical and perceptual barriers that prevent young people from seeking and applying for an apprenticeship programme in Wales.*

15:06

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 1, 3 and 4.

Cynigiaf welliannau 1, 3 a 4.

I would like to thank the Welsh Conservatives for bringing forward this debate and for giving us an opportunity to explore these issues in more detail than is normal. There is no denying that a thriving economy benefits from well-rounded students. Young people leaving our schools need to be numerate, literate and ready to enter the labour market. However, we have to recognise that they also need to be confident and well-rounded citizens.

Hoffwn ddiolch i'r Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r ddadl hon ac am roi cyfle inni ystyried y materion hyn yn fanylach na'r arfer. Ni ellir gwadu nad yw economi ffyniannus yn elwa o fyfyrwyr â sgiliau cynhwysfawr. Mae angen i bobl ifanc sy'n gadael ein hysgolion fod yn rhifog, yn llythrennog ac yn barod i ymuno â'r farchnad lafur. Fodd bynnag, rhaid inni gydnabod bod angen iddynt hefyd fod yn ddinasyddion hyderus a chyflawn.

As Liberal Democrats, we are committed to ensuring that every child reaches their own full potential. That means accepting that we are all individuals with a wide variety of skills and attributes. At the moment, our education system places a premium on academic qualifications. However, I would say that a one-size-fits-all approach is not necessarily in the interests of everybody.

Fel Democratiaid Rhyddfrydol, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn yn cyrraedd ei lawn potensial. Mae hynny'n golygu derbyn bod pob un ohonom yn unigolion gydag amrywiaeth eang o sgiliau a phriodoleddau. Ar hyn o bryd, mae ein system addysg yn rhoi gwerth ar gymwysterau academaidd. Fodd bynnag, rhaid dweud nad yw un ateb i bawb o reidrwydd o fudd i bawb.

I believe that breaking down the difference in esteem between vocational and academic learning is vital, because it ensures that students have the skills to participate fully in all aspects of civil and social life, and to contribute to economic development. So, we agree very much with the sentiment of the Conservative motion today. However, I think that we need to reconsider how we and learners perceive vocational qualifications and work toward parity between different types of qualifications. We have to show our young people that they have a range of positive and exciting options, which can lead them to build careers that are meaningful for them and contribute to the economy more fully.

Credaf ei bod yn hanfodol dileu'r gwahaniaeth mewn parch rhwng dysgu galwedigaethol ac academaidd, gan fod hynny'n sicrhau bod myfyrwyr yn cael y sgiliau i gymryd rhan lawn ym mhob agwedd ar fywyd sifil a chymdeithasol, ac i gyfrannu at ddatblygu economaidd. Felly, cytunwn yn llwyr â'r hyn a fynegir yng nghynnig y Ceidwadwyr heddiw. Fodd bynnag, credaf fod angen inni ailystyried sut rydym ni a dysgwyr yn canfod cymwysterau galwedigaethol a gweithio tuag at gydraddoldeb rhwng gwahanol fathau o gymwysterau. Rhaid inni ddangos i'n pobl ifanc fod amrywiaeth o ddewisiadau cadarnhaol a chyffrous ar gael iddynt, a all arwain at ddatblygu gyrfaoedd sy'n ystyrlon iddynt a chyfrannu at yr economi yn llawnach.

However, we have to ask ourselves what the most appropriate mechanism for doing that is, and how the suggestions that you make in your motion fit in. We support the need to work with stakeholders to examine a skills strategy that will help to create that parity of esteem between vocational and academic studies. However, what is unclear from the motion, I think, and what I hope to hear being explained during this debate, is the nature of the vocational curriculum that you are proposing, and whether this curriculum would sit within or alongside the existing educational framework in Wales. What impact might that then have on existing education provision? It is not a question of semantics, but of wanting to understand the implications of what you are proposing and how it would look in practice.

Fodd bynnag, rhaid inni ofyn i ni'n hunain beth yw'r dull mwyaf priodol o wneud hynny, a sut mae'r awgrymiadau a wnewch yn eich cynnig yn cyd-fynd â hynny. Rydym yn cefnogi'r angen i weithio gyda rhanddeiliaid i edrych ar strategaeth sgiliau a fydd yn helpu i greu'r parch cydradd rhwng astudiaethau galwedigaethol ac academaidd. Fodd bynnag, yr hyn sy'n aneglur o'r cynnig, fe gredaf, a'r hyn yr wyf yn gobeithio clywed yn cael ei egluro yn ystod y ddadl hon, yw natur y cwricwlwm galwedigaethol yr ydych yn ei gynnig, ac a fyddai'r cwricwlwm hwn yn eistedd o fewn neu ochr yn ochr â'r fframwaith addysgol presennol yng Nghymru. Pa effaith y gallai hynny ei chael wedyn ar y ddarpariaeth addysg bresennol? Nid mater o semanteg ydyw, ond dymuniad i ddeall goblygiadau'r hyn yr ydych yn ei gynnig a sut beth fyddai yn ymarferol.

There has been significant structural upheaval and change to exam syllabuses in Wales in recent years, and it has been a turbulent time for pupils and teachers. That turbulence, in and of itself, can be a cause of difficulty and can distract attention from our key objective with regard to education. That objective has to be the need to focus on raising standards in core skills if we are going to equip pupils with the skills that they then need for the workplace.

Bu cryn dipyn o newid strwythurol i feysydd llafur arholiadau yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a bu'n gyfnod cythryblus i ddisgyblion ac athrawon. Gall cythrwfl o'r fath, ynddo'i hun, achosi anawsterau a thynnu sylw oddi wrth ein nod allweddol o ran addysg. Rhaid mai'r nod hwnnw yw'r angen i ganolbwyntio ar godi safonau mewn sgiliau craidd os ydym am ddysgu'r sgiliau i ddisgyblion sydd eu hangen arnynt wedyn yn y gweithle.

Last year, the 'Wales 2030—Perspectives on the Future' report, commissioned by the Wales Quality Centre, highlighted that Wales produces fewer school leavers with adequate GCSEs than England, with concerns about their employability. One respondent said that those school leavers often lack basic communication, numeracy and literacy skills and can seem unemployable. Of course, there are data that support a view that literacy and numeracy standards in Wales are lower than in other parts of the UK. However, this perception from employers that Welsh school leavers seem unemployable or have lower standards of skills is hugely damaging, not only to our economy as a whole but to those individuals. What those employers believe they may well act on, and it leaves Welsh school leavers facing an uphill struggle against preconceptions as well as against other job applicants when they enter the job market. It is something that we must take seriously. The question, of course, is: what has the Welsh Government been doing since this report to address the situation?

Y llynedd, gwnaeth adroddiad 'Cymru 2030—Safbwyntiau ar y Dyfodol', a gomisiynwyd gan Ganolfan Ansawdd Cymru, dynnu sylw at y ffaith bod llai o ddisgyblion yng Nghymru yn gadael yr ysgol gyda chymwysterau TGAU digonol nag yn Lloegr, gyda phryderon am eu cyflogadwyedd. Dywedodd un ymatebydd nad oedd gan y rhai sy'n gadael yr ysgol sgiliau cyfathrebu llythrennedd na rhifedd sylfaenol yn aml ac y gallant ymddangos yn anghyflogadwy. Wrth gwrs, mae data yn ategu'r farn bod safonau llythrennedd a rhifedd yng Nghymru yn is nag mewn rhannau eraill o'r DU. Fodd bynnag, mae'r canfyddiad hwn ymhlith cyflogwyr fod y rhai sy'n gadael yr ysgol yng Nghymru yn ymddangos yn anghyflogadwy neu fod ganddynt sgiliau o safon is yn hynod niweidiol, nid yn unig i'n heconomi yn ei chyfanrwydd, ond i'r unigolion hynny. Mae'n ddigon posibl y bydd y cyflogwyr hynny yn gweithredu ar yr hyn a gredant, ac mae'n golygu bod y rhai sy'n gadael yr ysgol yng Nghymru yn wynebu brwydr yn erbyn rhagdybiaethau, yn ogystal â brwydr yn erbyn ymgeiswyr eraill am swyddi pan fyddant yn ymuno â'r farchnad swyddi. Mae'n rhywbeth y mae'n rhaid inni ei ystyried o ddifrif. Y cwestiwn, wrth gwrs, yw: beth mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud ers yr adroddiad hwn er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa?

Just this week, we have had Estyn's report highlighting that mathematics is the lowest performing core subject at key stage 4 and the lowest in the UK. The chief inspector, Ann Keane, said that some employers had to invest in numeracy skills training for school and college leavers, because many Welsh employers are concerned at the lack of mathematical skills demonstrated by employees. We need to ensure that the key focus is that pupils are leaving schools with the core skills that they need and also that the language of work and apprenticeships is understood from a very early age.

Dim ond yr wythnos hon, tynnodd adroddiad Estyn sylw at y ffaith mai mathemateg yw'r pwnc craidd lle y cafwyd y perfformiad isaf yng nghyfnod allweddol 4 a'r perfformiad isaf yn y DU. Dywedodd y prif arolygydd, Ann Keane, fod yn rhaid i rai cyflogwyr fuddsoddi mewn hyfforddiant sgiliau rhifedd i'r rhai sy'n gadael yr ysgol a'r coleg, gan fod llawer o gyflogwyr yng Nghymru yn pryderu ynglŷn â'r diffyg sgiliau mathemategol ymhlith cyflogeion. Mae angen inni sicrhau mai'r prif ffocws yw bod gan ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol y sgiliau craidd sydd eu hangen arnynt a hefyd bod iaith gwaith a phrentisiaethau yn cael eu deall o oedran cynnar iawn.

I think that we must think very carefully about how this is done. Reading the motion, I am unclear about what that vocational curriculum would entail and how it would tackle the fundamental problem that we have with those core skills.

Credaf fod yn rhaid inni feddwl yn ofalus iawn am sut mae hyn yn cael ei wneud. O ddarllen y cynnig, nid wyf yn siŵr ynghylch yr hyn y byddai cwricwlwm galwedigaethol yn ei olygu na sut y byddai'n mynd i'r afael â'r broblem sylfaenol sydd gennym o ran y sgiliau craidd hynny.

One question that I would like to put to you is this: is the Conservative motion proposing a move towards the university technical colleges and studio schools that have been introduced in England? I understand the precepts that these ideas are built on and I think that it is a laudable agenda, but the fundamental question that remains for me is whether this is the right approach for Wales. I would have concerns as to whether existing schools in Wales would have the experience or expertise, or particularly the facilities, to deliver a high-quality vocational curriculum alongside their existing academic one. Of course, that capacity could be built, but it would require a significant investment in capital infrastructure, new facilities, on-going costs, teacher training—the question in my mind is, how credible is this, given the Conservatives' stated intention to cut education spending by 12% to protect health budgets in the future?

Un cwestiwn yr hoffwn ei ofyn ichi yw hyn: a yw cynnig y Ceidwadwyr yn cynnig symud tuag at y colegau technegol prifysgol a'r ysgolion stiwdio a gyflwynwyd yn Lloegr? Deallaf yr hyn sy'n sail i'r syniadau hyn, a chredaf ei bod yn agenda glodwiw, ond y cwestiwn sylfaenol imi o hyd yw ai dyma'r peth cywir i Gymru. Byddai gennyf bryderon ynghylch a fyddai gan ysgolion sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru y profiad a'r arbenigedd, neu'r cyfleusterau yn arbennig, i gyflwyno cwricwlwm galwedigaethol o safon uchel ochr yn ochr â'u cwricwlwm academaidd presennol. Wrth gwrs, gellid meithrin y gallu hwnnw, ond byddai'n gofyn am fuddsoddiad sylweddol mewn seilwaith cyfalaf, cyfleusterau newydd, costau parhaus, hyfforddiant i athrawon—y cwestiwn sydd gennyf yw pa mor gredadwy yw hyn, o ystyried bwriad datganedig y Ceidwadwyr i dorri gwariant ar addysg 12% er mwyn diogelu cyllidebau iechyd yn y dyfodol?

Alternatively, if we go down the 14-19 vocational schools agenda, I think that they are interesting models and that we should watch them with interest, but is there a risk of fragmentation and a loss of focus on those core challenges in our secondary school provision? What exactly do the Conservatives propose that the secondary landscape will look like as a whole in the future? We have you, Angela, as a spokesperson and Mark Isherwood stating that we do not want to see a return to grammar schools in Wales, but your leader said exactly the opposite the other day.

Fel arall, os ydym yn mynd ar drywydd yr agenda ysgolion galwedigaethol 14-19, credaf eu bod yn fodelau diddorol ac y dylem eu gwylio gyda diddordeb, ond a oes perygl o ddarnio a cholli ffocws ar yr heriau craidd hynny yn ein darpariaeth uwchradd? Beth yn union y mae'r Ceidwadwyr yn cynnig y bydd y ddarpariaeth uwchradd yn ei chyfanrwydd yn y dyfodol? Rydych chi, Angela, fel llefarydd a Mark Isherwood yn dweud nad ydym am ddychwelyd i ysgolion gramadeg yng Nghymru, ond dywedodd eich arweinydd yn union i'r gwrthwyneb y diwrnod o'r blaen.

Is that not enough uncertainty? Do we want to add more potential layers when the OECD has said that,

Onid yw hynny'n creu digon o ansicrwydd? A ydym am ychwanegu mwy o haenau o bosibl pan ddywedodd OECD fod,

'school systems that assume that students have different destinations with different expectations and differentiation in terms of how they are placed in schools, classes and grades, often show less equitable outcomes without an overall performance advantage.'

systemau ysgol sy'n cymryd yn ganiataol bod gan fyfyrwyr gyrchfannau gwahanol gyda disgwyliadau gwahanol a gwahaniaethu o ran sut y maent yn cael eu rhoi mewn ysgolion, dosbarthiadau a graddau, yn aml yn dangos canlyniadau llai cyfartal heb fantais perfformiad yn gyffredinol.

I am not convinced that you have overcome that argument at present, although I am open to considering creative ideas. I struggle to believe, under the circumstances, that this is part of a credible, comprehensive—in the broader sense—future master plan for education in Wales. I think that it rather reflects the kind of pick and mix approach that is chasing after key words and looking at the tactical options—which we must do—but without setting those in an appropriate strategic context.

Nid wyf yn argyhoeddedig eich bod wedi goresgyn y ddadl honno ar hyn o bryd, er fy mod yn agored i ystyried syniadau creadigol. Mae'n anodd gennyf gredu, o dan yr amgylchiadau, fod hyn yn rhan o brif gynllun creadwy a chynhwysfawr—yn yr ystyr ehangach–-ar gyfer addysg yng Nghymru. Yn hytrach na hynny, credaf ei fod yn adlewyrchu dull gweithredu dewis a dethol sy'n mynd ar drywydd geiriau allweddol ac sy'n edrych ar yr opsiynau tactegol—rhywbeth y mae'n rhaid inni ei wneud—ond nad yw'n eu gosod mewn cyd-destun strategol priodol.

*Gwelliant 2—Elin Jones*

*Amendment 2—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Add as new point 3 and renumber accordingly:*

*Yn croesawu cytundeb cyllideb Plaid Cymru i greu dros 5,500 o brentisiaethau ac, yn benodol,dros 2,500 o brentisiaethau uwch.*

*Welcomes the Plaid Cymru budget agreement to create over 5,500 apprenticeships and particularly over 2,500 higher apprenticeships.*

15:13 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliant 2.

I move amendment 2.

Mae'n dda gennyf gyfrannu at y ddadl hon heddiw. Mae'n wir bod Plaid Cymru yn rhannu'r un diddordeb mewn addysg alwedigaethol â'r cynnig, ond rwyf innau hefyd yn rhannu nifer o gwestiynau ynglŷn â bwriadau'r Blaid Geidwadol heddiw.

I am pleased to contribute to this debate today. It is true that Plaid Cymru shares the same interest in vocational education as is reflected in the motion, but I also share many of the concerns about the intentions of the Conservative Party today.

A gaf i ddiolch yn gyntaf i'r Blaid Geidwadol am fod mor greadigol, a sicrhau ein bod yn cael dwy awr i drafod y pwnc hwn? Mae gennym, felly, rywbeth sydd yn debycach i wers alwedigaethol yn yr ysgol, gan mai dwy awr oedd y gwersi hynny, o'r hyn a gofiaf i. Rwy'n disgwyl, felly, gweld perl o weithgarwch ar hyd y meinciau cefn a bydd arolwg ar ddiwedd y dydd o'r 'lampshades' a'r mwclis rydych wedi eu creu yn ystod y ddwy awr.

May I first of all thank the Conservative Party for being so creative in ensuring that we have two hours to discuss this issue this afternoon? We have something that is more akin to a vocational lesson in school, because they lasted for two hours as well, if I remember correctly. I expect to see, therefore, all sorts of activity along those backbenches today, and the lampshades and necklaces that you create during these two hours will be inspected at the end of the day.

Yn bwysicach, a gawn ni fynd i'r afael â'r cwestiwn sylfaenol cyllidol? Mae'n ddrwg gennyf weld agwedd mor gul a chybyddlyd tuag at ein gwelliant ni ar brentisiaethau. Mae modd inni dderbyn, onid oes, bod diffyg prentisiaethau wedi bod yng Nghymru? Dylem groesawu'r ffaith bod cytundeb cyllidol i greu dros 5,500 mwy o brentisiaethau; mae'n rhaid imi ddatgan yn awr, mae arnaf i ofn, bod gan y Blaid Geidwadol gynlluniau pendant i dorri addysg yng Nghymru o 12% bob blwyddyn o'r bron. Pe bai'r Ceidwadwyr wedi cael eu ffordd, dair blynedd yn ôl gyda'r gyllideb, byddem wedi gweld tair blynedd o'r bron o doriadau yn y gyllideb addysg.

More importantly, can we get to grips with the fundamental question of funding? I am sorry to see such a narrow and miserly attitude towards our amendment on apprenticeships. Can we not accept that there has been a shortage of apprenticeships in Wales? We should welcome the fact that there was a budgetary agreement to create over 5,500 additional apprenticeships; I must declare, I am afraid, that the Conservatives Party has specific plans to cut the education budget in Wales by 12% annually. If the Conservatives had had their way with the budget three years ago, we would have seen three consecutive years of cuts in the education budget.

15:14 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is a rather bizarre notion that Simon Thomas is putting forward of a 12% cut. At the time of the budget that we tabled in the last Assembly, we looked at the education budget facing a reduction of 12%. The Welsh Government itself was facing a reduction of 10% in its education spend. You have just endorsed that plot yourself.

Mae'r syniad y mae Simon Thomas yn ei gynnig, sef toriad o 12% braidd yn rhyfedd. Ar adeg y gyllideb a gyflwynwyd gennym yn y Cynulliad diwethaf, buom yn edrych ar y gyllideb addysg yn wynebu gostyngiad o 12%. Roedd Llywodraeth Cymru ei hun yn wynebu gostyngiad o 10% yn ei gwariant ar addysg. Rydych newydd gymeradwyo'r cynllun hwnnw eich hun.

15:14 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The problem is, Andrew, that you have not updated your budget. You just said this week that your budget of 2010 stayed in force, so your 12% cut would be on top of any cuts that have already been made, and you would have to take into account the extra money that has been put into health. We are looking at more like a 20% cut by your own figures, Andrew. You cannot preach about parity of esteem between vocational and academic training while you are proposing such major cuts to the education budget in Wales.

Y broblem yw, Andrew, nad ydych wedi diweddaru'ch cyllideb. Rydych newydd ddweud yr wythnos hon fod eich cyllideb ar gyfer 2010 yn dal mewn grym, felly byddai eich toriad o 12% ar ben unrhyw doriadau sydd eisoes wedi cael eu gwneud, a byddai'n rhaid ichi ystyried yr arian ychwanegol a neilltuwyd ar gyfer iechyd. Mae'r toriad yn nes at 20% yn ôl eich ffigurau eich hun, Andrew. Ni allwch bregethu am barch cydradd rhwng hyfforddiant galwedigaethol ac academaidd tra byddwch yn cynnig toriadau mor fawr i'r gyllideb addysg yng Nghymru.

Gwnawn ddod yn ôl at rywbeth bach mwy positif, sef y ffordd rydym yn gallu cefnogi prentisiaethau yng Nghymru. Un o'r pethau rydym yn awyddus i'w weld o safbwynt cydraddoldeb rhwng yr ochr academaidd a'r ochr alwedigaethol yw bod yr ochr alwedigaethol yn meddu ar barch a sgiliau uchel. Mae'n hynod bwysig bod disgyblion ar y llwybr galwedigaethol yn cael eu cydnabod am y sgiliau maen nhw'n gallu eu dangos. Mae hynny yn dangos bod y llwybr yn arwain yn y pen draw, os ydynt yn ei ddewis, at sgiliau uchel. Dyna pam fod y cytundeb â'r Blaid Lafur yn ffocysu ar hanner y prentisiaethau yn dod o'r brentisiaeth uwch, a dyna pam yr oeddwn mor falch o glywed y Dirprwy Weinidog, Ken Skates, yn dweud yr wythnos diwethaf,

We will return to something a little more positive, and that is how we can support apprenticeships in Wales. One of the things that we are eager to see from the point of view of parity in terms of vocational and academic courses is that the vocational sector does have respect and high levels of skills. It is very important that pupils who choose the vocational route are recognised for the skills that they can demonstrate. That demonstrates to us that the route, if that is their choice, ultimately leads to high-level skills. That is why the agreement with the Labour Party focused on ensuring that half the apprenticeships were higher apprenticeships, and that is why I was so pleased to hear the Deputy Minister, Ken Skates, saying last week,

'I am pleased to be able to say that the enrolment for higher apprenticeships is going exceedingly well as a consequence of the budget agreement.'

Rwy'n falch o allu dweud bod y broses gofrestru ar gyfer prentisiaethau uwch yn mynd yn ei blaen yn eithriadol o dda o ganlyniad i gytundeb y gyllideb.

Rwy'n meddwl bod hynny'n profi bod Plaid Cymru a'r Blaid Lafur wedi rhannu'r un ddelfryd yn y fan hon o greu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion yng Nghymru i feddu ar brentisiaethau a all ddilyn y llwybr galwedigaethol yn fwy trylwyr.

I think that that proves that Plaid Cymru and the Labour Party shared the same aspiration here in creating enhanced opportunities for pupils in Wales to follow apprenticeships that can lead more thoroughly down the vocational route.

Wedi dweud hynny, mae gennyf gwestiwn ynglŷn â'r hyn ddywedodd Angela Burns am y cwricwlwm, yn enwedig am gymwysterau. Mae cyfle i'r Gweinidog, wrth ymateb i'r ddadl, ddweud ychydig mwy nag y mae wedi ei ddweud hyd yma ynglŷn â sefydlu Cymwysterau Cymru. Roedd datganiad yr wythnos diwethaf, ond roedd adroddiad gwreiddiol Huw Evans yn glir y byddai addysg eang gyffredinol yn cael ei dilyn hyd at tua 16, a dim ond ar ôl 16 y byddai disgyblion yn dechrau arbenigo'n fwy ar yr ochr alwedigaethol neu academaidd. Nid yw'n glir o'r datganiadau a gawsom hyd yma a fydd y Cymwysterau Cymru newydd, a fydd yn cael ei sefydlu yn 2015, yn cynnig cymwysterau galwedigaethol, achos dim ond cymwysterau TGAU a Lefel A a gafodd eu crybwyll yn natganiad y Gweinidog. Felly, byddwn yn licio clywed mwy gan y Gweinidog heddiw ynglŷn â sut mae'n mynd i gyrraedd y sefyllfa lle mae hygrededd rhwng addysg academaidd ac addysg alwedigaethol yn system cymwysterau Cymru—system sydd eisiau, fel y dywedodd adroddiad Huw Evans, ei symleiddio yn sylweddol.

Having said that, I have a question about what Angela Burns said about the curriculum, particularly on qualifications. There is an opportunity for the Minister, in responding to this debate, to say a little more than he has said to date on the establishment of Qualifications Wales. There was a statement last week, but Huw Evans's original report it was clear that a broad general education would be followed up until the age of 16, and only after the age of 16 would pupils start to specialise more in terms of vocational or academic options. It is not clear from the statements that we have had to date whether Qualifications Wales, which will be established in 2015, will offer vocational qualifications because only GCSE and A-level qualifications were mentioned in the Minister's statement. Therefore, I would like to hear more from the Minister today on how he is going to reach a position where there is parity of esteem between vocational and academic qualifications in the qualifications system in Wales—a system that needs to be simplified significantly, as Huw Evans said in his report.

Hoffwn gloi yn fyr iawn gyda'r ffaith bod angen o hyd i gryfhau'r ddarpariaeth yn yr iaith Gymraeg ar gyfer addysg alwedigaethol. Mae'n amcan gan y Llywodraeth a CholegauCymru bod 7% o ddysgu yn digwydd drwy'r iaith Gymraeg. Rydym wedi cyrraedd 6% yn unig, ond rwy'n derbyn bod blwyddyn neu ddwy i fynd. Mae addysg yn y gweithle yn fwy o fater o bryder i mi oherwydd dim ond 0.5% sydd yn Gymraeg. Mae hynny yn destun pryder, achos os yw'r dewis galwedigaethol yn mynd i fod yn ddewis go iawn i bob disgybl yng Nghymru, yn Gymraeg neu'n Saesneg, mae'n rhaid cryfhau'r ochr Gymraeg, yn enwedig o ran hyfforddiant yn y gweithle.

I would like to conclude by briefly mentioning the fact that there remains a need to strengthen the Welsh-medium provision in vocational education. It is an objective of the Government and CollegesWales that 7% of learning should happen through the medium of Welsh. We have only achieved 6%, but we do have a year or two to go and I accept that. It is of more concern to me that only 0.5% per cent of workplace education is conducted through the medium of Welsh. That is a cause for concern because if the vocational option is to be a real option for all pupils in Wales, through the medium of Welsh or English, then we must strengthen that aspect of things, particularly in workplace training.

Rwy'n edrych ymlaen yn fawr iawn at glywed rhai syniadau pellach o feinciau cefn y Blaid Geidwadol, ond mae arnaf ofn nad oes ganddynt ddimai goch i roi tu cefn i'w cynlluniau.

I particularly look forward to some of the further ideas to be put forward from the Conservative backbenches, but I do fear that they do not have a penny to back these plans up.

15:18 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

One of the loudest wake-up calls for education came in 2006 with the publication of the Leitch review, which identified that we cannot be complacent and that we cannot predict future economic conditions with certainty, but that we know that the demand for skills will grow inexorably. Lord Leitch noted in 2006 that more than a third of adults do not hold the equivalent of a basic school-leaving qualification, and that 50% of adults have difficulty with numbers and that 15% were not functionally literate, which is worse than our principal comparators. He said that any improvement in our schools would not solve this problem, as 70% of our 2020 workforce had already completed their compulsory education.

Daeth un o'r ysgytwadau mwyaf i addysg yn 2006 gyda chyhoeddi adolygiad Leitch, a nododd na allwn fod yn hunanfodlon ac na allwn ragweld amodau economaidd yn y dyfodol gyda sicrwydd, ond ein bod yn gwybod y bydd y galw am sgiliau yn tyfu'n ddiwrthdroi. Nododd yr Arglwydd Leitch yn 2006 nad oedd gan fwy na thraean o oedolion yr hyn sy'n cyfateb i gymhwyster sylfaenol adeg gadael yr ysgol, a bod 50% o oedolion yn cael anhawster gyda rhifau ac nad oedd 15% yn llythrennog yn weithredol, sy'n waeth na'n prif gymaryddion. Dywedodd na fyddai unrhyw welliant yn ein hysgolion yn datrys y broblem hon, gan fod 70% o'n gweithlu erbyn 2020 eisoes wedi cwblhau eu haddysg orfodol.

This wake-up call returns to haunt us this week, with the publication of the Organisation for Economic Co-operation and Development's survey of adult skills. This indicated that England—

Profwn yr ysgytwad hwn unwaith eto yr wythnos hon, gyda chyhoeddi arolwg y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad o sgiliau oedolion. Nododd hwn fod Lloegr—

15:19 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

15:19 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, of course.

Gwnaf, wrth gwrs.

15:19 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is the second time that the Conservatives have mentioned this OECD report. It was a report for England and Northern Ireland only—it was not based on Welsh statistics.

Dyma'r ail dro i'r Ceidwadwyr grybwyll adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Adroddiad i Loegr a Gogledd Iwerddon yn unig ydoedd—nid oedd yn seiliedig ar ystadegau Cymru.

15:19 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I quite agree. If you allow me a little minute, I will come on to that. However, the point is that our comparators are not good. It indicated that England was in the bottom three out of 24 surveyed countries. Therefore, you can imagine, if Wales had taken part, how low we would be on that. That is despite a sharp rise in the number of people leaving school with top grades and going on to university over the past 20 years.

Yn hollol. Os rhowch ryw funud imi, dof at hynny. Fodd bynnag, y pwynt yw nad yw ein cymaryddion yn dda. Nododd fod Lloegr ymhlith y tri isaf o 24 o wledydd a arolygwyd. Felly, gallwch ddychmygu, pe bai Cymru wedi cymryd rhan, pa mor isel y byddem wedi bod o ran hynny, a hynny er gwaethaf cynnydd sydyn yn nifer y bobl sy'n gadael yr ysgol gyda'r graddau uchaf ac sy'n mynd ymlaen i'r brifysgol dros yr 20 mlynedd diwethaf.

Although I acknowledge that Wales was not included in the OECD report, the recent Estyn report, 'Good practice in mathematics at key stage 4', highlighted that maths was the lowest performing core subject at GCSE level in Wales, and, proportionately, the lowest in the United Kingdom. The programme for international student assessment data for 2009 showed that attainment in Wales was significantly behind the rest of the UK in maths and had fallen further since 2006.

Er fy mod yn cydnabod nad oedd Cymru wedi'i chynnwys yn adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, tynnodd adroddiad diweddar Estyn, 'Arfer da mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 4', sylw at y ffaith mai mathemateg oedd y pwnc craidd lle y cafwyd y perfformiad gwaethaf ar lefel TGAU yng Nghymru, ac, fel cyfran, y perfformiad isaf yn y Deyrnas Unedig. Dangosodd data'r rhaglen asesu myfyrwyr rhyngwladol ar gyfer 2009 fod cyrhaeddiad yng Nghymru dipyn yn waeth nag yng ngweddill y DU mewn mathemateg ac mae wedi gwaethygu eto ers 2006.

The sad reality is that policies followed by Labour Governments led to a decline in our global standing, with a drop in achievement levels being disguised by years of grade inflation, resulting in the UK going backwards. Other countries that we compete against in the global market have surged ahead in terms of the basic skills so vitally needed in the workplace.

Y gwir truenus amdani yw bod polisïau a ddilynwyd gan Lywodraethau Llafur wedi arwain at ddirywiad yn ein safle byd-eang, gyda gostyngiad mewn cyrhaeddiad yn cael ei guddio gan flynyddoedd o chwyddiant mewn graddau, a barodd i'r DU fynd tuag yn ôl. Mae gwledydd eraill yr ydym yn cystadlu â hwy yn y farchnad fyd-eang wedi carlamu ymlaen o ran y sgiliau sylfaenol sydd mor hanfodol yn y gweithle.

The director general of the Confederation of British Industry said,

Fel y dywedodd cyfarwyddwr cyffredinol Cydffederasiwn Diwydiant Prydain,

'It's a car crash in slow motion for the economy. You have about 30% of every year of 16-year-olds who have been failed by the education system.... After 11 years in full time education, when they enter the labour force without adequate GCSE English or maths everyone loses out.'

Mae'n drychineb i'r economi. Mae tua 30% o bob blwyddyn o ddisgyblion 16 oed wedi cael eu hesgeuluso gan y system addysg.... Ar ôl 11 mlynedd mewn addysg lawn amser, pan fyddant yn ymuno â'r gweithlu heb TGAU ddigonol mewn Saesneg neu fathemateg mae pawb ar ei golled.

Estyn chief inspector, Ann Keane comments,

Noda prif arolygydd Estyn, Ann Keane,

'Many Welsh employers are concerned at the lack of mathematical skills demonstrated by employees. Research shows that about 44% of employers have invested in numeracy skills training for school and college leavers'.

Mae llawer o gyflogwyr Cymru yn pryderu am y diffyg sgiliau mathemategol a welwyd ymhlith gweithwyr. Dengys ymchwil fod tua 44% o gyflogwyr wedi buddsoddi mewn hyfforddiant sgiliau rhifedd i'r rhai sy'n gadael yr ysgol neu'r coleg.

Youth employment in Wales started to rise in 2005. One in 10 16-year-olds are not in education, employment or training and the proportion of 19 to 24-year-olds in this category has risen to 23%. The Estyn report did highlight some oasis in a desert of decline. For example, in Newport, Duffryn High School was praised for how its maths department used a range of strategies to improve consistency in planning, which ensured that lessons followed an appropriate structure, with good pace and challenge.

Dechreuodd cyflogaeth ieuenctid yng Nghymru gynyddu yn 2005. Nid yw un o bob deg person ifanc 16 oed mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac mae cyfran y bobl 19 i 24 oed yn y categori hwn wedi cynyddu i 23%. Nododd adroddiad Estyn ryw lygedyn o obaith ymhlith y dirywiad. Er enghraifft, yng Nghasnewydd, cafodd Ysgol Uwchradd Duffryn ei chanmol am y ffordd yr oedd ei hadran fathemateg yn defnyddio nifer o strategaethau i wella cysondeb o ran gwaith cynllunio, a oedd yn sicrhau bod gwersi yn dilyn strwythur priodol, gyda chyflymder a her dda.

The proposal for a national institute of social care is seen to establish recognised standards for a sector that is acknowledged to be low paid with a high turnover of staff and therefore little incentive to invest in training. The provision of a career structure in social care is long overdue.

Mae'r cynnig ar gyfer sefydliad cenedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol yn cael ei ystyried yn rhywbeth a fydd yn pennu safonau cydnabyddedig ar gyfer sector sy'n cael ei gydnabod fel un sy'n talu cyflogau isel gyda throsiant uchel o staff lle nad oes fawr ddim cymhelliant i fuddsoddi mewn hyfforddiant. Mae'n hen bryd i strwythur gyrfa ym maes gofal cymdeithasol gael ei sefydlu.

We must be mindful that while we compete in the global marketplace, the qualifications that our students gain will face imminent evaluation against those gained by students in other United Kingdom countries, principally England. It is vital that the Minister remembers that we require qualifications that employers, colleges and universities fully accept.

Rhaid inni fod yn ymwybodol, er ein bod yn cystadlu yn y farchnad fyd-eang, y bydd y cymwysterau y mae ein myfyrwyr yn eu hennill yn cael eu gwerthuso'n syth yn erbyn y rhai a enillir gan fyfyrwyr mewn gwledydd eraill yn y Deyrnas Unedig ac, yn bennaf Lloegr. Mae'n hanfodol bod y Gweinidog yn cofio bod angen inni gael cymwysterau y mae cyflogwyr, colegau a phrifysgolion yn eu derbyn yn llwyr.

We do not need any more wake-up calls. We need evidence-based confirmation that we have reversed almost a decade of declining standards, and that Welsh students have gained the qualifications required by employers and institutions for further and higher education. It is our duty to ensure that the Welsh education system does not lose sight of today's students, as it did for yesterday's students, in an attempt to allow tomorrow's students to realise their widest potential.

Nid oes angen inni gael ysgatwad arall. Mae angen inni gael cadarnhad ar sail tystiolaeth ein bod wedi gwrthdroi bron ddegawd o safonau sy'n dirywio, a bod myfyrwyr Cymru wedi ennill y cymwysterau sydd eu hangen ar gyflogwyr a sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch. Mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau nad yw system addysg Cymru yn colli golwg ar fyfyrwyr heddiw, fel y gwnaeth ar gyfer myfyrwyr ddoe, mewn ymgais i roi cyfle i fyfyrwyr yfory wireddu eu potensial llawnaf.

15:23

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is a pleasure to contribute to this debate today, looking at the education system that we have here in Wales. Obviously from the parties opposite, there has been some misconstruing of the facts—talking of a 12% cut in education when they have just backed a budget that has seen a £77.5 million cut in the education and skills budget, with £41.5 million coming out of the education and training standards line.

Mae'n bleser cael cyfrannu at y ddadl hon heddiw, gan edrych ar y system addysg sydd gennym yma yng Nghymru. Mae'n amlwg bod rhywfaint o gamddehongli'r ffeithiau gan y pleidiau gyferbyn—sôn am doriad o 12% mewn addysg pan fyddant newydd gefnogi cyllideb sydd wedi gweld toriad o £77.5 miliwn yn y gyllideb addysg a sgiliau, gyda £41.5 miliwn yn dod o'r llinell ar gyfer safonau addysg a hyfforddiant.

We all appreciate that there is less money in the pot, so this is not crying out for more money that is not there, but it would be interesting if the Minister would use some of his time in the debate today to outline exactly where that reallocation of money in the next financial year is, and what sort of impact it will have on vocational skills, particularly in the FE sector. I very much look forward to him mapping out and fleshing out some of those proposals.

Rydym i gyd yn sylweddoli bod llai o arian i'w gael, felly nid crefu am fwy o arian nad yw ar gael yr ydwyf, ond byddai'n ddiddorol pe bai'r Gweinidog yn defnyddio ychydig o'i amser yn y ddadl heddiw i amlinellu ble yn union y caiff arian yn y flwyddyn ariannol nesaf ei ailddyrannu, a pha fath o effaith y bydd yn ei chael ar sgiliau galwedigaethol, yn enwedig yn y sector AB. Edrychaf ymlaen yn fawr iawn at ei glywed yn nodi ac yn ymhelaethu ar rai o'r cynigion hynny.

It was also interesting to hear the contribution from the Liberal Democrats. When did the truth ever get in the way of a Liberal Democrat contribution? Talking about grammar schools, we have never said that we are going back to selective education; we are looking at the best parts of a whole range of educational features. One of which is to be found on the continent, for example, with the middle school phase, which is a phase that has been identified as a clear failing in our education system. It is about working with schools to make sure that students have the best opportunities, whether they are vocational or academic.

Roedd hefyd yn ddiddorol clywed y cyfraniad gan y Democratiaid Rhyddfrydol. A yw'r gwirionedd erioed wedi rhwystro cyfraniad gan y Democratiaid Rhyddfrydol? Gan sôn am ysgolion gramadeg, nid ydym erioed wedi dweud ein bod am fynd yn ôl at addysg ddethol; rydym yn edrych ar y rhannau gorau o bob math o nodweddion addysgol. Mae un ohonynt i'w gael ar y cyfandir, er enghraifft, gyda'r cyfnod ysgol ganol, sef cyfnod sydd wedi ei nodi'n glir fel un sy'n methu yn ein system addysg. Mae'n ymwneud â gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod myfyrwyr yn cael y cyfleoedd gorau, p'un a ydynt yn alwedigaethol neu academaidd.

*Eluned Parrott a gododd—*

*Eluned Parrott rose—*

15:24

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I will gladly take the intervention.

Rwy'n fwy na pharod i dderbyn yr ymyriad.

15:24

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for taking an intervention. I wonder whether you can tell me if you are intending to pick and mix bits of all of Europe's educational programmes, or whether you actually have a strategy for Wales's educational structure.

Diolch am dderbyn yr ymyriad. Tybed a allwch ddweud wrthyf pa un a ydych yn bwriadu dewis a dethol darnau o holl raglenni addysgol Ewrop, neu a oes gennych strategaeth ar gyfer strwythur addysgol Cymru mewn gwirionedd.

15:25

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

There is a clear Conservative education strategy, as could be seen in our announcements over the summer. I am yet to hear anything coherent from the Liberal Democrats. Given that it is a party that spent the whole 2010 general election campaign saying that it was not going to introduce tuition fees and then it reneged on that, I do not think that anyone can listen to the Liberal Democrats and take anything that they say at face value, and that is a fact.

Mae gan y Ceidwadwyr strategaeth addysg glir, fel y gellid ei gweld yn ein cyhoeddiadau dros yr haf. Nid wyf eto wedi clywed dim byd cydlynol gan y Democratiaid Rhyddfrydol. O gofio ei bod yn blaid a ddywedodd drwy gydol ymgyrch gyfan etholiad cyffredinol 2010 nad oedd yn bwriadu cyflwyno ffioedd dysgu ac yna'n torri ei haddewid ar hynny, ni chredaf y gall neb wrando ar y Democratiaid Rhyddfrydol a derbyn unrhyw beth y maent yn ei ddweud yn ffaith, ac mae hynny'n wir.

However, I do not want to lose the contribution today, because I think that it is important. There is a need to focus on the needs of many of our rural areas and the ability to get apprenticeships and a taste of what work is like, in particular through work placements. That is a particular challenge in many rural areas across Wales, because, obviously, there is a smaller number of employers who are prepared to engage in the practice of hosting students and there is a smaller number of educational establishments that are able to offer the courses that many of those students might need. Also, building on what Angela Burns was saying earlier, there is the inability of the colleges to be mapping out if someone was moving from level 2 to level 3, for example, to finish their course and get the qualification that they need. That is just basic administration and a basic principle that should be in place to facilitate the learner's pathway, so that that individual can get the highest qualification possible.

Fodd bynnag, nid wyf am golli'r cyfraniad heddiw, gan fy mod yn meddwl ei fod yn bwysig. Mae angen canolbwyntio ar anghenion llawer o'n hardaloedd gwledig a'r gallu i gael prentisiaethau a rhagflas o sut beth yw gwaith, yn enwedig drwy leoliadau gwaith. Mae hynny'n her arbennig mewn llawer o ardaloedd gwledig ledled Cymru, oherwydd, yn amlwg, mae llai o gyflogwyr sy'n barod i gymryd rhan yn yr arfer o gynnal myfyrwyr ac mae llai o sefydliadau addysgol sy'n gallu cynnig y cyrsiau sydd eu hangen o bosibl ar y myfyrwyr hynny. Hefyd, gan adeiladu ar yr hyn a ddywedodd Angela Burns yn gynharach, mae'r ffaith nad yw'r colegau yn gallu cofnodi os oes rhywun yn symud o lefel 2 i lefel 3, er enghraifft, i orffen eu cwrs ac ennill y cymhwyster sydd ei angen arno. Mater o weinyddiaeth sylfaenol ydyw, ac egwyddor sylfaenol a ddylai fod ar waith i hwyluso llwybr y dysgwr, fel y gall yr unigolyn hwnnw ennill y cymhwyster uchaf posibl.

I would also put it to the Minister today to talk a bit about what support, if any, he is able to offer students from Wales who are engaging in vocational courses, but have to seek out that final course to get their qualification in an English college. I use agricultural engineering as a good example because, in my region, I know of many young engineers who have had to go to Lackham college or Chippenham and have received little or no support, and there is no alternative facility for them to access in Wales. There has been a block on their being able to reach their full potential to become economically active in the profession that they have chosen to undertake.

Hoffwn hefyd ofyn i'r Gweinidog heddiw sôn ychydig am ba gymorth, os o gwbl, y mae'n gallu ei gynnig i fyfyrwyr o Gymru sy'n dilyn cyrsiau galwedigaethol, ond y mae'n rhaid iddynt chwilio am y cwrs terfynol hwnnw er mwyn cymhwyso mewn coleg yn Lloegr. Mae peirianneg amaethyddol yn enghraifft dda oherwydd, yn fy rhanbarth i, rwy'n ymwybodol o lawer o beirianwyr ifanc sydd wedi gorfod mynd i goleg Lackham neu Chippenham ac nad ydynt wedi cael fawr ddim cymorth, os o gwbl, ac nid oes cyfleuster amgen iddynt yng Nghymru. Bu rhwystr ar eu gallu i gyrraedd eu llawn botensial i ddod yn economaidd weithgar yn y proffesiwn y maent wedi dewis ymuno ag ef.

However, the debate today is about recognising that if we are to have a balanced twenty-first century economy, it is not all about academia. Not all students have the gifts to go into the academic network, and the vocational network is just as important and can provide a rewarding experience and, ultimately, can be far more financially rewarding for that individual in the workplace. If we are to have a balanced economy, we must not set artificial targets like the Blair Government set in 1997, trying to put 50% of students through higher education. Actually, what we need is to be working with employers, FE colleges and higher education and, in particular, getting into the schools at a very young age. I believe that the primary sector is the sector that we should be working with, so that we capture young people's imagination and make sure that they have the taste of role models coming into the schools so that they can see exactly—.

Fodd bynnag, mae'r ddadl heddiw yn ymwneud â chydnabod, os ydym am gael economi gytbwys ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, nad oes a wnelo hyn â byd academaidd yn unig. Nid yw pob myfyriwr yn meddu ar y ddawn i ddod yn rhan o'r rhwydwaith academaidd, ac mae'r rhwydwaith galwedigaethol yr un mor bwysig a gall gynnig profiad buddiol ac, yn y pen draw, gall fod yn llawer mwy manteisiol yn ariannol i'r unigolyn hwnnw yn y gweithle. Os ydym am gael economi gytbwys, rhaid inni beidio â gosod targedau artiffisial fel y gwnaeth Llywodraeth Blair yn 1997, gan geisio cael 50% o fyfyrwyr i astudio ar lefel addysg uwch. A dweud y gwir, yr hyn sydd ei angen arnom yw gweithio gyda chyflogwyr, colegau addysg bellach ac addysg uwch ac, yn arbennig, mynd i mewn i'r ysgolion ar oedran ifanc iawn. Credaf mai'r sector cynradd yw'r sector y dylem fod yn gweithio gydag ef, fel ein bod yn tanio dychymyg pobl ifanc a sicrhau eu bod yn cael y profiad o fodelau rôl yn dod i mewn i'r ysgolion fel y gallant weld yn union—

*Simon Thomas a gododd—*

*Simon Thomas rose—*

15:28

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I have a limited amount of time, but I will gladly take an intervention.

Ychydig o amser sydd gennyf, ond byddaf yn fwy na pharod i dderbyn ymyriad.

15:28

## Simon Thomas [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I thank the leader of the opposition. Can he just state when he believes that people should make a choice around a vocational pathway? Is it at the age of 14 or 16? What is his proposal?

Diolch i arweinydd yr wrthblaid. A wnaiff nodi pryd y mae'n credu y dylai pobl ddewis llwybr galwedigaethol? Ai yn 14 neu'n 16 oed y dylid gwneud hynny? Beth yw ei gynnig?

15:28

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

My preference, and that of my group, is at the age of 14, and that is what we mapped out in the summer, because there is a problem in the middle phase of education, as we have identified, especially among boys, when a lot of choices have been made at the ages of 11 or 12, and really they have not developed the notion of what they are looking to do and, very often, they are going on the wrong courses and, by the time that they are 16, they find themselves on the wrong avenue to work or to higher education, depending on what they want. Therefore, our preference is for 14, but I believe that we have to be driving forward the experience at as young an age as possible by using role models from business and the charitable sector to go into schools and show the routes that people can look at as a way of building a career and opportunities. That is something that we have not developed in any meaningful way, at the moment, in the Welsh education system.

Fy newis i, a dewis fy ngrŵp, fyddai 14 oed, a dyna'r hyn a amlinellwyd gennym yn yr haf, oherwydd bod problem yng nghyfnod canol addysg, fel y'i nodwyd gennym, yn enwedig ymhlith bechgyn, pan fydd llawer o ddewisiadau wedi eu gwneud yn 11 neu 12 oed, ac nad ydynt wedi datblygu'r syniad o'r hyn y maent am ei wneud mewn gwirionedd ac, yn aml iawn, maent yn mynd ar y cyrsiau anghywir ac, erbyn 16 oed, maent yn cael eu hunain ar y llwybr anghywir tuag at waith neu addysg uwch, yn dibynnu ar yr hyn y maent am ei wneud. Felly, 14 oed yw ein dewis ni, ond credaf fod yn rhaid inni ysgogi profiad mor ifanc â phosibl drwy ddefnyddio modelau rôl o fyd busnes a'r sector elusennol sy'n mynd i mewn i ysgolion ac yn dangos y llwybrau y gall pobl eu hystyried fel ffordd o greu gyrfa a chyfleoedd. Mae hynny'n rhywbeth nad ydym wedi'i ddatblygu mewn unrhyw ffordd ystyrlon, ar hyn o bryd, o fewn system addysg Cymru.

Therefore, I commend the motion before the Assembly this afternoon. I hope that it finds favour across the Chamber and that, ultimately, the Minister will use his response today to engage with the opening remarks that I made on the budget settlement as to exactly how that will impact on some of the courses that might be provided.

Felly, cymeradwyaf y cynnig sydd gerbron y Cynulliad y prynhawn yma. Gobeithiaf y bydd yn cael cefnogaeth ym mhob rhan o'r Siambr ac yn y pen draw, y bydd y Gweinidog yn defnyddio ei ymateb heddiw i fynd i'r afael â'r sylwadau agoriadol a wneuthum ar setliad y gyllideb o ran sut yn union y bydd yn effeithio ar rai o'r cyrsiau y gellid eu darparu.

15:29

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome the motion, because it focuses upon the question of vocational qualifications and it is a consideration of the status of those qualifications in comparison with academic qualifications, although some of the discussions that I have heard today have been more about education generally and have not focused enough on that. Let us remind ourselves of what vocational qualifications are. This is a definition taken off the Creative Skillset website, which says

Croesawaf y cynnig, gan ei fod yn canolbwyntio ar gymwysterau galwedigaethol ac mae'n ystyried statws y cymwysterau hynny o'u cymharu â chymwysterau academaidd, er bod rhannau o'r trafodaethau yr wyf wedi'u clywed heddiw wedi ymwneud mwy ag addysg yn gyffredinol ac nad ydynt wedi canolbwyntio digon ar hynny. Gadewch inni ein hatgoffa ein hunain o'r cymwysterau galwedigaethol. Dyma ddiffiniad oddi ar wefan Creative Skillset, sy'n dweud

'Vocational qualifications (VQs) offer a more practical learning programme that relates directly to specific job roles or sectors. Taking a vocational qualification means that you study and gain skills in a particular area.'

Mae cymwysterau galwedigaethol yn cynnig rhaglen ddysgu fwy ymarferol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â swyddi neu sectorau penodol. Mae astudio ar gyfer cymhwyster galwedigaethol yn golygu eich bod yn astudio ac yn ennill sgiliau mewn maes penodol.

Let us focus upon that aspect. I will point out one thing. I was disappointed to hear the leader of the opposition talking about more gifted people taking the academic pathway. Gifted people can take either pathway—that is the important thing. That is what this is about—it is about equal status, not just gifted people going on to do academic subjects.

Gadewch inni ganolbwyntio ar yr agwedd honno. Hoffwn nodi un peth. Roeddwn yn siomedig o glywed arweinydd yr wrthblaid yn sôn am bobl fwy dawnus yn dewis y llwybr academaidd. Gall pobl ddawnus ddewis y naill lwybr neu'r llall—dyna'r peth pwysig. Dyna hanfod y ddadl hon—mae'n ymwneud â statws cyfartal, nid dim ond pobl ddawnus yn mynd yn eu blaen i astudio pynciau academaidd.

15:30

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

If I may just clarify what I said, I meant gifted in the academic field. However, you are quite right, I did go on to say gifted in the vocational field as well. As someone who did not go on to higher education, I am not coming from the position of someone who has had the privilege of free HE education.

Os caf egluro'r hyn a ddywedais, roeddwn yn golygu dawnus yn y maes academaidd. Fodd bynnag, rydych yn llygad eich lle, euthum ymlaen i ddweud dawnus yn y maes galwedigaethol hefyd. Fel rhywun nad aeth yn ei flaen i addysg uwch, nid wyf yn arddel safbwynt rhywun sydd wedi cael y fraint o addysg uwch am ddim.

15:30

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I did have the advantage of free HE education—I am of that age. However, I think that it is important to say that you need to clarify what you mean when you talk about 'gifted'. What we are trying to say is that it is about the programme best-suited for an individual to take a career path—that is the critical element. I think that that is important.

Fe gefais innau'r fantais o addysg uwchradd am ddim—rwy'n perthyn i'r grŵp oedran hwnnw. Fodd bynnag, credaf ei bod yn bwysig dweud bod angen ichi egluro'r hyn yr ydych yn ei olygu wrth sôn am 'dawnus'. Yr hyn yr ydym yn ceisio ei ddweud yw bod hyn yn ymwneud â'r rhaglen fwyaf addas i unigolyn wrth ddewis llwybr gyrfa—dyna'r elfen hollbwysig. Credaf fod hynny'n bwysig.

Vocational learning provides invaluable opportunities for young people to develop their potential and expand what they know, understand, and can do. That is what I think we are talking about. It is about real recognition for that learning, which allows them to progress and to move into adulthood. Investigating and developing genuine operational skills, and experiencing the satisfaction of technical accomplishment, have just as important a role to play in our education system as mastering an academic discipline does. However, we must note that, if either academic or vocational study is over-emphasised, it is usually to the detriment of the other. We must note that.

Mae dysgu galwedigaethol yn rhoi cyfleoedd amhrisiadwy i bobl ifanc ddatblygu eu potensial ac ehangu'r hyn y maent yn ei wybod, ei ddeall, a'r hyn y gallant ei wneud. Dyna beth rydym yn sôn amdano, fe gredaf. Mae a wnelo â chydnabyddiaeth wirioneddol o ddysgu o'r fath, sy'n eu galluogi i ddatblygu a symud i fyd oedolion. Mae ymchwilio i sgiliau gweithredol gwirioneddol a'u datblygu, a chael boddhad o gyflawniad technegol, yn chwarae rhan yr un mor bwysig yn ein system addysg ag y mae meistroli disgyblaeth academaidd yn ei wneud. Fodd bynnag, rhaid inni nodi, os bydd gormod o bwyslais ar naill ai astudio academaidd neu alwedigaethol, mae hynny fel arfer ar draul y llall. Rhaid inni nodi hynny.

We all recognise that, in today's global business world, countries need to have a highly skilled workforce to build strong economies. High levels of skills help workers to become more effective, and it has been reported that 20% of the growth in the output of UK workers can be attributed to the growth in their skills levels.

Rydym i gyd yn cydnabod, yn y byd busnes byd-eang sydd ohoni, fod angen i wledydd gael gweithlu hyfedr er mwyn adeiladu economïau cryf. Mae lefelau uchel o sgiliau yn helpu gweithwyr i ddod yn fwy effeithiol, a nodwyd y gellir priodoli 20% o'r twf yng nghynnyrch gweithwyr y DU i dwf yn lefel eu sgiliau.

Sorry, Simon, but yesterday we saw the results of the OECD survey, which showed that young people in England had poor numeracy and literacy skills in comparison with those in other developed countries. I raise this because of the concern that has been expressed by business communities across the whole of the UK. In fact, Neil Carberry, the CBI director for employment and skills, said that the UK's economic future depended on improving the skills of the workforce. That applies to us as well. This survey simply emphasises that the UK cannot afford to stand still on its skills. That is why I raise it.

Mae'n ddrwg gennyf, Simon, ond ddoe, gwelsom ganlyniadau arolwg y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, a oedd yn dangos bod gan bobl ifanc yn Lloegr sgiliau rhifedd a llythrennedd gwael o'u cymharu â'r rhai mewn gwledydd datblygedig eraill. Codaf hyn oherwydd y pryder sydd wedi cael ei fynegi gan gymunedau busnes ledled y DU gyfan. Yn wir, dywedodd Neil Carberry, cyfarwyddwr Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain dros gyflogaeth a sgiliau, bod dyfodol economaidd y DU yn dibynnu ar wella sgiliau'r gweithlu. Mae hynny'n berthnasol inni hefyd. Mae'r arolwg hwn yn syml yn pwysleisio na all y DU fforddio i aros yn yr unfan o ran ei sgiliau. Dyna pam rwyf yn ei godi.

It is recognised that those who improve their skills are more likely to go on to further study, or to progress higher in a chosen occupation, thus creating a skilled workforce that is attractive to global businesses. I will pick an individual as an example, and I will name him: Jon Ferriman, who was the managing director of Tata Steel. He started his life as an apprentice, and moved up to those levels. He has now moved on to being the technical director in Europe, I think, of Tata Steel.

Cydnabyddir bod y rhai sy'n gwella eu sgiliau yn fwy tebygol o fynd ymlaen i astudio ymhellach, neu wneud yn well yn eu dewis alwedigaeth, gan greu gweithlu medrus sy'n ddeniadol i fusnesau byd-eang. Dewisaf unigolyn fel enghraifft, a'i enwi: sef Jon Ferriman, cyn-reolwr gyfarwyddwr Tata Steel. Dechreuodd ei fywyd fel prentis, gan symud i fyny i'r lefelau hynny. Mae bellach wedi symud ymlaen i fod yn gyfarwyddwr technegol Ewrop dros Tata Steel, fe gredaf.

So, we must ensure that a strong skills system exists, and is equally recognised, in order to avoid opening the possibility of undermining social mobility, and holding back people who want to get on in life. To be effective, vocational qualifications must be relevant, rigorous and recognised, so that people qualify in work and practice in their chosen role.

Felly, rhaid inni sicrhau system sgiliau gadarn, a'i bod yn cael yr un gydnabyddiaeth, er mwyn osgoi'r posibilrwydd o danseilio symudedd cymdeithasol, a rhwystro pobl sydd am fynd ymlaen mewn bywyd. Er mwyn bod yn effeithiol, rhaid i gymwysterau galwedigaethol fod yn berthnasol, yn drwyadl ac yn gydnabyddedig, fel bod pobl yn gymwys mewn gwaith ac ymarfer yn eu dewis rôl.

Picking up on the point that Angela Burns raised, law could very much be argued to be a vocational qualification. However, I think that we also need to stress whether it is vocational, vocational-orientated, or academic. Many universities now actually look at job places, and encourage the development of undergraduate programmes, and lower-level programmes, that are focused on vocational elements, and encourage employers to partake in the discussion on the development of those things. I think that that is what you are trying to get at, effectively.

Gan ddychwelyd at y pwynt a gododd Angela Burns, sef y gellid dadlau mai cymhwyster galwedigaethol yw'r gyfraith. Fodd bynnag, credaf fod angen inni hefyd bwysleisio a yw'n alwedigaethol neu'n canolbwyntio ar alwedigaeth, neu'n academaidd. Mae llawer o brifysgolion bellach yn edrych ar swyddi sydd ar gael, ac yn annog datblygiad rhaglenni israddedig, a rhaglenni ar lefel is, sy'n canolbwyntio ar elfennau galwedigaethol, ac annog cyflogwyr i gymryd rhan yn y drafodaeth ar ddatblygu'r pethau hynny. Credaf mai dyna'r hyn yr ydych yn ceisio ei gyflawni, i bob diben.

It is important that young people see a vocational qualification as a passport to a job or to a higher level of education, just as academic qualifications have always been promoted as being. However, we must note that any training that does not take learners further than when they started their course can also demoralise a student and become ineffective. So, we must ensure that the courses that they take are of the highest quality, and that they deliver what they say.

Mae'n bwysig bod pobl ifanc yn gweld cymhwyster galwedigaethol fel pasbort i gael swydd neu astudio ar lefel uwch, yn union fel y mae cymwysterau academaidd bob amser wedi cael eu hyrwyddo. Fodd bynnag, rhaid inni nodi y gall unrhyw hyfforddiant nad yw'n mynd â dysgwyr ymhellach na lle roeddent wrth ddechrau ar eu cwrs hefyd beri i fyfyriwr ddiganoli a pheri i'r hyfforddiant ddod yn aneffeithiol. Felly, rhaid inni sicrhau bod y cyrsiau y maent yn eu dilyn o'r safon uchaf, a'u bod yn cyflawni'r hyn maent yn ei ddweud.

15:33

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I absolutely take that point and, in fact, your definition of what is vocational training is spot on. However, the problem is that not only does it demoralise the student, but, actually, the business looking in gets very confused about what is vocational training, because that term covers so much—from, as I said, knitting, all the way through to something incredibly skilled.

Derbyniaf y pwynt hwnnw'n llwyr ac, yn wir, roedd eich diffiniad o hyfforddiant galwedigaethol yn cyfleu'r peth i'r dim. Fodd bynnag, y broblem yw nid yn unig ei fod yn peri i'r myfyriwr ddigalonni, ond, mewn gwirionedd, fod y busnes sy'n edrych i mewn yn drysu'n llwyr ynghylch beth yw hyfforddiant galwedigaethol, gan fod y term hwnnw'n cwmpasu cymaint—o wau, yr holl ffordd hyd at rywbeth hynod fedrus, fel y dywedais.

15:34

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I agree that it covers a wide range, but that is why the encouragement of employers to partake in the development of the curriculum is critical. They then have the input into what they see is the need for their industry.

Cytunaf ei bod yn cwmpasu ystod eang, ond dyna pam mae'n hollbwysig annog cyflogwyr i gymryd rhan yn y broses o ddatblygu'r cwricwlwm. Yna maent yn cyfrannu at yr hyn sydd ei angen ar y diwydiant, yn eu barn hwy.

Our best colleges and training providers have demonstrated what is possible, and we have seen excellent outcomes as a consequence. However, we must also recognise that the best apprenticeship programmes that have outstanding results are often as over-subscribed as academic programmes in our most competitive universities. Apprentices on these programmes can expect good career progression and high earnings, and we need more to do that.

Mae ein colegau a'n darparwyr hyfforddiant gorau wedi dangos yr hyn sy'n bosibl, ac rydym wedi gweld deilliannau gwych o ganlyniad i hynny. Fodd bynnag, rhaid inni gydnabod hefyd fod prinder lleoedd yn aml ar y rhaglenni prentisiaeth gorau sy'n cael canlyniadau rhagorol o gymharu â'r galw yn union fel rhaglenni academaidd yn ein prifysgolion mwyaf cystadleuol. Gall prentisiaid sy'n rhan o'r rhaglenni hyn ddisgwyl datblygiad gyrfa da ac enillion uchel, ac mae angen inni gael rhagor yn gwneud hynny.

I am aware of the time, so I will conclude very quickly. The FSB in Wales has stated that only 11% of small businesses surveyed in Wales took an apprentice in 2010. We see a similar picture across the UK, where approximately 10% of SMEs employ apprentices, although it is reported that 80% of apprentices are employed in the SME sector. To support the greater take-up of vocational qualifications, we must support and encourage businesses to provide the opportunities to young people who follow these courses to, once they have completed them, take on a role in life.

Rwy'n ymwybodol o'r amser, felly gorffennaf yn gyflym iawn. Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach yng Nghymru wedi datgan mai dim ond 11% o fusnesau bach yn yr arolwg yng Nghymru a dderbyniodd brentis yn 2010. Gwelwn ddarlun tebyg ledled y DU, lle mae tua 10% o fusnesau bach a chanolig yn cyflogi prentisiaid, er y cofnodir bod 80% o brentisiaid yn cael eu cyflogi yn y sector busnesau bach a chanolig. Er mwyn annog mwy i astudio ar gyfer cymwysterau galwedigaethol, rhaid inni gefnogi ac annog busnesau i roi cyfleoedd i bobl ifanc sy'n dilyn y cyrsiau hyn, unwaith y byddant wedi eu cwblhau, ymgymryd â rôl mewn bywyd.

15:35

## Byron Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

In making this contribution today, there are two important areas of the debate for me: getting young people into work and encouraging young people to become entrepreneurs. I want to concentrate particularly on the vocational side of education. Strengthening this side of education strengthens our young people—it improves their confidence, enjoyment and the economy as a whole. I think we all broadly accept in this Chamber that vocational skills need improving. It is essential that this is recognised at government level. Some children are more vocational and prefer to be hands-on in their learning, and this is a crucial first step in understanding that.

Wrth wneud y cyfraniad hwn heddiw, mae dwy agwedd bwysig ar y ddadl i mi: cael pobl ifanc i mewn i waith ac annog pobl ifanc i fod yn entrepreneuriaid. Hoffwn ganolbwyntio'n benodol ar yr ochr alwedigaethol i addysg. Mae cryfhau'r ochr hon i addysg yn cryfhau ein pobl ifanc—mae'n gwella eu hyder, eu mwynhad a'r economi yn ei chyfanrwydd. Credaf fod pob un ohonom yn derbyn yn gyffredinol yn y Siambr hon fod angen gwella sgiliau galwedigaethol. Mae'n hanfodol bod hyn yn cael ei gydnabod ar lefel y llywodraeth. Mae rhai plant yn fwy galwedigaethol eu tueddfryd ac mae'n well ganddynt ddysgu ymarferol, ac mae hwn yn gam cyntaf hollbwysig i ddeall hynny.

We need to reassess definitions, and, by that, I mean that vocational courses can encompass anything from training to be a hairdresser, plumber, engineer, mechanic, designer or technician, to life skills such as sports techniques and languages. Vocational education seems to be stereotyped as a secondary education, and it is not. This leads me nicely into the main point of changing perceptions. Is 'vocational' too much of a catch-all term? Over the course of time, cultural opinions of vocational education seem to have left people thinking that it is the soft option, but it is not. Politicians at all levels should be doing all that they can to address that. We should be doing that.

Mae angen inni ailasesu diffiniadau, ac, wrth hynny, rwy'n golygu y gall cyrsiau galwedigaethol gwmpasu unrhyw beth o hyfforddi i fod yn driniwr gwallt, plymwr, peiriannydd, mecanydd, dylunydd neu dechnegydd, i sgiliau bywyd megis technegau chwaraeon ac ieithoedd. Ymddengys fod addysg alwedigaethol wedi'i stereoteipio fel addysg uwchradd, ond nid yw hynny'n wir. Mae hyn yn fy arwain yn dwt at y prif bwynt, sef newid canfyddiadau. A yw 'galwedigaethol' yn derm rhy gyffredinol? Dros gyfnod o amser, mae safbwyntiau diwylliannol ynglŷn ag addysg alwedigaethol wedi gwneud i bobl feddwl ei fod yn ddewis hawdd, ond nid yw hynny'n wir. Dylai gwleidyddion ar bob lefel fod yn gwneud popeth o fewn eu gallu i fynd i'r afael â hynny. Dylem fod yn gwneud hynny.

I will make reference to our European neighbours, and to the Danish. Denmark's post-secondary vocational and education and training system has many strengths, including strong engagement with and the support of employers and trade unions and an impressive parallel adult education system. In 2008, 45% of the population in Denmark aged between 25 and 64 participated in formal and/or non-formal training. Denmark has made workplace learning mandatory, well-structured and with clear learning goals. There are also measures in place to ensure that students and workers update their skills. I believe that strengthening and changing the perception of vocational education has helped Denmark achieve one of the lowest youth unemployment rates in the western world, at 13.5%.

Cyfeiriaf at ein cymdogion yn Ewrop, ac at bobl Denmarc. Mae i system addysg a hyfforddiant galwedigaethol ôl-uwchradd Denmarc lawer o gryfderau, gan gynnwys meithrin cysylltiadau cryf â chyflogwyr ac undebau llafur ac ennyn eu cefnogaeth a system addysg gyfochrog ragorol i oedolion. Yn 2008, roedd 45% o'r boblogaeth rhwng 25 a 64 oed yn Nenmarc wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant ffurfiol a/neu anffurfiol. Mae Denmarc wedi gwneud dysgu yn y gweithle yn orfodol, wedi'i strwythuro'n dda ac mae ganddo nodau dysgu clir. Mae mesurau ar waith hefyd i sicrhau bod myfyrwyr a gweithwyr yn diweddaru eu sgiliau. Credaf fod cryfhau a newid y canfyddiad o addysg alwedigaethol wedi helpu Denmarc i gyflawni un o'r cyfraddau diweithdra isaf ymhlith pobl ifanc yn y byd gorllewinol, sef 13.5%.

In terms of encouraging entrepreneurs, I was pleased—in fact honoured—to take part in the Enterprise and Business Committee's inquiry into youth entrepreneurship. During the inquiry, I was extremely pleased to note the change in attitudes; 55% of young people aged under 25 now have aspirations to work for themselves and to be in their own boss—a rise from 42% in 2004. While the work done so far needs to be recognised, I am somewhat disappointed with the withdrawal of funding to Young Enterprise in Wales, which may put at risk the momentum gained, and, with it, the huge potential that exists to increase the number of young people in Wales afforded the opportunity to start a real business through the Young Enterprise Company programme.

O ran annog entrepreneuriaid, roeddwn yn falch—yn wir bu'n anrhydedd— i gymryd rhan yn ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i entrepreneuriaeth ymhlith pobl ifanc. Yn ystod yr ymchwiliad, roeddwn yn hynod falch o weld y newid mewn agweddau; mae 55% o bobl ifanc o dan 25 oed bellach yn anelu at weithio drostynt eu hunain a bod yn feistr arnynt hwy eu hunain—o gymharu â 42% yn 2004. Er bod angen cydnabod y gwaith a wnaed hyd yn hyn, rwy'n siomedig braidd bod arian i Fenter yr Ifanc yng Nghymru wedi cael ei dynnu'n ôl, a allai beryglu'r momentwm a gafwyd, ynghyd â'r potensial enfawr a geir i gynyddu nifer y bobl ifanc yng Nghymru sy'n cael cyfle i ddechrau busnes go iawn drwy raglen Cwmni Menter yr Ifanc.

Funding support from Careers Wales contributed to supporting 2,000 students in Wales to form 150 companies in the 2012-13 academic year alone. Yesterday, we discussed the European structural funds programme and adding a new key priority surrounding the issue of removing poverty through the development of sustainable jobs. To my mind, encouraging business start-ups and changing the perception of vocational education could deliver much of that aim. We need the skills and we need the jobs. I am very grateful to Angela Burns and my group for bringing this very important debate forward and for the opportunity to talk on these two particular and very important issues.

Cyfrannodd cymorth ariannol gan Gyrfa Cymru at helpu 2,000 o fyfyrwyr yng Nghymru i ffurfio 150 o gwmnïau yn y flwyddyn academaidd 2012-13 yn unig. Ddoe, buom yn trafod rhaglen y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd ac ychwanegu blaenoriaeth allweddol newydd ynghylch trechu tlodi drwy ddatblygu swyddi cynaliadwy. Yn fy marn i, gellid cyflawni llawer o'r nod hwnnw drwy annog dechrau busnesau newydd a newid y canfyddiad o addysg alwedigaethol. Mae angen y sgiliau arnom ac mae angen y swyddi arnom. Rwy'n ddiolchgar iawn i Angela Burns a'm grŵp am gyflwyno'r ddadl bwysig iawn hon ac am y cyfle i drafod y ddau fater penodol a phwysig iawn hyn.

15:39 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I want to make a few comments and observations. I agree with what my colleagues have said so far about the need, first and foremost, to change perceptions of vocational qualifications within Wales, and also, beyond that, to develop a system that is as flexible as possible and allows learners to transfer from the academic route to the vocational route and back again, if that is what they so wish. I am sure that we would all agree with the merits of that approach. As Angela Burns said in opening this debate, the Welsh Government should develop a national map of progression routes, so that pupils can move, for example, from a level 2 course in construction to level 3 as easily as possible. Currently, that does not exist, and it is unacceptable that young people who want to do that have to travel from one area to another to further their education. That is obviously closing the door to many people who would otherwise walk through it. We need to make sure that we facilitate, as much as possible, a better, more flexible system. We need to think carefully about how we can help people achieve their skills as easily as possible in order to encourage the maximum take-up of courses and, indeed, the completion of those courses.

Hoffwn wneud ychydig o sylwadau. Cytunaf â'r hyn y mae fy nghyd-Aelodau wedi'i ddweud hyd yn hyn am yr angen, yn gyntaf oll, i newid canfyddiadau o gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru, a hefyd, y tu hwnt i hynny, i ddatblygu system sydd mor hyblyg ag y bo modd ac sy'n galluogi dysgwyr i drosglwyddo o'r llwybr academaidd i'r llwybr galwedigaethol ac yn ôl unwaith eto, os mai dyna eu dymuniad. Rwyy'n siŵr y byddem oll yn cytuno â rhinweddau hynny. Fel y dywedodd Angela Burns wrth agor y ddadl hon, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu map cenedlaethol o lwybrau datblygu, er mwyn i ddisgyblion symud, er enghraifft, o gwrs lefel 2 mewn adeiladu i lefel 3 mor rhwydd ag y bo modd. Ar hyn o bryd, nid yw hynny'n bodoli, ac mae'n annerbyniol bod yn rhaid i bobl ifanc sydd am wneud hynny deithio o un ardal i'r llall i ddatblygu eu haddysg. Mae hynny'n amlwg yn cau'r drws i lawer o bobl a fyddai fel arall yn cerdded drwyddo. Mae angen inni sicrhau ein bod yn hwyluso, hyd y gellir, system well a mwy hyblyg. Mae angen inni feddwl yn ofalus ynglŷn â sut y gallwn helpu pobl i ennill eu sgiliau mor hawdd ag y bo modd er mwyn annog cynifer â phosibl i ddilyn cyrsiau ac, yn wir, gwblhau'r cyrsiau hynny.

Turning to the economic benefits of developing vocational education, why are these skills so important to our economy? If you look, as the Enterprise and Business Committee has looked, at the number of young people currently not in education, employment or training—we talk about this a lot in this Chamber—it is truly worrying. However, on the positive side, we have seen a fall in the NEET figure for 16 to 18 year-olds. It is down to 10.2%, but that is still too high. We welcome the fact that the Welsh Government—just for those who say that we are always negative, here is a bit of positivity; I can see David Rees smiling on my right—has announced the youth engagement and progression framework implementation plan. That was launched on 1 October, and seeks to reduce this figure further, down to 9%. Why down to 9%? Why not go further than that? Why do we not see more ambition from the Welsh Government? Perhaps it is scared that, as happens too often in other areas where targets have been set, the target will be missed and then there will be criticism. That should not be a bar. If it wants to set an ambitious target and put policies in place to achieve that target, it will certainly have our support.

Gan droi at fanteision economaidd datblygu addysg alwedigaethol, pam bod y sgiliau hyn mor bwysig i'n heconomi? Os edrychwch, fel y gwnaeth y Pwyllgor Menter a Busnes, ar nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar hyn o bryd—soniwn am hyn gryn dipyn yn y Siambr hon—mae'n achos pryder gwirioneddol. Fodd bynnag, ar yr ochr gadarnhaol, gwelwyd gostyngiad yn y nifer y bobl 16 i 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae wedi gostwng i 10.2%, ond mae hynny'n dal yn rhy uchel. Rydym yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru—i'r rhai sy'n dweud ein bod bob amser yn negyddol, dyma rywbeth cadarnhaol, gallaf weld David Rees yn gwenu ar fy ochr dde—wedi cyhoeddi cynllun gweithredu'r fframwaith ymgysylltu a datblygu pobl ifanc. Fe'i lansiwyd ar 1 Hydref, ac mae'n ceisio gostyngiad pellach yn y ffigur hwn, i lawr i 9%. Pam 9%? Beth am fynd ymhellach na hynny? Pam nad ydym yn gweld mwy o uchelgais gan Lywodraeth Cymru? Efallai ei bod yn ofni, fel sy'n digwydd yn rhy aml mewn meysydd eraill lle mae targedau wedi eu pennu, na fydd yn cyrraedd y targed ac yna bydd beirniadaeth. Ni ddylai hynny fod yn rhwystr. Os yw am bennu targed uchelgeisiol a rhoi polisïau ar waith i gyrraedd y targed hwnnw, byddwn yn sicr yn ei gefnogi.

As the Enterprise and Business Committee found in our inquiry into apprenticeships, we also need to be wary, in that, while we have seen a drop in the younger age group, the figures for 19 to 24 year-olds who are NEET in Wales reveal a rise, with nearly a quarter of all young adults of this age being in this category. This is an interesting aspect of trying to deal with the problem of young people not in education, employment or training. You need to be wary that you do not kick the can down the road, and do not push the problem on to another age group, because, in some ways, that can be harder to estimate and deal with than the 16 to 18 age group. So, yes, on the one hand it is good news, but, on the other, let us all be careful that we are not concealing a deeper problem. If you look at the trend across the UK, it is downward, but the figure here is still growing the most out of all the UK regions.

Fel y canfu'r Pwyllgor Menter a Busnes yn ein hymchwiliad i brentisiaethau, mae angen inni hefyd fod yn wyliadwrus, yn yr ystyr, er ein bod wedi gweld gostyngiad yn y grŵp oedran iau, fod y ffigurau ar gyfer pobl ifanc rhwng 19 a 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru wedi codi, gyda bron chwarter yr holl oedolion ifanc o'r oedran hwn yn y categori hwn. Mae hon yn agwedd ddiddorol ar geisio ymdrin â phroblem pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae angen ichi fod yn wyliadwrus nad ydych yn creu problem yn ddiweddarach, nad ydynt yn achosi problem i grŵp oedran arall, oherwydd, ar sawl cyfrif, gall fod yn fwy anodd amcangyfrif a mynd i'r afael â'r grŵp hwnnw na'r grŵp 16 i 18 oed. Felly, ydy, ar y naill law mae'n newyddion da, ond, ar y llaw arall, gadewch inni i gyd fod yn ofalus nad ydym yn celu problem ddyfnach. Os edrychwch ar y duedd ledled y DU, mae'n mynd tuag i lawr, ond yma mae'r ffigur yn cynyddu fwyaf o hyd o blith holl ranbarthau'r DU.

An Estyn report last week pointed out that courses in construction, planning and the built environment are not matched to local employment needs. Referring to David Rees' comments earlier, he pointed out the need for that match to happen and said that in some places it was happening. Unfortunately, it is not happening across the board. There is no point in developing the skills of people in one area when the opportunities do not necessarily exist in the same area. Young people might be put off from taking up those opportunities, because they might have to go further afield or there might be other consequences.

Nododd adroddiad gan Estyn yr wythnos diwethaf nad yw cyrsiau mewn adeiladu, cynllunio na'r amgylchedd adeiledig yn cyfateb i anghenion cyflogaeth lleol. Gan gyfeirio at sylwadau David Rees yn gynharach, tynnodd sylw at yr angen i sicrhau eu bod yn cyfateb â'i gilydd a dywedodd fod hynny'n digwydd mewn rhai mannau. Yn anffodus, nid yw'n digwydd yn gyffredinol. Nid oes diben datblygu sgiliau pobl mewn un ardal os na fydd cyfleoedd o reidrwydd yn bodoli yn yr un ardal. Efallai y bydd pobl ifanc yn petruso rhag manteisio ar y cyfleoedd hynny, am y bydd yn rhaid iddynt fynd ymhellach i ffwrdd o bosibl, neu efallai y bydd goblygiadau eraill.

I was going to refer to experiences in other countries, but Eluned Parrott accused the group of cherry-picking earlier. I can see that she is not here at the moment, so I will risk mentioning them—she has been here all afternoon, to be fair to her; I was not making a point about that. Of course, we have to look at other countries and the way that they do things. Denmark was mentioned earlier by Byron Davies. Denmark encourages engagement with and the support of employers and trade unions to aid its vocational education and training, and runs a parallel adult education system. In Denmark, workplace learning is mandatory and allows workers to update their skills in an effective way. In Norway, there are some innovative ways of addressing the vocational education issue. Nearly all students progress to post-16 education, at which point half follow academic programmes and half follow vocational programmes. I am not saying that we should take everything that all these countries are doing; I am not saying that at all. However, where there are examples of good progress in other countries, then why not cherry-pick? Why not take the best aspects of other countries' education and training systems? Let us put it all together and not be just as good as them here, but do what Wales can do and be better than those countries. I can see the Minister Alun Davies nodding vigorously at that. For goodness sake, let us do a little bit more than we have done in the past and build on some of the good figures, such as the 16 to 18 figures, and make sure that there are far better opportunities for our young people in the months and years to come.

Roeddwn yn bwriadu cyfeirio at brofiadau mewn gwledydd eraill, ond cyhuddodd Eluned Parrott y grŵp o ddewis a dethol yn gynharach. Gallaf weld nad yw yma ar hyn o bryd, felly mentraf son amdanynt—mae wedi bod yma drwy'r prynhawn, a bod yn deg â hi; nid oeddwn yn gwneud pwynt am hynny. Wrth gwrs, rhaid inni edrych ar wledydd eraill a'r ffordd y maent yn gwneud pethau. Crybwyllodd Byron Davies Ddenmarc yn gynharach. Mae Denmarc yn annog ymgysylltu â chyflogwyr ac undebau llafur ac ennyn eu cefnogaeth er mwyn cynorthwyo ei haddysg a'i hyfforddiant galwedigaethol, ac mae'n cynnal system addysg gyfochrog i oedolion. Yn Nenmarc, mae dysgu yn y gweithle yn orfodol ac yn rhoi cyfle i weithwyr ddiweddaru eu sgiliau mewn ffordd effeithiol. Yn Norwy, ceir rhai ffyrdd arloesol o fynd i'r afael â mater addysg alwedigaethol. Mae bron bob myfyriwr yn mynd yn ei flaen i addysg ôl-16, lle mae hanner yn dilyn rhaglenni academaidd a hanner yn dilyn rhaglenni galwedigaethol. Nid wyf yn dweud y dylem dderbyn popeth y mae'r holl wledydd hyn yn ei wneud; nid wyf yn dweud hynny o gwbl. Fodd bynnag, lle mae enghreifftiau o gynnydd da mewn gwledydd eraill, yna pam na ddylem ddewis a dethol? Pam na ddylem fanbwysiadu'r agweddau gorau ar systemau addysg a hyfforddiant gwledydd eraill? Gadewch inni roi'r cyfan at ei gilydd ac yn hytrach na cheisio bod cystal â hwy yma, ond dylem geisio gwneud yr hyn y gall Cymru ei wneud a rhagori ar y gwledydd hynny. Gallaf weld y Gweinidog Alun Davies yn amneidio â'i ben, a hynny'n frwdfrydig. Er mwyn popeth, gadewch inni wneud ychydig yn fwy nag yr ydym wedi ei wneud yn y gorffennol ac adeiladu ar rai o'r ffigurau da, megis y ffigurau 16 i 18 oed, a sicrhau bod llawer gwell cyfleoedd i'n pobl ifanc yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

15:44

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I want to come at this from perhaps a different angle and look at how we can assist the staff who work in this sector to support students if we are going to be looking at developing vocational training for the future. I want to focus on a campaign that I have been running for some time now, which relates to the problem with part-time hourly paid contracts in the context of further education.

Hoffwn drafod y pwnc hwn o safbwynt gwahanol o bosibl ac edrych ar sut y gallwn helpu'r staff sy'n gweithio yn y sector hwn i gefnogi myfyrwyr os ydym am ddatblygu hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer y dyfodol. Hoffwn ganolbwyntio ar ymgyrch yr wyf wedi bod yn ei chynnal ers peth amser bellach, sy'n ymwneud â'r broblem gyda chontractau rhan-amser sy'n talu fesul awr yng nghyd-destun addysg bellach.

While I am pleased that the Welsh Government broadly accepted the qualifications review and its focus on providing qualifications that meet the needs of our young people and the Welsh economy, vocational qualifications are invariably delivered via further education. So, there remains a big question mark over how deliverable these policies will be when part-time hourly-paid contracts will become increasingly commonplace in further education institutions in Wales, bringing with them the potential for uncertainty and disruption. In short, I cannot see how these contracts will help us to achieve what we would all like to see happen in Wales, particularly if we are thinking of long-term delivery with regard to vocational learning.

Er fy mod yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr adolygiad o gymwysterau yn gyffredinol a'i ffocws ar gynnig cymwysterau sy'n diwallu anghenion ein pobl ifanc ac economi Cymru, cynigir cymwysterau galwedigaethol drwy addysg bellach yn ddieithriad. Felly, cyfyd amheuaeth fawr ynghylch y graddau y gellir cyflawni'r polisïau hyn pan fydd contractau rhan-amser sy'n talu fesul awr yn dod yn fwyfwy cyffredin mewn sefydliadau addysg bellach yng Nghymru, gan greu'r potensial ar gyfer ansicrwydd ac aflonyddwch. Yn gryno, ni allaf weld sut y bydd y contractau hyn yn ein helpu i gyflawni'r hyn yr hoffem i gyd ei weld yn digwydd yng Nghymru, yn enwedig os ydym yn ystyried darpariaeth yn yr hirdymor o ran dysgu galwedigaethol.

The use of these contracts in further education should be reviewed in the interest of providing high-quality teaching and learning, as well as helping to reduce poverty in Wales. These contracts can only be issued each term, or for the academic year, and many lecturers face a financial shortfall in the summer months, meaning that they have to take a second job, often for a minimum wage.

Dylai'r defnydd o'r contractau hyn mewn addysg bellach gael eu hadolygu er mwyn darparu addysgu a dysgu o safon uchel, yn ogystal â helpu i leihau tlodi yng Nghymru. Dim ond bob tymor neu am y flwyddyn academaidd y gellir cynnig y contractau hyn, ac mae llawer o ddarlithwyr yn wynebu diffyg ariannol yn ystod misoedd yr haf, sy'n golygu bod yn rhaid iddynt dderbyn ail swydd, yn aml am isafswm cyflog.

Lecturers are often unsure whether their contracts will be renewed in September, and career progression is uncertain. This can make it very difficult for them to get a mortgage, to get personal finance, or to get them any sort of financial backing.

Mae darlithwyr yn aml yn ansicr a fydd eu contractau yn cael eu hadnewyddu ym mis Medi, ac mae datblygiad gyrfa yn ansicr. Gall hyn ei gwneud yn anodd iawn iddynt gael morgais, cael cyllid personol, neu drefnu unrhyw fath o gymorth ariannol.

Of course, employers have told us that they need flexibility to meet local needs, and they need to make sure that they have enough students to put on the courses, which is something that we would all accept. However, they also use these contracts to top up fractional contracts in many institutions. This means that an employee may have a 0.5 fractional contract, but would actually work full time with the other 0.5 contracted on a part-time hourly basis.

Wrth gwrs, mae cyflogwyr wedi dweud wrthym fod angen iddynt gael hyblygrwydd er mwyn diwallu anghenion lleol, a bod angen iddynt sicrhau bod ganddynt ddigon o fyfyrwyr i gynnig y cyrsiau, sef rhywbeth y byddem i gyd yn ei dderbyn. Fodd bynnag, maent hefyd yn defnyddio'r contractau hyn i ychwanegu at gontractau ffracsiynol mewn llawer o sefydliadau. Mae hyn yn golygu y gall fod gan gyflogai gontract ffracsiynol o 0.5, ond byddai'n gweithio'n llawn amser mewn gwirionedd gyda'r 0.5 arall wedi'i gontractio ar sail rhan amser gyda thâl fesul awr.

Many hourly-paid lecturers work a full timetable during teaching weeks yet they are not given the contract that reflects this, leaving them thousands of pounds out of pocket, which they would not have been if they were doing the same job on a permanent full-time or fractional contract. This has a knock-on effect on their pensions. It is not uncommon to find different lecturers doing the same job in the same institution on different amounts of pay, depending on the type of contract that they are on. In addition, part-time hourly-paid staff feel insecure and undervalued. They often work long hours to make ends meet and often teach in more than one institution.

Mae llawer o ddarlithwyr sy'n cael eu talu fesul awr yn dysgu amserlen lawn yn ystod wythnosau dysgu ond eto nid ydynt yn cael y contract sy'n adlewyrchu hyn, gan eu hamddifadu o filoedd o bunnoedd, na fyddai'n digwydd pe baent yn gwneud yr un swydd ar sail contract parhaol, llawn amser neu ffracsiynol. Mae hyn yn cael effaith ganlyniadol ar eu pensiynau. Nid yw'n beth anghyffredin dod o hyd i wahanol ddarlithwyr yn gwneud yr un gwaith yn yr un sefydliad sy'n cael symiau gwahanol o gyflog, yn dibynnu ar y math o gontract sydd ganddynt. At hynny, mae staff rhan amser sy'n cael eu talu fesul awr yn teimlo'n ansicr ac wedi'u tanbrisio. Maent yn aml yn gweithio oriau hir i gael dau ben llinyn ynghyd ac yn aml yn addysgu mewn mwy nag un sefydliad.

Such contracts often disproportionately affect women and other minority groups. The cuts to the further education budget will not ease their pain or the delivery of vocational study to facilitate this development, particularly with regard to adult learning where we see that many cuts will have to be made if this does go ahead.

Mae contractau o'r fath yn aml yn effeithio'n anghymesur ar fenywod a grwpiau lleiafrifol eraill. Ni fydd y toriadau yn y gyllideb addysg bellach yn lleddfu eu poen nac yn darparu cyrsiau galwedigaethol er mwyn hwyluso'r datblygiad hwn, yn enwedig o ran dysgu oedolion lle gwelwn y bydd yn rhaid i lawer o doriadau gael eu gwneud os bydd hyn yn mynd rhagddo.

All of this comes together to result in many young people being taught by disenfranchised, often stressed, and financially vulnerable lecturers. I think that this is important to mention in this debate today, because if we are going to be focusing on a parity of esteem between vocational learning and academia, we have to make sure that the people delivering those services and studies have a parity of esteem. That currently is not the case in Wales.

Mae hyn i gyd yn dod at ei gilydd i greu sefyllfa lle mae llawer o bobl ifanc yn cael eu dysgu gan ddarlithwyr difreintiedig, sydd yn aml dan straen ac y mae eu sefyllfa ariannol yn fregus. Credaf ei bod yn bwysig sôn am hyn yn y ddadl hon heddiw, oherwydd os ydym am ganolbwyntio ar barch cydradd rhwng dysgu galwedigaethol a'r byd academaidd, rhaid inni sicrhau bod y bobl sy'n darparu'r gwasanaethau a'r astudiaethau hynny yn cael parch cydradd. Nid felly y mae ar hyn o bryd yng Nghymru.

15:48

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you agree with me, therefore, that it is not just the fact that they have to do those extra hours and the tight timescales that they have, but that that does not allow them to undertake continuous professional development as well? Therefore, they are not always up to date with the material that they actually deliver, and quality could be affected as a consequence of that.

A ydych yn cytuno â mi, felly, fod a wnelo hyn nid yn unig â'r ffaith bod yn rhaid iddynt weithio'r oriau ychwanegol hynny ac yn ôl yr amserlenni tynn sydd ganddynt, ond hefyd nad ydynt yn cael cyfle i ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus? Felly, nid ydynt bob amser yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y deunydd y maent yn ei ddarparu mewn gwirionedd, ac o ganlyniad gallai hynny gael effaith ar ansawdd.

15:48

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, exactly. I think that that is something that the Children and Young People Committee is looking at now with regard to professional development. If the lecturers do not have time for continuous professional development, as you say, how will lecturers, when more courses—and higher level courses—are introduced, potentially, by the Government, be able to feel empowered to deliver those courses? I think that that was a point well made.

Cytunaf, yn hollol. Credaf fod hynny'n rhywbeth y mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn ei ystyried ar hyn o bryd o ran datblygiad proffesiynol. Os na fydd y darlithwyr yn cael amser ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus, fel y dywedasoch, sut y bydd darlithwyr, pan fydd mwy o gyrsiau— a chyrsiau lefel uwch—yn cael eu cyflwyno, o bosibl, gan y Llywodraeth, yn gallu teimlo eu bod wedi'u grymuso i gyflwyno'r cyrsiau hynny? Roedd hwnnw'n bwynt da, yn fy marn i.

We have to remember that many lecturers are on the front line against poverty in Wales. At the end of the day, we do not want to generalise, but many of these young people who access vocational training have fallen out of the system previously. So, many of these lecturers are not only teaching them the issues at hand, but they are teaching or helping them through life, be it in terms of their social wellbeing, or helping them through difficulties in their lives. So, I think that we have to really respect the roles of FE lecturers. Before I finish, I urge the Minister to really try to get to grips with this issue and to meet with trade unions to use your influence on the FE sector. I know that ColegauCymru is ultimately the umbrella organisation for the FE sector, but I do not think that we can discuss vocational development or training in Wales without focusing on those who deliver it.

Rhaid inni gofio bod llawer o ddarlithwyr yn y rheng flaen yn y frwydr yn erbyn tlodi yng Nghymru. Wedi dweud hynny, nid ydym am gyffredinoli, ond mae llawer o'r bobl ifanc hyn sy'n manteisio ar hyfforddiant galwedigaethol wedi colli cysylltiad â'r system o'r blaen. Felly, mae llawer o'r darlithwyr hyn, nid yn unig yn dysgu'r materion dan sylw iddynt, ond maent yn eu dysgu neu eu helpu drwy fywyd, boed hynny o ran eu lles cymdeithasol, neu eu helpu drwy anawsterau yn eu bywydau. Felly, credaf fod yn rhaid inni roi parch dyladwy i rolau darlithwyr addysg bellach. Cyn imi orffen, rwy'n annog y Gweinidog i geisio mynd i'r afael â'r mater hwn a chyfarfod ag undebau llafur er mwyn i chi ddylanwadu ar y sector addysg bellach. Gwn mai ColegauCymru yn y pen draw yw sefydliad mantell y sector addysg bellach, ond ni chredaf y gallwn drafod datblygiad na hyfforddiant galwedigaethol yng Nghymru heb ganolbwyntio ar y rhai sy'n ei gyflwyno.

15:49

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful for the opportunity to contribute to this debate this afternoon on vocational education. I would like to address my remarks to the issue of equalities and the need to broaden the aspirations of girls and to widen the career options available to them. By fully utilising the skills and talents of girls, we can maximise their contribution to economic growth and increase the nation's competitiveness in the global market.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu at y ddadl hon y prynhawn yma ar addysg alwedigaethol. Yn fy sylwadau hoffwn gyfeirio at fater cydraddoldeb a'r angen i ehangu dyheadau merched ac i ymestyn y dewisiadau gyrfa sydd ar gael iddynt. Drwy fanteisio i'r eithaf ar sgiliau a doniau merched, gallwn wneud y gorau o'u cyfraniad i dwf economaidd a gwella cystadleurwydd y wlad yn y farchnad fyd-eang.

The fact is that there are clear gender differences in the subjects that women choose in higher education. Research has shown that only 13% of engineering places at university, 18% in technology and 22% in mathematics and computer science are taken up by women. As a result, women tend to predominate in certain areas of work. Women are more likely than men to work in public administration, health and education, and are less likely to work in construction, manufacturing, transport, et cetera. The National Skills Forum has said that

Y ffaith amdani yw bod gwahaniaethau amlwg rhwng y rhywiau o ran y pynciau y mae menywod yn eu dewis mewn addysg uwch. Dengys ymchwil mai dim ond 13% o leoedd peirianneg yn y brifysgol, 18% mewn technoleg a 22% mewn mathemateg a gwyddoniaeth gyfrifiadurol sy'n cael eu llenwi gan fenywod. O ganlyniad, mae menywod yn tueddu i fod yn y mwyafrif mewn meysydd gwaith penodol. Mae menywod yn fwy tebygol o weithio mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, iechyd ac addysg na dynion, ac maent yn llai tebygol o weithio yn y diwydiannau adeiladu, gweithgynhyrchu, cludiant, ac ati. Mae'r Fforwm Sgiliau Cenedlaethol wedi dweud

'The limited number of women entering SET exacerbates skills shortages in these sectors'.

Mae'r nifer gyfyngedig o fenywod sy'n astudio pynciau SET yn gwaethygu'r prinder sgiliau yn y sectorau hyn.

It went on to say that that reduces

Aeth ymlaen i ddweud bod hynny'n lleihau

'the productivity of SET organisations and making it harder for them to compete on the international stage.'

cynhyrchiant sefydliadau SET a'i gwneud hi'n anoddach iddynt gystadlu ar y llwyfan rhyngwladol.

By improving careers guidance and work experience opportunities, we can challenge gender stereotypes and create transferable workplace skills. Girls need access to the right careers advice and guidance to support their decision making, and to ensure that they are ready for work in an increasingly competitive jobs market, here and abroad. I believe that schools need more help from businesses in discharging their duty to provide careers advice.

Drwy wella arweiniad ar yrfaoedd a chyfleoedd profiad gwaith, gallwn herio ystrydebau rhyw a chreu sgiliau trosglwyddadwy yn y gweithle. Mae angen i ferched gael gafael ar y cyngor a'r arweiniad cywir ar yrfaoedd er mwyn eu helpu i wneud penderfyniadau, a sicrhau eu bod yn barod i weithio mewn marchnad swyddi sy'n gynyddol gystadleuol, yma a thramor. Credaf fod angen i ysgolion gael mwy o gymorth gan fusnesau i gyflawni eu dyletswydd i roi cyngor ar yrfaoedd.

Businesses should work more closely with schools, colleges and universities to provide all pupils, but particularly girls, with a better understanding of the world of work and the career options available to them. Role models who can relate to young people should be selected to deliver first-hand insights about different careers. Better information for girls and parents is also vital if economic potential is to be fulfilled. Students must be empowered to make their own informed choices as to what subjects, courses or qualifications will be most useful and suitable to them in achieving their career objectives. This will open up careers and courses to all and promote equality and inclusion in the workplace.

Dylai busnesau weithio'n agosach gydag ysgolion, colegau a phrifysgolion er mwyn helpu pob disgybl, yn enwedig merched, i ddeall byd gwaith a'r dewisiadau gyrfa sydd ar gael iddynt yn well. Dylai modelau rôl sy'n gallu uniaethu â phobl ifanc gael eu dewis i roi cipolwg personol ar wahanol yrfaoedd. Mae gwell gwybodaeth i ferched a rhieni hefyd yn hollbwysig er mwyn cyflawni eu potensial economaidd. Rhaid i fyfyrwyr gael eu grymuso i wneud eu dewisiadau eu hunain ar sail gwybodaeth ynghylch pa bynciau, cyrsiau neu gymwysterau fydd fwyaf defnyddiol ac addas iddynt er mwyn cyflawni eu hamcanion gyrfa. Bydd hyn yn agor gyrfaoedd a chyrsiau i bawb a hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant yn y gweithle.

Work experience is vital in preparing young people for the world of employment, jobs and work. Many businesses complain that school leavers are often unprepared for a working regime, and we need to tackle the barriers to work placements. We need to actively promote work experience and traineeships through genuine partnerships between businesses, schools and colleges. We must encourage girls to think outside the old gender-based stereotypes and take on roles in sectors that have been traditionally male-dominated.

Mae profiad gwaith yn hollbwysig i baratoi pobl ifanc ar gyfer byd gwaith, swyddi a chyflogaeth. Mae llawer o fusnesau yn cwyno nad yw pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol yn barod ar gyfer cyfundrefn waith yn aml, ac mae angen inni fynd i'r afael â'r rhwystrau i leoliadau gwaith. Mae angen inni fynd ati i hyrwyddo profiad gwaith a hyfforddeiaethau drwy bartneriaethau gwirioneddol rhwng busnesau, ysgolion a cholegau. Rhaid inni annog merched i feddwl y tu hwnt i'r hen stereoteipiau rhyw ac ymgymryd â rolau mewn sectorau sydd wedi bod yn rhai gwrywaidd yn draddodiadol.

Entrepreneurship education is being implemented by almost every country in Europe to promote enterprise after leaving school. Why not in this country? We cannot afford for Wales to lag behind in this global race. We must embed enterprise in the education system so that young people see business as a viable career option. Our education system must equip and prepare them with the skills that they need to start up their own businesses—I mean the youngsters.

Mae addysg entrepreneuriaeth yn cael ei gweithredu gan bron bob gwlad yn Ewrop er mwyn hybu menter ar ôl gadael yr ysgol. Pam na allwn wneud hynny yn y wlad hon? Ni allwn fforddio i Gymru fod ar ei hôl hi yn y ras fyd-eang hon. Rhaid inni ymgorffori menter yn y system addysg fel bod pobl ifanc yn gweld busnes fel opsiwn gyrfa dichonadwy. Rhaid i'n system addysg eu paratoi a darparu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddechrau eu busnesau eu hunain—sef y bobl ifanc.

We cannot afford to ignore the economic potential of half the working population in Wales. By equalising the labour force, we can ensure that our economic growth reaches its full potential.

Ni allwn fforddio anwybyddu potensial economaidd hanner y boblogaeth sy'n gweithio yng Nghymru. Drwy gydraddoli'r llafurlu, gallwn sicrhau bod ein twf economaidd yn cyrraedd ei lawn botensial.

15:55

## Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

As a local businessperson in Montgomeryshire, I have been very keen on and interested in the skills development and educational attainment of our young people in schools and colleges, and in whether we as a society are properly equipping them with the most practical mix of skills to fit the needs and demands of the business community, and in whether the skills attained are of the highest standard. I also used to do a lot of business mentoring in schools and colleges in Montgomeryshire, because, as we know, and as has been said, there are many students who are not going to follow the higher education pathway. They want to understand the key fundamentals of what the business world is like and know what the pros and cons are. When I was in school, which was not that long ago, I did not really get advice from careers teachers, or from teachers in general, about going into business. It was not put across as a potential opportunity in life. I think that the period between the ages of 14 to 17 is a critical time in the lives of many of our young people in terms of shaping their long-term career choices and educational development. It is vital that teachers and careers advisers identify as early as possible what potential career pathways individual students would like to pursue, and that they then be as supportive and aspirational as possible in setting objectives, so that the students do not lose interest and fall from further education and training. Therefore, I would like to concentrate my contribution on the recently launched youth engagement and progression framework implementation plan.

Fel person busnes lleol yn sir Drefaldwyn, rwyf wedi bod yn frwdfrydig iawn ynghylch datblygu sgiliau a chyrhaeddiad addysgol ein pobl ifanc mewn ysgolion a cholegau ac wedi cymryd diddordeb yn hynny, ac o ran a ydym ni fel cymdeithas yn eu paratoi'n briodol gyda'r cymysgedd mwyaf ymarferol o sgiliau i ddiwallu anghenion y gymuned fusnes a bodloni eu gofynion, ac o ran a yw'r sgiliau a ddysgwyd o'r safon uchaf. Roeddwn hefyd yn arfer gwneud cryn dipyn o fentora busnes mewn ysgolion a cholegau yn sir Drefaldwyn, oherwydd, fel y gwyddom, ac fel y dywedwyd, mae llawer o fyfyrwyr na fyddant yn dilyn llwybr addysg uwch. Maent yn awyddus i ddeall hanfodion allweddol byd busnes a chael gwybod beth yw'r manteision a'r anfanteision. Pan oeddwn yn yr ysgol, ac nid oedd hynny mor bell yn ôl â hynny, ni chefais gyngor gan athrawon gyrfaoedd mewn gwirionedd, na chan athrawon yn gyffredinol, ar fynd i mewn i fusnes. Nid oedd yn cael ei gyfleu fel cyfle posibl mewn bywyd. Credaf fod y cyfnod rhwng 14 i 17 oed yn adeg hollbwysig ym mywydau llawer o'n pobl ifanc o ran llunio eu dewisiadau gyrfa a'u datblygiad addysgol yn yr hirdymor. Mae'n hollbwysig bod athrawon a chynghorwyr gyrfaoedd yn nodi cyn gynted â phosibl pa lwybrau gyrfa posibl yr hoffai myfyrwyr unigol eu dilyn, ac yna bod mor gefnogol ac mor uchelgeisiol â phosibl wrth bennu amcanion, fel nad yw'r myfyrwyr yn colli diddordeb nac yn colli cyfle i gael addysg a hyfforddiant pellach. Felly, yn fy nghyfraniad hoffwn ganolbwyntio ar gynllun gweithredu'r fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid a lansiwyd yn ddiweddar.

Last week, the Deputy Minister said in his statement that the plan set out clearly the Welsh Government's expectations of the delivery chain in Wales, at local, regional and national levels. A week on from digesting what the Deputy Minister said, I have to say that I am not really clear on how this plan joins up strategically to other policies in the department or whether this will achieve the outcomes set, namely to keep students in education, employment and training.

Yr wythnos diwethaf, dywedodd y Dirprwy Weinidog yn ei ddatganiad bod y cynllun yn nodi'n glir ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru o'r gadwyn gyflawni yng Nghymru, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Wythnos yn ddiweddarach ar ôl myfyrio ar yr hyn a ddywedodd y Dirprwy Weinidog, rhaid imi ddweud nad wyf yn wir yn glir ynghylch sut mae'r cynllun hwn yn cysylltu'n strategol â pholisïau eraill yn yr adran nac a fydd yn sicrhau'r canlyniadau a osodwyd, sef cadw myfyrwyr mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

I am going to just go through some of the issues that I have, first with the Government's delivery partners. Prior to last week's statement, there was an announcement that we would be accepting the key recommendations of the Hill review, and that educational consortia would take more responsibilities from local authorities, yet there is a plan that has been placed firmly in the hands of those same local authorities. I would therefore be interested in knowing how changes to regional working affect the implementation of this plan.

Bwriadaf godi rhai o'r materion yn unig sydd gennyf, yn gyntaf o ran partneriaid cyflawni'r Llywodraeth. Cyn datganiad yr wythnos diwethaf, cafwyd cyhoeddiad y byddem yn derbyn argymhellion allweddol adolygiad Hill, ac y byddai consortia addysgol yn ymgymryd â mwy o gyfrifoldebau oddi wrth awdurdodau lleol, ac eto ceir cynllun sydd wedi cael ei osod yn benodol yn nwylo'r union awdurdodau lleol hynny. Hoffwn wybod felly sut y bydd newidiadau i weithio'n rhanbarthol yn effeithio ar y broses o weithredu'r cynllun hwn.

Second is the development of the youth guarantee. Simon Thomas last week asked questions about the nature of the guarantee and whether there was any statutory underpinning. I do not think that he got a clear answer on that, other than to say that it is an offer. In my view, it loses the objective weight if it is not a statutory guarantee. Simon also raised questions about the third sector in that regard. I know that the third sector in Wales would, if properly supported and resourced by Government, be very willing to develop opportunities like leadership programmes to help to reach similar most disengaged young people, thereby not only providing them with the training that would gradually bring them back to the employment market, but also allowing them to provide a more positive contribution in their own communities.

Yn ail, datblygiad y warant ieuenctid. Gofynnodd Simon Thomas gwestiynau am natur y warant yr wythnos diwethaf ac a oedd unrhyw sail statudol iddi. Ni chredaf iddo gael ateb clir ynglŷn â hynny, a heblaw am y ffaith mai cynnig ydyw. Yn fy marn i, mae'n colli pwysau gwrthrychol os nad yw'n warant statudol. Cododd Simon hefyd gwestiynau ynglŷn â'r trydydd sector yn y cyswllt hwnnw. Gwn y byddai'r trydydd sector yng Nghymru, o gael cymorth ac adnoddau priodol gan y Llywodraeth, yn barod iawn i ddatblygu cyfleoedd fel rhaglenni arweinyddiaeth er mwyn helpu i gyrraedd pobl ifanc debyg sydd wedi ymddieithrio fwyaf, a thrwy hynny nid yn unig rhoi hyfforddiant iddynt a fyddai'n dod â hwy'n raddol yn ôl i'r farchnad waith, ond hefyd roi cyfle iddynt wneud cyfraniad mwy cadarnhaol yn eu cymunedau eu hunain.

Thirdly, linked to the youth guarantee is the role of Careers Wales. I hope that the Minister listened to my question last week to the Deputy Minister with regard to Careers Wales no longer offering cross-border student placements in Powys. This is a vital issue for border constituencies, and I am pleased that the Deputy Minister said that he would look into this matter and get back to me on it. However, it is not right that students living on the border should have to lose out on those potential career opportunities because the opportunities are in England. I do hope that the Minister will be able to address some of the points that I have made, because we are not all as clear as he perhaps is about how this new plan will be delivered.

Yn drydydd, ac yn gysylltiedig â'r warant ieuenctid, mae rôl Gyrfa Cymru. Gobeithiaf i'r Gweinidog wrando ar fy nghwestiwn i'r Dirprwy Weinidog yr wythnos diwethaf o ran y ffaith nad yw Gyrfa Cymru yn cynnig lleoliadau i fyfyrwyr dros y ffin ym Mhowys mwyach. Mae hwn yn fater hollbwysig i etholaethau ar y ffin, ac rwy'n falch bod y Dirprwy Weinidog wedi dweud y byddai'n ymchwilio i'r mater a rhoi ateb imi. Fodd bynnag, nid yw'n deg bod myfyrwyr sy'n byw ar y ffin yn colli y cyfleoedd gyrfa posibl hynny am fod y cyfleoedd yn Lloegr. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn gallu ymdrin â rhai o'r pwyntiau a wneuthum, oherwydd nid ydym mor sicr ag yntau o bosibl ynghylch sut y bydd y cynllun newydd hwn yn cael ei gyflwyno.

15:59 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I, too, will refer to the OECD report on adult skills published yesterday in England, where the third lowest average literacy score among the unemployed population was found, as compared with the other participating countries. That is the real legacy of Labour's mantra of 'education, education, education' over the border. As Simon Thomas has already pointed out, Wales has not been included in the analysis but Estyn's comparative reports with English standards show that Wales can only be in a worse situation. The same report found, in terms of social justice, that it is the low-skilled adults who are more likely than others to be unemployed, have bad health and earn far less. That mismatch between the skills of people and the skill requirements of jobs is likely to prevent skilled people from entering employment. That highlights the importance of both a well-rounded education and of skills in both academic and vocational areas. I quite agree with David Rees that it is wrong that there should be a distinction between academic achievement and vocational achievement. I cannot fix a car, I certainly cannot plumb my house, and I have no idea how to write a computer programme and, anyone who can do any of those things, as far as I am concerned, has a skill level that is far higher than mine—I cannot do those things. They are all employable skills.

Byddaf innau hefyd, yn cyfeirio at adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar sgiliau oedolion a gyhoeddwyd ddoe yn Lloegr, lle y cafwyd y trydydd sgôr cyfartalog isaf o ran llythrennedd ymhlith y boblogaeth ddi-waith, o gymharu â gwledydd eraill a gymerodd ran. Dyna etifeddiaeth wirioneddol mantra Llafur 'addysg, addysg, addysg' dros y ffin. Fel y nododd Simon Thomas eisoes, nid yw Cymru wedi ei chynnwys yn y dadansoddiad, ond dengys adroddiadau cymharol Estyn â safonau yn Lloegr y gall Cymru ond bod mewn sefyllfa waeth. Yn ôl yr un adroddiad, o ran cyfiawnder cymdeithasol, oedolion heb lawer o sgiliau sy'n fwyaf tebygol o fod yn ddi-waith, o fod ag iechyd gwael ac ennill llawer llai. Mae'r diffyg cyfatebiaeth rhwng sgiliau pobl a'r gofynion sgiliau swyddi yn debygol o atal pobl fedrus rhag dod yn gyflogedig. Mae hynny'n amlygu pwysigrwydd addysg gytbwys a sgiliau ym meysydd academaidd a galwedigaethol fel ei gilydd. Cytunaf yn llwyr â David Rees ei bod yn amhriodol gwahaniaethu rhwng cyflawniad academaidd a chyflawniad galwedigaethol. Ni allaf drwsio car, ac yn sicr ni allaf blymio fy nhŷ, ac nid oes syniad gennyf sut i lunio rhaglen gyfrifiadurol ac, mae gan unrhyw un a all wneud unrhyw un o'r pethau hynny, o'm safbwynt i, lefel sgil sydd lawer yn uwch na fy un i–ni allaf wneud y pethau hynny. Maent i gyd yn sgiliau cyflogadwy.

I think that it would be useful, Minister, to learn from the Wolf review. We do not need to reinvent the wheel and I know that you do not like looking over the border, but the Wolf review came to some very serious conclusions regarding how vocational education can be improved for 14 to 19-year-olds, both to help progression into the workplace and into further education and training. The review stressed the importance of encouraging young people to take the vocational qualifications that will be most valuable to them in the future. It highlighted the importance of discouraging individuals from studying a large number of vocational subjects at the expense of academic studies—by that I particularly mean mathematics and English, which are key and core skills. It found that a failure in vocational education could be caused by students being allowed to drop English and maths, so it is vital that English and maths should be carried on in vocational education. If they do, to the extent that was highlighted in the Wolf report, that could contribute to any kind of idea of vocational studies being soft studies, which I agree is wrong in the first place.

Credaf y byddai'n ddefnyddiol, Weinidog, pe baem yn dysgu oddi wrth adolygiad Wolf. Nid oes angen inni ailddyfeisio'r olwyn a gwn nad ydych yn hoffi edrych dros y ffin, ond daeth adolygiad Wolf i rai casgliadau difrifol iawn ynglŷn â sut y gall addysg alwedigaethol gael ei gwella i ddysgwyr 14 i 19 oed, er mwyn eu helpu i symud i'r gweithle ac i addysg a hyfforddiant pellach. Pwysleisiodd yr adolygiad bwysigrwydd annog pobl ifanc i ddewis y cymwysterau galwedigaethol a fydd fwyaf gwerthfawr iddynt yn y dyfodol. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd annog unigolion i beidio ag astudio nifer fawr o bynciau galwedigaethol ar draul astudiaethau academaidd—wrth hynny rwy'n golygu mathemateg a Saesneg yn benodol, sy'n sgiliau allweddol a chraidd. Canfu y gallai methiant mewn addysg alwedigaethol gael ei achosi gan fyfyrwyr y caniateir iddynt roi'r gorau i Saesneg a mathemateg, ac felly mae'n hanfodol bod myfyrwyr yn parhau i asudio Saesneg a mathemateg mewn addysg alwedigaethol. Os gwnânt hynny, i'r graddau a amlygwyd yn adroddiad Wolf, gallai hynny gyfrannu at unrhyw syniad mai dewis hawdd yw astudiaethau galwedigaethol, sy'n anghywir yn y lle cyntaf, yn fy marn i.

It is important that organisations like Careers Wales actively promote the equal importance of vocational and academic training so that no particular preference is given to one stream or the other. The Wolf review also identified other failures in the vocational education system—and this perhaps deals with some of the points raised by Bethan Jenkins—such as the teaching of specialised subjects by teachers who are not well enough versed in the subject, that courses are available to young people that offer no route to further education and employment, and that institutions will receive funding for qualifications regardless of their subsequent applicability. It found that the requirement for qualifications to fit into a credit framework caused the appropriateness of those qualifications to suffer and for gaps to be left in the market. It concluded that vocational studies have not always been correctly pitched or taught in the past, but the same can be said of academic studies in various institutions.

Mae'n bwysig bod sefydliadau fel Gyrfa Cymru yn mynd ati i hyrwyddo pwysigrwydd cydradd hyfforddiant galwedigaethol ac academaidd fel nad yw'r naill ffrwd yn cael ei ffafrio dros y llall. Nododd adolygiad Wolf fethiannau eraill hefyd yn y system addysg alwedigaethol—ac mae hyn o bosibl yn ymdrin â rhai o'r pwyntiau a godwyd gan Bethan Jenkins—megis athrawon nad ydynt yn ddigon hyddysg yn y pwnc yn addysgu pynciau arbenigol, bod cyrsiau ar gael i bobl ifanc nad ydynt yn cynnig llwybr i addysg bellach na chyflogaeth, a'r ffaith y bydd sefydliadau yn cael cyllid am gymwysterau waeth pa mor ddefnyddiol ydynt wedyn. Canfu fod y gofyniad bod cymwysterau yn cyd-fynd â fframwaith credydau wedi peri i briodoldeb y cymwysterau hynny wanhau ac i fylchau gael eu creu yn y farchnad. Daeth i'r casgliad nad yw astudiaethau galwedigaethol bob amser wedi cael eu hanelu na'u dysgu'n gywir yn y gorffennol, ond gellir dweud yr un peth am astudiaethau academaidd mewn gwahanol sefydliadau.

The recommendations made to address these issues included enabling further education lecturers and professionals to teach in schools—which may be something that you would like to look at and adopt, Minister—along with removing the requirement for qualifications to fit a framework, and regulating awarding organisations, as opposed to accrediting individual qualifications. Minister, again, you might want to look at those issues.

Roedd yr argymhellion a wnaed i fynd i'r afael â'r materion hyn yn cynnwys galluogi darlithwyr a gweithwyr proffesiynol addysg bellach i addysgu mewn ysgolion—a all fod yn rhywbeth yr hoffech ei ystyried a'i fabwysiadu, Weinidog—ynghyd â dileu'r gofyniad bod yn rhaid i gymwysterau gyd-fynd â fframwaith, a rheoleiddio sefydliadau dyfarnu, yn hytrach nag achredu cymwysterau unigol. Weinidog, unwaith eto, efallai yr hoffech ystyried y materion hynny.

The OECD review in England, which examined vocational training, makes further recommendations, including making work placements mandatory on behalf of the education provider, and again, Bethan, allowing part-time working arrangements to allow professionals to work within their field in addition to being vocational teachers. In other words, it allows people who have that skill and expertise and are applying it in the private sector to do the reverse of what you were suggesting—rather than it being a silo, to allow them to work both in the private sector and as vocational trainers, putting their expertise—

Mae adolygiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn Lloegr, a oedd yn ystyried hyfforddiant galwedigaethol, yn gwneud argymhellion pellach, gan gynnwys gwneud lleoliadau gwaith yn orfodol ar ran y darparwr addysg, ac unwaith eto, Bethan, caniatáu trefniadau gweithio rhan amser er mwyn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol weithio o fewn eu maes, yn ogystal â bod yn athrawon galwedigaethol. Mewn geiriau eraill, mae'n rhoi cyfle i bobl sydd â'r sgiliau a'r arbenigedd hwnnw ac sy'n eu cymhwyso yn y sector preifat wneud i'r gwrthwyneb i'r hyn yr oeddech yn ei awgrymu—yn hytrach na bod mewn seilo, er mwyn eu galluogi i weithio yn y sector preifat ac fel hyfforddwyr galwedigaethol, gan roi eu harbenigedd—

16:05 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That may be a good idea, but what I have been talking to the UCU about is that, with these particular contracts signed with the FE college, they are not allowed to work for anybody else. So, I think that we would have to rehearse that argument.

Efallai fod hwnnw'n syniad da, ond yr hyn yr wyf wedi bod yn ei drafod gyda'r Undeb Prifysgolion a Cholegau yw, gyda'r contractau penodol hyn a lofnodir â'r coleg addysg bellach, nad ydynt yn cael gweithio i neb arall. Felly, credaf y byddai'n rhaid inni fynd dros y ddadl honno.

16:06 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I certainly agree that that should be looked at. The final point, perhaps, is the potential ability for organisations to bid for the right to provide vocational qualifications and allow the proportion of the curriculum to be locally negotiated between employers and education providers. Minister, I hope you will take some of those points on board and let us hope that we see them feeding through into your policy.

Yn sicr, cytunaf y dylid edrych ar hynny. Y pwynt olaf, efallai, yw'r gallu o bosibl i sefydliadau wneud cais am yr hawl i ddarparu cymwysterau galwedigaethol a chaniatáu i'r gyfran o'r cwricwlwm gael ei chyd-drafod yn lleol rhwng cyflogwyr a darparwyr addysg. Weinidog, gobeithiaf y byddwch yn derbyn rhai o'r pwyntiau hynny a gobeithio y byddwn yn eu gweld yn cael eu bwydo i mewn i'ch polisi.

16:06 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Education and Skills, Huw Lewis.

Galwaf ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis.

16:06 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, temporary Deputy Presiding Officer. I would like to thank the Welsh Conservatives for bringing forward this debate today. The Welsh Government will be supporting the motion, and we are happy to support the amendments from Elin Jones and at least two of the three amendments from the Lib Dems. We will not be supporting the first amendment from the Liberal Democrats, on apprenticeships, because it ignores some very simple truths. In 2006, the apprenticeship completion rate in Wales was 54%. The latest figures for Wales show a completion rate of 84%—a great success story, and way ahead of the figure in England of 74%. The comparison the Liberal Democrats seek to make with England is bogus for another reason—given that some of the schemes there last for only 13 weeks. In Wales, we have high-quality, career-changing, indeed life-changing, apprenticeships. In England, all too often, we have apprenticeships-lite. The UK Government's own research suggests that its shifting policy on adult apprenticeships could result in a 73% drop in the number of businesses taking on apprentices in England. The Lib Dems want us to learn from the coalition Government how to develop apprenticeship programmes, and yet 77 people have applied for adult apprenticeships through the new policy arrangements across the border. There were meant to be 25,000 applicants this year; a catastrophic failure on the part of Michael Gove and the coalition Government at Westminster.

Diolch, Ddirprwy Lywydd dros dro. Hoffwn ddiolch i'r Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r ddadl hon heddiw. Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cynnig, ac rydym yn barod i gefnogi'r gwelliannau gan Elin Jones ac o leiaf dau o'r tri gwelliant gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant cyntaf y Democratiaid Rhyddfrydol, ynglŷn â phrentisiaethau, oherwydd mae'n anwybyddu rhai ffeithiau syml iawn. Yn 2006, cafwyd cyfradd cwblhau prentisiaethau o 54% yng Nghymru. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer Cymru yn dangos cyfradd cwblhau o 84%—llwyddiant mawr, a thipyn yn well na'r ffigur yn Lloegr sef 74%. Mae'r gymhariaeth y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ceisio ei gwneud â Lloegr yn un ffug am reswm arall—o ystyried mai dim ond am 13 wythnos y mae rhai o'r cynlluniau yno yn para. Yng Nghymru, ceir prentisiaethau o safon uchel, sy'n newid gyrfa, yn wir, yn newid bywydau. Yn Lloegr, yn llawer rhy aml, ceir prentisiaethau ar raddfa fach. Awgryma ymchwil Llywodraeth y DU ei hun y gallai ei pholisi newidiol ynglŷn â phrentisiaethau i oedolion arwain at ostyngiad o 73% yn nifer y busnesau sy'n derbyn prentisiaid yn Lloegr. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol am inni ddysgu oddi wrth y Llywodraeth glymblaid sut i ddatblygu rhaglenni prentisiaethau, ac eto 77 o bobl sydd wedi gwneud cais am brentisiaethau i oedolion drwy'r trefniadau polisi newydd dros y ffin. Y bwriad oedd cael 25,000 o ymgeiswyr eleni; methiant trychinebus ar ran Michael Gove a'r Llywodraeth glymblaid yn San Steffan.

By way of contrast to all that, the Liberal Democrats will, I am sure, be as delighted as I am at the news from yesterday's draft budget. There will be an extra year's funding for Jobs Growth Wales, and extra money to secure more apprenticeships, Welsh-style. That is a budget that will deliver for Wales, even in the face of the savage cuts being visited upon us by the Conservatives and the Liberal Democrats in Westminster.

Ar y llaw arall, bydd y Democratiaid Rhyddfrydol, mae'n siŵr gennyf, yr un mor falch â minnau ynglŷn â'r newyddion ddoe am y gyllideb ddrafft. Bydd arian am flwyddyn ychwanegol o Twf Swyddi Cymru, ac arian ychwanegol i sicrhau mwy o brentisiaethau, Cymreig eu dull. Mae honno'n gyllideb a fydd yn cyflawni dros Gymru, hyd yn oed yn wyneb y toriadau milain y mae'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan yn eu gorfodi arnom.

Going back to the original motion in front of us today, I do not think that anyone would disagree with the desire that we should have equal value for vocational and academic qualifications; of course not. The only question I really have of the Welsh Conservatives is: where on earth have you been? The review of qualifications was set up almost specifically to answer many of the issues we have heard discussed today. That review was commissioned back in 2011 to ensure that qualifications were understood and valued, and met the needs of the Welsh economy as well as the needs of learners. That report met with almost universal support from educators, business organisations, trade unions, and, indeed, political parties across this Chamber. You can go back even further; one of the key aims of the Welsh baccalaureate when it was commissioned by the Welsh Government—12 years ago now—was to ensure that equal weight is given to qualifications in both vocational and academic routes. The Welsh baccalaureate has seen tremendous growth, and there are now some 80,000 learners following courses leading to the qualification at schools, colleges and at work-based training providers across the country. The options requirement with the Welsh baccalaureate can be met with vocational qualifications, academic qualifications, or a mix of the two routes. To listen to the Welsh Conservatives, none of this actually exists.

Gan fynd yn ôl at y cynnig gwreiddiol ger ein bron heddiw, yn fy marn i, ni fyddai neb yn anghytuno â'r awydd am weld yr un gwerth yn cael ei roi i gymwysterau galwedigaethol ac academaidd; na fyddent, wrth gwrs. Yr unig gwestiwn sydd gennyf i'r Ceidwadwyr Cymreig yw: ble ar y ddaear rydych wedi bod? Sefydlwyd yr adolygiad o gymwysterau fwy neu lai yn unswydd i ymateb llawer i'r materion yr ydym wedi clywed yn cael eu trafod heddiw. Comisiynwyd yr adolygiad hwnnw yn ôl ym 2011 er mwyn sicrhau bod cymwysterau yn cael eu deall a'u gwerthfawrogi, a'u bod yn diwallu anghenion economi Cymru yn ogystal ag anghenion y dysgwyr. Cafodd yr adroddiad hwnnw gefnogaeth unfrydol bron gan addysgwyr, sefydliadau busnes, undebau llafur, ac, yn wir, y pleidiau gwleidyddol yn y Siambr hon. Gallwch fynd yn ôl hyd yn oed ymhellach; un o nodau allweddol bagloriaeth Cymru pan gafodd ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru–12 mlynedd yn ôl erbyn hyn—oedd sicrhau bod pwys cyfartal yn cael ei roi ar gymwysterau yn y llwybr galwedigaethol a'r llwybr academaidd fel ei gilydd. Mae bagloriaeth Cymru wedi gweld twf aruthrol, ac erbyn hyn mae tua 80,000 o ddysgwyr yn dilyn cyrsiau sy'n arwain at y cymhwyster mewn ysgolion, colegau a chyda darparwyr hyfforddiant seiliedig ar waith ledled y wlad. Gellir bodloni gofyniad bagloriaeth Cymru o ran opsiynau drwy gymwysterau galwedigaethol, cymwysterau academaidd, neu gyfuniad o'r ddau lwybr. O wrando ar y Ceidwadwyr Cymreig, nid oes y gronyn lleiaf o hyn yn bodoli.

There is also a focus on work-related education and the skills that learners need in employment or in further and higher learning. So, we already give equal recognition to vocational qualifications in the Welsh baccalaureate. This will continue to be the case as we develop the more rigorous qualification recommended by the review of qualifications.

Ceir hefyd ffocws ar addysg gysylltiedig â gwaith a'r sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr mewn cyflogaeth neu mewn addysg bellach ac addysg uwch. Felly, rydym eisoes yn rhoi'r un gydnabyddiaeth i gymwysterau galwedigaethol ym magloriaeth Cymru. Bydd hyn yn parhau i fod yn wir wrth inni ddatblygu'r cymhwyster mwy trylwyr a argymhellir gan yr adolygiad o gymwysterau.

The development of the revised and more rigorous Welsh baccalaureate is being overseen by a steering group, which includes representation from the Confederation of British Industry Wales and the Federation of Small Businesses. We value their input and recognise the importance of ensuring that the qualification works for them.

Mae'r broses o ddatblygu bagloriaeth Cymru ar ffurf ddiwygiedig a mwy trylwyr yn cael ei goruchwylio gan grŵp llywio, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Gydffederasiwn Diwydiant Prydain Cymru a'r Ffederasiwn Busnesau Bach. Rydym yn gwerthfawrogi eu cyfraniad ac yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod y cymhwyster yn addas ar eu cyfer.

16:10

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to you for giving way. I hear your criticism of the Welsh Conservatives, Minister. However, listening to you, it sounds like everything is rosy in the garden. You must accept that the current system is not flexible enough, whatever advantage you might see in it, and that young people cannot switch between academic and vocational courses as easily as they should.

Rwy'n ddiolchgar ichi am ildio. Clywaf eich beirniadaeth o'r Ceidwadwyr Cymreig, Weinidog. Fodd bynnag, o wrando arnoch chi, mae'n swnio fel bod popeth yn fêl i gyd. Rhaid ichi dderbyn nad yw'r system bresennol yn ddigon hyblyg, pa fantais bynnag a weloch, ac na all pobl ifanc newid rhwng cyrsiau academaidd a galwedigaethol mor hawdd ag y dylai fod modd ei wneud.

16:10 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

My criticism of the Welsh Conservatives has hardly begun, and I am sure that it will never end. At least the Member is right to point out that of course everything in the garden is not rosy. There is, of course, a journey to travel, and I will try to describe that journey as I continue with my remarks. It is not assisted by the very party that carps from the sidelines about parity of esteem between academic and vocational education but stands on the throats of Welsh educators, choking off resource through its state-shrinking policies at Westminster. [Interruption.] By all means, Members may intervene if they wish.

Prin fod fy meirniadaeth o'r Ceidwadwyr Cymreig wedi dechrau, ac rwy'n siŵr na ddaw byth i ben. O leiaf mae'r Aelod yn llygad ei le i nodi nad yw popeth yn fêl i gyd wrth gwrs. Mae taith o'n blaenau wrth reswm, a byddaf yn ceisio disgrifio'r daith honno wrth imi barhau â'm sylwadau. Ni chaiff ei hwyluso gan yr union blaid sy'n cwyno byth a beunydd o'r cyrion am barch cydradd rhwng addysg academaidd a galwedigaethol, ond sy'n sefyll ar wddf addysgwyr Cymru, gan wasgu ar adnoddau drwy ei pholisïau i grebachu'r wladwriaeth yn San Steffan. [Torri ar draws.] Ar bob cyfrif, gall Aelodau ymyrryd os dymunant.

Our revised Welsh baccalaureate will be implemented from September 2015, preparing our learners for the modern workplace regardless of whether they continue with vocational or academic study or make an immediate move into a job. Our 14-19 learning pathways policy is transforming educational provision in Wales. The policy has secured access for learners to a wider range of courses at key stage 4, including more vocational options. Schools working with each other, and with colleges, have not only expanded the breadth of subjects but the possible combination of subjects to better satisfy student choice.

Bydd bagloriaeth Cymru ar ei ffurf ddiwygiedig yn cael ei rhoi ar waith o fis Medi 2015, gan baratoi ein dysgwyr ar gyfer y gweithle modern pa un a ydynt yn parhau ag addysg alwedigaethol neu academaidd neu'n symud yn syth i gael swydd. Mae ein polisi llwybrau dysgu 14-19 yn gweddnewid y ddarpariaeth addysgol yng Nghymru. Mae'r polisi wedi sicrhau bod ystod ehangach o gyrsiau ar gael i ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 4, gan gynnwys mwy o ddewisiadau galwedigaethol. Mae ysgolion, gan weithio gyda'i gilydd, a chyda cholegau, nid yn unig wedi ehangu hyd a lled pynciau, ond wedi ehangu'r cyfuniad posibl o bynciau er mwyn bodloni dewisiadau myfyrwyr yn well.

There are some fantastic examples out there of schools, for instance, delivering for learners across Wales. An example that springs to mind is Rhyl High School, which identified that it was not meeting the needs of all of its learners at key stage 4. There was a cohort of learners that had become disaffected with almost all forms of education, with low attendance rates. The level of attainment of those learners was significantly below expectations and hope, with their behaviour putting them at risk of permanent exclusion. The school decided that an innovative approach was called for, and it developed a uniformed public services programme at level 2. Part of the programme involved a personal development course, which was developed in conjunction with North Wales Training and the army. The course was supported by the local 14-19 network from its 14-19 learning pathway grant. The course aims to re-engage learners in their education, and it is centred on improving motivation and developing skills such as communication, teamwork and leadership. I have to say that the renewed interest in learning among that cohort of young people has been remarkable, to the extent that the young people now attend all of their classes, particularly English and mathematics.

Ceir rhai enghreifftiau gwych mewn ysgolion, er enghraifft, sy'n cyflawni dros ddysgwyr ledled Cymru. Un enghraifft sy'n dod i'r meddwl yw Ysgol Uwchradd y Rhyl, a oedd wedi nodi nad oedd yn diwallu anghenion ei holl ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 4. Roedd carfan o ddysgwyr wedi eu dadrithio â bron pob math o addysg, gyda chyfraddau presenoldeb isel. Roedd lefel cyrhaeddiad y dysgwyr hynny yn sylweddol is na'r disgwyl a'r nod, ac oherwydd eu hymddygiad roeddent mewn perygl o gael eu gwahardd yn barhaol. Penderfynodd yr ysgol fod angen dull arloesol, a datblygodd raglen gwasanaethau cyhoeddus â gwisg ffurfiol ar lefel 2. Roedd rhan o'r rhaglen yn cynnwys cwrs datblygiad personol, a ddatblygwyd ar y cyd â Hyfforddiant Gogledd Cymru a'r fyddin. Roedd y cwrs yn cael ei gefnogi gan y rhwydwaith 14-19 lleol o'i grant ar gyfer llwybr dysgu 14-19. Nod y cwrs yw ailennyn diddordeb dysgwyr yn eu haddysg, ac mae'n canolbwyntio ar wella cymhelliant a datblygu sgiliau megis cyfathrebu, gwaith tîm ac arweinyddiaeth. Rhaid imi ddweud bod y diddordeb newydd mewn dysgu ymhlith y garfan honno o bobl ifanc wedi bod yn rhyfeddol, i'r graddau y mae'r bobl ifanc bellach yn mynychu eu holl ddosbarthiadau, yn enwedig Saesneg a mathemateg.

16:13 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for taking an intervention, Minister. I asked in my contribution how you will measure the impact of the £41.5 million that will be coming out of the education and training standards side of the budget, against an overall reduction of £77.5 million. Are you in a position to tell us how this might impact on apprenticeships and, in particular, vocational coursework in further education colleges?

Diolch ichi am dderbyn ymyriad, Weinidog. Gofynnais yn fy nghyfraniad sut y byddwch yn mesur effaith y £41.5 milwn a ddaw o'r rhan o'r gyllideb a neilltuir ar gyfer safonau addysg a hyfforddiant, yn erbyn gostyngiad cyffredinol o £77.5 miliwn. A ydych mewn sefyllfa i ddweud wrthym sut y gallai hyn effeithio ar brentisiaethau ac, yn benodol, ar waith cwrs galwedigaethol mewn colegau addysg bellach?

16:14 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will attempt to address as many of the varied and, in fact, disparate points that the Welsh Conservatives have raised this afternoon; it is very difficult to find a thread of logic on which to hang my reply, but I will do my very best.

Byddaf yn ceisio ymdrin â chynifer o'r pwyntiau amrywiol ac, yn wir, cwbl wahanol a godwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig y prynhawn yma ag y bo modd; mae'n anodd iawn dod o hyd i linyn o resymeg er mwyn ffurfio fy ateb, ond gwnaf fy ngorau glas.

It is clear what we are doing and what we are proposing. However, I have to ask this question of the Welsh Conservatives, because the Welsh public deserve an answer on it from the opposition party: are you committed to the re-introduction of grammar schools or are you not? A week ago, you were in favour; a week ago, unequivocally, on the broadcast news, the leader of the Welsh Conservatives was in favour of grammar schools. Today, we hear this phrase 'we are in favour of parts of the system'. Okay, let us take that at face value. However, I have to say that I find it curious in the context of a debate on vocational education and parity of esteem. I have to remind you that there was no part of grammar schools that was vocationally driven. Their whole ethos was antipathetic to valuing the vocational route. That was their purpose. That was their raison d'être. They were there to rescue the most able from the vocational route. [Interruption.] So this ludicrous call from the Welsh Conservatives does not fit in any way with the platitudes that we are hearing from them today. It cannot be squared with point one of the motion. The summation of all this, in my mind, is that the Welsh Conservatives simply do not have a cogent policy on vocational education. I noticed, temporary Presiding Officer, that they are not intervening; they are commenting from a sedentary position, because I really do not believe that they know themselves where they stand on these very important issues. If they form the next Government in Wales, as they aspire to do, what would their answer be to these key educational questions of the day on vocational education? Are we returning to selection, or not? We really do not know from the comments that we are receiving from them today.

Mae'n amlwg beth rydym yn ei wneud a beth rydym yn ei gynnig. Fodd bynnag, rhaid imi ofyn y cwestiwn hwn i'r Ceidwadwyr Cymreig, am fod y cyhoedd yng Nghymru yn haeddu cael ateb yn ei gylch gan yr wrthblaid: a ydych wedi ymrwymo i ailgyflwyno ysgolion gramadeg ai peidio? Wythnos yn ôl, buoch o blaid hynny, wythnos yn ôl, ar y newyddion darlledu, bu arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig yn ddiamwys yn cefnogi ysgolion gramadeg. Heddiw, rydym yn clywed yr ymadrodd hwn 'rydym o blaid rhannau o'r system'. O'r gorau, gadewch inni dderbyn hynny'n ffaith. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud ei bod yn rhyfedd gennyf yng nghyd-destun dadl ynglŷn ag addysg alwedigaethol a pharch cydradd. Rhaid imi eich atgoffa nad oedd unrhyw ran o ysgolion gramadeg yn cael ei hysgogi gan addysg alwedigaethol. Roedd eu hethos i gyd yn wrthwynebus i roi gwerth ar y llwybr galwedigaethol. Dyna eu pwrpas. Dyna eu diben. Eu nod oedd achub y rhai mwyaf galluog rhag y llwybr galwedigaethol. [Torri ar draws.] Felly, nid yw'r alwad chwerthinllyd gan y Ceidwadwyr Cymreig yn cyd-fynd o gwbl â'r ystrydebau yr ydym yn eu clywed ganddynt heddiw. Ni ellir cysoni hynny â phwynt un o'r cynnig. Gan grynhoi hyn i gyd, yn fy marn i, yn syml, nid oes gan y Ceidwadwyr Cymreig bolisi effeithiol ar addysg alwedigaethol. Sylwais, Lywydd dros dro, nad ydynt yn ymyrryd; maent yn gwneud sylwadau ar eu heistedd, oherwydd nid wyf yn wir yn credu eu bod yn gwybod eu hunain beth yw eu safbwynt ynglŷn â'r materion pwysig iawn hyn. Os mai hwy sy'n ffurfio'r Llywodraeth nesaf yng Nghymru, yn ôl eu huchelgais, beth fyddai eu hateb i'r cwestiynau addysgol allweddol cyfoes ar addysg alwedigaethol? A ydym yn dychwelyd at ddethol, ai peidio? Ni wyddom yn iawn o'r sylwadau a glywn ganddynt heddiw.

This summer, they set out a policy for Wales on grammar schools. It was reiterated last week by Andrew R.T. Davies. Where exactly are we going with Welsh Conservatives' education policy?

Yr haf hwn, amlinellwyd polisi ynglŷn ag ysgolion gramadeg i Gymru ganddynt. Fe'i hamlinellwyd eto yr wythnos diwethaf gan Andrew R.T. Davies. I ba gyfeiriad yn union y mae polisi addysg y Ceidwadwyr Cymreig yn mynd?

16:16 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am quite happy to reiterate—

Rwy'n fwy na pharod i amlinellu eto—

16:16 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In a second. This afternoon, if I have been able to write them all down—I wish I had shorthand to be able to keep up with the various scattergun ideas that we are being faced with from the Welsh Tories today—we have had grammar schools, kind of, German technical colleges, sort of, European middle schools, maybe, and the implication that we should also have Michael-Gove-style technical baccalaureates. Is it some of those, a mixture of those, or all of them at once? I have listened carefully this afternoon and I know that the sector will have been listening out there across Wales. I have to tell you that I have no idea. I have no idea what the Welsh Conservatives are actually proposing. I am sure that the people of Wales share my confusion. [Interruption.] If I have time. I will take the intervention.

Mewn eiliad. Y prynhawn yma, pe gallwn fod wedi'u nodi i gyd yn ysgrifenedig—trueni nad oedd llaw fer gennyf er mwyn cofnodi'r holl syniadau digyswllt y mae Torïaid Cymru wedi eu cyflwyno inni heddiw—rydym wedi clywed sôn am ysgolion gramadeg, rhyw lun arnynt, colegau technegol yr Almaen, fwy neu lai, ysgolion canol Ewrop, efallai, a'r awgrym y dylem hefyd gael bagloriaethau technegol ar batrwm bagloriaethau Michael Gove. Ai rhai o'r rhain sydd dan sylw, cyfuniad o ohonynt ynteu pob un ohonynt ar yr un pryd? Rwyf wedi gwrando'n astud y prynhawn yma a gwn y bydd y sector wedi bod yn gwrando ar lawr gwlad. Rhaid imi ddweud wrthych nad oes syniad gennyf. Nid oes syniad gennyf beth mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn ei gynnig mewn gwirionedd. Rwy'n siŵr bod pobl Cymru wedi drysu'r un fath â minnau. [Torri ar draws.] Os oes gennyf amser, derbyniaf yr ymyriad.

16:17 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to you for taking the second intervention. We have clearly outlined what our proposals were in this debate today, Minister, but you have not outlined what your £41.5 million cut is going to do to vocational courses and FE colleges. It is a simple question, but you cannot give a simple answer. We will not bring selection back into education under any Conservative Government.

Rwy'n ddiolchgar ichi am dderbyn yr ail ymyriad. Rydym wedi amlinellu'n glir beth oedd ein cynigion yn y ddadl hon heddiw, Weinidog, ond nid ydych wedi amlinellu beth fydd eich toriad o £41.5 miliwn yn ei wneud i gyrsiau galwedigaethol a cholegau AB. Mae'n gwestiwn syml, ond ni allwch roi ateb syml. Ni fyddwn yn ailgyflwyno prosesau dethol i addysg o dan unrhyw Lywodraeth Geidwadol.

16:17 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

With this smokescreen from the Welsh Conservatives, describing cuts as the creature of the Welsh Labour Government here in Cardiff, you must take the Welsh people for fools. They know that the cuts that we are facing —and they are savage and they will do damage—were conceived and—

Gyda'r ymgais hon gan y Ceidwadwyr Cymreig i gelu polisïau, gan ddisgrifio'r toriadau fel rhywbeth y mae Llywodraeth Lafur Cymru yma yng Nghaerdydd, wedi'i greu, rhaid eich bod yn meddwl bod pobl Cymru yn ffyliaid. Gwyddant fod y toriadau yr ydym yn eu hwynebu—ac maent yn rhai milain a byddant yn gwneud niwed—wedi'u creu ac—

16:18 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. The Minister listened to you in silence. Please listen to him in silence.

Trefn. Gwrandawodd y Gweinidog arnoch chi mewn tawelwch. Gwrandewch chithau arno ef mewn tawelwch os gwelwch yn dda.

16:18 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

They were conceived in 10 and 11 Downing Street and not in Cardiff Bay. Although we will try very hard to protect Welsh education and Welsh learners from the results of those cuts, the Welsh people know where those cuts were conceived. They know who they belong to. They know who the masters of those cuts actually were.

Cawsant eu creu yn 10 a 11 Stryd Downing ac nid ym Mae Caerdydd. Er y byddwn yn ymdrechu'n galed i ddiogelu addysg Cymru a dysgwyr Cymru rhag canlyniadau'r toriadau hynny, gŵyr pobl Cymru ble y cafodd y toriadau hynny eu creu. Gwyddant eiddo pwy ydynt. Gwyddant pwy a greodd y toriadau hynny mewn gwirionedd.

Our commitment to young people and to vocational education is illustrated, over and over again through Jobs Growth Wales, through the Young Recruits programme, through the Youth Guarantee that we launched just last week, through traineeships, through the Wales union learning fund, and, of course, through apprenticeships of quality with record completion levels. A new, revised, more rigorous Welsh baccalaureate will help learners have a proper well-rounded education. That approach is valued by employers, and they say so; that approach is valued by learners, and they say so; that approach is valued by teachers, and they say so too. We work alongside the skills board. We work alongside the Confederation of British Industry, the Training Federation for Wales, the Federation of Small Businesses, trade unions, ColegauCymru, higher education, local government and, of course, young people themselves. We work alongside the real world of vocational education. Welsh Labour is delivering on vocational education. What we are getting from the Welsh Conservatives, and we have heard plenty of it today, are generalities, platitudes, truisms, anecdotes and statements of the bleeding obvious.

Dangosir ein hymrwymiad i bobl ifanc ac i addysg alwedigaethol, dro ar ôl tro drwy Twf Swyddi Cymru, drwy'r rhaglen Recriwtiaid Ifanc, drwy'r Warant Ieuenctid a lansiwyd yr wythnos diwethaf gennym, drwy hyfforddeiaethau, drwy gronfa ddysgu undebau Cymru, ac, wrth gwrs, drwy brentisiaethau o safon sydd â'r lefelau cwblhau uchaf erioed. Bydd bagloriaeth newydd, ddiwygiedig a mwy trylwyr i Gymru yn helpu dysgwyr i gael addysg briodol a chytbwys. Gwerthfawrogir y dull gweithredu hwnnw gan gyflogwyr, ac maent yn dweud hynny; gwerthfawrogir y dull gweithredu hwnnw gan ddysgwyr, ac maent yn dweud hynny; gwerthfawrogir y dull gweithredu hwnnw gan athrawon, ac maent hwythau hefyd yn dweud hynny. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â'r bwrdd sgiliau. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â Chydffederasiwn Diwydiant Prydain, Ffederasiwn Hyfforddiant Cymru, y Ffederasiwn Busnesau Bach, undebau llafur, ColegauCymru, addysg uwch, llywodraeth leol ac, wrth gwrs, y bobl ifanc eu hunain. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â byd go iawn addysg alwedigaethol. Mae Llafur Cymru yn cyflawni o ran addysg alwedigaethol. Yr hyn yr ydym yn ei gael gan y Ceidwadwyr Cymreig, ac yr ydym wedi clywed digon ohono heddiw, yw cyffredinoli, ystrydebau, gwirebau, hanesion a datganiadau cwbl, cwbl amlwg.

I am satisfied that, although we might wish for a Welsh Tory policy on vocational education—I wish that we had one in order to debate it and evaluate it—the truth is that such a policy does not, in fact, exist.

Rwy'n fodlon, er yr hoffem weld polisi ar addysg alwedigaethol gan Dorïaid Cymru o bosibl—hoffwn weld un er mwyn inni gael ei drafod a'i werthuso—y gwir amdani yw nad oes polisi o'r fath yn bodoli mewn gwirionedd.

16:19

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank everyone for taking part today. I had hoped that all Members who were interested enough to contribute to this debate today would have recognised that it was intended to be a discursive debate, not a policy announcement, and that it was simply an exchange of ideas that we hoped would assist the Minister and his Deputy Minister with their work, despite the former's self-confessed dedication to criticising the Conservatives just as a matter of principle. It appears that the Minister has not improved on his listening skills at all since last week. There is no point mentioning grammar schools, because you would have heard us last week explaining that we hoped to learn the best of what the grammar schools had to offer in order to improve excellence, not least in vocational education.

Diolch i bawb am gymryd rhan heddiw. Roeddwn wedi gobeithio y byddai pob Aelod a oedd â digon o ddiddordeb i gyfrannu at y ddadl hon heddiw wedi cydnabod mai'r bwriad oedd cael dadl gynhwysfawr, nid cyhoeddiad polisi, ac mai cyfle i gyfnewid syniadau ydoedd, a fyddai, gobeithio, yn cynorthwyo'r Gweinidog a'i Ddirprwy Weinidog yn eu gwaith, er gwaethaf ymroddiad y cyntaf, fel y mae wedi ei gyfaddef ei hun, i feirniadu'r Ceidwadwyr fel mater o egwyddor. Ymddengys nad yw'r Gweinidog wedi gwella ar ei sgiliau gwrando o gwbl ers yr wythnos diwethaf. Nid oes diben sôn am ysgolion gramadeg, oherwydd byddech wedi ein clywed yr wythnos diwethaf yn esbonio ein bod yn anelu at ganfod y pethau gorau yr oedd gan yr ysgolion gramadeg i'w cynnig er mwyn sicrhau rhagoriaeth, yn enwedig mewn addysg alwedigaethol.

Referring once again to your listening skills, Minister, we opened this debate with an acknowledgement of the Welsh Government's work and its wish to improve the quality and effectiveness of vocational education and training in Wales. We all understand that a well-skilled workforce is not only rewarding for the individual, but also brings stability to their families and communities and presents opportunities for the economy to grow here as it is now growing in other parts of the UK.

Gan gyfeirio unwaith eto at eich sgiliau gwrando, Weinidog, agorwyd y ddadl hon gennym drwy gydnabod gwaith Llywodraeth Cymru a'i dymuniad i wella ansawdd ac effeithiolrwydd addysg a hyfforddiant galwedigaethol yng Nghymru. Rydym i gyd yn deall bod gweithlu medrus, nid yn unig yn fuddiol i'r unigolyn, ond mae hefyd yn creu sefydlogrwydd i'w teuluoedd a'u cymunedau ac yn cynnig cyfleoedd i'r economi dyfu yma fel y mae'n tyfu mewn rhannau eraill o'r DU erbyn hyn.

Minister, in last week's debate we recognised that your predecessor had introduced an entitlement for young people from year 10 onwards to pursue vocational qualifications through school or college, and in the case of older students, the workplace. However, the Children and Young People Committee's inquiry into the effectiveness of this most promising policy produced mixed reviews. The evidence that we received showed that more able students are still being encouraged by teachers and their own families to pursue traditional academic courses. Families, of course, are motivated to give their children the best possible chance in the culture that we have now, where qualifications in academic subjects are still seen as a passport to the best future in the workplace. I am sure that teachers have the same best interests at heart, although I do not suppose that it is too hard to imagine that school leaders will be aware of the effect of exam results on their school banding as well.

Weinidog, yn y ddadl yr wythnos diwethaf, cydnabuwyd bod eich rhagflaenydd wedi cyflwyno hawl i bobl ifanc o flwyddyn 10 ymlaen ennill cymwysterau galwedigaethol drwy'r ysgol neu'r coleg, ac yn achos myfyrwyr hŷn, yn y gweithle. Fodd bynnag, cymysg fu'r ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i effeithiolrwydd y polisi hwn sydd mor addawol. Dengys y dystiolaeth a gawsom fod myfyrwyr mwy galluog yn dal i gael eu hannog gan athrawon a'u teuluoedd eu hunain i ddilyn cyrsiau academaidd traddodiadol. Mae teuluoedd, wrth gwrs, am weld eu plant yn cael y cyfle gorau posibl yn y diwylliant presennol, lle credir o hyd bod cymwysterau mewn pynciau academaidd yn basbort i'r dyfodol gorau yn y gweithle. Rwy'n siŵr bod athrawon hefyd yn meddwl am fudd y plant yn yr un modd, er nad wyf yn siŵr ei bod yn rhy anodd dychmygu y bydd arweinwyr ysgol yn ymwybodol o effaith canlyniadau arholiadau ar eu bandio ysgolion hefyd.

The debates over the last two weeks have invited this Assembly to consider again this old problem of parity between academic and vocational study—how to get round what Nick Ramsay last week called 'prejudice', what Eluned Parrott called 'perception' and I think Byron Davies called a 'stereotype'. In last week's debate, we asked Members and the Minister to consider what we might consider to be vocational excellence, allowing for vocational study to be as demanding of intelligence as academic study, but working with the aptitude of individuals rather than against it. I hope that that clarifies the position for you, David Rees, with your very valuable contribution. We really would have welcomed those observations in the debate last week, and I rather hope that, at some point in the near future, I will be welcoming you to this Chamber as the new Minister for education.

Yn y dadleuon dros y ddwy wythnos diwethaf gwahoddwyd y Cynulliad hwn i ystyried eto yr hen broblem o gydraddoldeb rhwng addysg academaidd a galwedigaethol— sut y gellid osgoi'r hyn a alwodd Nick Ramsay yn 'rhagfarn' yr wythnos diwethaf, yr hyn a alwodd Eluned Parrott yn 'ganfyddiad' a'r hyn a alwodd Byron Davies yn 'stereoteip', fe gredaf. Yn y ddadl yr wythnos diwethaf, gofynnwyd i'r Aelodau a'r Gweinidog ystyried beth y gallem ei ystyried yn rhagoriaeth alwedigaethol, gan ei gwneud yn bosibl i addysg alwedigaethol fod mor ymestynnol yn ddeallusol ag addysg academaidd, ond gan weithio gyda dawn unigolion yn hytrach nag yn groes iddi. Gobeithio bod hynny'n egluro'r sefyllfa ichi, David Rees, gyda'ch cyfraniad gwerthfawr iawn. Byddem yn wir wedi croesawu'r sylwadau hynny yn y ddadl yr wythnos diwethaf, a gobeithio, ar ryw adeg yn y dyfodol agos, y byddaf yn eich croesawu i'r Siambr hon fel y Gweinidog addysg newydd.

That brings us to three central observations from this debate. The first is whether qualifications, on which much emphasis is currently placed, genuinely reflect skills. As David Rees said, skills are what we need. You gave an example of a constituent, but perhaps I could draw the Assembly's attention to another. A manufacturer in my region takes qualified engineering students, but he has to retrain them with the skills that he needs for his particular workforce. I am sure that you would agree that that is not cost-effective for the businessman involved, and also not a cost-effective use of taxpayers' money.

Mae hynny'n dod â ni at y tri sylw canolog o'r ddadl hon. Y cyntaf yw a yw cymwysterau, y rhoddir llawer o bwyslais arnynt ar hyn o bryd, yn wir yn adlewyrchu sgiliau. Fel y dywedodd David Rees, sgiliau sydd eu hangen arnom. Rhoesoch enghraifft o etholwr, ond os caf dynnu sylw'r Cynulliad at un arall. Mae gwneuthurwyr yn fy rhanbarth yn derbyn myfyrwyr peirianneg cymwysedig, ond rhaid iddo eu hailhyfforddi er mwyn dysgu'r sgiliau iddynt sydd eu hangen arno yn ei weithlu penodol. Byddech yn cytuno mae'n siŵr gennyf nad yw hynny'n gosteffeithiol i'r dyn busnes dan sylw, ac nad yw'n ddefnydd costeffeithiol o arian y trethdalwyr ychwaith.

16:23 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

16:23 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will just finish the point and then I will happily take the intervention. As others have mentioned, it is quite demoralising for the student as well.

Rwyf am orffen y pwynt ac yna byddaf yn fwy na pharod i dderbyn yr ymyriad. Fel y soniodd eraill, mae'n eithaf digalon i'r myfyrwyr hefyd.

16:23 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

On that point, I know that Antoinette Sandbach mentioned the Wolf report, but one of the interesting points about that was the involvement of the employers in the development of the curriculum. Many institutions now involve employers in developing degree curricula, so it is more about getting those involved at that stage.

O ran y pwynt hwnnw, gwn i Antoinette Sandbach gyfeirio at adroddiad Wolf, ond un o'r pwyntiau diddorol am hynny oedd ymwneud y cyflogwyr yn y broses o ddatblygu'r cwricwlwm. Mae llawer o sefydliadau bellach yn cynnwys cyflogwyr yn y gwaith o ddatblygu cwricwla cyrsiau gradd, felly mae a wnelo hyn yn fwy â chynnwys y rheini ar y cam hwnnw.

16:24 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I could not agree more, David Rees, because one of the things that has come through in the course of our research in preparation for this debate is the lack of engagement still, unfortunately, with industry when it comes to developing curricula. It is a point that we picked up in the Children and Young People Committee's inquiry into this as well.

Cytunaf yn llwyr, David Rees, oherwydd un o'r pethau sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod ein gwaith ymchwil wrth baratoi ar gyfer y ddadl hon yw'r diffyg ymgysylltu o hyd, yn anffodus, â diwydiant o ran datblygu cwricwla. Mae hefyd yn bwynt a godwyd yn ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i hyn.

An independently commissioned report into adult vocational training published only in March this year said that we have spent 30 years on qualification design, rather than on curriculum development. Unfortunately, Eluned is not here at the moment, as maybe she would have liked to look at that particular report as well to understand the kind of things that we are looking at when we are trying to put together what will be policy in a few years' time in this area.

Dywedodd adroddiad a gomisiynwyd yn annibynnol ar hyfforddiant galwedigaethol i oedolion a gyhoeddwyd ym mis Mawrth eleni ein bod wedi treulio 30 mlynedd ar ddylunio cymwysterau, yn hytrach nag ar ddatblygu'r cwricwlwm. Yn anffodus, nid yw Eluned yma ar hyn o bryd, oherwydd efallai yr hoffai fod wedi edrych ar yr adroddiad penodol hwnnw hefyd er mwyn deall y math o bethau yr ydym yn eu hystyried wrth geisio llunio'r hyn a fydd yn bolisi yn y maes hwn ymhen ychydig flynyddoedd.

I also did not really understand why Eluned Parrott and the Minister were so resistant to the work that we brought to this Chamber last week, which informed all Members of good practice in countries in other parts of the world. What is wrong with looking at success in other countries? We need success in Wales. Minister, I really do not understand what is wrong with looking at the ideas of others. My goodness, Wales needs them.

Nid oeddwn yn wir yn deall ychwaith pam roedd Eluned Parrott a'r Gweinidog mor wrthwynebus i'r gwaith a gyflwynwyd i'r Siambr hon gennym yr wythnos diwethaf, a oedd yn hysbysu pob Aelod am arfer da mewn gwledydd mewn rhannau eraill o'r byd. Beth sydd o'i le ar edrych ar lwyddiant mewn gwledydd eraill? Mae angen llwyddiant yng Nghymru. Weinidog, ni allaf ddeall yn fy myw beth sydd o'i le ar edrych ar syniadau pobl eraill. Bobl bach mae eu hangen ar Gymru.

There is still a problem, David, as you mentioned with the curriculum not being formed by the needs and ambitions of industry. I welcome Russell George's contribution about the work that he did with students with an aptitude to help keep them encouraged and interested in taking part in more vocational aspects of work for the future.

Fel y gwnaethoch sôn, David, erys problem gyda'r ffaith nad yw'r cwricwlwm yn cael ei ffurfio ar sail anghenion ac uchelgeisiau diwydiant. Croesawaf gyfraniad Russell George am y gwaith a wnaeth gyda myfyrwyr sydd â gallu er mwyn helpu i'w hannog a chadw diddordeb mewn cymryd rhan mewn agweddau mwy galwedigaethol ar waith ar gyfer y dyfodol.

Looking at the involvement of industry to identify and plan for relevant skills—a key element, I would say, in educating young people with an aptitude for non-academic types of study—we do need to do that cost effectively. I want to address Simon Thomas's point on this. When we were looking at our budget earlier, we were looking at a report that said that a third of costs involved in education were effectively being wasted in red tape. That informed our decisions the last time that we spoke about this.

O edrych ar gynnwys diwydiant er mwyn nodi a chynllunio ar gyfer sgiliau perthnasol—elfen allweddol, ddywedwn i, o addysgu pobl ifanc sydd â gallu i ymgymryd â mathau o astudio nad ydynt yn academaidd—mae angen inni wneud hynny'n gost-effeithiol. Hoffwn ymdrin a phwynt Simon Thomas yn hyn o beth. Pan oeddem yn edrych ar ein cyllideb yn gynharach, roeddem yn edrych ar adroddiad a oedd yn dweud bod un rhan o dair o gostau sy'n gysylltiedig ag addysg yn cael ei gwastraffu mewn biwrocratiaeth i bob diben. Hynny a lywiodd ein penderfyniadau y tro diwethaf y buom yn trafod hyn.

However, there is a deeper point here. If industry is going to be involved in designing the curriculum, that is a cost-effective way of delivering education. One of the reasons that people from industry are reluctant to get involved—certainly in conversations that I have had—with helping with a vocational curriculum, is that, once they get involved with Government, things start to slow down, a dead hand is applied and things get more expensive for them. I have to say that that is the sort of attitude that needs to change. If you are going to say, 'think different', perhaps we should actually be thinking differently—I had an excellent education—about how we involve industrialists in designing curricula.

Fodd bynnag, cyfyd pwynt mwy difrifol o ran hyn. Os bydd diwydiant yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio'r cwricwlwm, mae hynny'n ffordd gosteffeithiol o ddarparu addysg. Un o'r rhesymau pam mae pobl o ddiwydiant yn amharod i gymryd rhan—yn sicr mewn sgyrsiau yr wyf wedi'u cael â hwy—er mwyn helpu i lunio cwricwlwm galwedigaethol, yw, unwaith eu bod yn dechrau cymryd rhan gyda'r Llywodraeth, fod pethau'n dechrau arafu, bod llaw farw ar y broses a bod pethau'n mynd yn ddrutach iddynt. Rhaid imi ddweud mai dyna'r math o agwedd sydd angen ei newid. Os byddwch yn dweud, 'meddyliwch yn wahanol', efallai y dylem fynd ati i feddwl yn wahanol—cefais addysg ragorol—ynglŷn â sut rydym yn cynnwys diwydianwyr yn y gwaith o lunio cwricwla.

The second point that came through is, when people are attracted to studying vocational courses, do they have a clear line of sight for a job or career progression at the end? Antoinette talked about this in some detail. If you are going to be talking about the role of apprenticeships here, I can think of a constituent who had given up work and started his retraining in university and then when he needed to complete his training in an apprenticeship, he could not get that apprenticeship. He was over 25 and he was told, 'That is it. You are barred, there is no more that we can offer you.' He had been attracted to a way of working that ended up at a dead end for him.

Yr ail bwynt a ddaeth i'r amlwg yw, pan fydd pobl yn cael eu denu i astudio cyrsiau galwedigaethol, a oes ganddynt amcan clir o swydd neu ddatblygiad gyrfa ar y diwedd? Soniodd Antoinette gryn dipyn am hyn. Os ydych yn sôn am rôl prentisiaethau yn hyn o beth, gallaf feddwl am etholwr a oedd wedi rhoi'r gorau i weithio gan ddechrau ei ailhyfforddiant yn y brifysgol ac yna pan oedd angen iddo gwblhau ei hyfforddiant mewn prentisiaeth, ni allai gael y brentisiaeth honno. Roedd dros 25 oed a dywedwyd wrtho, 'Dyna chi. Rydych wedi'ch gwahardd, nid oes mwy y gallwn ei gynnig ichi.' Roedd wedi cael ei ddenu at ffordd o weithio a fu'n ofer iddo yn y pen draw.

The third point that I want to raise—I know that I do not have much time left—is this emphasis on entrepreneurship. I remember raising a question with the previous Deputy Minister for Skills about young women, in particular, going into hairdressing. What level of their curriculum involves an understanding that they need to be not only learning how to cut hair, but how to be running their own hairdressing businesses? I hope that you will have a look at that, as your predecessor committed to doing.

Y trydydd pwynt yr hoffwn ei godi—gwn nad oes gennyf lawer o amser yn weddill—yw'r pwyslais hwn ar entrepreneuriaeth. Cofiaf godi cwestiwn gyda'r Dirprwy Weinidog dros Sgiliau am fenywod ifanc, yn enwedig, yn hyfforddi i fod yn drinwyr gwallt. Pa lefel o'u cwricwlwm sy'n eu helpu i ddeall bod angen iddynt nid yn unig ddysgu sut i dorri gwallt, ond sut i redeg eu busnesau trin gwallt eu hunain? Gobeithio y byddwch yn edrych ar hynny, fel yr ymrwymodd eich rhagflaenydd i'w wneud.

I have one last observation if I have time. That is about lifelong learning. I want to have a quick look at the Government's own statistics for learning in the community in my region. That is outside FE and the workplace. Apparently, there are over 40,000 people taking part in adult and community learning, but only 805 of those are undertaking 'vocational education unspecified'. I do not know what 'vocational education unspecified' means exactly, but I would be very surprised to see anyone involved in 'academic education unspecified'. It strikes me that, whatever we say in this Chamber, the Government itself still has a long way to go with that culture that I mentioned earlier, which is the culture in which young people are having to make decisions about their future.

Mae gennyf un sylw olaf os oes amser, sef dysgu gydol oes. Hoffwn fwrw golwg sydyn dros ystadegau'r Llywodraeth ei hun ar gyfer dysgu yn y gymuned yn fy rhanbarth. Hynny yw, y tu allan i addysg bellach a'r gweithle. Mae'n debyg bod dros 40,000 o bobl yn cymryd rhan mewn addysg i oedolion a dysgu yn y gymuned, ond dim ond 805 o'r rheini sy'n ymgymryd ag 'addysg alwedigaethol amhenodol'. Ni wn beth yn union yw ystyr 'addysg alwedigaethol amhenodol', ond byddwn yn synnu'n fawr o weld unrhyw un sy'n ymgymryd ag 'addysg academaidd amhenodol'. Mae'n fy nharo, beth bynnag a ddywedwn yn y Siambr hon, fod gan y Llywodraeth ei hun dipyn o ffordd i fynd gyda'r diwylliant hwnnw a grybwyllais yn gynharach, sef y diwylliant lle mae pobl ifanc yn gorfod gwneud penderfyniadau am eu dyfodol.

16:28

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There are objections, so I will defer all voting under this item until voting time.

Y cynnig yw y dylid cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiadau, felly gohiriaf bob pleidlais o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 16:29.*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 16:29*

## Dadl Plaid Cymru: Y Post Brenhinol

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw William Graham, gwelliannau 2, 4, 5, 6, 7, 8 a 10 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 3 a 9 yn enw Lesley Griffiths. Os caiff gwelliant 9 ei gynnig, caiff gwelliant 10 ei ddad-dethol.Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2, 4, 9 a 10 eu dad-ddethol.*

Cynnig NDM5324 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn condemnio bwriad Llywodraeth y DU i breifateiddio'r Post Brenhinol;

2. Yn cydnabod bod preifateiddio yn agor y drws i fygythiadau i wasanaethau post yng Nghymru wledig a threfol yn y dyfodol;

3. Yn nodi pwysigrwydd y Post Brenhinol i Rwydwaith Swyddfa'r Post;

4. Yn galw ar LywodraethCymru i:

a) cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ar bwysigrwydd gwasanaethau post sy'n atebol i'r cyhoedd i economi Cymru ac i gymunedau Cymru; a

b) ystyried cynnig Plaid Cymru ar gyfer datganoli gwasanaethau post er mwyn diogelu gwasanaeth cyffredinol a fforddiadwy.

## Plaid Cymru Debate: Royal Mail

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of William Graham, amendments 2, 4, 5, 6, 7, 8 and 10 in the name of Aled Roberts, and amendments 3 and 9 in the name of Lesley Griffiths. If amendment 9 is moved, amendment 10 will be deselected. If amendment 1 is agreed, amendments 2, 4, 9 and 10 will be deselected.*

Motion NDM5324 Elin Jones

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Condemns the UK Government's intention to privatise Royal Mail;

2. Recognises that privatisation opens the door for future threats to postal services in rural and urban Wales;

3. Notes the importance of Royal Mail to the Post Office network;

4. Calls on the Welsh Government to:

a) make representations to the UK Government on the importance of publicly accountable postal services to the Welsh economy and to Welsh communities; and

b) consider Plaid Cymru's proposal for the devolution of postal services in order to preserve a universal, affordable service.

16:29 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move the motion.

I am pleased to move Plaid Cymru's hour-long debate this afternoon.

First, let us pay attention to what happened last night, when the offer to buy what we already own closed. It now seems that the hedge funds and investors are licking their lips at the possibility of privatising and owning what was a successful public service, which seems to have been undervalued by the UK Government by around £1 billion, if the shadow market in hedge funds and trade deals is to be believed.

Cynigiaf y cynnig.

Rwy'n falch o gyflwyno dadl awr o hyd Plaid Cymru y prynhawn yma.

Yn gyntaf, gadewch inni roi sylw i'r hyn a ddigwyddodd neithiwr, pan gaeodd y cynnig i brynu'r hyn sydd eisoes yn eiddo inni. Mae bellach yn ymddangos bod y cronfeydd mantoli a buddsoddwyr yn edrych ymlaen yn eiddgar at y posibilrwydd o breifateiddio a bod yn berchen ar wasanaeth cyhoeddus llwyddiannus, y mae'n ymddangos bod Llywodraeth y DU wedi'i danbrisio tua £1 biliwn, os credwn y farchnad gysgodol mewn cronfeydd mantoli a chytundebau masnachu.

The privatisation of the Royal Mail is the biggest privatisation since John Major's privatisation of the railways in the 1990s, 20 years ago. We all know how well that went. So well that we had to renationalise Network Rail after years of disgraceful underinvestment and lives being lost and are now looking to renationalise things like the West Coast and the East Coast main lines. That is why Plaid Cymru has called this debate today, to focus on the huge concerns that we have and that 70% of the UK population have about the privatisation of what we own already as a massively successful public interest company. The Royal Mail plays a prominent role in Welsh society and in the Welsh economy. It is one of the last major publicly owned institutions that survived Thatcherism, and the Blair and Brown years. Even that great right-wing ideologue whose name started with 'M', and it was not Margaret, it was Mandelson, resiled from the part-privatisation of the Royal Mail. That was 30%; this is 62-plus%.

Y cynllun i breifateiddio'r Post Brenhinol yw'r mwyaf ers i John Major breifateiddio'r rheilffyrdd yn y 1990au, 20 mlynedd yn ôl. Gŵyr pob un ohonom ba mor llwyddiannus fu hynny. Mor llwyddiannus nes y bu'n rhaid inni ailgenedlaetholi Network Rail ar ôl blynyddoedd o danfuddsoddi gwarthus ac ar ôl i fywydau gael eu colli ac rydym nawr yn ystyried ailgenedlaetholi pethau fel prif linellau Arfordir y Gorllewin ac Arfordir y Dwyrain. Dyna pam mae Plaid Cymru wedi galw am y ddadl hon heddiw, er mwyn canolbwyntio ar y pryderon mawr sydd gennym ni a 70% o boblogaeth y DU am y bwriad i breifateiddio'r hyn sydd eisoes yn eiddo inni fel cwmni buddiant cyhoeddus hynod lwyddiannus. Mae'r Post Brenhinol yn chwarae rhan amlwg yng nghymdeithas Cymru ac yn economi Cymru. Mae'n un o'r sefydliadau mawr olaf dan berchnogaeth gyhoeddus a lwyddodd i oroesi Thatcheriaeth, a blynyddoedd Blair a Brown. Roedd hyd yn oed yr ideolegydd adain dde enwog hwnnw yr oedd ei enw yn dechrau gydag 'M', ac nid Margaret rwy'n golygu, ond Mandelson, wedi tynnu'n ôl rhag rhan-breifateiddio'r Post Brenhinol. 30% oedd hwnnw; mae hwn yn 62% a mwy.

We see the Royal Mail as being a statement of public good in public provision. It is a vital service that, intriguingly, the internet, through shopping and goods, seems to have saved after an initial period when it looked like it would be the destruction of the Royal Mail. Members often state in the Chamber that broadband provision is something that increasingly must be viewed as a guaranteed service to all citizens in order to ensure equity of access to services throughout all the nations in the United Kingdom. In the same way, we believe that access to a reliable, minimum-six-days-a-week postal service that is priced the same throughout the United Kingdom is essential to ensure equity to goods and service provision.

Ystyriwn fod y Post Brenhinol yn ddatganiad o les cyhoeddus ym maes darpariaeth gyhoeddus. Mae'n wasanaeth hanfodol y mae'n ymddangos, yn ddiddorol, bod y rhyngrwyd, drwy siopa a nwyddau, wedi'i achub ar ôl edrych i ddechrau fel pe byddai'n ei ddinistrio. Mae Aelodau yn aml yn datgan yn y Siambr bod darpariaeth band eang yn rhywbeth y mae'n rhaid ei hystyried yn gynyddol fel gwasanaeth gwarantedig i bob dinesydd er mwyn sicrhau mynediad teg at wasanaethau ym mhob un o wledydd y Deyrnas Unedig. Yn yr un modd, credwn fod mynediad at wasanaeth post dibynadwy, o leiaf chwe diwrnod yr wythnos, sydd â'r un prisiau ledled y Deyrnas Unedig yn hanfodol er mwyn sicrhau tegwch o ran nwyddau a gwasanaethau.

Therefore, we believe that retaining the Royal Mail in public ownership and, if necessary, doing that by moving to what we call a 'Post Cymru' public model for Wales, is the best way to ensure this. We reject the naive belief in the market that continues to be the cornerstone of Liberal Democrat and Conservative thinking, and some Labour thinking, it has to be said, despite the failures of the housing market, the banking market, the energy market, the water market, the broadband choice market, the railways market, the bus market and the higher education market. When faced with market failure to protect consumer choice or citizens' access to services, Governments can do two things: they can ensure strong, pro-consumer regulation or they can retain or renationalise the provision. With the Royal Mail, we still have the choice of retention, even at this late date.

Felly, credwn mai'r ffordd orau o sicrhau hyn yw cadw'r Post Brenhinol dan berchnogaeth gyhoeddus ac, os oes angen, gwneud hynny drwy newid i fodel cyhoeddus yng Nghymru yr ydym yn ei alw yn 'Post Cymru'. Gwrthodwn y gred naïf yn y farchnad sy'n parhau i fod yn gonglfaen i feddylfryd y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr, a rhywfaint o feddylfryd y Blaid Lafur, rhaid dweud, er gwaethaf methiannau'r farchnad dai, y farchnad bancio, y farchnad ynni, y farchnad dŵr, y farchnad dewis band eang, y farchnad rheilffyrdd, y farchnad bysiau a'r farchnad addysg uwch. Wrth wynebu methiannau yn y farchnad i ddiogelu dewis defnyddwyr neu fynediad dinasyddion at wasanaethau, gall Llywodraethau wneud dau beth: gallant sicrhau trefniadau rheoleiddio cryf sydd o blaid defnyddwyr neu gallant gadw neu ailgenedlaetholi'r ddarpariaeth. Gyda'r Post Brenhinol, mae gennym y dewis i'w gadw o hyd, hyd yn oed mor hwyr â hyn.

There is no doubt that some will argue today that the Royal Mail is some sort of basket-case and that privatisation is the only way to get much needed investment. That is not true. It may have been true once, but it is no longer true. The Royal Mail is now generating cash at £400 million a year and the profit margins are over 5%. That has been done, it has to be said, with some difficulty, but, at the end of the day, with union support and by working together. The Government itself can borrow more cheaply with bonds than the equity markets. The Government can still borrow now, today, for over 10 years at 3%, for example. Indeed, the Government has loaned considerable sums of money to the Royal Mail and is getting them paid back at an interest rate of 8.8% on average. Therefore, the Royal Mail is helping to pay off Government debt at the moment. We may have seen, a few years ago, a need to do something with the Royal Mail, but since the separation of the post offices from the Royal Mail and the pension scheme having been dealt with, the Royal Mail is now a successful business that could be retained within the public sector and continue to make money for the Government.

Nid oes amheuaeth y bydd rhai yn dadlau heddiw bod y Post Brenhinol yn rhyw fath o glaf ac mai preifateiddio yw'r unig ffordd o gael buddsoddiad sydd ei fawr angen. Nid yw hynny'n wir. Efallai ei fod wedi bod yn wir unwaith, ond nid yw'n wir bellach. Mae'r Post Brenhinol bellach yn gwneud £400 miliwn o arian parod y flwyddyn ac mae maint yr elw dros 5%. Gwnaed hynny, rhaid dweud, gyda chryn dipyn o anhawster, ond, ar ddiwedd y dydd, gyda chefnogaeth undebau a thrwy gydweithio. Gall y Llywodraeth ei hun fenthyca yn rhatach gyda bondiau na'r marchnadoedd ecwiti. Mae'r Llywodraeth yn dal i allu benthyca nawr, heddiw, am dros 10 mlynedd ar 3%, er enghraifft. Yn wir, mae'r Llywodraeth wedi benthyg symiau sylweddol o arian i'r Post Brenhinol sy'n eu talu nôl iddi ar gyfradd llog o 8.8% ar gyfartaledd. Felly, mae'r Post Brenhinol yn helpu i dalu dyled y Llywodraeth ar hyn o bryd. Ychydig flynyddoedd yn ôl, efallai y byddem wedi gweld bod angen gwneud rhywbeth gyda'r Post Brenhinol, ond ers i'r swyddfeydd post gael eu gwahanu oddi wrth y Post Brenhinol ac ers ymdrin â'r cynllun pensiwn, mae'r Post Brenhinol bellach yn fusnes llwyddiannus y gellid ei gadw o fewn y sector cyhoeddus a pharhau i wneud arian i'r Llywodraeth.

Other Members from Plaid Cymru, in our debate, will discuss in more detail the potential impact of privatisation on issues such as service delivery in rural Wales and how we can maintain statutory obligations. However, it is important to underline our concern that issues such as the universal service obligation, six-day delivery and access to all parts and all communities are not necessarily guaranteed under privatisation. The universal service obligation is agreed only until 2022. The deal with the post offices to do the front counter is only a 10-year agreement. Ofcom already has a provision to vary, in rare circumstances, exceptions to the minimum universal service requirements, including remote or inaccessible addresses. Many of us represent areas that have remote or inaccessible addresses, certainly when canvassing, if not delivering the mail. These provisions can also be changed by statutory instrument, and, at some point, we are concerned that the rural demographics and logistical challenges will come up against the need of a private company to maximise profits. We believe that those challenges of delivering a modern communications network in rural Wales can be met, but that is not likely to be preserved under a completely privatised model.

Bydd Aelodau eraill o Blaid Cymru, yn ein dadl, yn trafod yn fanylach yr effaith bosibl a gaiff preifateiddio ar faterion megis darparu gwasanaethau yng Nghymru wledig a sut y gallwn gynnal rhwymedigaethau statudol. Fodd bynnag, mae'n bwysig tanlinellu ein pryder nad yw materion megis y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol, gwasanaeth dosbarthu chwe diwrnod a mynediad ym mhob ardal a phob cymuned wedi'u gwarantu o reidrwydd o dan y cynllun preifateiddio. Dim ond tan 2022 y mae'r cytundeb ar y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol yn para. Dim ond cytundeb 10 mlynedd yw'r cytundeb gyda'r swyddfeydd post i ddarparu'r gwasanaeth dros y cownter. Mae gan Ofcom eisoes ddarpariaeth i amrywio, dan amgylchiadau prin, eithriadau i ofynion sylfaenol y gwasanaeth cyffredinol, gan gynnwys cyfeiriadau anghysbell neu anhygyrch. Mae llawer ohonom yn cynrychioli ardaloedd sydd â chyfeiriadau anghysbell neu anhygyrch, yn sicr o safbwynt canfasio, os nad dosbarthu'r post. Gall y darpariaethau hyn hefyd gael eu newid drwy offeryn statudol, ac, ar ryw adeg, rydym yn pryderu y caiff y ddemograffeg wledig a'r heriau logistaidd eu hystyried yn erbyn yr angen i gwmni preifat wneud yr elw mwyaf. Credwn y gellir ateb yr heriau hynny sy'n gysylltiedig â darparu rhwydwaith cyfathrebu modern yn y Gymru wledig, ond nid yw hwnnw'n debygol o gael ei gadw dan fodel sydd wedi'i breifateiddio'n gyfan gwbl.

The real future for privatised Royal Mail is that of the other utilities that we have privatised, being, over time, taken over and owned by an overseas company—very often an overseas publicly owned utility company. We will see the directors being under pressure to put up prices as much as they can, to whittle away at the universal service provision, and to contract out as much as they can. Postman Pat and Jess will soon be on zero-hours postal working, and still the shareholders will want more. They will sell out for share options and bonuses; they will sell out for the best deal that they can get. The best deal that they can get in a private market is not the best deal that the public gets. We have seen that with our energy market, and we have seen that with our water provision. Thankfully, here in Wales, water has been protected by the sort of model that we in Plaid Cymru would like to see for Post Cymru or an alternative model for the Royal Mail network in Wales.

Bydd gwir ddyfodol Post Brenhinol wedi'i breifateiddio yr un peth â'r dyfodol a wynebai'r cyfleustodau eraill yr ydym wedi'u preifateiddio, sef cael eu cymryd drosodd yn raddol a dod o dan berchnogaeth cwmni tramor—yn aml iawn, cwmni cyfleustodau tramor sy'n eiddo cyhoeddus. Byddwn yn gweld y cyfarwyddwyr yn dod o dan bwysau i godi prisiau cymaint ag y gallant, cwtogi'r ddarpariaeth gwasanaeth cyffredinol, ac is-gontractio cymaint ag y gallant. Cyn bo hir, bydd Postman Pat a Jess yn gweithio ar gontract dim oriau, a bydd y cyfranddalwyr yn dal i fod eisiau mwy. Byddant yn gwerthu am opsiynau cyfranddaliadau a bonysau; byddant yn gwerthu am y fargen orau y gallant ei chael. Nid yw'r fargen orau y gallant ei chael mewn marchnad breifat yr un peth â'r fargen orau y mae'r cyhoedd yn ei chael. Rydym wedi gweld hynny gyda'n marchnad ynni, ac rydym wedi gweld hynny gyda'n darpariaeth dŵr. Diolch byth, yma yng Nghymru, mae dŵr wedi cael ei ddiogelu gan y math o fodel yr hoffem ni ym Mhlaid Cymru ei weld ar gyfer Post Cymru neu fodel amgen ar gyfer rhwydwaith y Post Brenhinol yng Nghymru.

The Scottish National Party has made it very clear that if there is a 'yes' vote in an independence referendum, it will renationalise the Royal Mail in Scotland. Unfortunately, to date, the Labour Party at a UK level has not stated that it would renationalise the Royal Mail. I hope that it will come under pressure from Members here today on their own benches to do that.

Mae Plaid Genedlaethol yr Alban wedi datgan yn glir iawn, os ceir pleidlais 'ie' mewn refferendwm annibyniaeth, y bydd yn ailgenedlaetholi'r Post Brenhinol yn yr Alban. Yn anffodus, hyd yn hyn, nid yw'r Blaid Lafur ar lefel y DU wedi dweud y byddai'n ailgenedlaetholi'r Post Brenhinol. Rwy'n gobeithio y daw o dan bwysau gan Aelodau o'i meinciau ei hun yma heddiw i wneud hynny.

We could have an alternative, and we will discuss in our debate the details of that alternative. It could be publicly owned; it could be a Glas Cymru model; it could be a kind of private, non-profit-making trust as the economist Will Hutton has set out. There is huge potential for the Royal Mail to continue to be the universal service provider in Wales, in public hands, providing a successful public service. That is the truth beyond what is happening in the UK at the moment. We want to see that preserved in Wales, and we will be making the argument in our debate this afternoon of how that can be done.

Gallem gael dewis arall, a byddwn yn trafod manylion y dewis arall hwnnw yn ein dadl. Gallai fod yn eiddo i'r cyhoedd; gallai ddilyn model Glas Cymru; gallai fod yn fath o ymddiriedolaeth ddielw, breifat fel yr amlinellwyd gan yr economegydd Will Hutton. Mae potensial enfawr i'r Post Brenhinol barhau i ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol yng Nghymru, dan berchnogaeth gyhoeddus, gan ddarparu gwasanaeth cyhoeddus llwyddiannus. Dyna'r gwirionedd y tu hwnt i'r hyn sy'n digwydd yn y DU ar hyn o bryd. Rydym am weld hynny'n cael ei gadw yng Nghymru, a byddwn yn egluro yn ein dadl y prynhawn yma sut y gellir gwneud hynny.

16:36

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Presiding Officer has selected the 10 amendments to the motion. If amendment 9 is moved, amendment 10 will be deselected. If amendment 1 is agreed, amendments 2, 4, 6, 9 and 10 will be deselected.

Mae'r Llywydd wedi dethol y 10 gwelliant i'r cynnig. Os cynigir gwelliant 9, bydd gwelliant 10 yn cael ei ddad-ddethol. Os cytunir ar welliant 1, bydd gwelliannau 2, 4, 6, 9 a 10 yn cael eu dad-ddethol.

*Gwelliant 1—William Graham*

*Amendment 1—William Graham*

*Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:*

*Delete all and replace with:*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1) Yn nodi bwriad Llywodraeth y DU i breifateiddio'r Post Brenhinol.*

*1) Notes the UK Government's intention to privatise Royal Mail.*

*2) Yn cydnabod:*

*2) Recognises that:*

*a) y bydd preifateiddio yn diogelu'r gwasanaeth cyffredinol, yn galluogi'r Post Brenhinol i gasglu arian yn yr un modd â'i gystadleuwyr, ac yn rhoi cyfranddaliadau am ddim i'r 150,000 o bobl sy'n gweithio i'r Post Brenhinol; a*

*a) privatisation will protect the universal service, enable Royal Mail to raise money like its competitors and give Royal Mail's 150,000 employees free shares; and*

*b) y bydd gan y Post Brenhinol wedi'i breifateiddio gyfrifoldeb cyfreithiol o hyd i ddanfon i bob cyfeiriad, boed mewn ardal drefol neu wledig, o dan ofynion sylfaenol y Gwasanaeth Cyffredinol.*

*b) a privatised Royal Mail will remain legally obliged to deliver to every address, whether urban or rural, under the minimum requirements of the Universal Service.*

*3) Yn cydnabod pa mor bwysig yw'r Post Brenhinol i rwydwaith Swyddfa'r Post, nad yw Swyddfa'r Post ar werth, ac na fydd cynllun i gau Swyddfeydd Post o dan Lywodraeth bresennol y DU.*

*3) Acknowledges the importance of Royal Mail to the Post Office network, that the Post Office is not for sale, and that there will be no Post Office closure plan under this UK Government.*

*4) Yn gresynu bod 7,000 o Swyddfeydd Post wedi cael eu cau o dan Lywodraeth Lafur ddiwethaf y DU.*

*4) Regrets the closure of 7,000 Post Offices under the last UK Labour Government.*

*5) Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU ar ei rhaglen £1.34 biliwn i gynnal rhwydwaith sy'n cynnwys o leiaf 11,500 o ganghennau Swyddfa'r Post ledled y DU.*

*5) Calls on the Welsh Government to work with the UK Government on its £1.34 billion programme to maintain a network of at least 11,500 Post Office branches across the UK.*

16:37

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 1.

Cynigiaf welliant 1.

This amendment replaces and factually corrects the original motion, noting the UK Government's intention to privatise Royal Mail; recognising that privatisation will protect a universal service, enable Royal Mail to raise money like its competitors, and give Royal Mail's 150,000 employees free shares; recognising that a privatised Royal Mail will remain legally obliged to deliver to every address, whether urban or rural, under the minimum requirements of the universal service; acknowledging the importance of Royal Mail to the post office network, that the Post Office is not for sale and that there will be no Post Office closure plan under this UK Government; regretting the closure of 7,000 post offices under the last UK Labour Government; and calling on the Welsh Government to work with the UK Government on its £1.34 billion programme to maintain a network of at least 11,500 post office branches across the UK.

Mae'r gwelliant hwn yn disodli ac yn cywiro ffeithiau'r cynnig gwreiddiol, gan nodi bwriad Llywodraeth y DU i breifateiddio'r Post Brenhinol; cydnabod y bydd preifateiddio yn diogelu'r gwasanaeth cyffredinol, yn galluogi'r Post Brenhinol i godi arian yn yr un modd â'i gystadleuwyr, ac yn rhoi cyfranddaliadau am ddim i'r 150,000 o bobl sy'n gweithio i'r Post Brenhinol; cydnabod y bydd gan Bost Brenhinol wedi'i breifateiddio gyfrifoldeb cyfreithiol o hyd i ddosbarthu i bob cyfeiriad, boed yn drefol neu'n wledig, o dan ofynion sylfaenol y gwasanaeth cyffredinol; cydnabod pa mor bwysig yw'r Post Brenhinol i'r rhwydwaith swyddfeydd post, nad yw Swyddfa'r Post ar werth ac na fydd unrhyw gynllun i gau Swyddfeydd Post o dan Lywodraeth bresennol y DU; gresynu bod 7,000 o swyddfeydd post wedi cael eu cau o dan Lywodraeth Lafur ddiwethaf y DU; a galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU ar ei rhaglen £1.34 biliwn i gynnal rhwydwaith sy'n cynnwys o leiaf 11,500 o ganghennau swyddfa'r post ledled y DU.

Apparently, unlike some, I have also checked my facts directly with the Royal Mail. It cannot be any clearer; it says that there will be no two-tier service and no so-called rural tax. With the number of letters that we send declining and online shopping increasing, and with Royal Mail amassing £2.8 billion-worth of losses under state ownership, Royal Mail needs the freedom to compete with the internet, smartphones and international postal operators. That is why the UK Government is freeing it to access private capital by offering shares to the public and investors, ending the situation where it has to go cap in hand to politicians and the hard-pressed taxpayer for investment, having to compete with schools and hospitals.

Yn wahanol i rai, mae'n ymddangos, rwyf hefyd wedi cadarnhau fy ffeithiau yn uniongyrchol gyda'r Post Brenhinol. Ni all fod yn gliriach; mae'n dweud na fydd unrhyw wasanaeth dwy-haen na threth wledig fel y'i gelwir. Wrth inni anfon llai o lythyrau a siopa mwy ar-lein, ac ar ôl i'r Post Brenhinol grynhoi gwerth £2.8 biliwn o golledion o dan berchnogaeth y wladwriaeth, mae angen i'r Post Brenhinol gael y rhyddid i gystadlu gyda'r rhyngrwyd, ffonau clyfar a gweithredwyr post rhyngwladol. Dyna pam y mae Llywodraeth y DU yn ei ryddhau fel y gall gael gafael ar gyfalaf preifat drwy gynnig cyfranddaliadau i'r cyhoedd a buddsoddwyr, gan roi terfyn ar y sefyllfa lle mae'n rhaid iddo fynd â'i gap yn ei law i ofyn am fuddsoddiad gan wleidyddion a'r trethdalwr sydd o dan bwysau, gan orfod cystadlu gydag ysgolion ac ysbytai.

Privatisation elsewhere in Europe has seen private postal operators maintain high-quality service levels. Deutsche Post and Austrian Post both deliver more than 95% of letters the day after posting. An employee shares scheme will give free shares to 150,000 employees, including more than 5,600 in Wales, so that they can share in their company's success. Royal Mail will create a legally binding and enforceable contract with the Communication Workers Union to protect employee terms and conditions. Royal Mail will still be the UK's universal service provider, which includes the one-price-goes-anywhere six-day-a-week service to urban and rural areas. Only the UK Parliament can change this.

Ar ôl camau preifateiddio mewn mannau eraill yn Ewrop, mae gweithredwyr post preifat wedi cynnal lefelau gwasanaeth o ansawdd uchel. Mae Deutsche Post ac Austrian Post yn dosbarthu mwy na 95% o lythyrau y diwrnod ar ôl iddynt gael eu postio. Bydd cynllun cyfranddaliadau gweithwyr yn rhoi cyfranddaliadau am ddim i 150,000 o weithwyr, gan gynnwys mwy na 5,600 yng Nghymru, fel y gallant rannu yn llwyddiant eu cwmni. Bydd y Post Brenhinol yn llunio contract cyfreithiol gyfrwymol a gorfodadwy gydag Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu er mwyn amddiffyn telerau ac amodau gweithwyr. Y Post Brenhinol fydd darparwr gwasanaeth cyffredinol y DU o hyd, sy'n cynnwys gwasanaeth un-pris-i-unrhyw-le chwe diwrnod yr wythnos i ardaloedd trefol a gwledig. Dim ond Senedd y DU a all newid hyn.

The separate Post Office is not for sale. Unlike under Labour, there will be no closure programme under this UK Government, which is providing £1.34 billion to maintain the network of a minimum of 11,500 branches. This includes 370 Crown post offices, with 20 in Wales, and a high-quality post office will continue to serve each of these communities. The uniform affordable tariff across the whole of the UK is protected by law. The Postal Services Act 2011 mandates the provision of a postal service, at affordable prices, determined in accordance with a public tariff, which is uniform throughout the United Kingdom. The universal service, including collection and delivery six days a week, is therefore enshrined in statute. Whether in state or private ownership, it can only be changed if voted for by both Houses of Parliament. Daily deliveries to rural areas will not be reduced. The Royal Mail is legally obliged to deliver to every address, urban or rural, under the minimum requirements of the universal service. The quality of service standards set by Ofcom in the universal service order will also continue to apply after sale. Royal Mail deliveries, at a uniform price, to 29 million addresses across the UK will continue six days a week. Parcelforce and Royal Mail parcel network charges will continue to be applied on the basis of the dimensions and weight of the parcel, not the location of the recipient—urban or rural. Stamp prices under public or private ownership are subject to competitive pressures, and Ofcom is legally obliged to ensure an affordable postal service, and it can reintroduce regulation on any universal service product. In fact, it has set a seven-year price cap on second-class stamps in 2012, which also covers second-class parcels of up to 2 kg.

Nid yw Swyddfa'r Post, sydd ar wahân, ar werth. Yn wahanol i'r sefyllfa o dan y Blaid Lafur, ni fydd rhaglen gau o dan Lywodraeth bresennol y DU, sy'n darparu £1.34 biliwn i gynnal y rhwydwaith sy'n cynnwys o leiaf 11,500 o ganghennau. Mae hyn yn cynnwys 370 o swyddfeydd post y Goron, gydag 20 yng Nghymru, a bydd swyddfa bost o ansawdd uchel yn parhau i wasanaethu pob un o'r cymunedau hyn. Mae'r tariff fforddiadwy unffurf ledled y DU wedi'i ddiogelu gan y gyfraith. Mae Deddf Gwasanaethau Post 2011 yn mandadu y dylid darparu gwasanaeth post, am brisiau fforddiadwy, a benderfynir yn unol â thariff cyhoeddus, sy'n unffurf ledled y Deyrnas Unedig. Felly, mae'r gwasanaeth cyffredinol, gan gynnwys casglu a dosbarthu chwe diwrnod yr wythnos, wedi'i ymgorffori mewn statud. Boed o dan berchnogaeth y wladwriaeth neu berchnogaeth breifat, dim ond os bydd y ddau Dŷ yn y Senedd yn pleidleisio o blaid hynny y gellir newid y gwasanaeth cyffredinol. Ni fydd trefniadau dosbarthu dyddiol i ardaloedd gwledig yn cael eu lleihau. Mae gan y Post Brenhinol gyfrifoldeb cyfreithiol i ddosbarthu i bob cyfeiriad, trefol neu wledig, o dan ofynion sylfaenol y gwasanaeth cyffredinol. Bydd safonau ansawdd y gwasanaeth a bennwyd gan Ofcom yng ngorchymyn y gwasanaeth cyffredinol hefyd yn parhau i fod yn gymwys ar ôl y gwerthiant. Bydd trefniadau dosbarthu'r Post Brenhinol, am bris unffurf, i 29 miliwn o gyfeiriadau ledled y DU yn parhau chwe diwrnod yr wythnos. Bydd ffioedd rhwydwaith parseli Parcelforce a'r Post Brenhinol yn parhau i gael eu codi ar sail dimensiynau a phwysau'r parsel, nid lleoliad y derbynnydd—boed yn drefol neu'n wledig. Mae prisiau stampiau o dan berchnogaeth gyhoeddus neu breifat yn dod o dan bwysau cystadleuol, ac mae gan Ofcom gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau gwasanaeth post fforddiadwy, a gall ailgyflwyno trefniadau rheoleiddio ar gyfer unrhyw rai o gynhyrchion y gwasanaeth cyffredinol. Yn wir, mae wedi gosod cap saith mlynedd ar bris stampiau ail ddosbarth yn 2012, sydd hefyd yn cynnwys parseli ail ddosbarth hyd at 2 kg.

Ofcom has also introduced updated guidance that stipulates that 98% of the population must be within half a mile of a posting facility. Plaid Cymru's motion is disingenuous, opportunistic and fear-mongering, representing the kindergarten politics of the 1970s, rather than the twenty-first century. Our local postmen and women are intrinsic parts of the communities that they serve. They are the Welsh part of the Royal Mail, and they will better serve their communities as part of a strong, commercially viable Royal Mail.

Mae Ofcom hefyd wedi cyflwyno canllawiau wedi'u diweddaru sy'n nodi bod yn rhaid i 98% o'r boblogaeth fod o fewn hanner milltir i gyfleuster postio. Mae cynnig Plaid Cymru yn ffuantus, yn oportiwnistaidd ac yn ceisio codi bwganod, gan gynrychioli gwleidyddiaeth blentynnaidd y 1970au, yn hytrach na'r unfed ganrif ar hugain. Mae ein dynion a'n menywod post lleol yn rhannau annatod o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Nhw yw rhan Gymreig y Post Brenhinol, a byddant yn gwasanaethu eu cymunedau yn well fel rhan o Bost Brenhinol cryf sy'n fasnachol hyfyw.

16:42

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Peter Black to move amendments 2, 4, 5, 6, 7, 8 and 10, tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliannau 2, 4, 5, 6, 7, 8 a 10, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Ym mhwynt 1, dileu 'Yn condemnio' a rhoi 'Yn nodi' yn ei le.*

*In point 1 replace 'Condemns' with 'Notes'.*

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 2 and replace with:*

*Yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y DU yn trosglwyddo rhwymedigaethau hanesyddol o oddeutu £37.5 biliwn o Gynllun Pensiwn y Post Brenhinol i Gynllun PensiwnStatudol newydd y Post Brenhinol.*

*Welcomes the UK Government transfer of the historic liabilities of around £37.5 billion from the Royal Mail Pension Plan to the new Royal Mail Statutory Pension Scheme.*

*Gwelliant 5—Aled Roberts*

*Amendment 5—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 3 and renumber accordingly:*

*Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i wasanaeth post cyffredinol, chwe diwrnod yr wythnos, a ddiogelir gan y gyfraith yn Neddf Gwasanaethau Post 2011.*

*Welcomes the UK Government commitment to a universal six day a week postal service as protected by law in the Postal Services Act 2011.*

*Gwelliant 6—Aled Roberts*

*Amendment 6—Aled Roberts*

*Cynnwys ar ddiwedd pwynt 3:*

*Insert at the end of point 3:*

*'ac nad yw'r bwriad i breifateiddio yn cynnwys Swyddfa'r Post.'*

*'and that the proposed privatisation excludes the Post Office.'*

*Gwelliant 7—Aled Roberts*

*Amendment 7—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 4 newydd, ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 4, and renumber accordingly:*

*Yn nodi ymdrechion niferus y Blaid Lafur i breifateiddio'r Post Brenhinol hyd at 2009 a'r rhagleni gau Swyddfeydd Post, lle cafodd 216 o swyddfeydd post eu cau yng Nghymru o dan y Blaid Lafur rhwng mis Hydref 2007 a mis Ionawr 2009;*

*Notes the Labour Party's repeated attempts at privatisation of the Royal Mail up to 2009 and the Post Office closure programme that saw 216 post offices in Wales close under Labour between October 2007 and January 2009;*

*Gwelliant 8—Aled Roberts*

*Amendment 8—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 4 newydd, ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 4, and renumber accordingly:*

*Yn croesawu'r ffaith nad oes unrhyw swyddfeydd post wedi cau ers 2010 o ganlyniad i bolisi Llywodraeth Glymblaid y DU.*

*Welcomes that no post offices have closed since 2010 as a result of UK Coalition Government policy.*

*Gwelliant 10—Aled Roberts*

*Amendment 10—Aled Roberts*

*Dileu is-bwynt 4(b).*

*Delete sub point 4(b).*

16:42 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 2, 4, 5, 6, 7, 8 and 10 in the name of Aled Roberts.

Cynigiaf welliannau 2, 4, 5, 6, 7, 8 a 10 yn enw Aled Roberts.

The Liberal Democrats support the floatation of the Royal Mail. We believe that it secures the future of the business and maintains the universal service obligation. Mark Isherwood has already outlined many of the statutory safeguards that have been put in place as part of this floatation to ensure that the service that people get from the Royal Mail will remain undiminished. We have outlined in our amendments that we welcome the UK Government's transfer of historic liabilities in the Royal Mail pension plan to secure its future—a transfer that has been welcomed by the communications union, which said that it was good news for postal workers. It will secure the future of pensions for Royal Mail employees. The question that has to be asked of Plaid Cymru is this: if it is in favour of setting up a separate Welsh Royal Mail, is it also going to take on 5.9% of those liabilities within the Welsh Government? It is a significant amount of money, which would hit the services that the Welsh Government currently provides.

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol o blaid gwerthu cyfranddaliadau'r Post Brenhinol. Credwn fod hynny'n sicrhau dyfodol y busnes ac yn cynnal y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol. Mae Mark Isherwood eisoes wedi amlinellu llawer o'r mesurau diogelu statudol sydd wedi cael eu rhoi ar waith dan y cynllun gwerthu cyfranddaliadau hwn er mwyn sicrhau na fydd y gwasanaeth a gaiff pobl gan y Post Brenhinol yn dirywio. Rydym wedi amlinellu yn ein gwelliannau ein bod yn croesawu penderfyniad Llywodraeth y DU i drosglwyddo'r rhwymedigaethau hanesyddol yng nghynllun pensiwn y Post Brenhinol er mwyn sicrhau ei ddyfodol—trosglwyddiad a groesawyd gan yr undeb cyfathrebu, a ddywedodd ei fod yn newyddion da i weithwyr post. Bydd yn sicrhau pensiynau i weithwyr y Post Brenhinol yn y dyfodol. Y cwestiwn y mae'n rhaid ei ofyn i Blaid Cymru yw: os yw o blaid sefydlu Post Brenhinol ar wahân i Gymru, a yw hefyd yn mynd i dderbyn 5.9% o'r rhwymedigaethau hynny o fewn Llywodraeth Cymru? Mae'n swm sylweddol o arian, a fyddai'n effeithio ar y gwasanaethau y mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu ar hyn o bryd.

There is no threat to universal service provision. The Post Office is not up for sale. We believe that this scheme will address many of the long-term issues of the Royal Mail and will introduce the 'gale force of fresh air' into the Royal Mail that Peter Mandelson was so keen to promote. The Royal Mail needs to adapt to changing demands in the market, as well as compete privately with private couriers and cope with decreased demand for letter services, which have largely had their place taken by electronic communications such as e-mail and SMS. Private capital will be beneficial to both customers and the business, meaning that it will be a more efficient, better capitalised and faster moving company, which will be able to better address the needs of its customers. Privatisation also removes the dependence on the taxpayer for the funding of the Royal Mail. That means that the Royal Mail will not have to compete for public capital with other key services such as schools and hospitals. The floatation will mean that the company will gain more commercial freedom and access to flexible private finance. In particular, it will be able to innovate and seize opportunities that are presented by new markets, such as the rapid growth of parcels through online shopping. In calling for an incoming Labour Government to effectively to renationalise the Royal Mail, the question has to be asked: are you also calling for an incoming Labour Government to renationalise other privatisations, such as, for example, British Telecom, which was also opposed in the same way, but which, of course, has proved to be very successful for shareholders and, more importantly, for its customers and the nation?

Nid oes bygythiad i ddarpariaeth y gwasanaeth cyffredinol. Nid yw Swyddfa'r Post ar werth. Credwn y bydd y cynllun hwn yn mynd i'r afael â llawer o broblemau hirdymor y Post Brenhinol ac yn cyflwyno'r 'cwthwm o awyr iach' i mewn i'r Post Brenhinol yr oedd Peter Mandelson mor awyddus i'w hyrwyddo. Mae angen i'r Post Brenhinol addasu i ofynion newidiol yn y farchnad, yn ogystal â chystadlu'n breifat gyda negeswyr preifat ac ymdopi â'r gostyngiad yn y galw am wasanaethau llythyr, sydd i raddau helaeth wedi cael eu disodli gan ddulliau cyfathrebu electronig megis e-bost a negeseuon testun. Bydd cyfalaf preifat yn fuddiol i'r cwsmeriaid ac i'r busnes, gan olygu y bydd yn gwmni mwy effeithlon, sydd wedi'i gyfalafu'n well ac yn symud yn gyflymach, a fydd yn gallu diwallu anghenion ei gwsmeriaid yn well. Mae preifateiddio hefyd yn golygu nad oes rhaid dibynnu ar y trethdalwr i ariannu'r Post Brenhinol. Mae hynny'n golygu na fydd yn rhaid i'r Post Brenhinol gystadlu am gyfalaf cyhoeddus gyda gwasanaethau allweddol eraill megis ysgolion ac ysbytai. Bydd gwerthu cyfranddaliadau yn golygu y bydd y cwmni yn cael mwy o ryddid masnachol a mynediad at gyllid preifat hyblyg. Yn benodol, bydd yn gallu arloesi a manteisio ar gyfleoedd a gyflwynir gan farchnadoedd newydd, megis y twf cyflym mewn parseli yn sgîl siopa ar-lein. Wrth alw ar Lywodraeth Lafur a gaiff ei hethol i ailgenedlaetholi'r Post Brenhinol i bob pwrpas, rhaid gofyn y cwestiwn: a ydych hefyd yn galw ar Lywodraeth Lafur a gaiff ei hethol i ailgenedlaetholi sefydliadau eraill sydd wedi'u preifateiddio, megis, er enghraifft, British Telecom, a wynebodd yr un gwrthwynebiad, ond sydd, wrth gwrs, wedi bod yn llwyddiannus iawn i gyfranddalwyr ac, yn bwysicach, i'w gwsmeriaid ac i'r genedl?

The important principle here is that this is not just about privatising the Royal Mail; it is also about empowering the employees of that company, as 10% of the shares will be given to roughly 150,000 Royal Mail employees, with the addition of private investment permitted through the Postal Services Act 2011. That is the largest statutory employee share scheme of any major privatisation in the UK for nearly 30 years. Liberal Democrats have long championed employee ownership, because it engages employees and helps firms by reducing absenteeism and staff turnover. It also leads to higher productivity and fairer wages. The employees of the Royal Mail are the key to the company's future success, and the UK Government scheme will secure greater employee engagement and ensure that Royal Mail staff have a material stake in the company's future. Unlike colleague shares, this scheme will provide employees with real shares and a real stake in the company.

Yr egwyddor bwysig yma yw nad dim ond mater o breifateiddio'r Post Brenhinol yw hwn; mae hefyd yn ymwneud â grymuso gweithwyr y cwmni hwnnw, oherwydd caiff 10% o'r cyfranddaliadau eu rhoi i tua 150,000 o weithwyr y Post Brenhinol, yn ogystal â buddsoddiad preifat a ganiateir drwy Ddeddf Gwasanaethau Post 2011. Dyma'r cynllun cyfranddaliadau statudol mwyaf i weithwyr o dan unrhyw gynllun preifateiddio mawr a welwyd yn y DU ers bron i 30 mlynedd. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi hyrwyddo perchnogaeth gan weithwyr ers tro, oherwydd mae'n ennyn ymrwymiad cyflogeion ac yn helpu cwmnïau drwy leihau absenoldeb a throsiant staff. Mae hefyd yn arwain at gynhyrchiant uwch a chyflogau tecach. Mae gweithwyr y Post Brenhinol yn allweddol i lwyddiant y cwmni yn y dyfodol, a bydd cynllun Llywodraeth y DU yn sicrhau mwy o ymrwymiad ymhlith gweithwyr ac yn sicrhau bod gan staff y Post Brenhinol gyfran sylweddol yn nyfodol y cwmni. Yn wahanol i gyfranddaliadau cydweithwyr, bydd y cynllun hwn yn rhoi cyfranddaliadau go iawn i weithwyr a chyfran go iawn yn y cwmni.

Mark Isherwood has already referred to the protection of the universal service, as outlined in our amendment 5. The flotation of the Royal Mail on the London stock exchange will not affect the provision of a universal service; it will ensure delivery to all UK addresses, six days a week, for one-price-goes-anywhere, and that has been protected under the Postal Services Act 2011. As Mark Isherwood has pointed out, any change to that would require an Act of Parliament, passed both by the House of Commons and by the House of Lords.

Mae Mark Isherwood eisoes wedi cyfeirio at ddiogelu'r gwasanaeth cyffredinol, fel yr amlinellwyd yng ngwelliant 5. Ni fydd gwerthu cyfranddaliadau'r Post Brenhinol ar gyfnewidfa stoc Llundain yn effeithio ar ddarparu gwasanaeth cyffredinol; bydd yn sicrhau gwasanaeth dosbarthu i bob cyfeiriad yn y DU, chwe diwrnod yr wythnos, ar sail un-pris-i-unrhyw-le, ac mae hynny wedi'i ddiogelu dan Ddeddf Gwasanaethau Post 2011. Fel y nododd Mark Isherwood, er mwyn gwneud unrhyw newid, byddai angen Deddf Seneddol, a gaiff ei phasio gan Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi.

As noted in amendment 6, we should bear in mind that, while the Royal Mail is being floated, the Post Office is not for sale. The coalition is putting additional funding into protecting post office services by providing £1.34 billion over four years to maintain a network of at least 11,500 branches across the UK. This funding will modernise approximately 6,000 branches, which will deliver substantial benefits to the Post Office's customers. Mark Isherwood has already referred to the number of post offices shut by the previous Labour Government and, of course, by the Conservative Government before it. That is not happening under this Government; we are investing in the Post Office, investing in upgrading its branches, and ensuring that their future is secure.

Fel y nodwyd yng ngwelliant 6, dylem gofio, er bod cyfranddaliadau'r Post Brenhinol yn cael eu gwerthu, nad yw Swyddfa'r Post ar werth. Mae'r glymblaid yn rhoi arian ychwanegol i ddiogelu gwasanaethau swyddfeydd post trwy ddarparu £1.34 biliwn dros bedair blynedd er mwyn cynnal rhwydwaith sy'n cynnwys o leiaf 11,500 o ganghennau ledled y DU. Bydd yr arian hwn yn moderneiddio tua 6,000 o ganghennau, a fydd yn arwain at fuddiannau sylweddol i gwsmeriaid Swyddfa'r Post. Mae Mark Isherwood eisoes wedi cyfeirio at nifer y swyddfeydd post a gaewyd gan y Llywodraeth Lafur flaenorol ac, wrth gwrs, gan y Llywodraeth Geidwadol a'i rhagflaenodd. Nid yw hynny'n digwydd o dan y Llywodraeth hon; rydym yn buddsoddi yn Swyddfa'r Post, yn buddsoddi er mwyn uwchraddio ei changhennau, ac yn sicrhau bod eu dyfodol yn ddiogel.

16:47

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Conclude with this, please.

Gorffennwch gyda hyn, os gwelwch yn dda.

16:47

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer.

Diolch, Ddirprwy Lywydd.

16:47

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to move amendments 3 and 9 tabled in the name of Lesley Griffiths.

Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i gynnig gwelliannau 3 a 9 a gyflwynwyd yn enw Lesley Griffiths.

*Gwelliant 3—Lesley Griffiths*

*Amendment 3—Lesley Griffiths*

*Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 2 and re-number accordingly:*

*Yn rhannu pryderon yr undebau llafur ynghylch y bygythiad posibl i weithlu'r Post Brenhinol yng Nghymru;*

*Shares the concern of the trade unions over the potential threat to the Royal Mail workforce in Wales;*

*Gwelliant 9—Lesley Griffiths*

*Amendment 9—Lesley Griffiths*

*Dileu is-bwynt 4b.*

*Delete sub-point 4b.*

16:47

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

I move amendments 3 and 9.

Cynigiaf welliannau 3 a 9.

16:47

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call Leanne Wood.

Galwaf ar Leanne Wood.

16:47

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

The flotation of Royal Mail shares this week has, unsurprisingly, turned out to be very popular with potential investors. As we have heard in today's debate already, the Royal Mail is a very successful public service. The main reason there is such interest from the public sector in taking the majority stake in Royal Mail is the fact that the potential future market in parcels and packages, mainly from online retailing, is very attractive indeed. Unfortunately, there has been no real desire from the UK coalition parties to access this market through the public sector and to use future profits to cross-subsidise the socially important parts of the communications network, such as the Post Office.

Nid yw'n syndod bod y camau i werthu cyfranddaliadau'r Post Brenhinol yr wythnos hon wedi bod yn boblogaidd iawn gyda darpar fuddsoddwyr. Fel yr ydym wedi clywed eisoes yn y ddadl heddiw, mae'r Post Brenhinol yn wasanaeth cyhoeddus llwyddiannus iawn. Y prif reswm pam bod gan y sector cyhoeddus gymaint o ddiddordeb mewn cael cyfran fwyafrifol yn y Post Brenhinol yw'r ffaith bod y farchnad bosibl yn y dyfodol o ran parseli a phecynnau, yn bennaf yn sgîl manwerthu ar-lein, yn ddeniadol iawn. Yn anffodus, ni welwyd unrhyw awydd gwirioneddol ymhlith pleidiau clymblaid y DU i gael mynediad i'r farchnad hon drwy'r sector cyhoeddus a defnyddio elw yn y dyfodol i drosglwyddo cymorthdaliadau i rannau cymdeithasol bwysig y rhwydwaith cyfathrebu, megis Swyddfa'r Post.

Public opinion is firmly opposed to the privatisation of the Royal Mail: 70% of the public, and 96% of the Royal Mail workforce, want services to be developed under public ownership. Should not we, as elected representatives of the people of Wales, be prepared to reflect that strength of feeling? Plaid Cymru believes that we should, which is why my party has put forward the idea of taking over postal services at a devolved level. We have witnessed the rise of the energy cartel, the disaster of rail privatisation, and, now, the hurried dumping of Royal Mail. Plaid Cymru believes that our public services should be there to benefit our people and that they should not be driven by shareholder interests.

Mae'r farn gyhoeddus yn gadarn yn erbyn preifateiddio'r Post Brenhinol: mae 70% o'r cyhoedd, a 96% o weithlu'r Post Brenhinol, am i wasanaethau gael eu datblygu o dan berchnogaeth gyhoeddus. Oni ddylem ni, fel cynrychiolwyr etholedig pobl Cymru, fod yn barod i adlewyrchu cryfder y teimladau hynny? Mae Plaid Cymru o'r farn y dylem, a dyna pam mae fy mhlaid wedi cyflwyno'r syniad o gymryd gwasanaethau post drosodd ar lefel ddatganoledig. Rydym wedi gweld cynnydd y cartél ynni, trychineb preifateiddio'r rheilffyrdd a, nawr, y rhuthr i gael gwared ar y Post Brenhinol. Cred Plaid Cymru y dylai ein gwasanaethau cyhoeddus fod yno er budd ein pobl ac na ddylent gael eu llywio gan fuddiannau cyfranddeiliaid.

Plaid Cymru has identified a legislative precedent from the Post Office Act 1969, whereby the UK Government can surrender its postal operations to other Governments. Under the 1969 Act, postal operations were surrendered by the UK to the Governments of the Isle of Man and the Channel Islands. The Isle of Man Government developed its own in-house postal service after several years of negotiations. It remains integrated in the UK postcode system and has different pricing agreements with the Royal Mail for convenience. Plaid Cymru is not saying that this route would be an easy or a simple solution—the UK Government would have to agree to negotiate with the Welsh Government, which, in itself, may not be straightforward. However, it is essential that we in Wales mount a challenge to the privatisation of the Royal Mail and add our voices to the challenge being made by the Scottish Government and, at least, the conference delegates of the Labour Party. It is encouraging and welcome that the Communications Workers Union has pointed to our Post Cymru proposal as being another reason for not privatising the Royal Mail.

Mae Plaid Cymru wedi canfod cynsail deddfwriaethol yn Neddf Swyddfa'r Post 1969, sy'n golygu y gall Llywodraeth y DU ildio ei gweithrediadau post i Lywodraethau eraill. O dan Ddeddf 1969, cafodd gweithrediadau post eu hildio gan y DU i Lywodraethau Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel. Datblygodd Llywodraeth Ynys Manaw ei gwasanaeth post mewnol ei hun ar ôl sawl blwyddyn o drafodaethau. Mae'n parhau i fod yn rhan o system codau post y DU ac mae ganddo wahanol gytundebau prisio â'r Post Brenhinol er hwylustod. Nid yw Plaid Cymru yn dweud y byddai'r llwybr hwn yn ateb hawdd na syml—byddai'n rhaid i Lywodraeth y DU gytuno i drafod â Llywodraeth Cymru, rhywbeth na fydd ynddo'i hun yn syml, o bosibl. Fodd bynnag, mae'n hanfodol ein bod ni yng Nghymru yn herio'r camau i breifateiddio'r Post Brenhinol ac yn ychwanegu ein lleisiau at yr her sy'n cael ei chodi gan Lywodraeth yr Alban ac, o leiaf, y cynrychiolwyr yng nghynhadledd y Blaid Lafur. Mae'r ffaith bod Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu wedi cyfeirio at ein cynnig ar gyfer Post Cymru fel rheswm arall dros beidio â phreifateiddio'r Post Brenhinol yn galonogol ac yn rhywbeth i'w groesawu.

We will hear today about the presumed opportunities for the Royal Mail that will arise from privatisation, but there are risks as well and we need to air those. Maintaining the statutory commitment to universal service will put the privatised Royal Mail at a disadvantage compared to its competitors. A privatised Royal Mail will also be hampered in the eyes of the markets by an ongoing relationship with the socially important but economically unattractive post office network. The inevitable logic for the Royal Mail's investors will be to try to get the universal service obligation and the ties to the post office network removed.

Byddwn yn clywed heddiw am y cyfleoedd y tybir y byddant yn ymddangos i'r Post Brenhinol yn sgîl preifateiddio, ond mae risgiau hefyd ac mae angen rhoi sylw i'r rheiny. Bydd cadw'r ymrwymiad statudol i ddarparu gwasanaeth cyffredinol yn rhoi'r Post Brenhinol wedi'i breifateiddio o dan anfantais o'i gymharu â'i gystadleuwyr. Hefyd, caiff Post Brenhinol wedi'i breifateiddio ei lesteirio ym marn y marchnadoedd gan ei berthynas barhaus â'r rhwydwaith swyddfeydd post sy'n bwysig yn gymdeithasol ond yn anneniadol yn economaidd. Y rhesymeg anochel i fuddsoddwyr y Post Brenhinol fydd ceisio cael gwared ar y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol a'r cysylltiadau â'r rhwydwaith swyddfeydd post.

Plaid Cymru accepts these concerns. The problems that would be faced in taking control of Post Cymru are not insurmountable. We are confident that there is a Welsh way forward for postal services and we should be prepared to all come together now to formulate a plan that will protect our interests and those of the people of Wales in the aftermath of privatisation. I very much hope that you will all join Plaid Cymru in that.

Mae Plaid Cymru yn derbyn y pryderon hyn. Nid yw'r problemau y byddai'n rhaid eu hwynebu wrth gymryd rheolaeth dros Post Cymru yn anorchfygol. Rydym yn hyderus bod ffordd ymlaen yng Nghymru i wasanaethau post a dylai pob un ohonom fod yn barod i ddod at ein gilydd nawr i lunio cynllun a fydd yn diogelu ein buddiannau ni a buddiannau pobl Cymru ar ôl preifateiddio. Gobeithiaf yn fawr y byddwch oll yn ymuno â Phlaid Cymru yn hynny.

16:52

## Keith Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n falch o fod yn rhan o'r drafodaeth heddiw ond nid wyf yn gallu cefnogi hyn. Wrth inni drafod heddiw, gwyddom fod balot yr Undeb Gweithwyr Cyfathrebu yn cau ar 16 Hydref. Os bydd undeb y gweithwyr ei hun yn gwrthwynebu, dylid cael trafodaethau agored a gwrando. Mae'n edrych yn bosibl ar y funud y bydd y gwerthiant yn mynd drwyddo yn y cyfamser. Bydd hyn yn digwydd er bod 70% o'r boblogaeth yn gwrthwynebu hyn, ac er bod Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri yn gwrthwynebu'r cynlluniau. Mae llawer ohonom wedi treulio amser yn ein swyddfeydd dosbarthu lleol—y mwyafrif, efallai, i weld y gwaith caled a wneir dros gyfnod y Nadolig. Hefyd, yn bersonol, treuliais amser gyda phostmon wrth ei waith yn gynharach eleni ym mhentref Pontiets. Y peth mwyaf i sylwi arno oedd y ffocws ar wasanaeth cymunedol—sy'n ffocws sydd wedi bod yn cael ei weithredu ers dros 300 o flynyddoedd. Gwasanaeth cyhoeddus, llawn ydyw sy'n gwasanaethu pob un ardal.

I am pleased to participate in this debate today but I cannot support this. As we discuss this, we know that the ballot of the Communication Workers Union closes on 16 October. If the workers' union itself opposes this, there should be open negotiations and listening. It looks possible at the moment that the sale will go through in the meantime. This will happen although 70% of the population opposes this, and although the National Federation of Subpostmasters opposes the plans. Many of us have spent time in our local distribution offices—most, perhaps, to see the hard work done over the Christmas period. Also, personally, I spent time with a postman at work earlier this year in Pontiets. The main thing to take note of is the focus on community service—a focus that has been at work for over 300 years. It is a full, public service that serves every area.

Fel cynrychiolydd etholaeth sy'n cynnwys sawl ardal wledig, rwy'n pryderu ynghylch faint o effaith y bydd preifateiddio yn ei chael ar ardaloedd gwledig. Yn y tymor hir, a fydd y gwasanaeth i'r etholwyr yn cael ei leihau ac a fydd y gwasanaeth i bawb yn diflannu? Beth fydd effaith hyn ar swyddfeydd post gwledig a threfol yn y pen draw? Rwy'n derbyn nad yw'r cynlluniau yn preifateiddio'r Swyddfa Post ond nid oes gwarant na fydd hyn yn cael effaith arni. Yr hyn a allai ddigwydd yw bod swyddfeydd dosbarthu yn cael eu newid a bydd swyddfeydd post, fel yr un sydd yng Nghydweli, sydd hefyd yn swyddfa dosarthu, yn colli rhan o'u gwasanaeth. Dywedwn i fod hyn yn cynnig dyfodol ansicr iddynt. Beth hefyd am brisiau stampiau a'r effaith ar fusnesau? Mae'r rhain i gyd yn gwestiynau pwysig a pherthnasol a godwyd gan Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu.

As a representative of a constituency that includes many rural areas, I am concerned about the impact that privatisation will have on rural areas. In the long term, will the service for constituents be reduced and will the universal service disappear? What will be the impact on rural and urban post offices at the end of the day? I accept that the plans do not privatise the Post Office but there is no guarantee that this will not impact upon it. What could happen is that distribution offices could be changed and post offices, such the one in Kidwelly, that are also a distribution office, could lose part of their service. I would say that their future is therefore uncertain. Also, what about the price of stamps and the impact on businesses? These are all important and relevant questions raised by the Communication Workers Union.

Mae Plaid Cymru yn galw am ddatganoli'r Post Brenhinol ond, unwaith eto, ble mae'r costau sydd ynghlwm â hyn? A oes rhai wedi'u cyhoeddi? Nac oes. Y broblem yw y byddai datganoli yn broses gostus iawn. Rydym yn rhannu swyddfeydd sortio, yn enwedig yn ardaloedd ar y ffin. A fyddai creu swyddfeydd sortio penodol i Gymru yn dod ar draul swyddi? A oes costau neu dystiolaeth lawn wrth gefn? Y brif elfen a'r prif bwyslais dylai fod sicrhau gwasanaeth cynaliadwy a pherthnasol a gwasanaeth i bawb.

Plaid Cymru calls for the devolution of the Royal Mail but, once again, where are the costs attached to this? Have some been published? No, they have not. The problem is that devolution would be a very expensive process. We share sorting offices, particularly in border areas. Would creating specific sorting offices for Wales be at the expense of jobs? Do we have costs or evidence for this? The main element and the main emphasis should be to ensure a sustainable and relevant service and a universal service.

Yn ôl at yr hyn sy'n digwydd nawr, dywed Chuka Umunna y gallai'r glymblaid fod yn gwerthu'r gwasanaeth am £1 biliwn yn llai na'i werth. Dadleuon y Torïaid yw bod y gweithwyr yn cadw rhan ohono, ond 10% yn unig yw hynny. Maent yn dadlau ymhellach bod yr opsiwn ar gael i'r gweithwyr i fuddsoddi yn y cyfranddaliadau sydd ar gael i'r cyhoedd, ond y gwir amdani yw bod hynny yn dod â chost o £500, ac, fel y gwelir, mae'n hynod o gystadleuol i'w hennill. Hefyd, roedd 90% i fod ar gael i'r cyhoedd, ac mae hynny wedi cael ei newid nawr, gan nad yw pobl eisiau eu prynu, ac mae'n lawr i 62%. Y rheswm pennaf dros hynny yw bod y gost yn £750. Mae'r wrthblaid Lafur, yn gywir, wedi dweud bod £750 yn swm sylweddol i'r fwyafrif ei dalu. Fel y dywedodd Simon Thomas yn gynharach, rheolwyr 'hedge funds' a buddsoddwyr y ddinas fydd yn elwa'r fwyaf, ac mae'n debygol y bydd llawer ohonynt yn fuddsoddwyr tramor—yn gwbl groes i'r gwasanaeth sydd wedi bod gennym am dros 300 mlynedd. Yr hyn oedd ei eisiau oedd moderneiddio'r system, nid ei phreifateiddio.

To return to what is happening now, Chuka Umunna has said that the coalition could be selling the service for £1 billion less than its value. The Tories argue that the workers are keeping a part of it, but that is only 10%. They further argue that the option is open to the workforce to invest in the shares that are available to the public, but the truth is that comes with a cost of £500, and, as one can see, it is very competitive to win them. Also, 90% was supposed to be available to the public, and that has been changed now, as people do not want to buy them, and it is down to 62%. The main reason for that is that the cost is £750. The Labour opposition, rightly, has said that £750 is a significant sum for the majority of people to pay. As Simon Thomas said earlier, it is hedge fund managers and city investors who will benefit most, and many of them are likely to be foreign investors—quite contrary to the service that we have had in place for over 300 years. What was required was the modernisation of the system, not its privatisation.

16:56

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

There are plenty of arguments we can make about the grave short-sightedness and short-termism being acted out by the UK Government in privatising the Royal Mail. We could talk about the incompetence of the undervaluing financially of the Royal Mail as it floats, but just as alarming is the undervaluing of the importance of a publicly-owned Royal Mail to communities up and down our country, which count its worth in far more than investors' pounds and pence.

Mae digon o ddadleuon y gallwn eu gwneud am gynllun cibddall a byrdymor iawn Llywodraeth y DU i breifateiddio'r Post Brenhinol. Gallem siarad am ei hanghymwyster wrth iddi danbrisio'r Post Brenhinol yn ariannol ar adeg gwerthu'r cyfranddaliadau, ond yr un mor frawychus yw iddi danbrisio pa mor bwysig yw Post Brenhinol, sy'n eiddo cyhoeddus, i gymunedau ar hyd a lled ein gwlad, sy'n cyfrif ei werth mewn llawer mwy na phunnoedd a cheiniogau buddsoddwyr.

The Conservative amendment states that privatisation will protect a universal service, but opponents of the move can see how, in the long term, the pursuit of profits will, without doubt, threaten the very services the floatation small print suggests will be protected. The threat is clear: that the unprofitable and the commercially unattractive will slowly buckle under the strain of the shareholders' demands.

Mae gwelliant y Ceidwadwyr yn datgan y caiff y gwasanaeth cyffredinol ei ddiogelu o dan y cynllun preifateiddio, ond gall gwrthwynebwyr y cynllun weld sut, yn yr hirdymor, y bydd yr awydd i wneud elw, heb amheuaeth, yn bygwth yr union wasanaethau y mae print mân y cynllun gwerthu cyfranddaliadau yn awgrymu a gaiff eu diogelu. Mae'r bygythiad yn glir: bydd yr elfennau amhroffidiol ac anneniadol yn fasnachol yn araf ildio o dan bwysau gofynion y cyfranddalwyr.

The same amendment acknowledges the importance of the Royal Mail to the post office network. If I may, I would like to address that very issue, and voice concerns raised by many, including Plaid Cymru, that those post office services will be under threat, up and down Wales, if not tomorrow, then in years to come. Several of the opposition party amendments to our motion today mention the closure programmes of the previous Labour UK Government, and Plaid Cymru certainly shares that criticism, but today we have to focus on the fact that Royal Mail privatisation under this UK coalition Government creates a real risk for rural post offices.

Mae'r un gwelliant yn cydnabod pwysigrwydd y Post Brenhinol i'r rhwydwaith swyddfeydd post. Os caf, hoffwn fynd i'r afael â'r union fater hwnnw, a lleisio pryderon a godwyd gan lawer, gan gynnwys Plaid Cymru, y bydd y gwasanaethau swyddfa bost hynny'n dod o dan fygythiad, ar hyd a lled Cymru, os nad yfory, yna mewn blynyddoedd i ddod. Mae sawl un o welliannau'r wrthblaid i'n cynnig heddiw yn crybwyll rhaglenni cau Llywodraeth Lafur flaenorol y DU, ac yn sicr mae Plaid Cymru yn rhannu'r feirniadaeth honno, ond heddiw rhaid inni ganolbwyntio ar y ffaith bod cynllun preifateiddio'r Post Brenhinol dan Lywodraeth glymblaid y DU yn peri risg wirioneddol i swyddfeydd post gwledig.

The network of post offices is deeply important to Welsh communities. We know that. In rural Wales, that importance is even more noticeable. As well as being businesses in their own right, post offices have a social function—they combat isolation and act as community facilities. The National Federation of Subpostmasters has said that the Royal Mail privatisation is a reckless gamble with the future of the post office network. Why? It is because the Post Office is two years into a 10-year agreement to handle Royal Mail parcels and sell stamps. Over a third of the Post Office's revenue comes from selling Royal Mail products and services. What happens when that deal comes to an end? The answer is that we just do not know, and that complete lack of security moving forward about the future is one of the reasons why this really is a reckless gamble.

Mae'r rhwydwaith swyddfeydd post yn bwysig iawn i gymunedau Cymru. Gwyddom hynny. Yng nghefn gwlad Cymru, mae'r pwysigrwydd hwnnw hyd yn oed yn fwy amlwg. Yn ogystal â bod yn fusnesau yn eu rhinwedd eu hunain, mae gan swyddfeydd post swyddogaeth gymdeithasol—maent yn ymladd unigedd ac yn gweithredu fel cyfleusterau cymunedol. Mae Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri wedi dweud bod cynllun preifateiddio'r Post Brenhinol yn gambl ddi-hid â dyfodol y rhwydwaith swyddfeydd post. Pam? Y rheswm yw bod Swyddfa'r Post ddwy flynedd i mewn i gytundeb deng mlynedd i ddelio â pharseli'r Post Brenhinol a gwerthu stampiau. Daw dros draean o refeniw Swyddfa'r Post o werthu cynnyrch a gwasanaethau'r Post Brenhinol. Beth fydd yn digwydd pan ddaw'r cytundeb hwnnw i ben? Yr ateb yw nad ydym yn gwybod, a'r diffyg sicrwydd llwyr hwnnw ynglŷn â'r dyfodol yw un o'r rhesymau pam fod y cynllun hwn wir yn gambl ddi-hid.

The Liberal Democrat's amendment 8 states that no post offices are closing anymore. Again, that is completely misleading. Even before that pressure of privatisation begins to grow, and with that inter-business agreement still in place between the Royal Mail and post offices, we are seeing the continued erosion of services. There are two crown post offices threatened in my constituency—Holyhead and Llangefni—and that is 10% of the entire estate of crown post offices left in Wales.

Mae gwelliant 8 gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn datgan nad oes unrhyw swyddfeydd post yn cau mwyach. Unwaith eto, mae hynny'n gwbl gamarweiniol. Hyd yn oed cyn i bwysau preifateiddio ddechrau codi, a phan fo'r cytundeb rhyng-fusnes yn dal i fod ar waith rhwng y Post Brenhinol a swyddfeydd post, rydym yn gweld gwasanaethau'n cael eu lleihau'n barhaus. Mae dwy o swyddfeydd post y goron dan fygythiad yn fy etholaeth—Caergybi a Llangefni—sy'n cyfrif am 10% o holl ystâd swyddfeydd post y Goron sydd ar ôl yng Nghymru.

16:59 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you accept that the universal service can only be changed in law by Parliament, yes or no? Do you recognise—

A ydych yn derbyn mai dim ond drwy ddeddf Seneddol y gellir newid y gwasanaeth cyffredinol, ydych neu nac ydych? A ydych yn cydnabod—

16:59 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I know where we are now, but if I can move on—

Rwy'n gwybod ble ydym yn awr, ond os gallaf symud ymlaen—

16:59

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

You have given way. Quickly finish, Mark.

Rydych wedi ildio. Gorffennwch yn gyflym, Mark.

16:59

## Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Crown post offices will not be closed unless another post office replaces them on the same high street. That is a guarantee from the Royal Mail.

Ni fydd swyddfeydd post y Goron yn cael eu cau oni bai bod swyddfa bost arall yn cymryd eu lle ar yr un stryd fawr. Mae'r Post Brenhinol wedi gwarantu hynny.

16:59

## Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The Post Office says they are not closures and that services are maintained in new partnerships with retailers, but, apart from the fact that eight jobs are going now in those two post offices, franchising will lead to more empty shops on our high streets. Can we genuinely be guaranteed that a full range of services, which make post offices hubs in communities, will be maintained in the long term, post privatisation, when shareholders demand a larger slice of the profits? No—we cannot be guaranteed.

Mae Swyddfa'r Post yn dweud nad ydynt yn cau a bod gwasanaethau'n cael eu cynnal mewn partneriaethau newydd gyda manwerthwyr, ond, ar wahân i'r ffaith bod wyth swydd yn cael eu colli ar hyn o bryd yn y ddwy swyddfa bost hyn, bydd masnachfreintiau yn arwain at fwy o siopau gwag ar ein stryd fawr. A allwn fod yn gwbl sicr y caiff ystod lawn o wasanaethau, sy'n gwneud swyddfeydd post yn ganolfannau cymunedol, ei chynnal yn yr hirdymor, ar ôl preifateiddio, pan fydd cyfranddalwyr yn mynnu cyfran fwy o'r elw? Na—ni allwn fod yn sicr o hynny.

To complicate matters, the erosion and privatisation are happening when we in Wales are trying to give post offices a boost as community hubs. Assistance to post offices is a devolved issue. The One Wales Government reinstated the post office development fund at a time when there were threats to the network from the Labour Party at a UK level. We also recognise that other Welsh Governments have invested in the post office network—the current diversification fund, for example, being one initiative.

I gymhlethu pethau, mae'r cwtogi a'r preifateiddio yn digwydd ar adeg pan ydym ni yng Nghymru yn ceisio rhoi hwb i swyddfeydd post fel canolfannau cymunedol. Mae cymorth i swyddfeydd post yn fater datganoledig. Adferodd Llywodraeth Cymru'n Un y gronfa datblygu swyddfeydd post ar adeg pan oedd y rhwydwaith dan fygythiad gan y Blaid Lafur ar lefel y DU. Rydym hefyd yn cydnabod bod Llywodraethau eraill Cymru wedi buddsoddi yn y rhwydwaith swyddfeydd post—mae'r gronfa arallgyfeirio bresennol, er enghraifft, yn un fenter o'r fath.

The real risk that we face now is that changes to Royal Mail's business model as it seeks more profit for shareholders will undermine the work that has been done to diversify and improve the post office network in Wales. Where Royal Mail services and universality are threatened in the long term, no matter what the promises made in the small print are, the post office network is threatened, too, and we cannot risk either.

Y risg wirioneddol sy'n ein hwynebu yn awr yw y bydd newidiadau i fodel busnes y Post Brenhinol, wrth iddo geisio creu mwy o elw i gyfranddalwyr, yn tanseilio'r gwaith sydd wedi cael ei wneud i arallgyfeirio a gwella'r rhwydwaith swyddfeydd post yng Nghymru. Tra bod gwasanaethau'r Post Brenhinol a'r gwasanaeth cyffredinol dan fygythiad yn yr hirdymor, ni waeth pa addewidion a wneir yn y print mân, mae'r rhwydwaith swyddfeydd post dan fygythiad, hefyd, ac ni allwn beryglu'r naill na'r llall.

17:01

## Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I have been contacted by many constituents in Mid and West Wales expressing concern about the sell-off of Royal Mail, and it really is no surprise. As previous speakers have said, Royal Mail is vital to rural communities for the six-days-a-week service that it provides, the universal service obligation and the historic link between Royal Mail and the Post Office. However, despite the short-term assurances that we have been offered, the sale threatens these long-standing principles. Due to the higher than average costs of providing Royal Mail services in rural areas, privatisation will place a question mark over the willingness to maintain what can be loss-making services.

Mae llawer o etholwyr yn y Canolbarth a'r Gorllewin wedi cysylltu â mi i fynegi pryder ynghylch y cynllun i werthu'r Post Brenhinol ac nid yw hynny'n syndod. Fel y mae siaradwyr blaenorol wedi'i ddweud, mae'r Post Brenhinol yn hanfodol i gymunedau gwledig oherwydd y gwasanaeth chwe diwrnod yr wythnos y mae'n ei ddarparu, y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol a'r cysylltiad hanesyddol rhwng y Post Brenhinol a Swyddfa'r Post. Fodd bynnag, er gwaethaf y sicrwydd byrdymor sydd wedi'i gynnig inni, mae'r gwerthiant yn bygwth yr egwyddorion hirsefydlog hyn. Am fod y gost o ddarparu gwasanaethau'r Post Brenhinol mewn ardaloedd gwledig yn uwch na'r cyfartaledd, bydd preifateiddio yn codi amheuaeth ynghylch y parodrwydd i gadw gwasanaethau a all fod yn gwneud colled.

UK wide, there is already evidence of those living in rural or remote areas experiencing difficulties with private carriers. For example, Citizens Advice Scotland has found that more than 80% of people surveyed in remote parts of Scotland had been refused delivery altogether by retailers using carriers other than Royal Mail. Many small businesses in rural areas rely on the regular postal service that Royal Mail guarantees, and there are well-founded concerns about what the sale could mean for rural businesses.

Ledled y DU, mae tystiolaeth ar gael eisoes i ddangos bod y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig neu anghysbell yn cael anawsterau gyda chludwyr preifat. Er enghraifft, canfu Cyngor ar Bopeth yr Alban fod mwy nag 80% o bobl a gymerodd ran yn yr arolwg yn rhannau anghysbell yr Alban wedi dod ar draws achosion lle roedd manwerthwyr sy'n defnyddio cludwyr heblaw am y Post Brenhinol wedi gwrthod dosbarthu iddynt. Mae llawer o fusnesau bach mewn ardaloedd gwledig yn dibynnu ar y gwasanaeth post rheolaidd a gaiff ei warantu gan y Post Brenhinol, ac mae sail dda i bryderon am yr hyn y gallai'r gwerthiant ei olygu i fusnesau gwledig.

Today, in its submission to the UK Government's Business, Innovation and Skills Committee, Royal Mail has warned that thousands of postal workers will lose their jobs following its controversial privatisation. The company has refused to state how many jobs will be axed, but a spokesperson has indicated today that the number will be in the thousands, if not tens of thousands, of Royal Mail's 150,000 employees. This comes on top of 50,000 jobs that have gone over the last decade.

Heddiw, yn ei gyflwyniad i Bwyllgor Busnes, Arloesedd a Sgiliau Llywodraeth y DU, mae'r Post Brenhinol wedi rhybuddio y bydd miloedd o weithwyr post yn colli eu swyddi yn dilyn y preifateiddio dadleuol. Mae'r cwmni wedi gwrthod dweud faint o swyddi a gaiff eu colli, ond mae llefarydd wedi awgrymu heddiw y bydd miloedd, os nad degau o filoedd, o 150,000 o weithwyr y Post Brenhinol yn colli eu swyddi. Mae hyn yn ychwanegol at y 50,000 o swyddi a gollwyd dros y degawd diwethaf.

It is no surprise, then, that 96% of Royal Mail workers are opposed to the privatisation, because they see the writing on the wall. The National Federation of Subpostmasters can also see what the sell-off means, and the previous speaker referred to its statement calling it

Nid yw'n syndod, felly, bod 96% o weithwyr y Post Brenhinol yn gwrthwynebu'r preifateiddio, am eu bod yn gweld yr ysgrifen ar y mur. Gall Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri hefyd weld beth mae'r gwerthiant hwn yn ei olygu, a chyfeiriodd y siaradwr blaenorol at ei ddatganiad lle galwodd y gwerthiant yn

'a reckless gamble with the future of the post office network.'

gambl ddi-hid â dyfodol y rhwydwaith swyddfeydd post.

Royal Mail and the Post Office are intrinsically linked. While the Welsh Government has provided continued support for the post office network in Wales—in the last decade, we have invested £10 million in capital improvement grants for 500 post offices—the UK Government is putting it in jeopardy. It does not seem to understand how important rural post offices are. In small towns, how many times have we raised concerns about closures of banks on high streets, only to be told that people can use their post offices for banking instead?

Mae cysylltiad cynhenid rhwng y Post Brenhinol a Swyddfa'r Post. Tra bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth parhaus i'r rhwydwaith swyddfeydd post yng Nghymru—dros y degawd diwethaf, rydym wedi buddsoddi £10 miliwn mewn grantiau gwella cyfalaf ar gyfer 500 o swyddfeydd post—mae Llywodraeth y DU yn ei roi mewn perygl. Nid yw'n ymddangos fel pe bai'n deall pa mor bwysig yw swyddfeydd post gwledig. Mewn trefi bach, sawl gwaith yr ydym wedi mynegi pryderon am gynlluniau i gau banciau ar y stryd fawr, dim ond i gael gwybod y gall pobl fancio yn eu swyddfeydd post yn lle hynny?

I would like to take this opportunity to pay tribute to the many individuals and groups who have been lobbying the UK Government tirelessly to drop the plan, not least in Brecon and Radnorshire, where the local Labour Party has been campaigning tirelessly on the issue. To be fair, it is not just Labour people who have opposed the plans. The chair of the right-wing think tank the Bow Group has sent a letter to the Tory Members of Parliament urging them to call off the privatisation. Ben Harris-Quinney said that:

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i dalu teyrnged i'r llu o unigolion a grwpiau sydd wedi bod yn lobïo Llywodraeth y DU yn ddiflino i roi'r gorau i'r cynllun, yn enwedig ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed, lle mae'r Blaid Lafur leol wedi bod yn ymgyrchu'n ddiflino ar y mater. I fod yn deg, nid dim ond pobl Llafur sydd wedi gwrthwynebu'r cynlluniau. Mae cadeirydd y Bow Group, sef y felin drafod adain dde, wedi anfon llythyr at yr Aelodau Seneddol Torïaidd yn eu hannog i roi'r gorau i'r preifateiddio. Dywedodd Ben Harris-Quinney:

'It is likely to be deeply unpopular with the British public, prices will rise at a time we can least afford it, an amenity that many communities consider crucial will be removed and a sell off will also impact on the significant heritage of Royal Mail.'

Mae'n debygol o fod yn amhoblogaidd iawn gyda'r cyhoedd ym Mhrydain, bydd prisiau'n codi ar adeg pan na allwn fforddio hynny, bydd amwynder y mae llawer o gymunedau'n ystyried ei fod yn hanfodol yn cael ei golli a bydd gwerthiant hefyd yn effeithio ar dreftadaeth sylweddol y Post Brenhinol.

He continued:

Aeth yn ei flaen:

‘The privatisation of Royal Mail is likely to swiftly form a poisonous legacy for the Government now, and a poisonous legacy for the Conservative Party going forward.’

Mae’r cynllun i breifateiddio’r Post Brenhinol yn debygol o greu etifeddiaeth wenwynig i’r Llywodraeth nawr, ac etifeddiaeth wenwynig i’r Blaid Geidwadol yn y dyfodol.

In which case, it can join the bedroom tax, the demonisation of disabled people, another lost generation of young people, an eye-watering increase in tuition fees, tax breaks for the richest, loss of rights for workers and the removal of legal aid for those who need it most as the true legacy of this Government.

Os felly, gall ymuno â’r dreth ystafell wely, camau sy’n demoneiddio pobl anabl, cenhedlaeth goll arall o bobl ifanc, cynnydd hallt mewn ffioedd dysgu, gostyngiadau treth ar gyfer y cyfoethocaf, y lleihad yn hawliau gweithwyr a’r penderfyniad i gael gwared ar gymorth cyfreithiol i’r rhai sydd ei angen fwyaf fel gwir etifeddiaeth y Llywodraeth hon.

17:05 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae’n dda cael siarad i gefnogi’r cynnig hwn. Rwy’n gobeithio, yn hwyrach y prynhawn yma, y gwelwn ni’r Cynulliad yn pleidleisio i gondemnio penderfyniad y Llywodraeth yn San Steffan i breifateiddio ein gwasanaeth post. Rwyf i a Phlaid Cymru yng Ngheredigion wedi bod yn rhedeg ymgyrch yn erbyn y preifateiddio hwn ers sawl mis yn awr. Mae ymateb pobl yn fy etholaeth i yn glir iawn. Mae’r mwyafrif helaeth ohonynt—llawer mwy na’r 70%—yn gwrthwynebu preifateiddio. Mae profiad ardaloedd gwledig o breifateiddio gwasanaeth yn arwain pobl i bryderu am ddyfodol y gwasanaeth post. Rydym wedi clywed am y profiad o breifateiddio’r gwasanaeth rheilffordd mewn ardaloedd gwledig, wrth gwrs. Rydym yn meddwl yn syth am y profiad o breifateiddio telegyfathrebu, lle mae’r sector breifat, sydd yn awr yn gyfrifol am delegyfathrebu, wedi methu yn llwyr i gyflwyno band llydan i’r rhan fwyaf o ardaloedd gwledig. Felly, mae pobl Ceredigion yn pryderu pa fath o wasanaeth fydd ar gael iddynt yn y dyfodol. Nid oes sicrwydd gwasanaeth i’r tymor hir, ac mewn nifer o ardaloedd gwledig ni fydd darparwr amgen ar gael, achos nid yw’r farchnad yn ddigon mawr na’r elw yn ddigonol.

I am pleased to be able to support this motion. I hope, later on this afternoon, that this Assembly will vote to condemn the decision of the UK Government to privatise our postal service. Plaid Cymru in Ceredigion and I have been running a campaign against this privatisation for some months. The response of people in my constituency is very clear. The vast majority of them—many more than the 70%—oppose privatisation. The experience of rural areas of the privatisation of services leads people to be concerned about the future of the postal service. We have heard about the experience of the privatisation of the railways in rural areas, of course. We think immediately about the experience of the privatisation of telecommunications, where the private sector, which is now responsible for telecommunications, has failed to provide broadband to most rural areas. So, the people of Ceredigion are concerned about what type of service will be available to them in the future. There is no assurance about the service in the long term, and in many rural areas there will not be an alternative provider available, because the market will not be strong enough and there will not be enough profit to be made.

Felly, mae’r gwasanaeth mewn perygl, ond, yn ogystal â hynny, mae cyflogaeth y gweithwyr post hefyd mewn perygl a’r canolfannau dosbarthu y maent yn gweithio allan ohonynt. Mae tair canolfan ddosbarthu, ‘sorting office’, llawn yn fy etholaeth i, ac mae gennyf bryder penodol iawn, unwaith y bydd y cyfranddalwyr a’r buddsoddwyr yn penderfynu ar gynlluniau ariannol y gwasanaeth post, y bydd y rhwydwaith hwn o ganolfannau dosbarthu o dan fygythiad real. Mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, mae rhai o’r swyddfeydd sortio—y canolfannau dosbarthu hyn—eisoes wedi cau yn ddiweddar iawn fel rhan o wneud y Post Brenhinol yn fwy deniadol i fuddsoddwyr. Nid oes gennyf amheuaeth y bydd y patrwm o gau canolfannau dosbarthu yn parhau ac yn cyflymu yn dilyn preifateiddio.

Therefore, the service is in danger, but, in addition to that, the employment of postal workers is in jeopardy as are the sorting offices at which they work. There are three full sorting offices in my constituency and I have a very specific concern that, once the shareholders and the investors decide on the financial plans of the postal service, this network of sorting offices will be under a real threat. In some areas of Wales, some sorting offices have already closed very recently as part of making the Royal Mail more attractive to investors. I have no doubt that this pattern of closing sorting offices will continue and move more quickly following privatisation.

Yn ogystal â’r tair canolfan ddosbarthu llawn sydd yng Ngheredigion, mae un canolfan ddosbarthu arall, a model gwledig iawn yw hwnnw—y ganolfan ddosbarthu yn Nhregaron. Mae’r ganolfan ddosbarthu honno yn cael ei rhedeg yn uniongyrchol gan y swyddfa bost lleol. Mae deg gweithiwr post yn gweithio allan ohoni. Y pryder, wrth gwrs, yn y cyd-destun hwnnw yw y bydd y ganolfan ddosbarthu o dan fygythiad yn y dyfodol, ac y byddai hynny’n effeithio’n uniongyrchol ar gynaliadwyedd y swyddfa bost yn yr ardal hefyd, gan fod cysylltiad agos iawn, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, rhwng y Post Brenhinol a’r swyddfeydd post.

As well as the three full sorting offices that there are in Ceredigion, there is one other sorting office, and that is a very rural model—the sorting office in Tregaron. That sorting office is run directly by the local post office. There are 10 postal workers working from it. The concern, of course, in that context is that the sorting office will be under threat in the future and that that would impact directly on the sustainability of the post office in the area as well, as there is a very strong link, especially in rural areas, between the Royal Mail and the post offices.

Mae gweithwyr post yn fy ardal i hefyd yn becso am eu dyfodol. Dim ond tair blynedd o warchodaeth i'w termau a'u cyflog sydd wedi cael ei rhoi i'r gweithwyr yn y sector post. Rydym yn gwybod bod cwmnïau preifat yn y sector yn aml ddim ond yn talu'r isafswm o ran cyflog ac yn ddefnyddwyr cyson o'r contract dim oriau hefyd.

Postal workers in my area are also concerned about their future. Only three years of protection for their terms and conditions has been given to workers in the postal sector. We know that private companies in the sector often only pay the minimum wage and are also regular users of zero-hour contracts.

O'r drafodaeth rydym wedi'i chynnal â phobl yng Ngheredigion, rwy'n hyderus i ddweud bod pobl yn fy etholaeth i yn gwrthwynebu'r preifateiddio ac yn gweld peryglon mawr i'r gwasanaeth ac o ran cyflogaeth y gweithwyr post. Serch hyn i gyd, credwch neu beidio, fe bleidleisiodd Aelod Seneddol Ceredigion o blaid preifateiddio.

From the discussion that we have had with people in Ceredigion, I am confident in saying that people in my constituency oppose privatisation and see great dangers to the service and to the employment of postal workers. Despite all this, believe it or not, Ceredigion's Member of Parliament voted in favour of privatisation.

Pwy sy'n edrych ymlaen at breifateiddio'r gwasanaeth post? Mae'n siŵr bod Vince Cable yn edrych ymlaen at hynny, ond hefyd yn benodol y cyfranddalwyr posibl. Roedd pennawd 'The Telegraph' ddoe yn ymhyfrydu yn y ffaith bod

Who is looking forward to the privatisation of the postal service? I am sure that Vince Cable is looking forward to it, but also the possible shareholders. The headline in the 'The Telegraph' yesterday took great pride in saying,

'Millions to profit from Royal Mail shares'.

Mae'n siŵr bod miliynau o'r bobl hynny hefyd yn ddarllenwyr 'The Telegraph'—y rhai sydd yn edrych ymlaen at yr elw mawr sydd i'w wneud ar gefn y gwasanaeth cyhoeddus hwn. Dyna, felly, fydd dyfodol ein Post Brenhinol ni—y flaenoriaeth bellach fydd elw'r cyfranddalwyr, nid y gwasanaeth i'n pobl ni.

I am sure that millions of those people are also readers of 'The Telegraph'—those are the people who are looking forward to this great profit that is to be made on the back of this public service. That, therefore, will be the future for our Royal Mail—the priority will be the profit of shareholders, not the service for our people.

17:09

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

If the definition of stupidity is doing the same thing over and again and expecting a different result, then the Tories are. They claim that privatisation will protect our universal postal service. They insist that competition will deliver a better, cheaper service for customers. In Mid and West Wales, we will be lucky if it delivers anything at all. The Tories' fervent belief in the transformative power of privatisation flies in the face of people's experience of it—price rises, job losses, poor customer service, unreliability and profits creamed off, crumbling infrastructure and disastrous safety records. Thankfully in Wales we do things differently. We reject the creeping privatisation of the NHS that is happening in England, and while the private water companies put profits before customers, our not-for-profit approach invests in infrastructure for the long term.

Os mai'r diffiniad o dwpdra yw gwneud yr un peth drosodd a throsodd a disgwyl canlyniad gwahanol, dyna'n union y mae'r Torïaid yn ei wneud. Maent yn honni y bydd preifateiddio yn diogelu ein gwasanaeth post cyffredinol. Maent yn mynnu y bydd cystadleuaeth yn darparu gwasanaeth gwell a rhatach i gwsmeriaid. Yn y Canolbarth a'r Gorllewin, byddwn yn lwcus os bydd yn darparu unrhyw beth o gwbl. Mae cred danbaid y Torïaid ym mhŵer trawsnewidiol preifateiddio yn cyferbynnu â phrofiad pobl ohono—cynnydd mewn prisiau, colledion swyddi, gwasanaeth cwsmeriaid gwael, annibynadwyedd ac elw'n cael ei gymryd, isadeiledd adfeiliog a hanes trychinebus o ran diogelwch. Diolch byth rydym yn gwneud pethau'n wahanol yng Nghymru. Rydym yn gwrthod y preifateiddio cynyddol sy'n digwydd yn y GIG yn Lloegr, a thra bod y cwmnïau dŵr preifat yn rhoi elw o flaen cwsmeriaid, mae ein system ddi-elw ni yn buddsoddi mewn seilwaith ar gyfer yr hirdymor.

So, let us get real. The reason that the UK Government is rushing to sell off the Royal Mail is to cook the books. Borrowing is £240 billion more than George Osborne had planned, so he is selling off the family silver. As a public service, the Royal Mail ensures equal access, uniform prices and universal coverage. It delivers the same service whether you live in Newcastle-upon-Tyne or Newcastle Emlyn. It is that ethos of public service that is under threat. The Postal Services Act 2011 is written on paper, not in stone. Since deregulation in 2006, the Royal Mail's competitors have been freed from many of the regulations that bind it, including universal coverage. The Royal Mail's private competition does not have to meet Ofcom's targets or publish figures on the quality of its service. The ability of the private sector to cherry-pick highly profitable deliveries has enabled it to undercut the Royal Mail, but universal coverage is only possible because the profitable bits subsidise the socially valuable but unprofitable services.

Felly, gadewch inni fod yn realistig. Y rheswm pam bod Llywodraeth y DU yn rhuthro i werthu'r Post Brenhinol yw er mwyn ffugio'r cyfrifon. Mae lefelau benthyca £240 biliwn yn fwy nag yr oedd George Osborne wedi cynllunio, felly mae'n gwerthu trysorau'r teulu. Fel gwasanaeth cyhoeddus, mae'r Post Brenhinol yn sicrhau mynediad cyfartal, prisiau unffurf a darpariaeth gyffredinol. Mae'n darparu'r un gwasanaeth os ydych yn byw yn Newcastle-upon-Tyne neu yng Nghastellnewydd Emlyn. Yr ethos hwnnw o wasanaeth cyhoeddus sydd dan fygythiad. Ar bapur, nid mewn carreg y mae Deddf Gwasanaethau Post 2011 wedi'i hysgrifennu. Ers iddynt gael eu dadreoleiddio yn 2006, mae cystadleuwyr y Post Brenhinol wedi cael eu rhyddhau oddi wrth lawer o'r rheoliadau sy'n ei rwymo, gan gynnwys darpariaeth gyffredinol. Nid oes rhaid i gystadleuaeth breifat y Post Brenhinol gyflawni targedau Ofcom na chyhoeddi ffigurau ar ansawdd ei gwasanaeth. Mae gallu'r sector preifat i ddewis a dethol dosbarthiadau proffidiol iawn wedi ei alluogi i gynnig prisiau is na'r Post Brenhinol, ond yr unig reswm bod darpariaeth gyffredinol yn bosibl yw oherwydd bod y rhannau proffidiol yn sybsideiddio'r gwasanaethau sy'n werthfawr yn gymdeithasol ond yn amhroffidiol.

Arriva Buses Wales's announcement last week cancelling a swathe bus services in mid Wales once again exposes the destructive tension between private profit and public service. The Postal Services Act creates an uneven playing field. If one party has restrictions that the other does not, how does that create competition? It cannot; it is a sop. I ask the Minister to respond to this particular point: many post offices in my region have a fragile existence and rely upon the Royal Mail for the business to survive. The Postal Services Act separates the Post Office's counter network from the Royal Mail, and even though there is a recently signed business agreement between the two, they cannot guarantee that a new private owner, free to do as they choose, will honour that agreement in the long term. So, how is the Welsh Government supporting rural post offices to ensure that they can adapt to the potential marketplace changes?

Mae cyhoeddiad Bysiau Arriva Cymru yr wythnos diwethaf ei fod yn bwriadu cau ystod o wasanaethau bysiau yn y canolbarth yn dangos unwaith eto y tensiwn dinistriol rhwng elw preifat a gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Post yn creu cystadleuaeth anghyfartal. Os oes gan un ochr gyfyngiadau nad oes gan y llall, sut mae hynny'n creu cystadleuaeth? Nid yw'n gwneud hynny; cil-dwrn ydyw. Gofynnaf i'r Gweinidog ymateb i'r pwynt penodol hwn: mae llawer o swyddfeydd post yn fy rhanbarth yn fregus ac yn dibynnu ar y Post Brenhinol i sicrhau dyfodol y busnes. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Post yn gwahanu rhwydwaith cownter Swyddfa'r Post oddi wrth y Post Brenhinol, ac er bod y ddau wedi llofnodi cytundeb busnes yn ddiweddar, ni allant warantu y bydd perchennog preifat newydd, sy'n rhydd i wneud fel y myn, yn anrhydeddu'r cytundeb hwnnw yn yr hirdymor. Felly, sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu swyddfeydd post gwledig er mwyn sicrhau y gallant addasu i'r newidiadau posibl yn y farchnad?

17:13 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

The motion from Plaid Cymru, but without point 4, which would see us creating, at great expense, a separate Welsh postal service, is very much in line with my own thoughts on the privatisation of the Royal Mail. I must stress that this matter is not devolved to Welsh Ministers, but I am always willing to make representations to Westminster now and in future. As Peter Black mentioned, we look forward to an incoming Labour Government that we can make such representations to in order to protect public services and jobs in Wales.

Mae'r cynnig gan Blaid Cymru, ond heb bwynt 4, a fyddai'n arwain at greu gwasanaeth post ar wahân i Gymru, am gost uchel, yn cyd-fynd i raddau helaeth â'm safbwyntiau personol ar breifateiddio'r Post Brenhinol. Rhaid imi bwysleisio nad yw'r mater hwn wedi'i ddatganoli i Weinidogion Cymru, ond rwyf bob amser yn barod i gyflwyno sylwadau i San Steffan nawr ac yn y dyfodol. Fel y soniodd Peter Black, edrychwn ymlaen at gael Llywodraeth Lafur newydd y gallwn wneud sylwadau o'r fath iddi er mwyn diogelu gwasanaethau cyhoeddus a swyddi yng Nghymru.

We also have to consider what we can do to ensure that there is no erosion of the universal service obligation; that is, that postal services in Wales remain at the current level with collections and deliveries six days a week at a single, affordable price.

Rhaid inni hefyd ystyried yr hyn y gallwn ei wneud i sicrhau nad yw'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol yn cael ei gwanhau; hynny yw, bod gwasanaethau post yng Nghymru yn parhau ar y lefel bresennol gyda chasgliadau a dosbarthiadau chwe diwrnod yr wythnos am bris unffurf, fforddiadwy.

I recognise that the Royal Mail is a regulated business and that irrespective of whether it is in public or private hands, an Act of Parliament is necessary before changes can be made to the universal service. However, what we cannot know at the moment is the additional pressures that private owners will put on the regulators and on Government to make changes.

Gwn fod y Post Brenhinol yn fusnes sy'n cael ei reoleiddio a bod rhaid cael Deddf Seneddol cyn y gellir newid y gwasanaeth cyffredinol, pa un a yw o dan berchnogaeth gyhoeddus neu breifat. Fodd bynnag, yr hyn na allwn wybod ar hyn o bryd yw faint o bwysau ychwanegol y bydd perchnogion preifat yn ei roi ar y rheoleiddwyr ac ar y Llywodraeth i wneud newidiadau.

The Royal Mail operates as a business, and as such I acknowledge that it is a business that needs to consider its profits and invest in modernisation when necessary. It is an a changing market—fewer letters are being sent, as has been pointed out by many—but the online shopping boom has seen a significant increase in packets and parcels.

Mae'r Post Brenhinol yn gweithredu fel busnes, ac fel y cyfryw rwy'n cydnabod ei fod yn fusnes y mae angen iddo ystyried ei elw a buddsoddi mewn moderneiddio pan fo angen. Mae'r farchnad yn newid—mae llai o lythyrau yn cael eu hanfon, fel y dywedodd llawer—ond mae'r ffyniant ym maes siopa ar-lein wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn pecynnau a pharseli.

I also recognise that no business can operate with the albatross of a pension deficit around its neck. I therefore understand the need for Royal Mail to be freed from its historic deficit, with this being absorbed by the taxpayer in order to protect the future pensions of Royal Mail's workforce. However, I would much prefer to see a publicly owned business providing a valuable and valued public service benefiting from this investment. Using public money to benefit a privately owned business simply makes this privatisation a bigger giveaway of public assets.

Gwn hefyd na all yr un busnes weithredu o dan felltith diffyg pensiwn. Felly, deallaf fod angen rhyddhau'r Post Brenhinol o'i ddiffyg hanesyddol, gan drosglwyddo'r diffyg hwn i'r trethdalwr er mwyn diogelu pensiynau gweithlu'r Post Brenhinol yn y dyfodol. Fodd bynnag, byddai'n well o lawer gennyf weld busnes sy'n eiddo cyhoeddus ac sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus gwerthfawr yn elwa o'r buddsoddiad hwn. Mae defnyddio arian cyhoeddus er budd busnes sy'n eiddo preifat yn golygu bod mwy fyth o asedau cyhoeddus yn cael eu rhoi i fwrdd o dan y cynllun preifateiddio hwn.

We have seen in the private sector profit being put before people and services, and examples have been given during the debate. What is important to me and what I would like to see is Royal Mail's employees protected as far as possible during the changes ahead and any job losses kept to a minimum. I made this point when I met with Royal Mail on 10 September to discuss the matter of privatisation.

Yn y sector preifat, rydym wedi gweld elw yn cael ei roi cyn pobl a gwasanaethau, a rhoddwyd enghreifftiau yn ystod y ddadl. Yr hyn sy'n bwysig imi a'r hyn yr hoffwn ei weld yw bod gweithwyr y Post Brenhinol yn cael eu diogelu gymaint â phosibl yn ystod y newidiadau sydd i ddod a bod cyn lleied o swyddi â phosibl yn cael eu colli. Gwneuthum y pwynt hwn pan gyfarfûm â'r Post Brenhinol ar 10 Medi i drafod preifateiddio.

As a trade unionist, I share the concerns of the Communication Workers Union, whom I met earlier last month, and the other trade unions over the fate of the Royal Mail workforce in Wales, and this is why I recommend support for amendment 3 tabled by my colleague, the Minister for Local Government and Government Business. There would be no reference to support for the workforce were it not for the Welsh Government's amendment.

Fel undebwr llafur, rhannaf bryderon Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu, y cyfarfûm ag ef yn gynharach y mis diwethaf, a'r undebau llafur eraill ynglŷn â thynged gweithlu'r Post Brenhinol yng Nghymru, a dyna pam yr wyf yn argymell y dylid cefnogi gwelliant 3 a gyflwynwyd gan fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth. Ni fyddai unrhyw gyfeiriad at gymorth i'r gweithlu oni bai am welliant Llywodraeth Cymru.

The Post Office and Royal Mail are considered one and the same by many people in Wales. We use the Post Office to access Royal Mail services. We trust the brand and we all know where our local post office is situated in our communities. I certainly do not want to see this change now or in the future. I am therefore happy to recommend support for point 3 of the Plaid Cymru motion and to recognise the importance of Royal Mail to the post office network.

Mae llawer o bobl yng Nghymru yn credu mai'r un yw Swyddfa'r Post a'r Post Brenhinol. Rydym yn defnyddio Swyddfa'r Post i gael gwasanaethau'r Post Brenhinol. Rydym yn ymddiried yn y brand, a gŵyr pob un ohonom lle mae ein swyddfa bost leol yn ein cymunedau. Yn sicr nid wyf am weld hyn yn newid nawr nac yn y dyfodol. Felly rwy'n hapus i argymell y dylid cefnogi pwynt 3 o gynnig Plaid Cymru a chydnabod pwysigrwydd y Post Brenhinol i'r rhwydwaith swyddfeydd post.

I cannot, however, support amendment 6, which asks us to believe that the privatisation of Royal Mail excludes post offices. This does not recognise the possibility that a privately owned Royal Mail could make changes to the way in which we access its services; for example, if it concentrated on other outlets for the selling of postage stamps. I take the point very much from Joyce Watson about the assurances that we can give about rural post offices. I think that the information that we have already released about the moneys for the post office diversification fund shows very much our commitment to the continuation of viable post offices in all areas in Wales.

Ni allaf, fodd bynnag, gefnogi gwelliant 6, sy'n gofyn inni gredu nad yw'r bwriad i breifateiddio'r Post Brenhinol yn cynnwys swyddfeydd post. Nid yw hyn yn cydnabod y posibilrwydd y gallai Post Brenhinol dan berchnogaeth breifat wneud newidiadau i'r ffordd yr ydym yn defnyddio ei wasanaethau; er enghraifft, pe bai'n canolbwyntio ar leoliadau eraill i werthu stampiau postio. Derbyniaf bwynt Joyce Watson am y sicrwydd y gallwn ei roi am swyddfeydd post gwledig. Credaf fod y wybodaeth yr ydym eisoes wedi'i rhyddhau am yr arian i'r gronfa arallgyfeirio swyddfeydd post yn dangos yn glir ein hymrwymiad i sicrhau parhad swyddfeydd post hyfyw ym mhob ardal yng Nghymru.

Finally, Deputy Presiding Officer, Welsh Ministers do not currently have the powers necessary to establish a universal postal service for Wales. The reality of our current UK wide postal service is that much of the mail generated in Wales and bound for Welsh homes and businesses is sorted in England.

Yn olaf, Ddirprwy Lywydd, ar hyn o bryd nid oes gan Weinidogion Cymru y pwerau angenrheidiol i sefydlu gwasanaeth post cyffredinol i Gymru. Realiti ein gwasanaeth post presennol ledled y DU yw bod llawer o'r post sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru a'i anfon i gartrefi a busnesau yng Nghymru yn cael ei ddidoli yn Lloegr.

As a Government, we have to balance conflicting priorities, and such a policy would not, I suggest, provide value for money for Welsh taxpayers. That is why I recommend support for amendment 9 and that we drop point 4(b) of the original motion, considering the establishment of a Welsh postal service would be prohibitively expensive.

Fel Llywodraeth, rhaid inni gydbwyso blaenoriaethau croes, ac awgrymaf na fyddai polisi o'r fath yn cynnig gwerth am arian i drethdalwyr Cymru. Dyna pam yr wyf yn argymell y dylid cefnogi gwelliant 9 a'n bod yn hepgor pwynt 4(b) o'r cynnig gwreiddiol, o ystyried y byddai sefydlu gwasanaeth post yng Nghymru yn rhy ddrud.

17:18

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Simon Thomas to reply to the debate.

Galwaf ar Simon Thomas i ymateb i'r ddadl.

17:19

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r ddadl heddiw. Nid oedd pob cyfraniad o'r dosbarth cyntaf, serch hynny, rwy'n derbyn eich cyfraniadau.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I would I like to thank everyone who has contributed to today's debate. I do not think that every contribution was first class, but, nonetheless, I accept those contributions.

Yr hyn sydd wedi dod yn glir yn y drafodaeth hon yw'r ieuo sydd wedi digwydd rhwng y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol—mai preifateiddio yw'r ateb i un o'r prif wasanaethau cyhoeddus sydd dal gennym mewn dwylo cyhoeddus. Rwy'n hynod siomedig bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn arbennig yn teimlo bod yn rhaid iddynt gefnogi preifateiddio yn y modd hwn.

What has become apparent during this discussion is the join that has happened between the Tories and the Liberal Democrats, in that privatisation is the only solution for any service that is still in public hands. I am exceptionally disappointed that the Liberal Democrats in particular feel that they have to support privatisation in this way.

Rydym wedi clywed enghreifftiau o systemau dosbarthu post sydd yn nwylo preifat, megis yn Awstria a'r Almaen a pha mor llwyddiannus y maent. Pa mor llwyddiannus ydyn nhw? Mae postio yn yr Almaen yn costio 50% yn fwy na phostio yn y wlad hon yn awr. Soniodd Mark Isherwood bod 95% o ddosbarthu yn digwydd y diwrnod nesaf yn yr Almaen ac yn Awstria. Mae ateb syml i hynny, sef dim ond 93% yw'r trothwy ym Mhrydain ar hyn o bryd—codwch y trothwy i 95%. Fe fedrwch chi wneud hynny y tu fewn i system mewn perchnogaeth gyhoeddus; nid oes rhaid ichi breifateiddio er mwyn cyrraedd targed uwch. Yn sicr, ym maes trenau, nid ydym wedi gweld llwyddiant ar dargedau uwch wedi preifateiddio o gwbl.

We have heard about examples of privatised postal services, such as those in Austria and Germany, and about how successful they have been. How successful are they, really? Using the postal service in Germany costs 50% more than it does in this country at the moment. Mark Isherwood said that 95% of mail is distributed the next day in Austria and Germany. There is a simple solution in Britain, where the threshold stands at 93%, which is to simply raise the threshold to 95%. You can do that within a publicly owned system; you do not have to privatise in order to reach a higher target. Certainly, in terms of trains, we have not seen those higher targets being at all successful following privatisation.

Mae sawl un, yn enwedig o'r ddwy blaid arall, wedi sôn am y ffaith bod preifateiddio ryw ffordd yn amddiffyn y gwasanaeth 'universal'. Nid yw preifateiddio yn gwneud hynny. Rheoleiddio sy'n amddiffyn y gwasanaeth i bawb. Mae rheoleiddio yn bodoli o dan statud nawr a bydd yn bodoli o dan statud boed berchnogaeth gyhoeddus neu berchnogaeth breifat. Mae mwy o bryder o lawer, wrth gwrs, ynglŷn â rhwydwaith y swyddfeydd post. Mae sawl Aelod Plaid Cymru a Llafur wedi codi hyn. Nid oes dwywaith fod bygythiad i swyddfeydd post yn y fan hon. Cytundeb masnachol sydd rhwng y Post Brenhinol a'r swyddfeydd post—nid cytundeb neu ddyletswydd statudol —am 10 mlynedd, a dwy flynedd eisoes wedi mynd.

Many Members, particularly those from the other two parties, have referred to the fact that privatisation, in one way or another, will protect the universal service. Privatisation will not do that; it is regulation that will safeguard the universal service. Regulation happens under statute now, and it will continue to happen under statue whether it is in public ownership or in private hands. There is far greater concern about the post office network. Many Plaid Cymru and Labour Members have raised this issue. There is no doubt that there is a threat to post offices here. The agreement between the Royal Mail and post offices is a commercial one—not a statutory duty or agreement—for 10 years, with two years already lapsed.

Clywsom gan Rhun ap Iorwerth am yr hyn sydd yn digwydd ar stryd fawr Caergybi, ac mae'r un peth yn digwydd ar stryd fawr Caerfyrddin. O un pen o Gymru i'r llall, mae swyddfeydd post sydd wedi bod ar y stryd fawr yn symud i grombil rhyw siop bapurau newydd lle mae'n rhaid i chi fynd o gwmpas y coridorau i gyrraedd desg y swyddfa bost. Mae pobl yn gweld hynny fel israddio eu gwasanaeth cyhoeddus. At hynny, wrth gwrs, yr oeddech chi, ar un adeg, yn gallu mynd i swyddfa bost i godi parsel nad oedd wedi dod i'r drws. Nawr mae'n rhaid i chi yrru i ystâd ddiwydiannol rhywle y tu fas i'r dref i godi eich post. Mae'r gwasanaeth eisoes wedi ei israddio.

We heard from Rhun ap Iorwerth what is happening on Holyhead high street, and the same is true of Carmarthen high street. From one end of Wales to the other, post offices that used to be located on the high street are now to be found in the bowels of a newsagent's shop, where you have to go around the aisles to find the counter. People see that as a downgrading of their public service. On top of that, you could, at one time, go to a post office to collect a parcel that could not be delivered to your door. You now have to drive to some industrial estate in the middle of nowhere to collect your parcels. So, the service has already been downgraded.

Dyna pam mae Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri wedi gwneud datganiad, fel mae sawl un wedi dweud, ac mae gennyf ddatganiad arall gan ei ysgrifennydd cyffredinol, George Thomson, sy'n dweud yn Saesneg:

This is why the National Federation of Subpostmasters issued its statement, as we have heard from several Members, and I have another statement from its general secretary, George Thomson, who says:

'I am extremely disappointed... that the Government is pressing ahead with a plan that will undoubtedly jeopardise the future of thousands of post offices.

Rwy'n siomedig dros ben ... bod y Llywodraeth yn bwrw ymlaen â chynllun a fydd yn ddi-os yn peryglu dyfodol miloedd o swyddfeydd post.

'We simply have not had the promised new Government work that needs to be delivered before the sale of Royal Mail'.

Nid ydym wedi cael y gwaith Llywodraeth newydd a addawyd y mae angen ei wneud cyn gwerthu'r Post Brenhinol.

Dyna yw chwarae'n beryglus gyda gwasanaethau swyddfeydd post ein cefn gwlad. Dyna pam yr ydym mor anhapus bod preifateiddio'r Post Brenhinol yn digwydd.

A dangerous game is being played with our post office services in rural areas. This is why we are so concerned about the privatisation of Royal Mail.

Wrth sôn am welliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol—rhai tebyg i welliannau'r Ceidwadwyr—mae'r rhagrith mwyaf wedi amlygu ei hun yn natganiadau'r Democratiaid Rhyddfrydol heddiw. Soniodd Elin Jones am y ffaith bod Aelod Seneddol Ceredigion wedi pleidleisio o blaid preifateiddio swyddfeydd post, ond nid dyna safbwynt Aelod Seneddol Democratiaid Rhyddfrydol Ceredigion dair blynedd yn ôl pan ddywedodd fod ganddo

Turing to the Liberal Democrats' amendments—in a similar vein to those of the Conservatives—the most apparent hypocrisy has emerged in the statements that they have made today. Elin Jones referred to the fact that the Member of Parliament for Ceredigion voted in favour of the privatisation of post offices, but that was not the view espoused by the Liberal Democrat MP for Ceredigion three years ago, when he said that he had

'a vision of a wholly publicly-owned, integrated Royal Mail Group'

Gweledigaeth o Grŵp Post Brenhinol integredig sy'n gyfan gwbl dan berchnogaeth gyhoeddus

and that he rejected

a'i fod yn gwrthod

'the recommendation...to sell a minority stake in Royal Mail'—

... yr argymhelliad i werthu cyfran leiafrifol yn y Post Brenhinol—

sef cynllun Mandelson bryd hynny—

which was Mandelson's proposal at that time—

'which would risk fracturing one of Britain's greatest public services'.

a allai arwain at chwalu un o wasanaethau cyhoeddus amlycaf Prydain.

Felly, nid dim ond Clegg sy'n gwneud tro pedol mawr ar ei egwyddor, mae'n amlwg, ond Aelod Seneddol y Democratiaid Rhyddfrydol dros Geredigion hefyd.

So, it is clear that this huge u-turn on principle is being taken not just by Clegg, but by the Liberal Democrat MP for Ceredigion.

Soniodd y Democratiaid Rhyddfrydol yn eu gwelliant 4 am y 'liabilities' yn y cynllun pensiwn. Yn rhyfedd iawn, nid oedd sôn am yr asedau a oedd yn y cynllun pensiwn yn eu gwelliant. Mae'r asedau werth £28 biliwn. Mae George Osborne eisoes wedi defnyddio'r asedau hynny yng nghyllideb y llynedd i ostwng y ddyled gyhoeddus—mae eisoes wedi iwso'r rheini. Mae nawr yn mynd i dalu'r £9 biliwn dros 20 i 30 o flynyddoedd. Dyna faint y bwlch rhwng yr asedau a'r ddyled. Wedi dod â'r asedau hynny a'r dyledion i gyd i fod yn rhan o'r llyfrau cyhoeddus, nid oes angen preifateiddio yn awr, fel y dywedodd y Gweinidog, i fod yn deg. Nid oes angen preifateiddio bellach, achos mae'r dyledion a'r asedau nawr yn rhan o'r llyfrau cyhoeddus.

The Liberal Democrats in their amendment 4 mentioned the liabilities within the pension scheme. Strangely enough, there was no talk about the assets in the pension scheme. The assets are worth £28 billion. George Osborne has already used those assets in last year's budget to reduce the public debt—he has already used them. He will now pay off that £9 billion over 20 to 30 years. That is the scale of the gap between the assets and the debt. Having transferred those assets and debts to the public books, there is no need for privatisation, as the Minister said, to be fair to him. There is now no need for privatisation, because the debts and assets are on the public books.

Rydym yn siomedig, mae'n amlwg, nad yw Llywodraeth Cymru yn gallu mynd ymhellach na'r hyn sydd yn ei gwelliannau yn y fan hon. Rydym yn cefnogi, wrth gwrs, y gwelliant ynglŷn â'r undebau llafur, ac fe wnes i'r pwynt yn glir wrth agor y ddadl fod yr undebau llafur wedi gweithio gyda'r Post Brenhinol i foderneiddio'r gwasanaeth fel ei fod yn barod ar gyfer y byd modern ac fel na fyddai angen ei breifateiddio o gwbl. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod datganoli gwasanaethau post yn gam yn rhy bell i Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wastad yn dweud nad oes gan Blaid Cymru ddim syniadau—dyma ni yn cynnig syniad amgen am sut i ddelio â'r Post Brenhinol yng Nghymru, ond mae yn erbyn hynny. Rhwydd hynt i Lywodraeth Cymru fod yn erbyn y syniad hwn, ond beth yw ei syniad hi, felly? Sut mae'n mynd i amddiffyn y Post Brenhinol yn erbyn preifateiddio? Nid oes addewid o wladoli drachefn, felly sut fyddwch chi'n gwneud yr hyn mae Aelodau eich meinciau cefn wedi gofyn ichi ei wneud, sef amddiffyn y gwasanaeth post yn ei gyfanrwydd yng Nghymru drwy wrthod preifateiddio a drwy ddod â chynllun amgen gerbron. Yn achos Maes Awyr Caerdydd—

Clearly, we are disappointed that the Welsh Government cannot go further than what is contained within its amendments today. We support the amendment on the trade unions, of course, and I made the point very clear in my opening remarks that the trade unions have worked with Royal Mail to modernise the service so that it was ready for the contemporary world and so that there would be no need for privatisation. However, it is clear that devolution of responsibility for the postal services is a step too far for the Welsh Government. The Welsh Government always says that Plaid Cymru has no ideas—here we are, proposing an alternative concept as to how to deal with the Royal Mail in Wales and yet the Government is opposed to it. It has every right to oppose this idea, of course, but what is its idea, therefore? How will it protect the Royal Mail against privatisation? There is no pledge of renationalisation, therefore how are you going to do what your backbenchers have asked for, namely to safeguard the entire postal service in Wales by rejecting this privatisation and by bringing an alternative proposal? In the case of Cardiff Airport—

*Jeff Cuthbert a gododd—*

*Jeff Cuthbert rose—*

17:25 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Fe wnaf i orffen y pwynt hwn yn gyntaf. Yn achos Maes Awyr Caerdydd, yr oeddech yn fodlon gwladoli maes awyr cenedlaethol, felly beth am wladoli'r gwasanaeth post cenedlaethol? Fe wnaf i ildio i'r Gweinidog.

I will just finish this point. In the case of Cardiff Airport, you were happy to nationalise the national airport, therefore, why not nationalise the national mail service? I give way to the Minister.

17:25 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for giving way. There is a world of difference between taking into public ownership a single issue like Cardiff Airport and the Royal Mail. I will make it clear that the Royal Mail is not a matter that is devolved to Welsh Government Ministers, so we cannot do so. Really, the challenge for you is that if you are putting forward the notion of a wholly Welsh Royal Mail, where are your costings? What will that cost to the Welsh taxpayer?

Diolch yn fawr am ildio, Mark. Mae byd o wahaniaeth rhwng dwyn endid unigol fel Maes Awyr Caerdydd dan berchnogaeth gyhoeddus a'r Post Brenhinol. Pwysleisiaf nad yw'r Post Brenhinol yn fater sydd wedi'i ddatganoli i Weinidogion Llywodraeth Cymru, felly ni allwn wneud hynny. Mewn gwirionedd, yr her ichi, os ydych yn cyflwyno'r syniad o Bost Brenhinol i Gymru'n unig, yw ble mae eich costau? Beth fydd hynny yn ei gostio i drethdalwyr yng Nghymru?

17:25 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have published our costings and our ideas, Minister, but I have to put it to you that the challenge for you is to say what you are going to do. You are in Government. How are you going to defend the criticisms and the concerns that have been expressed here today about the future of our Royal Mail and post offices? You have to be better than simply complaining and making representations to Westminster. You must have some alternative proposals yourself. [Assembly Members: 'Hear, hear.'] In 10 years' time, we will be looking back at what has happened to the Royal Mail. We will be seeing it sold out to shareholders; we will see people walking away from it as millionaires and it will not be the workers who have had free shares; and we will be seeing it in the ownership of overseas companies. It could be in the ownership of the Chinese army the way that investment is going. We will be here complaining because we will not have a network of post offices, we will not have a universal service provision, we will not have the statutory guarantees. This is the last opportunity that we have to keep the Royal Mail a proper universal service in Wales. Let us take it. [Assembly Members: 'Hear, hear.']

Rydym wedi cyhoeddi ein costau a'n syniadau, Weinidog, ond rhaid imi ddweud mai'r her ichi yw datgan beth yr ydych yn mynd i'w wneud. Chi sy'n llywodraethu. Sut ydych chi'n mynd i amddiffyn y beirniadaethau a'r pryderon a fynegwyd yma heddiw am ddyfodol ein Post Brenhinol a swyddfeydd post? Rhaid ichi wneud mwy na chwyno a chyflwyno sylwadau i San Steffan. Rhaid ichi lunio rhai cynigion amgen eich hun. [Aelodau Cynulliad : `Clywch, clywch.'] Ymhen 10 mlynedd, byddwn yn edrych yn ôl ar yr hyn sydd wedi digwydd i'r Post Brenhinol. Byddwn yn ei weld yn cael ei werthu i gyfranddalwyr; byddwn yn gweld pobl yn cerdded i ffwrdd oddi wrtho fel miliwnyddion ac nid y gweithwyr sydd wedi cael cyfranddaliadau am ddim fydd y rheiny; a byddwn yn ei weld dan berchnogaeth cwmnïau tramor. Gallai fod ym meddiant byddin Tsieina ar sail y ffordd y mae buddsoddiadau'n mynd. Byddwn ni'n cwyno oherwydd ni fydd gennym rwydwaith swyddfeydd post, ni fydd gennym ddarpariaeth gwasanaeth cyffredinol, ni fydd gennym y gwarantau statudol. Dyma'r cyfle olaf sydd gennym i gadw'r Post Brenhinol yn wasanaeth cyffredinol gwirioneddol yng Nghymru. Gadewch i ni fanteisio arno. [ Aelodau Cynulliad : `Clywch, clywch.']

17:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? As there are objections, I defer all voting until voting time. It has been agreed that voting time will take place before the short debates. Unless there are three Members who wish for the bell to be rung, I will proceed with the votes.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gan fod gwrthwynebiadau, gohiriaf yr holl bleidleisio tan y cyfnod pleidleisio. Cytunwyd na fydd y cyfnod pleidleisio yn digwydd cyn y dadleuon byr. Oni bai bod tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu, byddaf yn bwrw ymlaen â'r pleidleisiau.

## Cyfnod Pleidleisio

## Voting Time

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5323

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 40, Yn erbyn 14, Ymatal 0.*

Result of the vote on motion NDM5323

*Motion agreed: For 40, Against 14, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5324

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 9, Yn erbyn 45, Ymatal 0.*

Result of the vote on motion NDM5324

*Motion not agreed: For 9, Against 45, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5324

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 18, Yn erbyn 36, Ymatal 0.*

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5324

*Amendment not agreed: For 18, Against 36, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5324

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 18, Yn erbyn 36, Ymatal 0.*

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5324

*Amendment not agreed: For 18, Against 36, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5324

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 36, Yn erbyn 5, Ymatal 13.*

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5324

*Amendment agreed: For 36, Against 5, Abstain 13.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5324

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 45, Yn erbyn 9, Ymatal 0.*

Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5324

*Amendment agreed: For 45, Against 9, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5324

Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5324

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5324.

Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5324.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 45, Yn erbyn 9, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 45, Against 9, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnig NDM5324.

Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5324.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 18, Yn erbyn 36, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 18, Against 36, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i gynnig NDM5324.

Result of the vote on amendment 7 to motion NDM5324.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 27, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 8 i gynnig NDM5324.

Result of the vote on amendment 8 to motion NDM5324.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 17, Yn erbyn 36, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 17, Against 36, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 9 i gynnig NDM5324.

Result of the vote on amendment 9 to motion NDM5324.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 45, Yn erbyn 8, Ymatal 1.*

*Amendment agreed: For 45, Against 8, Abstain 1.*

*Cafodd gwelliant 10 ei ddad-dethol.*

*Amendment 10 deselected.*

Senedd.tv
Fideo Video

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn condemnio bwriad Llywodraeth y DU i breifateiddio'r Post Brenhinol;

2. Yn rhannu pryderon yr undebau llafur ynghylch y bygythiad posibl i weithlu'r Post Brenhinol yng Nghymru;

3. Yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y DU yn trosglwyddo rhwymedigaethau hanesyddol o oddeutu £37.5 biliwn o Gynllun Pensiwn y Post Brenhinol i Gynllun PensiwnStatudol newydd y Post Brenhinol;

4. Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i wasanaeth post cyffredinol, chwe diwrnod yr wythnos, a ddiogelir gan y gyfraith yn Neddf Gwasanaethau Post 2011;

5. Yn nodi pwysigrwydd y Post Brenhinol i Rwydwaith Swyddfa'r Post;

6. Yn galw ar LywodraethCymru i:

a) cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ar bwysigrwydd gwasanaethau post sy'n atebol i'r cyhoedd i economi Cymru ac i gymunedau Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Condemns the UK Government's intention to privatise Royal Mail;

2. Shares the concern of the trade unions over the potential threat to the Royal Mail workforce in Wales;

3. Welcomes the UK Government transfer of the historic liabilities of around £37.5 billion from the Royal Mail Pension Plan to the new Royal Mail Statutory Pension Scheme;

4. Welcomes the UK Government commitment to a universal six day a week postal service as protected by law in the Postal Services Act 2011;

5. Notes the importance of Royal Mail to the Post Office network;

6. Calls on the Welsh Government to:

a) make representations to the UK Government on the importance of publicly accountable postal services to the Welsh economy and to Welsh communities.